# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 19/05/2015

Cynnwys Contents

Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Tai Cymdeithasol
Urgent Question: Social Housing

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Llysgenhadon Cyllid yr UE
3. Statement: EU Funding Ambassadors

4. Datganiad: Y Strategaeth Dŵr
4. Statement: The Water Strategy

5. Datganiad: Deddfwriaeth Digartrefedd
5. Statement: Homelessness Legislation

6. Datganiad: Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen—Adroddiad Terfynol
6. Statement: Evaluating the Foundation Phase—Final Report

Datganiad y Gweinidog ynghylch Cydsyniad Ei Mawrhydi y Frenhines a Dug Cernyw
Minister's Statement regarding Her Majesty the Queen's and the Duke of Cornwall's Consent

7. Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Cynllunio (Cymru)
7. Stage 4 Debate on the Planning (Wales) Bill

8. Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)
8. Debate on the General Principles of the Local Government (Wales) Bill

9. Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)
9. Debate on the Financial Resolution of the Local Government (Wales) Bill

10. Cyfnod Pleidleisio
10. Voting Time

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I would like to welcome a new Member this afternoon, Altaf Hussain, who is the new Conservative Member for the South Wales West region. We are very pleased to have you here, and look forward to your contributions both here in the Siambr and beyond. I'd like to invite you to say a few words, if you choose to.

Hoffwn groesawu Aelod newydd y prynhawn yma, Altaf Hussain, sef yr Aelod Ceidwadol newydd dros ranbarth Gorllewin De Cymru. Rydym ni'n falch iawn o'ch cael chi yma, ac yn edrych ymlaen at eich cyfraniadau yma yn y Siambr a thu hwnt. Hoffwn eich gwahodd i ddweud gair, os ydych chi'n dymuno.

13:30 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. I would like to thank you all for this generous welcome. I'm overwhelmed and honoured to be among you all. I would also like to thank the voters of South Wales West, and to assure them that I will always put their interest first, in everything I do as an Assembly Member.

Diolch yn fawr iawn. Hoffwn ddiolch i bob un ohonoch am y croeso hael hwn. Rwyf wrth fy modd ac mae'n anrhydedd bod yn eich plith chi i gyd. Hoffwn ddiolch hefyd i bleidleiswyr Gorllewin De Cymru, a'u sicrhau y byddaf bob amser yn rhoi eu buddiannau nhw yn gyntaf, ym mhob peth y byddaf yn ei wneud fel Aelod Cynulliad.

May I pay tribute to Byron Davies, now Member of Parliament for Gower? I worked with him for many years, and I'll seek to continue his great work in the months to come. I very much look forward to working with our Welsh Conservatives team, and, in particular, the great leadership of Andrew R.T. Davies. I hope that, with my background, as a consultant orthopaedic surgeon, I will campaign for a Welsh NHS that is there for us all, wherever, whenever we need it.

A gaf i dalu teyrnged i Byron Davies, sydd bellach yn Aelod Seneddol dros Gŵyr? Gweithiais gydag ef am flynyddoedd lawer, a byddaf yn ceisio parhau â'i waith ardderchog yn y misoedd i ddod. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda'n tîm Ceidwadwyr Cymru, ac, yn benodol, arweinyddiaeth wych Andrew R.T. Davies. Rwy'n gobeithio, oherwydd fy nghefndir, fel llawfeddyg orthopedig ymgynghorol, y byddaf yn ymgyrchu am GIG yng Nghymru sydd yno i bob un ohonom ni, lle bynnag, a phryd bynnag y byddwn ei angen.

Thank you very much. [Applause.]

Diolch yn fawr iawn. [Cymeradwyaeth.]

13:31

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch yn fawr.

13:31

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to the agenda, and the first item this afternoon is questions to the First Minister, and question 1 is from Bethan Jenkins.

Symudwn at yr agenda nawr, a chwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma, a daw cwestiwn 1 gan Bethan Jenkins.

### Treialu Cau Cyffordd 41 yr M4

### The Trial Closure of M4 Junction 41

13:32

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i dreialu cau cyffordd 41 ar yr M4? OAQ(4)2278(FM)*

*1. Will the First Minister provide an update on the M4 junction 41 trial closure? OAQ(4)2278(FM)*

13:32

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. An announcement about the outcome of the trial will be made later this month.

Gwnaf. Bydd cyhoeddiad am ganlyniad y prawf yn cael ei wneud yn ddiweddarach y mis hwn.

13:32

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer. Next week, we're on recess, and it would be very helpful if we could have a reply this week while we are scrutinising you as First Minister, here in the National Assembly, because what we wouldn't want to have is an announcement where we cannot scrutinise you as a Government on this trial closure. Campaigners have been asking the Welsh Government for information on the alternatives that were looked into, such as hard shoulder running, and we haven't been able to access the research, the funding, or the information on that. As an open and accountable Government, which you pride yourselves on, can you please give us that information?

Diolch i chi am eich ateb. Yr wythnos nesaf, rydym ni ar doriad, a byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallem gael ateb yr wythnos hon wrth i ni graffu arnoch chi fel Prif Weinidog, yma yn y Cynulliad Cenedlaethol, oherwydd yr hyn na fyddem ni eisiau ei gael yw cyhoeddiad lle na allwn graffu arnoch chi fel Llywodraeth ar y prawf cau hwn. Mae ymgyrchwyr wedi bod yn gofyn i Lywodraeth Cymru am wybodaeth am y dewisiadau eraill a ystyriwyd, fel rhedeg llain galed, ac nid ydym ni wedi gallu cael mynediad at yr ymchwil, y cyllid, na'r wybodaeth am hynny. Fel Llywodraeth agored ac atebol, yr ydych chi'n ymfalchïo ynddi, a allwch chi roi'r wybodaeth honno i ni os gwelwch yn dda?

13:32

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course. As I said, the outcome of the trial will be known this month; the decision will be a separate announcement. So, there's no question of an announcement being made with regard to the decision with Members not having the opportunity to scrutinise that announcement.

Wrth gwrs. Fel y dywedais, bydd canlyniad y prawf yn hysbys y mis hwn; bydd y penderfyniad yn gyhoeddiad ar wahân. Felly, nid oes cwestiwn o gyhoeddiad yn cael ei wneud o ran y penderfyniad heb i'r Aelodau gael y cyfle i graffu ar y cyhoeddiad hwnnw.

13:33 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, as you know, I've been raising this issue ever since the decision to actually introduce the trial was made, last year. Now, in relation to that, since the trial has started, I have had information that ambulances have actually been in a situation where they've had blue lights flashing and they've approached the junction when it's been closed, and they've had to reverse and then find the alternative route, therefore taking more time. What discussions has the Welsh Government had with the emergency services since the trial has actually commenced to see the implications upon emergency services and what they do? I've had personal experience of the situation where an ambulance needed to be there critically, and this junction, with the problems of the traffic on the roads around it, could have actually delayed that situation.

Brif Weinidog, fel y gwyddoch, rwyf wedi bod yn codi'r mater hwn byth ers i'r penderfyniad gael ei wneud i gyflwyno'r prawf, y llynedd. Nawr, ynglŷn â hynny, gan fod y prawf wedi cychwyn, rwyf wedi cael gwybodaeth bod ambiwlansys wedi bod mewn sefyllfa lle mae eu goleuadau glas wedi bod yn fflachio a'u bod wedi cyrraedd y gyffordd pan oedd ar gau, ac y bu'n rhaid iddyn nhw facio ac yna dod o hyd i'r llwybr arall, ac felly cymryd mwy o amser. Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael gyda'r gwasanaethau brys ers y cychwyn y prawf i weld y goblygiadau i wasanaethau brys a'r hyn maen nhw'n ei wneud? Rwyf wedi cael profiad personol o'r sefyllfa lle'r oedd angen taer i ambiwlans fod yno, a gallai'r gyffordd hon, gyda phroblemau'r traffig ar y ffyrdd o'i chwmpas, fod wirioneddol wedi oedi'r sefyllfa honno.

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I know that officials held meetings prior to the trial with the police, to seek their views on the trial closure. The ambulance and fire services attended one of the meetings, as non-statutory consultees, and I can say, of course, that the emergency services will have the opportunity to express any issues or comments on any proposals for permanent closure, should that be the decision—and that's completely without prejudice, may I add—as part of any associated public consultation process. So, without prejudice to what any decision might be, there will, of course, be an opportunity for the emergency services to make their views known.

Gwn fod swyddogion wedi cynnal cyfarfodydd cyn y prawf gyda'r heddlu, i ofyn am eu barn ar y prawf cau. Daeth y gwasanaethau ambiwlans a thân i un o'r cyfarfodydd, fel ymgynghoreion anstatudol, a gallaf ddweud, wrth gwrs, y bydd cyfle i'r gwasanaethau brys fynegi unrhyw broblemau neu sylwadau ar unrhyw gynigion ar gyfer cau'n barhaol, os mai dyna fydd y penderfyniad—ac mae hynny'n gyfan gwbl heb ragfarn, a gaf i ychwanegu—yn rhan o unrhyw broses ymgynghori cyhoeddus gysylltiedig. Felly, heb ragfarnu'r hyn y gallai unrhyw benderfyniad fod, bydd cyfle, wrth gwrs, i'r gwasanaethau brys i fynegi eu safbwyntiau.

13:34 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, rŷch chi'n gwybod, wrth gwrs, fod trigolion lleol yn pryderu am y penderfyniad ynglŷn â chyffordd 41. Nawr, maen nhw'n gweld cyflenwad trydan parhaol yn cael ei osod yn agos at yr arwyddion 'caead', heb air o gwbl o esboniad am pam—gair 'without prejudice', hyd yn oed. A allwch chi drin fy etholwyr, plîs, â thipyn bach o barch, a chyhoeddi canfyddiadau'r treial cau ar unwaith?

First Minister, you will know, of course, that local residents are very concerned about the decision relating to junction 41. Now, they see a permanent electricity supply being installed close to the closure signs, without a single word of explanation as to why—not even a word without prejudice. Could you treat my constituents with a little respect, please, and publish the findings of the closure trial immediately?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf wedi ei gwneud yn hollol glir y bydd yna ddatganiad ynglŷn â chanlyniadau'r prosiect, y treial ei hunan, ac wedi hynny, bydd yna ddatganiad ynglŷn â pha benderfyniad sydd wedi cael ei wneud wrth ystyried y dystiolaeth. Mae hwnnw'n hollol glir, byddwn i'n gobeithio.

I have made it absolutely clear that there will be a statement on the outcomes of the project, that is, the trial itself, and afterwards, there will be a statement about the decision that has been made in consideration of all the evidence. That is absolutely clear, I would hope.

13:35 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, the distinction you've just made between the outcome of the trial and the decision process is a new factor, I think, in terms of answers we've had to questions in this Chamber on this particular issue. Given that you've now said that the outcome of the trial will be published before the end of May, can you now give us a timetable for when the decision will be made? What process will be undertaken prior to that decision being made, and what consultation on that decision will be taken before we actually come to that final conclusion?

Brif Weinidog, mae'r gwahaniaeth yr ydych chi newydd ei nodi rhwng canlyniad y prawf a'r broses benderfynu yn ffactor newydd, rwy'n credu, o ran yr atebion yr ydym ni wedi eu cael i gwestiynau yn y Siambr hon ar y mater penodol hwn. O gofio eich bod wedi dweud erbyn hyn y bydd canlyniad y prawf yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd mis Mai, a allwch chi roi amserlen i ni nawr ar gyfer pryd y bydd y penderfyniad yn cael ei wneud? Pa broses fydd yn cael ei dilyn cyn gwneud y penderfyniad hwnnw, a pha ymgynghori fydd yn cael ei wneud ar y penderfyniad hwnnw cyn i ni ddod i'r casgliad terfynol hwnnw mewn gwirionedd?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, it's important that Members are aware of what the outcome of the trial is. Then, of course, it will be for the Minister to consider the evidence produced as a result of that trial. I can say, of course, that if there is a decision—and it is an 'if' at this stage—to move ahead with a permanent closure, should that be the decision, then there will be a public consultation process if that is the case.

Yn gyntaf oll, mae'n bwysig bod yr Aelodau'n ymwybodol o ganlyniad y prawf. Yna, wrth gwrs, mater i'r Gweinidog fydd ystyried y dystiolaeth a ddaw i'r amlwg o ganlyniad i'r prawf hwnnw. Gallaf ddweud, wrth gwrs, os oes penderfyniad—ac 'os' yw hi ar hyn o bryd—i fwrw ymlaen â chau'n barhaol, os mai dyna fydd y penderfyniad, yna bydd proses ymgynghori cyhoeddus os mai dyna fydd yn digwydd.

### Gordewdra

### Obesity

13:36 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â lefelau gordewdra yng Nghymru? OAQ(4)2283(FM)*

*2. What is the Welsh Government doing to tackle obesity levels in Wales? OAQ(4)2283(FM)*

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have a commitment to tackle obesity in Wales. We've introduced legislative, policy and delivery initiatives that will bring about the kind of approach that we would want to see to dealing with this hugely important issue. Ultimately, people must be encouraged and supported to change their lifestyles, and that is the way to tackle an issue that is an issue in much of the developed world.

Mae gennym ymrwymiad i fynd i'r afael â gordewdra yng Nghymru. Rydym ni wedi cyflwyno deddfwriaeth, polisi a mentrau cyflawni a fydd yn esgor ar y math o ddull y byddem ni eisiau ei weld i ymdrin â'r mater hynod bwysig hwn. Yn y pen draw, mae'n rhaid annog a chefnogi pobl i newid eu ffordd o fyw, a dyna'r ffordd i fynd i'r afael â mater sy'n broblem mewn llawer o rannau o'r byd datblygedig.

13:36 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. I look forward to the updates as well from Welsh local health boards on how they're delivering against the obesity pathway and hope to see clear progress on last year. We know that tackling obesity is not just about treating the symptoms, but also the causes, and it's eight years since the Foresight report termed modern Britain an 'obesogenic environment'. I know that the Children, Young People and Education Committee touched on this in their recent inquiry, but how is the Welsh Government making sure that the holistic cultural changes that are needed to tackle what is rightly termed an 'epidemic' are integrated across all areas of Government?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Edrychaf ymlaen at y diweddariadau hefyd gan fyrddau iechyd lleol Cymru ynghylch sut maen nhw'n cyflawni yn erbyn y llwybr gordewdra a gobeithiaf weld cynnydd eglur ers y llynedd. Rydym ni'n gwybod nad yw mynd i'r afael â gordewdra yn golygu trin y symptomau'n unig, ond hefyd yr achosion, ac mae wyth mlynedd ers i adroddiad Foresight alw'r Brydain fodern yn 'amgylchedd sy'n achosi gordewdra'. Gwn fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cyffwrdd ar hyn yn ei ymchwiliad diweddar, ond sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y newidiadau diwylliannol cyfannol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r hyn a elwir, a hynny'n gywir, yn 'epidemig', yn cael eu hintegreiddio ar draws holl feysydd Llywodraeth?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

By taking a co-ordinated approach. I can give the Member four examples of where that is happening. Firstly, creating the right environment to ensure that healthier choices are easier and that individuals are supported appropriately. We've set improved health as one of the series of seven national wellbeing goals in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and we have introduced, or are planning to introduce, targeted legislation, such as the Active Travel (Wales) Act 2013, and the public health Bill. We're also sponsoring campaigns aimed at supporting behaviour change, such as Change for Life; we're making sure that all children have access to healthy, nutritional food at schools, and we're working with our partners to develop an all-Wales physical activity plan.

Trwy fabwysiadu dull cydgysylltiedig. Gallaf roi pedair enghraifft i'r Aelod o ble mae hynny'n digwydd. Yn gyntaf, creu'r amgylchedd iawn i sicrhau bod dewisiadau iachach yn haws a bod unigolion yn cael eu cefnogi'n briodol. Rydym ni wedi gosod gwell iechyd fel un o'r gyfres o saith nod lles cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac rydym ni wedi cyflwyno, neu'n bwriadu cyflwyno, deddfwriaeth wedi'i thargedu, fel Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, a Bil iechyd y cyhoedd. Rydym ni hefyd yn noddi ymgyrchoedd sydd â'r nod o gefnogi newid ymddygiad, fel Newid am Oes; rydym ni'n gwneud yn siŵr bod gan bob plentyn fynediad at fwyd iach, maethlon mewn ysgolion, ac rydym ni'n gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu cynllun gweithgarwch corfforol Cymru gyfan.

13:38 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, there are many reasons why people have unhealthy relationships with food, and some of those reasons are because of mental health problems. There are young people in my own constituency who are currently waiting 20 weeks and longer for clinical assessments from the child and adolescent mental health service in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board. What action is your Government taking to reduce those waiting times so that people can have access to the treatment and support that they need?

Brif Weinidog, ceir llawer o resymau pam mae gan bobl berthynas afiach â bwyd, ac mae rhai o'r rhesymau hynny oherwydd problemau iechyd meddwl. Ceir pobl ifanc yn fy etholaeth i sy'n aros 20 wythnos a hwy ar hyn o bryd am asesiadau clinigol gan y gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i leihau'r amseroedd aros hynny fel y gall pobl gael mynediad at y driniaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Extra resources are being targeted towards mental health. We know that this is an important issue, and we know that it is an issue that will affect many people to different degrees at different times in their lives. That is why the health Minister is looking at increasing the resources available for those who are in need of mental health services, and CAMHS are an important part of that.

Mae adnoddau ychwanegol yn cael eu targedu at iechyd meddwl. Gwyddom fod hwn yn fater pwysig, ac rydym ni'n gwybod ei fod yn fater a fydd yn effeithio ar lawer o bobl i wahanol raddau ar wahanol adegau yn eu bywydau. Dyna pam mae'r Gweinidog iechyd yn ystyried cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i'r rhai sydd angen gwasanaethau iechyd meddwl, ac mae CAMHS yn rhan bwysig o hynny.

13:39 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, mae nifer fawr o arbenigwyr gordewdra yn dweud bod angen lleihau faint o siwgr sydd yn neiet y boblogaeth. Mae Plaid Cymru yn credu y dylai Llywodraeth nesaf Cymru edrych i gyflwyno treth ar ddiodydd melys. Mae'ch cefnogaeth chi i dreth pop o'r fath wedi bod yn llugoer hyd yn hyn. Gyda'r ffaith bod gordewdra, ymysg ein pobl ifanc yn enwedig, ar gynnydd, a ydych chi'n credu ei bod hi'n amser i chi ailfeddwl eich safbwynt ar dreth diodydd melys?

First Minister, a large number of obesity experts say that we need to reduce the amount of sugar in the population's diet. Plaid Cymru believes that the next Welsh Government should look to introduce a tax on sugary drinks. Your support for such a tax on pop has been lukewarm to date. Given the fact that obesity, among our young people particularly, is on the rise, do you think it's now time for you to rethink your stance on a tax on sugary drinks?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Ynglŷn â'r dreth ei hunan, mae'n syniad diddorol. Y broblem i fi oedd defnyddio'r arian i dalu am fwy o ddoctoriaid. Os mai'r nod yw sicrhau bod lleihad yn y nifer sydd yn yfed pop yn y modd hwn, felly byddai lleihad yn faint o arian sydd ar gael i dalu am y doctoriaid. Beth sy'n bwysig dros ben yw ein bod ni'n sicrhau bod hwn yn rhywbeth sy'n cael ei daclo dros y Deyrnas Unedig, achos mae'n rhaid i ni wedyn sicrhau nad yw pobl yn prynu pop yn Lloegr os oes yna ryw fath o dreth yng Nghymru. Mae'n dibynnu beth yw lefel y dreth, wrth gwrs, ac mae'n bwysig dros ben ein bod ni'n cadw i addysgu pobl ynglŷn a'r problemau iechyd sy'n gallu codi o achos gormod o siwgr a gormod o halen. So, mae'r dreth yn ddiddorol fel syniad ond nid yw'n ddigonol ar ben ei hunan.

As regards the tax itself, it's an interesting idea. The problem for me was in using the money to pay for more doctors. If the aim is to secure a reduction in the number of people drinking pop in this way, there would be a reduction in the amount of income generated to pay for these doctors. What is extremely important is that we ensure that this is something that is tackled throughout the United Kingdom, because we must then ensure that people do not just go and buy pop in England as there's a tax on it in Wales. It depends on the level of the tax, of course, and it's important that we continue to educate people about the health problems that can arise from excessive sugar and salt consumption. So, the tax is an interesting idea but is not sufficient on its own.

13:40 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Looking more broadly than just a tax on pop, surely the problem is much wider than that, with the obesogenic food manufacturers, who load their products with salt and sugar, as well as fat. Would you consider a tax tackling all three of those issues and then using the money to subsidise fruit and vegetables, because that is what has been shown to save far more lives than there are people killed on the road?

Gan edrych yn ehangach na dim ond treth ar bop, does bosib nad yw'r broblem yn llawer ehangach na hynny, gyda'r cynhyrchwyr bwyd sy'n achosi gordewdra, ac yn llwytho eu cynhyrchion gyda halen a siwgr, yn ogystal â braster. A wnewch chi ystyried treth sy'n mynd i'r afael â phob un o'r tri mater hynny, ac yna defnyddio'r arian i roi cymhorthdal i ffrwythau a llysiau, oherwydd dyna y dangoswyd sy'n achub llawer mwy o fywydau na nifer y bobl sy'n cael eu lladd ar y ffyrdd?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I appreciate the Member's thoughts on this. I think there are always difficulties in hypothecating a tax in this way, because if a 'sin tax' is to be used, as they're called, to reduce consumption of a harmful product—and tobacco is one area where that's happened over the years—then the aim is to reduce the number of people consuming that product and, therefore, to reduce the tax take on that product. So, we must be careful not to link the tax take issue with hypothecating it to pay for a particular issue such as subsidising another product or, indeed, as Plaid Cymru would have it, more doctors. Inevitably, if you're trying to ensure that people consume less of something, then your tax take will drop. So, I take the point that it's important that we use every method imaginable to reduce people's consumption of harmful products. One way is through penalising people. That much is true for the tax system, but it is important as well, of course, to work together to ensure that people make the right choices in terms of their lifestyle.

Rwy'n gwerthfawrogi barn yr Aelod ar hyn. Rwy'n meddwl bod anawsterau bob amser yn pridiannu treth fel hyn, oherwydd os yw 'treth pechod' am gael ei defnyddio, fel y'i gelwir, i leihau'r defnydd o gynnyrch niweidiol—ac mae tybaco'n un maes lle mae hynny wedi digwydd dros y blynyddoedd—yna'r nod yw lleihau nifer y bobl sy'n defnyddio'r cynnyrch hwnnw ac, felly, i leihau'r enillion treth ar y cynnyrch hwnnw. Felly, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus i beidio â chysylltu'r mater o enillion treth gyda phridiannu i dalu am fater penodol fel rhoi cymhorthdal i gynnyrch arall neu, yn wir, fel y byddai Plaid Cymru yn ei wneud, mwy o feddygon. Yn anochel, os ydych chi'n ceisio sicrhau bod pobl yn defnyddio llai o rywbeth, yna bydd eich enillion treth yn gostwng. Felly, rwy'n derbyn y pwynt ei bod yn bwysig ein bod yn defnyddio pob dull posibl i leihau defnydd pobl o gynhyrchion niweidiol. Un ffordd yw trwy gosbi pobl. Mae cymaint â hynny'n wir o ran y system dreth, ond mae'n bwysig hefyd, wrth gwrs, gweithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau bod pobl yn gwneud y dewisiadau iawn o ran eu ffordd o fyw.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon, we have the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:42 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. First Minister, today the Police Federation of England and Wales have called for the drink-drive limit across England and Wales to be lowered in line with other European countries and Scotland. What is your view?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, heddiw mae Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr wedi galw i'r terfyn yfed a gyrru ar draws Cymru a Lloegr gael ei ostwng yn unol â gwledydd Ewropeaidd eraill a'r Alban. Beth yw eich barn chi?

13:42 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I agree with that. I think the current limit is too high. I was in Scotland in February and, discussing the issue with people there, they accepted that it was a good idea. We see, of course, from the figures that the number of prosecutions for drink driving in Scotland has dropped.

Rwy'n cytuno â hynny. Rwy'n meddwl bod y terfyn ar hyn o bryd yn rhy uchel. Roeddwn i yn yr Alban ym mis Chwefror ac, wrth drafod y mater gyda phobl yno, roedden nhw'n derbyn ei fod yn syniad da. Rydym ni'n gweld, wrth gwrs, o'r ffigurau bod nifer yr erlyniadau am yfed a gyrru yn yr Alban wedi gostwng.

13:42 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, First Minister. The most recent figures available show that, in 2012, there were 80 people killed or seriously injured in Wales in crashes related to drink driving. We have about the most lax drink driving limit in the whole of Europe. Northern Ireland is considering dropping that limit, and, as you quite rightly said, since the limit was dropped in Scotland, prosecutions for drink driving have dropped by a third since December. Would you agree with me that lowering the drink drive limit here in Wales has the potential to save lives?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos, yn 2012, bod 80 o bobl wedi eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yng Nghymru mewn damweiniau'n ymwneud ag yfed a gyrru. Ni sydd â'r terfyn yfed a gyrru mwyaf llac yn Ewrop gyfan fwy neu lai. Mae Gogledd Iwerddon yn ystyried gostwng y terfyn hwnnw, ac, fel y dywedasoch yn gwbl gywir, ers gostwng y terfyn yn yr Alban, mae erlyniadau am yfed a gyrru wedi gostwng o draean ers mis Rhagfyr. A fyddech chi'n cytuno â mi ei bod yn bosibl y gallai gostwng y terfyn yfed a gyrru yma yng Nghymru achub bywydau?

13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, I would. I think that there are a number of ways in which we can continue to improve those figures. Firstly, many people assume that if they watch what they drink in the evening then that's fine, but, of course, we know a lot of people get breathalysed the following day, where quite often they've overindulged the evening before, and they're still over the limit the following morning. There's still work to be done, I think, to inform people of the dangers of doing that, and that a night's sleep is not enough to rid the body of alcohol to a level where they would be under the drink-drive limit. I think it's important to continue to press that message, and reducing the level further is, of course, one way of doing that.

Byddwn, mi fyddwn. Rwy'n credu bod nifer o ffyrdd y gallwn ni barhau i wella'r ffigurau hynny. Yn gyntaf, mae llawer o bobl yn tybio os byddant yn bod yn ofalus o faint maen nhw'n ei yfed yn y nos, yna mae hynny'n iawn, ond, wrth gwrs, rydym ni'n gwybod y profir anadl llawer o bobl y diwrnod canlynol, pan yn aml iawn maen nhw wedi ei gorwneud hi'r noson cynt ac yn dal i fod yn uwch na'r terfyn y bore canlynol. Mae gwaith i'w wneud o hyd, rwy'n meddwl, i hysbysu pobl am beryglon gwneud hynny, ac nad yw noson o gwsg yn ddigon i gael gwared ar alcohol o'r corff i lefel lle bydden nhw o dan y terfyn yfed a gyrru. Credaf ei bod yn bwysig parhau i bwyso'r neges honno, ac mae gostwng y lefel ymhellach, wrth gwrs, yn un ffordd o wneud hynny.

13:43 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, last year, the Silk commission recommended that a range of road safety measures be devolved to Wales, including the drink-drive limit and speed limits. It seems to me that there is potential for speed limits to be devolved to Wales, but not drink driving. Would you agree to put pressure on the UK Government to lower the drink-drive limit across England and Wales, and if they're not prepared to do so to allow for the devolution of drink-drive limits so that this legislature could have its say?

Brif Weinidog, y llynedd, argymhellodd comisiwn Silk y dylid datganoli ystod o fesurau diogelwch ar y ffyrdd i Gymru, gan gynnwys y terfyn yfed a gyrru a therfynau cyflymder. Mae'n ymddangos i mi bod potensial i derfynau cyflymder gael eu datganoli i Gymru, ond nid yfed a gyrru. A wnewch chi gytuno i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i ostwng y terfyn yfed a gyrru ledled Cymru a Lloegr, ac os nad ydynt yn barod i wneud hynny, i ganiatáu i'r terfynau yfed a gyrru gael eu datganoli fel y gallai'r ddeddfwrfa hon leisio ei barn?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. I think this is an issue that should be devolved. I think the issue of speed limits should be devolved. I think there are issues in terms of road signs, which are going to be devolved to Scotland, and Wales, with its bilingual road signs, is a prime candidate for seeing how we can design road signs better. So, I would agree with her. I think it's important that that element of devolution is offered to Wales. I think we could, indeed, reduce the drink-drive limit in Wales, and I suspect there'd be a majority in this Chamber to do just that. If, however, the UK Government refuse to devolve that, then yes, of course, I would be urging the UK Government, as it legislates for England and Wales, to reduce the drink-drive limit.

Gwnaf. Rwy'n credu bod hwn yn fater y dylid ei ddatganoli. Rwy'n credu y dylai'r mater o derfynau cyflymder gael ei ddatganoli. Rwy'n meddwl bod problemau o ran arwyddion ffyrdd, sydd yn mynd i gael eu datganoli i'r Alban, ac mae Cymru, gyda'i harwyddion ffyrdd dwyieithog, yn gyfle gwych i weld sut gallwn ni ddylunio arwyddion ffyrdd yn well. Felly, byddwn yn cytuno â hi. Rwy'n credu ei bod yn bwysig y cynigir yr elfen honno o ddatganoli i Gymru. Rwy'n meddwl y gallem ni, yn wir, ostwng y terfyn yfed a gyrru yng Nghymru, ac rwy'n amau y byddai mwyafrif yn y Siambr hon i wneud yn union hynny. Fodd bynnag, pe byddai Llywodraeth y DU yn gwrthod datganoli hynny, yna byddwn, wrth gwrs, y byddwn i'n annog Llywodraeth y DU, gan ei bod yn deddfu ar gyfer Cymru a Lloegr, i ostwng y terfyn yfed a gyrru.

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, I'd like to ask you about the role of advisers within the Welsh Government. On 23 February, Mr David Goldstone wrote to the management of Ideoba and senior Welsh Government officials confirming that he had advised the economy Minister to withdraw an agreed offer for financial support to their business. Last week, in a written answer, you confirmed that Mr Goldstone was contracted to give advice to the Welsh Government on property-related matters only. First Minister, would you like to explain how a property consultant came to be involved in the detail of this particular application?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, hoffwn ofyn i chi am swyddogaeth cynghorwyr yn Llywodraeth Cymru. Ar 23 Chwefror, ysgrifennodd Mr David Goldstone at reolwyr Ideoba ac uwch swyddogion Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei fod wedi cynghori Gweinidog yr economi i dynnu cynnig y cytunwyd arno am gymorth ariannol i'w busnes yn ôl. Yr wythnos diwethaf, mewn ateb ysgrifenedig, cadarnhawyd gennych chi fod Mr Goldstone wedi ei gontractio i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud ag eiddo yn unig. Brif Weinidog, a hoffech chi esbonio sut y daeth ymgynghorydd eiddo i ymwneud â manylion y cais penodol hwn?

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He was not acting on behalf of the Welsh Government.

Nid oedd yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Well, I have to say that I've got an e-mail in front of me, First Minister, that shows that Mr Goldstone, on five separate occasions, passed comment and advice to your Government in relation to this particular company. I'll quote the e-mail, if I may. This is the e-mail:

'I have now spoken at length with the minister…and it is clear to me that…this is not currently a project…for support by Welsh Government'.

It goes on to say,

'This is more appropriate for something akin to an enterprise fund of private investors. I am merely an adviser and this is not at this point in time the considered opinion of the Welsh Government, but is merely the advice that I have given'.

Wel, mae'n rhaid i mi ddweud bod gen i neges e-bost o fy mlaen, Brif Weinidog, sy'n dangos bod Mr Goldstone, ar bum gwahanol achlysur, wedi gwneud sylwadau a rhoi cyngor i'ch Llywodraeth ar y cwmni penodol hwn. Hoffwn ddyfynnu'r e-bost, os caf. Dyma'r e-bost:

Rwyf wedi siarad yn helaeth â'r gweinidog erbyn hyn…ac mae'n amlwg i mi…nad yw hwn yn brosiect ar hyn o bryd…ar gyfer ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n mynd ymlaen i ddweud,

Mae hyn yn fwy priodol ar gyfer rhywbeth tebyg i gronfa fenter o fuddsoddwyr preifat. Cynghorydd yn unig ydw i ac nid dyma yw barn gytbwys Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ond dim ond y cyngor yr wyf i wedi ei roi.

Senedd.tv Fideo Video

This sounds like professional advice to me, First Minister. First Minister, do you accept that Mr Goldstone went beyond his terms of reference from your Government?

Mae hyn yn swnio fel cyngor proffesiynol i mi, Brif Weinidog. Brif Weinidog, a ydych chi'n derbyn bod Mr Goldstone wedi mynd y tu hwnt i'r cylch gorchwyl a gafodd gan eich Llywodraeth?

13:46

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, first of all, he is a property adviser to officials, not to the Minister. Secondly, of course, the Minister did make an offer to the company involved. So, even if it is suggested that the advice influenced the Minister, the Minister's decision was quite the opposite when she did indeed make an offer to the company itself.

Wel, yn gyntaf oll, cynghorydd eiddo i'r swyddogion ydyw, nid i'r Gweinidog. Yn ail, wrth gwrs, fe wnaeth y Gweinidog gynnig i'r cwmni dan sylw. Felly, hyd yn oed os awgrymir bod y cyngor wedi dylanwadu ar y Gweinidog, roedd penderfyniad y Gweinidog yn gwbl i'r gwrthwyneb pan wnaeth hi gynnig i'r cwmni ei hun.

13:46

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, but, First Minister, you have told me quite specifically that Mr Goldstone's role is in property matters, not this type of business application, business loan, business support. It is quite shocking that it has taken the collapse of this project, which could have potentially brought 100 jobs, to actually find out what Mr Goldstone's role is within the Government. It is clear that his role extends far beyond property advice. In fact, he actually gives out business cards stating that he has a role within the business department, and also in the health department. Do you not think that this is inappropriate given that no-one really understands what Mr Goldstone's role is, not even your good self, by pointing out that he deals in property, and yet I've given you evidence here where he's advising on applications for funding from the Welsh Government?

Ie, ond, Brif Weinidog, rydych chi wedi dweud wrthyf yn eithaf penodol bod swyddogaeth Mr Goldstone yn ymwneud â materion eiddo, nid y math hwn o gais busnes, benthyciad busnes, cymorth busnes. Mae'n eithaf syfrdanol ei bod wedi cymryd methiant y prosiect hwn, a allai fod wedi dod â 100 o swyddi o bosibl, i ddarganfod mewn gwirionedd beth yw swyddogaeth Mr Goldstone yn y Llywodraeth. Mae'n amlwg bod ei swyddogaeth yn ymestyn ymhell y tu hwnt i gyngor ar eiddo. Yn wir, mae'n rhannu cardiau busnes sy'n dweud bod ganddo swyddogaeth yn yr adran fusnes, ac yn yr adran iechyd hefyd. Onid ydych chi'n meddwl bod hyn yn amhriodol o ystyried nad oes neb wir yn deall beth yw swyddogaeth Mr Goldstone, nid hyd yn oed chi eich hun, trwy nodi ei fod yn ymdrin ag eiddo, ac eto rwyf wedi rhoi tystiolaeth i chi yma lle mae'n cynghori ar geisiadau am gyllid gan Lywodraeth Cymru?

13:47

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, let make it clear: David Goldstone advises officials on property matters in the Department for Economy, Science and Transport, and advises officials on property matters within the Department for Health and Social Services. That is the basis upon which he provides that advice. He does not provide advice in terms of whether to invest or not in any particular company. Bearing in mind that the suggestion is—and I accept what he has just said—that advice was purported to be given to the Minister, nevertheless, the Minister actually did make an offer. So, any suggestion that, somehow, this influenced the Minister not to make an offer of funding is clearly wrong.

Wel, gadewch i mi ei gwneud yn eglur: mae David Goldstone yn cynghori swyddogion ar faterion eiddo yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ac yn cynghori swyddogion ar faterion eiddo yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dyna'r sail y mae'n cynnig y cyngor hwnnw arni. Nid yw'n rhoi cyngor o ran a ddylid buddsoddi ai peidio mewn unrhyw gwmni penodol. O gofio mai'r awgrym yw—ac rwy'n derbyn yr hyn y mae ef newydd ei ddweud—yr honnwyd bod cyngor wedi ei roi i'r Gweinidog, er hynny, gwnaeth y Gweinidog gynnig mewn gwirionedd. Felly, mae unrhyw awgrym bod hyn, rywsut, wedi dylanwadu ar y Gweinidog i beidio â gwneud cynnig o gyllid yn amlwg yn anghywir.

13:48

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd. First Minister, you said during the UK election campaign that the Welsh NHS needed 1,000 extra staff members, and you said that this policy would be funded by a UK-wide mansion tax. Now, there's not going to be a UK-wide mansion tax. So, will the Welsh NHS now get the additional 1,000 staff that you say it needs?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, dywedasoch yn ystod ymgyrch etholiadol y DU bod angen 1,000 o aelodau staff ychwanegol ar y GIG yng Nghymru, a dywedasoch y byddai'r polisi hwn yn cael ei ariannu gan dreth plasty ledled y DU. Nawr, ni fydd treth plasty ledled y DU. Felly, a fydd y GIG yng Nghymru bellach yn cael y 1,000 o staff ychwanegol yr ydych chi'n dweud sydd eu hangen arno?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, we said that we would look to train an extra 1,000 staff, and that is something that we would still like to do. Of course, the source of funding has gone. It was a source of funding that was actually sustainable as well. Sadly, we saw the view of the electors last week. Now, it is said that £8 billion will be made available for the Department of Health in England. We can expect a consequential from that. I hope that is a clean consequential—in other words, it is not a consequential that is cut in other ways through cuts in funding to the block grant.

Wel, dywedasom y byddem yn bwriadu hyfforddi 1,000 o staff ychwanegol, ac mae hynny'n rhywbeth y byddem yn hoffi ei wneud o hyd. Wrth gwrs, mae ffynhonnell y cyllid wedi mynd. Roedd yn ffynhonnell o gyllid a oedd yn wir gynaliadwy hefyd. Yn anffodus, gwelsom farn yr etholwyr yr wythnos diwethaf. Nawr, dywedir y bydd £8 biliwn yn cael ei roi ar gael i'r Adran Iechyd yn Lloegr. Gallwn ddisgwyl swm canlyniadol o hynny. Rwy'n gobeithio y bydd hwnnw'n swm canlyniadol glân—mewn geiriau eraill, nad yw'n swm canlyniadol sy'n cael ei dorri mewn ffyrdd eraill trwy doriadau i gyllid i'r grant bloc.

13:49 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, today, the Royal College of General Practitioners have said that we're nearing a crisis in terms of GP practice in Wales, and they say that many people are waiting for more than a week for an appointment. I know that there are many other people who are waiting for far longer. Now, the royal college tell us that 23 per cent of GPs are due to retire. What they want to know, First Minister, and what patients will want to know, is do you have a plan B for doctor recruitment and training?

Heddiw, Brif Weinidog, mae Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol wedi dweud ein bod yn agosáu at argyfwng o ran practisau meddygon teulu yng Nghymru, ac maen nhw'n dweud bod llawer o bobl yn aros am fwy nag wythnos am apwyntiad. Rwy'n gwybod bod llawer o bobl eraill sy'n aros am lawer hwy. Nawr, mae'r coleg brenhinol yn dweud wrthym fod disgwyl i 23 y cant o feddygon teulu ymddeol. Yr hyn maen nhw eisiau ei wybod, Brif Weinidog, a'r hyn y mae cleifion eisiau ei wybod, yw a oes gennych chi gynllun wrth gefn ar gyfer recriwtio a hyfforddi meddygon?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, we do. I think the nature of general practice is changing. We have to understand that the vast majority of general practice is delivered by people who are, in effect, private contractors, as GPs are. I think that model carries less appeal now for many young doctors. I think they are looking to be able to move around. They don't want to be in one place all the time. I suspect we will see more of a move over the years to salaried GPs, so there is that flexibility. I think that's in the interest of Wales, actually, because that would mean that people will go and work in certain communities, offer their expertise for a certain number of years and move on. One of the difficulties is, of course, that, in some parts of Wales, it's been difficult to recruit GPs because GPs don't want to be tied down in that way, and we have to look at the way in which GP services are delivered in the future to make sure that that flexibility leads to an increase in the number of GPs who are available to deliver the service.

Oes, mae gennym ni. Rwy'n meddwl bod natur ymarfer cyffredinol yn newid. Mae'n rhaid i ni ddeall y darperir y mwyafrif llethol o ymarfer cyffredinol gan bobl sydd, i bob pwrpas, yn gontractwyr preifat, fel y mae meddygon teulu. Credaf fod y model hwnnw'n apelio llai bellach i lawer o feddygon ifanc. Rwy'n credu eu bod yn dymuno gallu symud o gwmpas. Nid ydyn nhw eisiau bod mewn un lle drwy'r amser. Rwy'n amau y byddwn ni'n gweld mwy o symud dros y blynyddoedd i feddygon teulu cyflogedig, fel y ceir yr hyblygrwydd hwnnw. Rwy'n credu y byddai hynny o les i Gymru, a dweud y gwir, gan y byddai hynny'n golygu y bydd pobl yn mynd i weithio mewn cymunedau penodol, yn cynnig eu harbenigedd am nifer benodol o flynyddoedd ac yna'n symud ymlaen. Un o'r anawsterau, wrth gwrs, mewn rhai rhannau o Gymru, yw y bu'n anodd recriwtio meddygon teulu gan nad yw meddygon teulu eisiau cael eu clymu yn y ffordd honno, ac mae'n rhaid i ni ystyried y ffordd y darperir gwasanaethau meddygon teulu yn y dyfodol i wneud yn siŵr bod yr hyblygrwydd hwnnw'n arwain at gynnydd yn nifer y meddygon teulu sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth.

13:50 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, that doesn't sound at all like a concrete plan to me, First Minister. I'll remind you of what you said recently. You said that

'We know that people in Wales cherish their NHS, and want to see a safe, modern and sustainable service guaranteed for the future. We need more trained healthcare professionals to make that happen.'

Wel, nid yw hynny'n swnio fel cynllun cadarn o gwbl i mi, Brif Weinidog. Fe wnaf eich atgoffa o'r hyn a ddywedasoch yn ddiweddar. Dywedasoch

Rydym ni'n gwybod bod eu GIG yn annwyl i bobl yng Nghymru, a'u bod eisiau gweld gwasanaeth diogel, modern a chynaliadwy wedi'i sicrhau ar gyfer y dyfodol. Mae angen mwy o weithwyr gofal iechyd proffesiynol hyfforddedig arnom i wneud i hynny ddigwydd.

They are your words. You don't accept, though, do you, that we're near a crisis point on this? So, with people waiting for over a week for a GP, and in some cases even longer, and with a quarter of GPs nearing retirement, are you seriously saying that this is as good as it gets for Welsh patients?

Dyna'ch geiriau chi. Fodd bynnag, nid ydych chi'n derbyn, ydych chi, ein bod yn agos at argyfwng yn hyn o beth? Felly, pan fo pobl yn aros dros wythnos am feddyg teulu, ac yn hwy fyth mewn rhai achosion, a chyda chwarter y meddygon teulu yn agosáu at ymddeoliad, a ydych chi'n dweud o ddifrif mai dyma'r gorau y gall hi fod i gleifion yng Nghymru?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, she clearly didn't listen to the answer I gave. Firstly, we've said all along there's a need to examine carefully the way in which GP services are delivered. The old model, the contractor model, is becoming progressively less attractive for new people. As a result of that, it's important that we move to a situation where we support GPs who are salaried. That will mean, because of the greater flexibility, that GPs are more able to move around and that will make all parts of Wales more attractive to them.

Wel, mae'n amlwg nad oedd hi'n gwrando ar yr ateb a roddais. Yn gyntaf, rydym ni wedi dweud o'r cychwyn bod angen ystyried yn ofalus y ffordd y caiff gwasanaethau meddygon teulu eu darparu. Mae'r hen fodel, y model contractwr, yn llai a llai deniadol i bobl newydd. O ganlyniad i hynny, mae'n bwysig ein bod yn symud i sefyllfa lle'r ydym ni'n cefnogi meddygon teulu cyflogedig. Bydd hynny'n golygu, oherwydd y bydd mwy o hyblygrwydd, y bydd yn rhwyddach i feddygon teulu symud o gwmpas a bydd hynny'n gwneud pob rhan o Gymru'n fwy deniadol iddyn nhw.

Now, she talks about a plan. I don't know what her plan claims to be, and we talk about recruiting 1,000 doctors, as she has said, from an ever-diminishing pot of money, but it does take 10 years to train a GP and so—

Nawr, mae hi'n sôn am gynllun. Nid wyf yn gwybod beth mae'n honni yw ei chynllun hi, ac rydym ni'n siarad am recriwtio 1,000 o feddygon, fel y mae hi wedi dweud, o gronfa arian sy'n lleihau'n barhaus, ond mae'n cymryd 10 mlynedd i hyfforddi meddyg teulu ac felly—

13:52 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Read our 10-year plan.

Darllenwch ein cynllun 10 mlynedd.

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I mean, the first thing to do—[Interruption.] The first thing to do is to ensure that we have in place an attractive NHS that GPs want to work in. That's the first stage. We have done that in terms of ensuring that we work with the GPs. We have more GPs than ever in Wales. That is correct. We have more nurses than ever in Wales, and, of course, it's correct to say that, in some parts of Wales, there are still recruitment problems. But, that is what we want to do—to work with GPs to look at the model of delivery, to improve the model of delivery, to make it more flexible and therefore more attractive. That is our vision for Wales. It is not a pale imitation of Scotland.

Wel, hynny yw, y peth cyntaf i'w wneud— [Torri ar draws.] Y peth cyntaf i'w wneud yw sicrhau bod gennym GIG deniadol ar waith y mae meddygon teulu eisiau gweithio ynddo. Dyna'r cam cyntaf. Rydym ni wedi gwneud hynny o ran sicrhau ein bod yn gweithio gyda'r meddygon teulu. Mae gennym ni fwy o feddygon teulu nag erioed yng Nghymru. Mae hynny'n gywir. Mae gennym ni fwy o nyrsys nag erioed yng Nghymru, ac, wrth gwrs, mae'n gywir dweud, bod problemau recriwtio mewn rhai rhannau o Gymru o hyd. Ond, dyna rydym ni eisiau ei wneud—gweithio gyda meddygon teulu i edrych ar y model darparu, i wella'r model darparu, ei wneud yn fwy hyblyg ac felly'n fwy deniadol. Dyna yw ein gweledigaeth ar gyfer Cymru. Nid efelychiad gwan o'r Alban yw hwn.

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Simon Thomas.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr, a daw cwestiwn 3 gan Simon Thomas.

## Ymadawiad Posibl y DU o'r Undeb Ewropeaidd

## The UK's Possible Exit from the European Union

13:52 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*3. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith ymadawiad posibl y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar economi Cymru? OAQ(4)2281(FM)*

*3. What assessment has the First Minister made of the impact of the UK's possible exit from the European Union on the Welsh economy? OAQ(4)2281(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n bosibl y byddai economi Cymru yn dioddef colledion mawr iawn pe bai'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn ogystal â'r effaith gyllidol debygol, gallai'r effeithiau economaidd, pe bai rhwystr rhwng Cymru a'r marchnadoedd Ewropeaidd, fod yn rhai sylweddol.

The economic losses to Wales if the United Kingdom were to leave the European Union are potentially very large. In addition to the likely fiscal impact, the wider economic effects that would arise, if Welsh access to European markets were inhibited, could be very significant.

13:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Brif Weinidog. Rwy'n cytuno gyda'ch dehongliad chi ac mae'r Aelod Seneddol Ewropeaidd Jill Evans hefyd wedi amcangyfrif bod aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn werth £40 y pen i bob un yng Nghymru, drwy'r gefnogaeth rŷm ni'n ei chael yn uniongyrchol, yn ogystal â'r effeithiau ehangach economaidd. A fyddech chi, felly, yn croesawu, gyda fi, unrhyw ymgyrch i Gymru aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd gael ei sefydlu yma yng Nghymru ar sail amlbleidiol, gan gynnwys y rheini sydd ddim o unrhyw blaid hefyd, a gyda pobl fusnes o fri ymysg y rhai sy'n arwain ymgyrch o'r fath?

Thank you, First Minister. I agree with your interpretation, and the Member of the European Parliament Jill Evans has estimated that membership of the EU is worth £40 per capita for everyone in Wales, through the direct support that we receive as well as through the additional economic benefits. Would you therefore welcome any campaign that Wales should remain a part of the European Union being established here in Wales, on a multi-party basis, including those who are of no party at all, with eminent businesspeople among those who would lead such a campaign?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Byddwn i'n cefnogi hynny'n fawr iawn. Un peth y mae'n rhaid inni, wrth gwrs, ei osgoi yw unrhyw gynllun lle byddai refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei chynnal ar yr un diwrnod ag etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau'r Alban ac etholiadau Gogledd Iwerddon. Mae pobl Cymru yn haeddu cael etholiad clir, ac nid cael rhywbeth arall. Rwy'n gwybod y byddai etholiadau'r comisiynwyr heddlu, ond nid yw cweit yr un peth, ynglŷn â'r lefel o sylw y byddai'n cael yn y cyfryngau. Byddwn yn hollol yn erbyn unrhyw gynlluniau a fyddai'n sicrhau bod hynny'n digwydd. Ond, rwy'n cytuno'n hollol y bydd yn rhaid cael ymgyrch er mwyn dangos y lles a ddaw i bobl Cymru o fod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd, ac i ddangos, wrth gwrs, ein bod ni'n cael mwy o arian mas o'r Undeb Ewropeaidd nag ydym yn ei dalu i mewn.

I would support that most definitely. What we must avoid, of course, is any scheme where a referendum on membership of the European Union is held on the same day as Assembly elections and elections to the Scottish Parliament and Northern Ireland Assembly. The people of Wales deserve to have a clear run. I know that we will have the police and crime commissioner elections, but they are not quite the same in terms of the amount of media coverage given to them. I would be wholly against any kind of plan that would entail simultaneous elections. However, I agree completely that we will have to have a campaign established in order to demonstrate the benefit to the people of Wales of being members of the European Union and to show that we get more funding out than we pay in.

13:54 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, as we know, the EU market is important to our exports from the manufacturing industries here in Wales, particularly our anchor industries such as Tata Steel. Therefore, as well as the generic approach to EU referendum issues, what discussions are the Welsh Government going to have with sectors such as manufacturing to ensure that we put a united face to keep in Europe and keep the exports operational?

Brif Weinidog, fel y gwyddom, mae marchnad yr UE yn bwysig i'n hallforion o'r diwydiannau gweithgynhyrchu yma yng Nghymru, yn enwedig ein diwydiannau angor fel Tata Steel. Felly, yn ogystal â'r agwedd gyffredinol at faterion refferendwm yr UE, pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru'n mynd i'w cael gyda sectorau fel gweithgynhyrchu er mwyn sicrhau ein bod yn cyflwyno wyneb unedig i aros yn Ewrop a chadw'r allforion yn weithredol?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I know what their private views are, and I'm keen to ensure that those views are made public. When I speak to potential investors from abroad, what is absolutely crucial to them is free access to the European market. That's the big market. If we lose access to that market, we automatically become far less attractive as a place to invest in, and far less attractive as a place to attract investment on the basis of a European base for a particular manufacturer being created in Wales. Commercially and economically, it would be a disaster.

Wel, rwy'n gwybod beth yw eu safbwyntiau preifat, ac rwy'n awyddus i sicrhau bod y safbwyntiau hynny'n cael eu gwneud yn gyhoeddus. Pan fyddaf yn siarad â darpar fuddsoddwyr o dramor, yr hyn sy'n gwbl hanfodol iddyn nhw yw mynediad rhydd at y farchnad Ewropeaidd. Dyna'r farchnad fawr. Os byddwn yn colli mynediad at y farchnad honno, byddwn yn lle llawer llai deniadol i fuddsoddi ynddo'n syth, ac yn llawer llai deniadol fel lle i ddenu buddsoddiad ar sail canolfan Ewropeaidd ar gyfer gweithgynhyrchydd penodol yn cael ei chreu yng Nghymru. Yn fasnachol ac yn economaidd, byddai'n drychineb.

13:55 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, following the election result, the Prime Minister has a mandate from the British people to seek reform in Europe, which he will then put to the British people. Later this month, the Prime Minister is expected to present UK priorities for EU reform. Do you believe that any reform is necessary, and, if so, what reforms would you like to see to enable the Welsh Government to act with more flexibility in supporting the Welsh economy, particularly in areas such as my own constituency that fall outside the scope of Objective 1 funding?

Brif Weinidog, yn dilyn canlyniad yr etholiad, mae gan Brif Weinidog y DU fandad gan bobl Prydain i geisio sicrhau diwygio yn Ewrop, y bydd yn ei gyflwyno wedyn i bobl Prydain. Yn ddiweddarach y mis hwn, disgwylir i Brif Weinidog y DU gyflwyno blaenoriaethau'r DU ar gyfer diwygio'r UE. A ydych chi'n credu bod angen unrhyw ddiwygio, ac, os felly, pa ddiwygiadau hoffech chi eu gweld i alluogi Llywodraeth Cymru i weithredu gyda mwy o hyblygrwydd o ran cefnogi economi Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd fel fy etholaeth fy hun sydd y tu allan i gwmpas cyllid Amcan 1?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There is no doubt that there is need for reform. Nobody can argue that the current structure is perfect, far from it. The UK is far from perfect, and I would argue that we don't ditch the UK, we reform it. In the same way with the European Union—we reform it rather than ditch it. Well, let's see what the Prime Minister can get. I think the first thing he has to do is build bridges with other countries that are less keen on fast integration, and, so far, that's not been done. There are other countries out there that want to slow down in terms of integration. It's important that the UK builds bridges with them. We would, of course, want to see as much flexibility as possible, in terms of what the Welsh Government can do. But transferring responsibility and powers from Brussels to London is of no use at all to Wales. What's important is that, if there are to be any kind of transfers of powers, they actually come to the people of Wales and not to Whitehall.

Nid oes amheuaeth bod angen diwygio. Ni all neb ddadlau bod y strwythur presennol yn berffaith, o bell ffordd. Mae'r DU yn bell o fod yn berffaith, a byddwn i'n dadlau na ddylem ni gael gwared ar y DU, ond ein bod yn ei diwygio. Yn yr un modd gyda'r Undeb Ewropeaidd—rydym ni'n ei ddiwygio yn hytrach na chael gwared arno. Wel, gadewch i ni weld beth all Prif Weinidog y DU ei gael. Rwy'n meddwl mai'r peth cyntaf y mae'n rhaid iddo ei wneud yw adeiladu pontydd gyda gwledydd eraill sy'n llai awyddus i weld integreiddio cyflym, ac, hyd yn hyn, nid yw hynny wedi ei wneud. Ceir gwledydd eraill allan yna sydd eisiau arafu o ran integreiddio. Mae'n bwysig bod y DU yn adeiladu pontydd gyda nhw. Byddem, wrth gwrs, eisiau gweld cymaint o hyblygrwydd â phosibl, o ran yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud. Ond nid yw trosglwyddo cyfrifoldeb a phwerau o Frwsel i Lundain o unrhyw ddefnydd o gwbl i Gymru. Yr hyn sy'n bwysig, os oes unrhyw fath o drosglwyddiadau o bwerau i fod, yw eu bod yn dod i bobl Cymru ac nid i Whitehall.

13:57 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I was very encouraged by your response earlier to Simon Thomas's question with regard to the need for a cross-party—and, indeed, a non-party—campaign to engage the people of Wales in the debate around our membership of the European Union. What thoughts have you had about the potential implications of new legislation on political campaigning in the UK that could potentially have a bearing on bringing together such a coalition of business, trade unions, farming unions and so on? What can the Welsh Government do to promote a genuine grass-roots campaign of the kind you describe?

Brif Weinidog, cefais fy nghalonogi'n fawr gan eich ateb yn gynharach i gwestiwn Simon Thomas o ran yr angen am ymgyrch drawsbleidiol—ac, yn wir, di-blaid—i gynnwys pobl Cymru yn y drafodaeth ar ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Pa syniadau ydych chi wedi eu cael ynghylch goblygiadau posibl deddfwriaeth newydd ar ymgyrchu gwleidyddol yn y DU a allai effeithio o bosibl ar dynnu clymblaid o'r fath ynghyd o fusnesau, undebau llafur, undebau amaethyddol ac yn y blaen? Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i hyrwyddo ymgyrch llawr gwlad gwirioneddol o'r math yr ydych chi'n ei ddisgrifio?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yours is a very good point. It’s not one I have considered fully in terms of what the new rules would mean for a campaign of this kind. But, I’m sure that, once the date of the referendum is announced, we will start on bringing together a cross-party campaign. On this issue, it is right to say that there will be members of the Conservative Party who will take different views on this, and there are probably those in the Labour Party across the UK who will take slightly different views on this as well. But I have no doubt that the general consensus, of course, will be to ensure that we promote the advantages of being part of the big market and promote the advantages, particularly to our farmers, of the subsidies that they get. There’s no doubt in my mind—. Our farmers get more than more than £200 million a year in European subsidies. There is no doubt in my mind that there is no way that that money would be made up by the UK Government if those subsidies went. I have dealt with the Department for Environment, Food and Rural Affairs and its predecessor, the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food, for many, many years under different parties. One thing I can tell you is that there is no respect for hill farming. It’s all big arable and big dairy. I would fear hugely for Welsh farming if any kind of control over subsidies were given to Whitehall. They do not recognise the social, economic and environmental importance of hill farming in Wales and elsewhere.

Mae eich pwynt yn un da iawn. Nid yw’n un yr wyf wedi ei ystyried yn llawn o ran yr hyn y byddai'r rheolau newydd yn ei olygu i ymgyrch o'r math hwn. Ond, rwy'n siŵr, ar ôl cyhoeddi dyddiad y refferendwm, y byddwn yn dechrau ffurfio ymgyrch trawsbleidiol. Ar y mater hwn, mae'n iawn i ddweud y bydd aelodau o'r Blaid Geidwadol a fydd â gwahanol safbwyntiau ar hyn, ac mae'n debyg y bydd rhai yn y Blaid Lafur ledled y DU y bydd ganddynt safbwyntiau ychydig yn wahanol ar hyn hefyd. Ond nid oes gennyf unrhyw amheuaeth mai’r consensws cyffredinol, wrth gwrs, fydd sicrhau ein bod yn hyrwyddo’r manteision o fod yn rhan o'r farchnad fawr a hyrwyddo’r manteision, yn enwedig i'n ffermwyr, y cymorthdaliadau maen nhw’n eu cael. Nid oes unrhyw amheuaeth yn fy meddwl—. Mae ein ffermwyr yn cael mwy na mwy na £200 miliwn y flwyddyn mewn cymorthdaliadau Ewropeaidd. Nid oes unrhyw amheuaeth yn fy marn i nad oes unrhyw ffordd y byddai’r arian hwnnw’n cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU pe byddai’r cymorthdaliadau hynny’n cael eu colli. Rwyf wedi ymdrin ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'i rhagflaenydd, y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, ers blynyddoedd lawer iawn dan wahanol bleidiau. Un peth y gallaf ei ddweud wrthych chi yw nad oes parch at ffermio mynydd. Mae’r cwbl yn ymwneud â ffermio âr a llaeth mawr. Byddwn yn poeni’n arw am ffermio yng Nghymru pe rhoddwyd unrhyw fath o reolaeth dros gymorthdaliadau i Whitehall. Nid ydyn nhw’n cydnabod pwysigrwydd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ffermio mynydd yng Nghymru a mannau eraill.

Senedd.tv Fideo Video

### Datblygu Economaidd (De-ddwyrain Cymru)

### Economic Development (South-east Wales)

13:59 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)2286(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government’s strategy for economic development in south-east Wales OAQ(4)2286(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are progressing with a range of priorities to encourage economic development across the south-east and further afield. They include, of course, the provision of business support through Business Wales, through ICT support and transport infrastructure improvements.

Rydym ni’n bwrw ymlaen ag amrywiaeth o flaenoriaethau i annog datblygiad economaidd ar draws y de-ddwyrain ac ymhellach i ffwrdd. Maen nhw’n cynnwys, wrth gwrs, darparu cymorth busnes trwy Busnes Cymru, trwy gymorth TGCh a gwelliannau i’r seilwaith drafnidiaeth.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

First Minister, Newport City Council, the City of Cardiff Council and Bristol City Council are working to collaborate on economic development, transport and energy issues for collective benefit. Will you agree that this western cities initiative is very promising and can sit alongside the south-east Wales city region? Will you set out what action Welsh Government can take to support this development?

Brif Weinidog, mae Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Dinas Bryste yn gweithio i gydweithredu ar faterion datblygu economaidd, trafnidiaeth ac ynni er budd pawb. A wnewch chi gytuno bod y fenter dinasoedd gorllewinol hon yn addawol iawn ac y gallai eistedd ochr yn ochr â dinas-ranbarth y de-ddwyrain? A wnewch chi nodi pa gamau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i gefnogi'r datblygiad hwn?

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, it can. It's important for us to remember that we look to co-operate cross-border as well. We've done it with the Mersey Dee Alliance, for example, and it's pretty common elsewhere in Europe for that to happen. We shouldn't think that economic boundaries are somehow wholly in sync with political boundaries. Clearly, they're not—not just between Wales and England, but across the whole of Europe, for that matter. So, yes, we'd encourage Cardiff and Newport to work with Bristol to take forward matters of mutual interest, and I see no conflict with what they are doing in terms of raising the profile of their collective cities with the work being done by the capital city region.

Gall, mi all. Mae'n bwysig i ni gofio ein bod yn ceisio cydweithio ar draws y ffin hefyd. Rydym ni wedi ei wneud gyda Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, er enghraifft, ac mae'n eithaf cyffredin mewn rhannau eraill o Ewrop i hynny ddigwydd. Ni ddylem feddwl bod ffiniau economaidd rywsut yn cyd-fynd yn llwyr â ffiniau gwleidyddol. Yn amlwg, nid ydynt—nid yn unig rhwng Cymru a Lloegr, ond ar draws Ewrop gyfan, o ran hynny. Felly, byddem, byddem yn annog Caerdydd a Chasnewydd i weithio gyda Bryste i fwrw ymlaen â materion o ddiddordeb cyffredin, ac ni welaf unrhyw wrthdaro â'r hyn maen nhw'n ei wneud o ran codi proffil eu dinasoedd perthnasol gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y ddinas-ranbarth.

14:00 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, in March this year, the Ebbw Vale Enterprise Zone strategic plan said that

'progress has been made with site preparation works across the Zone to bring each of the five key sites to an investment ready stage'.

Will the First Minister advise when these preparation works are due to be completed so that the Ebbw Vale Enterprise Zone can reach its full potential for bringing jobs and investment to South Wales East?

Brif Weinidog, ym mis Mawrth eleni, dywedodd cynllun strategol Ardal Fenter Glynebwy bod

cynnydd wedi ei wneud o ran gwaith paratoi'r safle ar draws yr Ardal i ddod â phob un o'r pum safle allweddol i gam parod ar gyfer buddsoddiad.

A wnaiff y Prif Weinidog hysbysu pryd y disgwylir i'r gwaith paratoi hwn gael ei gyflawni fel y gall Ardal Fenter Glynebwy gyrraedd ei llawn botensial ar gyfer dod â swyddi a buddsoddiad i Ddwyrain De Cymru?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I think the Member mentioned Ebbw Vale. I can say to him that, as far as Ebbw Vale is concerned, progress has been made with site preparation works. The installation of highways and site-specific information signage to assist with marketing the zone is being taken forward. Of course, the development of a new Heads of the Valleys dual carriageway does provide direct access to the zone—that's a £40 million investment—and, of course, looking to develop the extension of the railway line from the current Ebbw Vale Parkway station to the work site at Ebbw Vale, providing direct rail access to the zone. In addition as well, of course, significant amounts of marketing material have been produced in order to pursue potential business inquiries, on top of those that have already been received.

Rwy'n meddwl bod yr Aelod wedi sôn am Lynebwy. Gallaf ddweud wrtho, cyn belled ag y mae Glynebwy yn y cwestiwn, bod cynnydd wedi ei wneud o ran gwaith paratoi'r safle. Mae gwaith gosod priffyrdd ac arwyddion gwybodaeth safle-benodol i helpu i farchnata'r ardal yn cael ei wneud. Wrth gwrs, mae datblygiad ffordd ddeuol newydd Blaenau'r Cymoedd yn darparu mynediad uniongyrchol at yr ardal—mae hynny'n fuddsoddiad o £40 miliwn—ac, wrth gwrs, y bwriad i ddatblygu'r estyniad i'r rheilffordd o orsaf bresennol Parcffordd Glynebwy i'r safle gwaith yng Nglynebwy, gan ddarparu mynediad rheilffordd uniongyrchol at yr ardal. Hefyd, wrth gwrs, mae nifer sylweddol o ddeunydd marchnata wedi ei gynhyrchu er mwyn mynd ar ôl ymholiadau busnes posibl, yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi dod i law.

14:02 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, First Minister, Newport docks is clearly a very important player in the south-east Wales economy. On 5 May, you said in this Chamber, regarding the M4 relief road, that your officials would be looking into increasing the height of a bridge potentially to be built through the middle of Newport docks. Was this an off-the-cuff remark, or has a cost analysis been carried out—in which case, would you confirm whether this would increase the already enormous price tag of £1 billion for the black route, thus sucking even more money from other vital projects such as the south-east Wales metro system?

Wel, Brif Weinidog, mae dociau Casnewydd yn amlwg yn chwaraewr pwysig iawn yn economi'r de-ddwyrain. Ar 5 Mai, dywedasoch yn y Siambr hon, ynghylch ffordd liniaru'r M4, y byddai eich swyddogion yn ymchwilio i gynyddu uchder pont i'w hadeiladu o bosibl trwy ganol dociau Casnewydd. Ai sylw difyfyr oedd hwn, neu a oes dadansoddiad cost wedi ei gynnal—ac os felly, a wnewch chi gadarnhau a fyddai hyn yn cynyddu'r pris sydd eisoes yn enfawr o £1 biliwn ar gyfer y llwybr du, a thrwy hynny sugno hyd yn oed mwy o arian oddi wrth brosiectau hanfodol eraill fel system metro'r de-ddwyrain?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, first of all, the metro system and the M4 are not in competition for the same funds. I remind the Member that what the UK Government has said is that early draw-down of borrowing powers is something specifically for the M4 relief road. So, we can't use the money for anything else at this stage. Now, in terms of discussions with the port, we want to make sure that the bridge is of sufficient height so as not to interfere with the workings of the port, and I'm confident that agreement can be reached in terms of what the height of that bridge should be.

Wel, yn gyntaf oll, nid yw'r system metro a'r M4 yn cystadlu am yr un cyllid. Atgoffaf yr Aelod mai'r hyn y mae Llywodraeth y DU wedi ei ddweud yw bod manteisio'n gynnar ar bwerau benthyca yn rhywbeth ar gyfer ffordd liniaru'r M4 yn benodol. Felly, ni allwn ddefnyddio'r arian ar gyfer unrhyw beth arall ar hyn o bryd. Nawr, o ran trafodaethau gyda'r porthladd, rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod y bont yn ddigon uchel fel nad yw'n amharu ar waith y porthladd, ac rwy'n hyderus y gellir dod i gytundeb o ran beth ddylai uchder y bont honno fod.

14:03 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I'm sure you'd agree that a city deal for Cardiff could transform the economic future of south Wales and beyond, but reports in the press today suggest that the absolute chaos surrounding the leadership of Cardiff council means that even their own members are now briefing the press that they don't believe that this administration can deliver it. Now, clearly, if the UK Government is going to devolve maybe up to £1 billion of funding and powers to an entity, they need to know that it is a stable one. What is your Government doing to ensure that there are governance structures in existence that will enable all of the local authorities in the capital city region to collaborate effectively and deliver a city region for the whole of south-east Wales?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno y gallai cytundeb dinas i Gaerdydd weddnewid dyfodol economaidd y de a thu hwnt, ond mae adroddiadau yn y wasg heddiw yn awgrymu bod yr anhrefn llwyr ynghylch arweinyddiaeth cyngor Caerdydd yn golygu bod hyd yn oed eu haelodau eu hunain yn briffio'r wasg erbyn hyn nad ydynt yn credu y gall y weinyddiaeth hon ei ddarparu. Nawr, yn amlwg, os yw Llywodraeth y DU yn mynd i ddatganoli efallai hyd at £1 biliwn o gyllid a phwerau i endid, mae angen iddi wybod ei fod yn un sefydlog. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod strwythurau llywodraethu'n bodoli a fydd yn galluogi pob un o'r awdurdodau lleol yn y ddinas-ranbarth i gydweithio'n effeithiol a chyflwyno dinas-ranbarth ar gyfer holl ardal y de-ddwyrain?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, first of all, the UK Government can't devolve powers to it, because those powers are already devolved here. So, it would mean that we would have to look at powers, not the UK Government. I understand a meeting took place at the beginning of this month with all the relevant local authorities, where there was support in principle to move ahead with the city deal. We don't know yet how much money would be on the table for Cardiff and the surrounding area—we'll wait to see what the Treasury says about that. We will look to work with Cardiff council and other councils in order to maximise the financial benefit to Wales.

Wel, yn gyntaf oll, ni all Llywodraeth y DU ddatganoli pwerau iddo, gan fod y pwerau hynny eisoes wedi'u datganoli yma. Felly, byddai'n golygu y byddai'n rhaid i ni edrych ar bwerau, nid Llywodraeth y DU. Rwy'n deall y cynhaliwyd cyfarfod ddechrau'r mis hwn gyda'r holl awdurdodau lleol perthnasol, pryd y cafwyd cefnogaeth mewn egwyddor i fwrw ymlaen â'r cytundeb dinas. Nid ydym yn gwybod eto faint o arian fyddai ar gael i Gaerdydd a'r cyffiniau—arhoswn i weld beth mae'r Trysorlys yn ei ddweud am hynny. Byddwn yn edrych i weithio gyda chyngor Caerdydd a chynghorau eraill er mwyn sicrhau'r budd ariannol mwyaf posibl i Gymru.

## Y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig

## The Transatlantic Trade and Investment Partnership

14:04 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o sut y bydd y bartneriaeth masnach a buddsoddi trawsatlantig yn effeithio ar Gymru? OAQ(4)2284(FM)*

*5. What assessment has the First Minister made of how the transatlantic trade and investment partnership will affect Wales? OAQ(4)2284(FM)*

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are taking a close interest, given the significance of trade to the Welsh economy and the potential wider implications of the negotiations on public services.

Rydym ni'n cymryd diddordeb agos, o ystyried arwyddocâd masnach i economi Cymru a goblygiadau ehangach posibl y trafodaethau ar wasanaethau cyhoeddus.

14:04 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, First Minister. You will know that the trade between the European Union and the United States is the greatest bilateral trade agreement in the world, and this will further help to make sure that the anomalies are removed. It can only really offer good and better trade relations for Wales, particularly as the utilities reservation was made between the Council of Ministers and the European Union.

Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod mai'r fasnach rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Unol Daleithiau yw'r cytundeb masnach dwyochrog mwyaf yn y byd, a bydd hyn yn helpu ymhellach i sicrhau y ceir gwared ar yr anghysondebau. Dim ond cynnig cysylltiadau masnach da a gwell i Gymru y gall hyn ei wneud mewn gwirionedd, yn enwedig gan y gwnaed y cytundeb cadw cyfleustodau rhwng Cyngor y Gweinidogion a'r Undeb Ewropeaidd.

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I believe that there are opportunities for the Welsh economy if trade barriers are removed, particularly those with the US. I remember when I was rural affairs Minister particularly high barriers in terms of food and drink, both ways actually. Seeing them removed, particularly with regard to the export of Welsh meat, would be enormously helpful to our farmers. That said—I've said it before and it's important that I restate this point—I would not give my agreement to any new arrangement that forced Governments to privatise services or prevented Governments from taking services back into public hands if they had been privatised in the past. I've received assurances in that regard from the UK Government, but it's absolutely crucial that nothing is done to the ability of the Welsh Government to arrange public services as it sees fit, and organised, of course, by those elected by the people of Wales.

Rwy'n credu bod cyfleoedd ar gael i economi Cymru os ceir gwared ar rwystrau masnach, yn enwedig y rhai â'r Unol Daleithiau. Rwy'n cofio pan roeddwn i'n Weinidog materion gwledig bod rhwystrau arbennig o uchel o ran bwyd a diod, y ddwy ffordd a dweud y gwir. Byddai cael gwared arnyn nhw, yn enwedig o ran allforio cig Cymreig, yn hynod ddefnyddiol i'n ffermwyr. Wedi dweud hynny—rwyf wedi dweud hyn o'r blaen ac mae'n bwysig fy mod i'n ailddatgan y pwynt hwn—ni fyddwn yn rhoi fy nghytundeb i unrhyw drefniant newydd a fyddai'n gorfodi Llywodraethau i breifateiddio gwasanaethau neu'n atal Llywodraethau rhag cymryd gwasanaethau yn ôl i ddwylo cyhoeddus pe bydden nhw wedi cael eu preifateiddio yn y gorffennol. Rwyf wedi derbyn sicrwydd gan Lywodraeth y DU yn hynny o beth, ond mae'n gwbl hanfodol nad oes dim yn cael ei wneud i allu Llywodraeth Cymru i drefnu gwasanaethau cyhoeddus fel y gwêl yn dda, ac wedi'u trefnu, wrth gwrs, gan y rhai a etholwyd gan bobl Cymru.

14:06 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I just agree with what the First Minister has just set out, because though it is important that we lower trade barriers, we don't see that as an opening for the privatisation of our public services? That's a decision, if it ever is taken, to be taken by the people that elect us here or the people who elect the UK Government. He mentioned his earlier discussions with the UK Government. Of course, we have a new Government now and a new set of priorities in Europe as well and a new set of negotiations that are taking place. Have you had an opportunity already, First Minister, to raise this issue with that new Government, or will you do so as part of the discussions now regarding our ongoing membership of the European Union?

A gaf i gytuno â'r hyn y mae'r Prif Weinidog newydd ei ddweud, oherwydd er ei bod yn bwysig ein bod yn lleihau rhwystrau masnach, nid ydym yn gweld hynny fel cyfle i breifateiddio ein gwasanaethau cyhoeddus? Mae hwnnw'n benderfyniad, os caiff ei wneud fyth, i'w wneud gan y bobl sy'n ein hethol ni yma neu'r bobl sy'n ethol Llywodraeth y DU. Soniodd am ei drafodaethau cynharach gyda Llywodraeth y DU. Wrth gwrs, mae gennym Lywodraeth newydd nawr a chyfres newydd o flaenoriaethau yn Ewrop yn ogystal â chyfres newydd o drafodaethau sy'n cael eu cynnal. A ydych chi wedi cael cyfle eisoes, Brif Weinidog, i godi'r mater hwn gyda'r Llywodraeth newydd honno, neu a fyddwch chi'n gwneud hynny yn rhan o'r trafodaethau nawr ar ein haelodaeth barhaus o'r Undeb Ewropeaidd?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Not yet, but the Ministers who were involved in the previous correspondence were all of the party that is still in Government. So, I wouldn't expect that position to have changed. If it has, it's for them to explain how it has changed. What we don't know, of course, is what exactly the Prime Minister will be negotiating on with regard to our membership of the European Union. There are some matters that have been made public. We don't know where those negotiations will go. Regardless of the outcome of those negotiations, it's still important that Wales remains part of the big market that is the European Union.

Dim eto, ond roedd y Gweinidogion a oedd yn cymryd rhan yn yr ohebiaeth flaenorol i gyd o'r blaid sydd yn dal mewn Llywodraeth. Felly, ni fyddwn yn disgwyl y bydd y sefyllfa honno wedi newid. Os yw wedi, eu cyfrifoldeb nhw yw esbonio sut mae wedi newid. Yr hyn nad ydym yn ei wybod, wrth gwrs, yw beth yn union fydd Prif Weinidog y DU yn ei drafod o ran ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Ceir rhai materion sydd wedi eu gwneud yn gyhoeddus. Nid ydym yn gwybod ble bydd y trafodaethau hynny'n mynd. Waeth beth fo canlyniad y trafodaethau hynny, mae'n dal i fod yn bwysig bod Cymru'n parhau i fod yn rhan o farchnad fawr yr Undeb Ewropeaidd.

## Tai Cydweithredol

## Co-operative Housing

14:07

### Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dai cydweithredol? OAQ(4)2275(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on co-operative housing? OAQ(4)2275(FM)*

14:07

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

A co-operative housing approach for Wales is embedded in our programme for government. We have provided practical and financial support to emerging projects, the first of which will be completed this summer. We have also improved the tenancy environment for fully mutual housing organisations in the Housing (Wales) Act 2014.

Mae dull tai cydweithredol ar gyfer Cymru wedi'i ymgorffori yn ein rhaglen lywodraethu. Rydym ni wedi rhoi cefnogaeth ymarferol ac ariannol i brosiectau sy'n dod i'r amlwg, a bydd y cyntaf o'r rhain yn cael ei gwblhau yn ystod yr haf. Rydym ni hefyd wedi gwella'r amgylchedd tenantiaeth ar gyfer sefydliadau tai cydfuddiannol llawn yn Neddf Tai (Cymru) 2014.

14:07

### Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the First Minister for that response and congratulate him on the progress being made. But, it is true that we're far further back than most of Europe and certainly North America in the development of co-operative housing—that's not just Wales, but the whole of Great Britain. So, what further can be done to promote this as a third housing option?

Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna ac rwy'n ei longyfarch ar y cynnydd sy'n cael ei wneud. Ond, mae'n wir ein bod ni lawer ymhellach yn ôl na'r rhan fwyaf o Ewrop ac yn sicr Gogledd America o ran datblygu tai cydweithredol—nid Cymru'n unig yw hynny, ond Prydain Fawr gyfan. Felly, beth arall ellir ei wneud i hyrwyddo hyn fel trydydd opsiwn tai?

14:08

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member is right to say that we are historically behind Europe and, indeed, North America, where there is a richer and older tradition of co-operative housing. But we do have plans in place to promote co-operative housing further, building on the measures we've put in place in the Housing (Wales) Act 2014, and that housing is being developed. The co-operatives themselves will need to promote the alternative route to housing. It's already happening with a group of co-operatives in Cardiff looking at a second development due to the interest and demand. It's also worth pointing out that any new, fully mutual housing association would fall under our regulatory responsibility and would need to be a registered social landlord to receive the social housing grant direct.

Mae'r Aelod yn iawn i ddweud ein bod y tu ôl i Ewrop yn hanesyddol ac, yn wir, Gogledd America, lle ceir traddodiad mwy cyfoethog a hŷn o dai cydweithredol. Ond mae gennym gynlluniau ar waith i hyrwyddo tai cydweithredol ymhellach, gan adeiladu ar y mesurau rydym ni wedi eu rhoi ar waith yn Neddf Tai (Cymru) 2014, ac mae'r tai hynny'n cael eu datblygu. Bydd angen i'r cwmnïau cydweithredol eu hunain hyrwyddo'r llwybr amgen i dai. Mae eisoes yn digwydd wrth i grŵp o gwmnïau cydweithredol yng Nghaerdydd ystyried ail ddatblygiad oherwydd y diddordeb a'r galw. Mae hefyd yn werth nodi y byddai gennym ni gyfrifoldeb rheoleiddio am unrhyw gymdeithas tai newydd, cwbl gydfuddiannol a byddai angen iddi fod yn landlord cymdeithasol cofrestredig i dderbyn y grant tai cymdeithasol yn uniongyrchol.

14:08

### Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, enabling local communities to make decisions about their own homes can make a positive difference, but co-operative housing is not necessarily affordable housing. How would you ensure that funding isn't diverted from the social housing grant that could deliver more social and affordable homes in order to deliver these schemes—so, it's priority on supply—and ensure that we don't end up as Sweden has, after a number of decades, with this becoming housing for the better off?

Yn amlwg, gall galluogi cymunedau lleol i wneud penderfyniadau am eu cartrefi eu hunain wneud gwahaniaeth cadarnhaol, ond nid yw tai cydweithredol yn dai fforddiadwy o reidrwydd. Sut byddech chi'n sicrhau nad yw cyllid yn cael ei ddargyfeirio o'r grant tai cymdeithasol a allai gyflenwi rhagor o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy er mwyn cyflawni'r cynlluniau hynny—fel ei fod yn flaenoriaeth ar gyflenwad—a sicrhau nad ydym yn canfod ein hunain yn yr un sefyllfa â Sweden, ar ôl nifer o ddegawdau, lle mae'r rhain yn dai i bobl fwy cefnog?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There's no suggestion that we are looking to divert money away from housing. We are on target in terms of the social housing we wish to build and we are beginning to fill a gap that opened up in the 1980s. One thing we will not do is to reduce the amount of social housing available through selling off the stock.

Nid oes unrhyw awgrym ein bod eisiau dargyfeirio arian oddi wrth dai. Rydym ar y trywydd iawn o ran y tai cymdeithasol yr ydym ni'n dymuno eu hadeiladu ac rydym ni'n dechrau llenwi bwlch a ymddangosodd yn y 1980au. Un peth na fyddwn ni'n ei wneud yw lleihau nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael drwy werthu'r stoc.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, mae'r Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn galw ar lywodraeth leol i ddatblygu modelau cymunedol cydweithredol. Pa gamau rydych yn eu cymryd efo'r cynghorau hynny i ddatblygu darpariaeth gydweithredol yn y maes yma?

First Minister, the social services Act also calls on local authorities to develop fully mutual co-operative models. What steps are you taking with those councils to develop co-operative provision in this field?

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym wedi rhoi cyllid refeniw i Ganolfan Cydweithredol Cymru er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ar gael i grwpiau cydweithredol. Bydd ar gael, wrth gwrs, i unrhyw un sydd yn moyn gwneud hyn er mwyn iddynt allu defnyddio'r arbenigedd sydd gan y ganolfan pe baent am symud ymlaen gyda ffordd gydweithredol o ddatrys problemau tai yn eu hardaloedd nhw. Felly, mae yna gefnogaeth ar gael, a byddwn yn gobeithio y byddai grwpiau yn ystyried y gefnogaeth honno ac, wrth gwrs, yn ei defnyddio.

We have provided revenue funding for the Wales Co-operative Centre in order to ensure that there is support available for co-operative groups. It'll be available to anyone who wants to apply for it, in order for them to use the expertise that the centre has should they want to proceed with a co-operative approach to resolving housing problems in their own areas. So, there is support available and I would hope that groups would consider that support and, of course, make use of it.

Senedd.tv Fideo Video

## Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop

## European Structural and Investment Funds

14:10 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

*7. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd i gynyddu cynhyrchiant ledled Cymru? OAQ(4)2288(FM)*

*7. How is the Welsh Government planning to use European structural and investment funds to drive up productivity across Wales? OAQ(4)2288(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are investing vital EU funds in key areas to drive up economic growth and jobs including, of course, business competitiveness and finance, research and innovation—particularly with regard to productivity, skills and attainment levels. We know that the key to improving productivity is to continually improve people's skills.

Rydym yn buddsoddi cyllid UE hollbwysig mewn meysydd allweddol i gynyddu twf economaidd a swyddi, gan gynnwys, wrth gwrs, cystadleurwydd busnes a chyllid, ymchwil ac arloesedd—yn enwedig o ran cynhyrchiant, sgiliau a lefelau cyrhaeddiad. Rydym ni'n gwybod mai'r allwedd i wella cynhyrchiant yw gwella sgiliau pobl yn barhaus.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We obviously know that this is a key matter, when we're hoping to dig ourselves out of qualifying for convergence funding, so I'm fully aware that the Government is taking this matter very seriously. One of the issues, as you said, to help close the productivity gap is to improve our skills base. On a recent visit to Wylfa, I talked to people who are likely to have to seek new career pathways, and one of the issues that they identified was the difficulty in finding the right courses for them in north Wales, and in particular in relation to project management. They were having to go to Liverpool, Manchester or Cardiff to get the skills as certified by the Association for Project Management. Given that they have a monopoly over this qualification, what can be done to ensure that those skills are able to be developed across Wales, and that people are not having to travel outside the area, where obviously the financial barriers are considerable?

Rydym yn amlwg yn gwybod bod hwn yn fater allweddol, pan ein bod yn gobeithio gweithio ein hunain allan o gymhwyso ar gyfer cyllid cydgyfeirio, felly rwy'n gwbl ymwybodol bod y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i'r mater hwn. Un o'r materion, fel y dywedasoch, i helpu i gau'r bwlch cynhyrchiant yw gwella ein sylfaen sgiliau. Ar ymweliad diweddar â'r Wylfa, siaradais â phobl sy'n debygol o orfod dod o hyd i lwybrau gyrfaol newydd, ac un o'r materion a nodwyd ganddyn nhw oedd yr anhawster i ddod o hyd i'r cyrsiau cywir ar eu cyfer yn y gogledd, ac yn enwedig o ran rheoli prosiectau. Mae'n rhaid iddyn nhw fynd i Lerpwl, Manceinion neu Gaerdydd i gael y sgiliau fel y cânt eu hardystio gan y Gymdeithas Rheoli Prosiectau. O ystyried bod ganddyn nhw fonopoli dros y cymhwyster hwn, beth ellir ei wneud i sicrhau y gellir datblygu'r sgiliau hynny ledled Cymru, ac nad yw pobl yn gorfod teithio y tu allan i'r ardal, lle mae'r rhwystrau ariannol yn amlwg yn sylweddol?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

If I could deal with the issue of productivity first, I saw the comments yesterday by Lord Bamford of JCB, talking about his views on the EU. I saw those, but what concerned me was that the comment he made was that, at the moment, the construction sector is where the growth is. If that's the case, we're heading towards another housing bubble, and that is a worrying thing, because we're not seeing productivity increases in manufacturing, which is where we need to see them. Why is it that a worker in America or Germany is more productive than a worker in Britain with the same machine? The reason is skills, and a lack of investment in skills over many, many years, and an investment that we are looking to put right. But, in terms of the specific issue that she actually raised, it's an opportunity for the north Wales economic ambition board, of course, to examine the skills that are needed regionally in the north. It's an opportunity for genuine cross-border collaboration on skills and employment issues, and it's for them, of course, to examine how those skills can be made available—it's not just Wylfa B, of course, but the Wrexham prison—in Wales. It's an area, I'm sure, that they will wish to focus on.

Pe gallwn i ymdrin â'r mater o gynhyrchiant yn gyntaf, gwelais y sylwadau ddoe gan yr Arglwydd Bamford o JCB, yn siarad am ei farn ar yr UE. Gwelais y rheini, ond yr hyn a oedd yn fy mhoeni i oedd mai'r sylw a wnaeth oedd, ar hyn o bryd, bod y twf yn y sector adeiladu. Os yw hynny'n wir, rydym ni ar ein ffordd i swigen dai arall, ac mae hynny'n rhywbeth sy'n peri pryder, gan nad ydym yn gweld cynnydd i gynhyrchiant ym maes gweithgynhyrchu, sef lle'r ydym ni angen ei weld. Pam mae gweithiwr yn America neu'r Almaen yn fwy cynhyrchiol na gweithiwr ym Mhrydain gyda'r un peiriant? Sgiliau yw'r rheswm, a diffyg buddsoddiad mewn sgiliau dros flynyddoedd lawer iawn, ac mae'n fuddsoddiad rydym ni'n ceisio ei unioni. Ond, o ran y mater penodol iddi ei godi mewn gwirionedd, mae'n gyfle i fwrdd uchelgais economaidd y gogledd, wrth gwrs, archwilio'r sgiliau sydd eu hangen yn rhanbarthol yn y gogledd. Mae'n gyfle ar gyfer cydweithredu trawsffiniol gwirioneddol o ran materion sgiliau a chyflogaeth, a'u cyfrifoldeb nhw, wrth gwrs, yw archwilio sut y gellir sicrhau bod y sgiliau hynny ar gael—nid yn Wylfa B yn unig, wrth gwrs, ond yng ngharchar Wrecsam—yng Nghymru. Mae'n faes, rwy'n siŵr, y byddant yn dymuno canolbwyntio arno.

14:13 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as well as calling for EU funding ambassadors, the Enterprise and Business Committee report on EU funding opportunities also called on Welsh Government departments to better champion engagement within their remit. Has this engagement improved since that report? If not, how can we have any confidence that the next round of EU funding will deliver any more sustainable growth than the last, which your predecessor, Rhodri Morgan, told us could have been far better spent?

Brif Weinidog, yn ogystal â galw am genhadon cyllid UE, galwodd adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar gyfleoedd cyllid yr UE hefyd ar adrannau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ymgysylltiad yn well yn eu cylch gwaith. A yw'r ymgysylltiad hwn wedi gwella ers yr adroddiad hwnnw? Os nad yw, sut allwn ni fod ag unrhyw hyder y bydd y rownd nesaf o gyllid yr UE yn cyflwyno unrhyw dwf mwy cynaliadwy na'r diwethaf, y dywedodd eich rhagflaenydd, Rhodri Morgan, wrthym y gellid bod wedi ei wario'n llawer gwell?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, one of the issues that we, of course, as a Government, have to wrestle with is: how is the money best spent? Do you spend it mainly on smaller projects, or do you look at a smaller number of larger projects that may have a greater impact? These are issues that we continue to consider in terms of how we consider how European funding is best utilised for the benefit of the people of Wales.

Wel, un o'r problemau y mae'n rhaid i ni, wrth gwrs, fel Llywodraeth, fynd i'r afael â nhw yw: beth yw'r ffordd orau o wario'r arian? A ydych chi'n ei wario ar brosiectau llai yn bennaf, neu a ydych chi'n edrych ar nifer llai o brosiectau mwy a allai gael mwy o effaith? Mae'r rhain yn faterion yr ydym ni'n parhau i'w hystyried o ran sut yr ydym ni'n ystyried sut i ddefnyddio cyllid Ewropeaidd orau er budd pobl Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Sut mae lefel cynhyrchiant y pen yng Nghymru yn cymharu â lefel cynhyrchiant y pen yn y Deyrnas Unedig?

How do Welsh per capita productivity rates compare to UK per capita productivity rates?

Senedd.tv Fideo Video

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 14:14.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 14:14.*

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, ynglŷn â chynhyrchu yng Nghymru, rydym mwy neu lai yn yr un lle, ond yr hyn rydym yn ei wybod yw ein bod ni y tu ôl i'r Almaen, rydym y tu ôl i Ogledd America, ac rydym y tu ôl i'n cystadleuwyr. Yr hyn sy'n bwysig dros ben yw sicrhau bod lefel y sgiliau yn codi er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu cystadlu yn well yn y dyfodol. Nid oes rheswm arall i'w esbonio. Gyda'r un sefyllfa a'r un peiriannau, mae'r Almaen yn gwneud yn well, ac mae Gogledd America yn gwneud yn well. Sgiliau yw popeth, a dyna pam mae'n hynod bwysig sicrhau ein bod ni'n parhau i fuddsoddi mewn sgiliau—er mwyn dod lan i'r un lefel o leiaf â Gogledd America a'r Almaen. Nid y Deyrnas Unedig y dylem edrych arni, ond beth yw'r gorau dros y byd.

Well, as regards productivity in Wales, we're more or less in the same place, but what we do know is that we are behind Germany, we are behind North America and we are behind our competitors. It is vitally important that we ensure that skills levels increase so that we can compete better in the future. There's no other way of explaining it. With the same situation and the same machinery, Germany is doing better and North America is doing better. Skills are everything, and that's why it's extremely important that we continue to invest in skills—to come up to at least the same level as Germany and North America. We shouldn't be looking at the United Kingdom; we should look at the best right across the world.

Senedd.tv Fideo Video

## Dyrannu Grantiau Trafnidiaeth

## The Allocation of Transport Grants

14:15 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â dyraniad grantiau trafnidiaeth i lywodraeth leol? OAQ(4)2292(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on the allocation of transport grants to local government? OAQ(4)2292(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Gwnaeth y Gweinidog ysgrifennu at Aelodau ar 14 Mai yn cyhoeddi grantiau trafnidiaeth o ychydig llai na £27 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru.

The Minister wrote to Members on 14 May announcing a total of just under £27 million in transport grants to local authorities across Wales.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Brif Weinidog. Mae natur fy nghwestiwn i rŵan ychydig yn wahanol i'r hyn yr oedd yn mynd i fod pan oeddwn i'n cyflwyno'r cwestiwn oherwydd, rhyw hanner awr wedyn, cawsom ni'r cyhoeddiad gan y Gweinidog, ac mi fyddem ni'n dymuno pasio ymlaen y gwerthfawrogiad yn Ynys Môn fod y grantiau sydd ar gael yn mynd i alluogi buddsoddiad pwysig ar yr ynys. Ond mae yna gwestiynau yn parhau o ran yr amseru. Mi oedd y cyfnod i gyflwyno cais yn agos iawn at ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol, mi oedd y ffenestr yn eithaf byr hefyd, a'r canlyniad oedd nad oedd y datganiad wedi dod tan ganol mis Mai, rŵan, tra bod Ynys Môn, er enghraifft, yn barod ac yn eiddgar am fwrw ymlaen â'r prosiectau mor fuan â phosibl. Pa sicrwydd a all y Prif Weinidog ei roi y gall swyddogion edrych ar ffordd o wneud y cyhoeddiad rhywfaint yn gynharach yn y flwyddyn?

Thank you, First Minister. The nature of my question is a little different to what it was to be when I first tabled the question, because it was some half an hour later that we heard the announcement from the Minister, and I would like to pass on the appreciation on Anglesey that the grants available will enable important investments on the island. But questions remain in terms of the timing. The application period was very close to the end of the previous financial year, the window was quite small, and, as a result, the statement didn't come until mid May, now, whilst Ynys Môn, for example, is eager to proceed with projects as soon as possible. What assurances can the First Minister give that officials can look at making that announcement a little earlier in the year?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Pan welais i gwestiwn yr Aelod, roeddwn i'n ceisio meddwl am ba fath o feirniadaeth fyddai gyda fe, ond, wrth gwrs, wedi gweld beth sy'n digwydd yn Ynys Môn a sawl project wedi cael ei gyllido. Mater yw hwn nawr, wrth gwrs, i'r cyngor. Os ydyn nhw'n barod i symud ymlaen yn gyflym, mae hynny i'w groesawu, ac rydym, wrth gwrs, yn fodlon gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau bod y projectau yn cael eu prosesu ac, wrth gwrs, yn symud ymlaen cyn gynted ag sy'n bosibl.

When I saw the Member's question, I tried to think what kind of criticism he might have, but, of course, we've seen what's happened on Anglesey and how many projects have been funded. This is a matter for the council now, of course. If they're ready to proceed quickly, that is to be welcomed, and we, of course, are eager to collaborate with them to make sure that the projects are processed and, of course, progress as soon as possible.

14:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:16 **Cwestiwn Brys: Tai Cymdeithasol**

**Urgent Question: Social Housing**

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call Mark Isherwood to ask the urgent question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Mark Isherwood i ofyn y cwestiwn brys.

14:16 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyhoeddiad a wnaed heddiw ynghylch buddsoddiad mewn tai cymdeithasol? EAQ(4)0331(CTP)*

*Will the Minister make a statement on today's announcement of investment in social housing? EAQ(4)0331(CTP)*

14:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you. I believe everyone should live in a good quality home. Welsh Government is continuing to invest £108 million each year of this term through the major repairs allowance grant to help local authorities meet the Welsh quality housing standard by 2020. This huge investment also helps create jobs and training opportunities in our communities.

Diolch yn fawr. Rwy'n credu y dylai pawb fyw mewn cartref o ansawdd da. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fuddsoddi £108 miliwn ym mhob blwyddyn o'r tymor hwn drwy'r grant lwfans atgyweiriadau mawr i helpu awdurdodau lleol i fodloni safon ansawdd tai Cymru erbyn 2020. Mae'r buddsoddiad enfawr hwn hefyd yn helpu i greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi yn ein cymunedau.

14:17 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, there's concern, firstly that this was made as a press release rather than a statement to this parliament of Wales, which holds your Government to account, and also concern about the lack of detail, given that the first housing Minister in this Assembly had identified three councils as not having business plans to meet the standard, and the next housing Minister approving business plans with lower budgets than those put to the public ballot. Can you then confirm how the £108 million will be allocated, which councils and housing associations will be eligible and over what timescale, so we can assess what likely impact this might have? Finally, will this extend to the i2i role the WHQS role, plus the WHQS-plus role, which is wider than simply homes—it's about wider regeneration and sustainability—or will it be essentially confined in its first tranche to bricks and mortar?

Yn amlwg, ceir pryder, y gwnaed hwn fel datganiad i'r wasg yn hytrach na datganiad i'r senedd Cymru hon, sy'n dwyn eich Llywodraeth i gyfrif, a cheir pryder hefyd am y diffyg manylion, o gofio bod y Gweinidog tai cyntaf yn y Cynulliad hwn wedi nodi nad oedd gan dri chyngor gynlluniau busnes i fodloni'r safon, a bod y Gweinidog tai nesaf wedi cymeradwyo cynlluniau busnes â chyllidebau is na'r rhai a gyflwynwyd ar gyfer y bleidlais gyhoeddus. A allwch chi gadarnhau felly sut bydd y £108 miliwn yn cael ei ddyrannu, pa gynghorau a chymdeithasau tai fydd yn gymwys a thros ba gyfnod, fel y gallwn asesu pa effaith debygol y gallai hyn ei gael? Yn olaf, a fydd hyn yn ymestyn i'r swyddogaeth i2i y swyddogaeth SATC, yn ogystal â'r swyddogaeth SATC a mwy, sy'n ehangach na dim ond cartrefi—mae'n ymwneud ag adfywio a chynaliadwyedd ehangach—neu a fydd yn cael ei gyfyngu i bob pwrpas i frics a morter yn ei haen gyntaf?

14:18 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was very pleased to see, initially, that Mark Isherwood, in the 'Western Mail', very much welcomed this funding. This funding is part of the package of funding this Welsh Government is giving, as I say, each year to local authorities for them to bring their social housing stock up to the WHQS by 2020. There's never been a written statement every year when this funding has been announced at this time of year to local authorities. I would have thought you would be welcoming this, like the majority of people are. It's really important that people have good-quality houses to live in. As I mentioned in my initial answer to you, it's bringing jobs and opportunities. Yesterday, when I was in Caerphilly, where I was seeing houses that had new bathrooms and new kitchens, it was very good to see somebody from a Communities First area who was employed within the council to put the new bathrooms and kitchens in on Jobs Growth Wales: really good to see Welsh Government programmes all coming together in one area.

Roeddwn i'n falch iawn o weld, yn gyntaf, bod Mark Isherwood, yn y 'Western Mail', wedi croesawu'r cyllid hwn yn fawr iawn. Mae'r cyllid hwn yn rhan o'r pecyn o gyllid y mae'r Llywodraeth Cymru hon yn ei rhoi, fel y dywedais, bob blwyddyn i awdurdodau lleol er mwyn iddyn nhw sicrhau bod eu stoc o dai cymdeithasol yn bodloni SATC erbyn 2020. Ni fu erioed ddatganiad ysgrifenedig bob blwyddyn pan gyhoeddwyd y cyllid hwn ar yr adeg hon o'r flwyddyn i awdurdodau lleol. Byddwn wedi meddwl y byddech chi'n croesawu hyn, fel y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei wneud. Mae'n bwysig iawn bod gan bobl dai o ansawdd da i fyw ynddynt. Fel y soniais yn fy ateb cychwynnol i chi, mae'n dod â swyddi a chyfleoedd. Ddoe, pan roeddwn i yng Nghaerffili, lle'r oeddwn i'n gweld tai ag ystafelloedd ymolchi a cheginau newydd, roedd yn braf iawn gweld rhywun o ardal Cymunedau yn Gyntaf a gyflogir gan y cyngor i osod yr ystafelloedd ymolchi a'r ceginau newydd ar Twf Swyddi Cymru: yn braf iawn gweld rhaglenni Llywodraeth Cymru i gyd yn dod at ei gilydd mewn un ardal.

14:19 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I noticed that, in your answer to Mark Isherwood, you mentioned the major repairs allowance, and, of course, this is the Welsh major repairs allowance, which was introduced in 2004 with a budget line of—you've probably all guessed it—£108 million. So, it's hardly news, Minister, and, as an announcement, I have to say it's a bit weak, although, obviously, every year, we should be welcoming this, as you say. But it's not news by any description, unless no change is news.

Weinidog, sylwais, yn eich ateb i Mark Isherwood, eich bod yn sôn am y lwfans atgyweiriadau mawr, ac, wrth gwrs, lwfans atgyweiriadau mawr Cymru yw hwn, a gyflwynwyd yn 2004 gyda llinell gyllideb o—mae'n debyg eich bod chi i gyd wedi ei ddyfalu—£108 miliwn. Felly, nid yw'n newyddion, Weinidog, ac, fel cyhoeddiad, mae'n rhaid i mi ddweud ei fod braidd yn wan, er, yn amlwg, bob blwyddyn, dylem ni fod yn croesawu hyn, fel y dywedwch. Ond nid yw'n newyddion o unrhyw safbwynt, oni bai bod dim newid yn newyddion.

So, why did you announce no change, and why didn't your announcement mention that this was in fact the major repairs allowance that's doled out every year? And, Minister, am I correct that about £40 million of that £108 million is committed for many years to come in dowry payments to stop transfer organisations, so that the available pot is, in fact, £60 million?

Felly, pam y gwnaethoch chi gyhoeddi dim newid, a pham nad oedd eich cyhoeddiad yn sôn mai hwn, mewn gwirionedd, yw'r lwfans atgyweiriadau mawr a ddyrennir bob blwyddyn? Ac, Weinidog, a wyf yn gywir bod tua £40 miliwn o'r £108 miliwn hwnnw wedi ei ymrwymo am flynyddoedd lawer i ddod mewn taliadau gwaddol i roi terfyn ar sefydliadau trosglwyddo, sy'n golygu mai £60 miliwn yw'r gronfa sydd ar gael, mewn gwirionedd?

14:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The dowry payments are part of this funding. As I say, this is just this year's funding for local authorities to bring their social housing stock up to the WHQS by 2020. You'll appreciate that, apart from the very difficult financial times we're in, I'd like to increase it year on year; we're unable to do so. But I have to say the local authorities that I've spoken to do welcome this spending, and they are also putting in significant funding to make sure the standards are met.

Mae'r taliadau gwaddol yn rhan o'r cyllid hwn. Fel y dywedais, dim ond cyllid eleni yw hwn i awdurdodau lleol sicrhau bod eu stoc o dai cymdeithasol yn bodloni SATC erbyn 2020. Byddwch yn gwerthfawrogi, ar wahân i'r oes ariannol anodd iawn sydd ohoni, yr hoffwn ei gynyddu o flwyddyn i flwyddyn; ni allwn wneud hynny. Ond mae'n rhaid i mi ddweud bod yr awdurdodau lleol yr wyf i wedi siarad â nhw yn croesawu'r gwariant hwn, ac maen nhw hefyd yn darparu cyllid sylweddol i sicrhau bod y safonau'n cael eu bodloni.

14:20 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as Jocelyn Davies has just outlined, this isn't an increase in the money. It's just a standard re-announcement of money that has already been included in the budget. Can I ask you, in terms of meeting the Welsh housing quality standard for 2020, what projections you have made as to the adequacy of £108 million every year up to 2020 in terms of securing that objective? And to what extent are local authorities able to match fund this £1 for £1 or are they actually having to make up a shortfall in terms of the amount of money available to meet that standard?

Weinidog, fel y mae Jocelyn Davies newydd ei amlinellu, nid yw hyn yn gynnydd i'r arian. Dim ond ail-gyhoeddi safonol o arian sydd eisoes wedi ei gynnwys yn y gyllideb yw hyn. A gaf i ofyn i chi, o ran bodloni safon ansawdd tai Cymru erbyn 2020, pa amcanestyniadau ydych chi wedi eu gwneud ynghylch digonolrwydd £108 miliwn bob blwyddyn hyd at 2020 o ran bodloni'r amcan hwnnw? Ac i ba raddau mae awdurdodau lleol yn gallu darparu arian cyfatebol ar gyfer hyn £1 am £1 neu a ydyn nhw, mewn gwirionedd, yn gorfod gwneud iawn am ddiffyg o ran y swm o arian sydd ar gael i fodloni'r safon honno?

14:21 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now have 67 per cent of our social housing stock up to the WHQS. We've still got five years to go. Last year's figures went up 7 per cent. I would expect to see that sort of increase year on year to ensure that we do have 100 per cent of houses reaching WHQS by 2020. The local authorities and the registered social landlords have also put £500 million in. I'm not sure if it's match funded £1 for £1, but it is in the region of £500 million, so slightly less than ours.

Mae 67 y cant o'n stoc tai cymdeithasol yn bodloni SATC erbyn hyn. Mae gennym ni bum mlynedd i fynd o hyd. Aeth ffigurau'r llynedd i fyny 7 y cant. Byddwn yn disgwyl gweld y math hwnnw o gynnydd o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau bod gennym 100 y cant o dai yn bodloni SATC erbyn 2020. Mae'r awdurdodau lleol a'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hefyd wedi cyfrannu £500 miliwn. Nid wyf yn siŵr a yw hynny'n arian cyfatebol £1 am £1, ond mae oddeutu £500 miliwn, felly ychydig yn llai na ni.

14:21

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

**Y** Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 2 is the business statement and announcement, and I call the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Eitem 2 yw'r datganiad a chyhoeddiad busnes, a galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

I have one change to announce to this week's business. The time made available for questions to the Counsel General has been reduced to 15 minutes on Wednesday 20 May as only three questions have been tabled. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among agenda papers available to Members electronically.

Mae gennyf un newid i'w gyhoeddi i fusnes yr wythnos hon. Mae'r amser sydd ar gael ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei leihau i 15 munud ddydd Mercher 20 Mai gan mai dim ond tri chwestiwn a gyflwynwyd. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:22 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, could we have two statements, please? I'm going to make a request for two statements; whether I get them or not is another thing, mind. The first one is on the very serious issue that was reported on the news last night in relation to nurse registrations and, in particular, qualifications. I think most people would agree that nearly all nurses they come across are working to the highest standard in their profession. But there were serious questions put forward on the reports that came over last night, which have been proven in a court. Therefore, could we have a statement from the Minister for Health and Social Services as to the accuracy of some of those accusations that have been made and, in particular, the way the Welsh Government go about working with the Nursing and Midwifery Council to make sure that standards of international nurses are looked into to make sure that there can never be a repetition of the events that happened as reported yesterday?

Arweinydd y tŷ, a allem ni gael dau ddatganiad, os gwelwch yn dda? Rwy'n mynd i wneud cais am ddau ddatganiad; mae pa un a fyddaf yn eu cael nhw ai peidio yn fater arall, cofiwch. Mae'r cyntaf ar y mater difrifol iawn a adroddwyd ar y newyddion neithiwr o ran cofrestriadau nyrsio ac, yn arbennig, cymwysterau. Rwy'n credu y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod bron pob nyrs maen nhw'n eu gweld yn gweithio i'r safon uchaf yn eu proffesiwn. Ond gofynnwyd cwestiynau difrifol yn yr adroddiadau a ddarlledwyd neithiwr, sydd wedi eu profi mewn llys. Felly, a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cywirdeb rhai o'r cyhuddiadau hynny sydd wedi eu gwneud ac, yn arbennig, y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i weithio gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i wneud yn siŵr bod safonau nyrsys rhyngwladol yn cael eu hymchwilio i wneud yn siŵr na ellir byth ailadrodd y digwyddiadau a welwyd fel yr adroddwyd ddoe?

Secondly, I'd be very grateful if a statement could be brought forward from the business and enterprise Minister in relation to the improvements on Five Mile Lane. I know I have asked for this statement before and I don't think that, to date, that has been forthcoming. I do believe that there has been some delay in this project as we were promised more details the earlier side of Easter and no details have come forward. This is a major project, as I understand it, that has had £25 million-worth of Government money allocated to it. To understand the delivery of this project and, in particular, the timelines and whether contracts are imminently to be exchanged would be of benefit to residents in the Vale of Glamorgan but also to elected Members in this Chamber.

Yn ail, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai datganiad gael ei gyflwyno gan y Gweinidog busnes a menter ar y gwelliannau ar Five Mile Lane. Rwy'n gwybod fy mod i wedi gofyn am y datganiad hwn o'r blaen ac nid wyf yn credu, hyd yma, bod hwnnw wedi ei wneud. Rwy'n credu y bu rhywfaint o oedi yn y prosiect hwn gan yr addawyd rhagor o fanylion i ni cyn y Pasg ac nid oes unrhyw fanylion wedi cael eu cynnig. Mae hwn yn brosiect mawr, yn ôl a ddeallaf, y dyrannwyd gwerth £25 miliwn o arian y Llywodraeth iddo. Byddai deall darpariaeth y prosiect hwn ac, yn benodol, yr amserlenni ac a yw'r contractau ar fin cael eu cyfnewid, o fudd i drigolion ym Mro Morgannwg ond hefyd i Aelodau etholedig yn y Siambr hon.

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the leader of the opposition for those questions. In terms of the first one, of course, this very regrettable case took place in England, as you know. I also heard the response from the Nursing and Midwifery Council. Of course, this is a matter that the health and social services Minister will be informed about, because the council has that responsibility. Of course, it is very clear, as you say, how important it is that we value our nursing profession and the standards that they adhere to here in Wales.

Diolchaf i arweinydd yr wrthblaid am y cwestiynau yna. O ran yr un cyntaf, wrth gwrs, digwyddodd yr achos anffodus iawn hwn yn Lloegr, fel y gwyddoch. Clywais innau hefyd yr ymateb gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Wrth gwrs, mae hwn yn fater y bydd y Gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei hysbysu amdano, gan fod y cyfrifoldeb hwnnw gan y cyngor. Wrth gwrs, mae'n eglur iawn, fel y dywedwch, pa mor bwysig yw hi ein bod yn gwerthfawrogi ein proffesiwn nyrsio a'r safonau maen nhw'n cydymffurfio â nhw yma yng Nghymru.

In terms of your second point, of course, the Minister for Economy, Science and Transport is well aware of the developments with Five Mile Lane. Of course, it's in my constituency as well as in your region, and we will ensure there is an update on this in terms of the Vale of Glamorgan Council's responsibility for management of it.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwbl ymwybodol o'r datblygiadau ar Five Mile Lane. Wrth gwrs, mae yn fy etholaeth i yn ogystal â'ch rhanbarth chi, a byddwn yn sicrhau bod diweddariad ar hyn o ran cyfrifoldeb Cyngor Bro Morgannwg am ei reoli.

14:24 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, the National Procurement Service is currently in the process of awarding an all-Wales cleaning services framework contract for the entire Welsh public sector, and that's for the entirety of the Welsh public estate. Now, small businesses in Ceredigion have raised with me that they have no chance of competing for such a framework contract, and this is an example of how small businesses are excluded from public procurement in Wales. I'd like to ask, therefore, for a statement specifically from you, as Minister, on how an all-Wales cleaning services framework contract, which is to be awarded this month, can support local businesses in Wales. They are businesses that have cleaned our windows, cleaned our toilets and our floors for decades in the past and are now excluded from doing so into the future.

Weinidog, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wrthi'n dyfarnu contract fframwaith gwasanaethau glanhau Cymru gyfan ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru, ac mae hynny ar gyfer ystâd gyhoeddus gyfan Cymru. Nawr, mae busnesau bach yng Ngheredigion wedi codi gyda mi nad oes ganddyn nhw unrhyw siawns o gystadlu am gontract fframwaith o'r fath, ac mae hon yn enghraifft o sut mae busnesau bach yn cael eu heithrio o gaffael cyhoeddus yng Nghymru. Hoffwn ofyn, felly, am ddatganiad gennych chi'n benodol, fel Gweinidog, ar sut all contract fframwaith gwasanaethau glanhau Cymru gyfan, sydd i'w ddyfarnu y mis hwn, gefnogi busnesau lleol yng Nghymru. Maen nhw'n fusnesau sydd wedi glanhau ein ffenestri, glanhau ein toiledau a'n lloriau ers degawdau yn y gorffennol ac, erbyn hyn, maen nhw'n cael eu heithrio rhag gwneud hynny yn y dyfodol.

14:25 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, I thank Elin Jones for that question. I'm very happy to come forward to the Assembly and explain. I will write to all Members to explain the arrangements for the National Procurement Service's all-Wales cleaning services framework. Of course, this is the National Procurement Service, which involves all the public sector in Wales, and it is clear that, in terms of the subcontracting and the supply chain in terms of these frameworks, this has to be able to support SMEs and microbusinesses, of course. But we also know that there are many multinationals also cleaning, and providing those cleaning services in Wales. But I will come back to Members with a response to this.

Wel, diolchaf i Elin Jones am y cwestiwn yna. Rwy'n hapus iawn i ddod gerbron y Cynulliad ac esbonio. Byddaf yn ysgrifennu at yr holl Aelodau i egluro'r trefniadau ar gyfer fframwaith gwasanaethau glanhau Cymru gyfan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Wrth gwrs, y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yw hwn, sy'n cynnwys y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru, ac mae'n amlwg, o ran yr is-gontractio a'r gadwyn gyflenwi o ran y fframweithiau hyn, bod yn rhaid i hyn allu cefnogi busnesau bach a chanolig a microfusnesau, wrth gwrs. Ond rydym ni hefyd yn gwybod bod llawer o gwmnïau rhyngwladol yn glanhau hefyd, ac yn darparu'r gwasanaethau glanhau hynny yng Nghymru. Ond dof yn ôl at yr Aelodau gydag ymateb i hyn.

14:26 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, last week, I hosted and sponsored an Action on Smoking and Health Cymru event here in the Senedd, in which they highlighted some of the campaigns they're running on illegal tobacco and on smoke-free open spaces, and their efforts to actually reduce and tackle smoking.

Weinidog, yr wythnos diwethaf, cynhaliais a noddais ddigwyddiad Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd Cymru yma yn y Senedd, pryd y tynnwyd sylw at rai o'r ymgyrchoedd maen nhw'n eu rhedeg ar dybaco anghyfreithlon a mannau agored di-fwg, a'u hymdrechion i leihau a mynd i'r afael â smygu.

Now, in 2011, the Welsh Government produced a tobacco control action plan, which the then health Minister reported on in 2012. But, since then, we've had no statement from the Minister for health with regard to its progress. We've got tobacco control delivery boards and a tobacco control delivery plan, but we haven't had a statement. Can the Minister for Health and Social Services produce a statement on the progress of the tobacco control action plan?

Nawr, yn 2011, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu ar reoli tybaco, yr adroddodd y Gweinidog iechyd ar y pryd arno yn 2012. Ond, ers hynny, nid ydym wedi cael unrhyw ddatganiad gan y Gweinidog iechyd ar ei gynnydd. Mae gennym ni fyrddau cyflawni ar reoli tybaco a chynllun cyflawni ar reoli tybaco, ond nid ydym wedi cael datganiad. A all y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno datganiad ar gynnydd y cynllun gweithredu ar reoli tybaco?

14:27 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, David Rees, for that question. I will ask the Minister for Health and Social Services to write to you in early July. That would be following the next meeting of the tobacco control delivery board where the plan is due to be discussed.

Diolch i chi, David Rees, am y cwestiwn yna. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu atoch ddechrau mis Gorffennaf. Byddai hynny'n dilyn cyfarfod nesaf y bwrdd cyflawni ar reoli tybaco lle disgwylir i'r cynllun gael ei drafod.

14:27 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, you'll know that I have longstanding concerns about the safety of trunk roads in my constituency. Following an investigation by the county towns, it was revealed that, in 2014, on the stretch of the A43 between Newtown and Builth Wells, 27 injuries occurred in the space of one year—that is double what it was the year prior to that—and 57 vehicles were damaged. Could the Minister for transport make a statement on what steps she is taking to improve safety on this stretch of road? It's not a long stretch, but it is disproportionately adding to the casualty figures in my constituency, and I would be grateful for some clarity on what steps the Government will take to improve the situation.

Weinidog, byddwch yn gwybod bod gennyf bryderon ers tro am ddiogelwch cefnffyrdd yn fy etholaeth. Yn dilyn ymchwiliad gan y trefi sirol, datgelwyd, yn 2014, ar y darn o'r A43 rhwng y Drenewydd a Llanfair-ym-Muallt, y bu 27 o anafiadau yn ystod un flwyddyn—mae hynny ddwywaith nifer y flwyddyn cynt—a difrodwyd 57 o gerbydau. A allai'r Gweinidog trafnidiaeth wneud datganiad ar ba gamau mae'n eu cymryd i wella diogelwch ar y darn hwn o ffordd? Nid yw'n ddarn hir, ond mae'n ychwanegu'n anghymesur at y ffigurau anafedigion yn fy etholaeth, a byddwn yn ddiolchgar am rywfaint o eglurder ar y camau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd i wella'r sefyllfa.

Secondly, could I have a statement by either the Minister for health or the Minister for agriculture and rural affairs, depending which is best seen to fit? Powys County Council have recently, in the last few days, written to organisers of events in the constituency advising them that, to carry out an event and to ensure that nobody contracts E. coli, all livestock should've been removed from event fields three weeks in advance, and a whole other list of requirements. The first casualty of this is Llanbister Show and Sports on bank holiday Monday. Because they only received this letter now, they've had to cancel their event and there is widespread concern across my constituency that traditional agricultural shows, harness racing and other events will have to be cancelled. Could you clarify for me the status of this advice? Nobody wants an E. coli outbreak, but there surely has to be a common-sense approach to ensuring both public safety and also the public enjoyment of events that have traditionally been held across rural Wales. Thank you.

Yn ail, a gaf i ddatganiad gan naill ai'r Gweinidog iechyd neu'r Gweinidog amaethyddiaeth a materion gwledig, yn dibynnu ar ba un yr ystyrir sydd fwyaf priodol? Mae Cyngor Sir Powys yn ddiweddar, yn ystod y diwrnodau diwethaf, wedi ysgrifennu at drefnwyr digwyddiadau yn yr etholaeth yn eu hysbysu, er mwyn cynnal digwyddiad ac er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un yn dal E.coli, y dylid symud yr holl dda byw o gaeau digwyddiadau dair wythnos ymlaen llaw, a rhestr faith arall o ofynion. Y cyntaf i ddioddef yn sgil hyn yw Sioe a Mabolgampau Llanbister ddydd Llun gŵyl y banc. Oherwydd mai dim ond nawr maen nhw wedi derbyn y llythyr hwn, bu'n rhaid iddyn nhw ganslo eu digwyddiad a cheir pryder eang ar draws fy etholaeth y bydd yn rhaid canslo sioeau amaethyddol traddodiadol, rasio harnais a digwyddiadau eraill. A allech chi egluro statws y cyngor hwn i mi? Nid oes unrhyw un eisiau gweld argyfwng E.coli, ond does bosib y gellir cael dull synnwyr cyffredin o sicrhau diogelwch y cyhoedd yn ogystal â mwynhad y cyhoedd o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn draddodiadol ledled Cymru wledig. Diolch yn fawr.

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Of course, this is the responsibility of Powys County Council. You have drawn our attention to this today, this afternoon, and it's very regrettable to hear that traditional and annual events, such as the one you've described, would be cancelled. But I think, in terms of the status of the advice, we need to be clear. Perhaps you could write to us and forward the advice that is being given by Powys County Council, and I'm sure that my appropriate ministerial colleagues can look into and advise on that.

Wrth gwrs, cyfrifoldeb Cyngor Sir Powys yw hyn. Rydych chi wedi tynnu ein sylw at hyn heddiw, y prynhawn yma, ac mae'n destun gofid clywed y byddai digwyddiadau traddodiadol a blynyddol, fel yr un rydych chi wedi ei ddisgrifio, yn cael eu canslo. Ond rwy'n credu, o ran statws y cyngor, bod angen i ni fod yn eglur. Efallai y gallech chi ysgrifennu atom ac anfon y cyngor sy'n cael ei roi gan Gyngor Sir Powys, ac rwy'n siŵr y gall fy nghydweithwyr gweinidogol priodol ymchwilio i hynny a chynghori arno.

That was your second question. Your first question was a very serious point about safety. This is an issue you raise, of course, in terms of a particular stretch of trunk road in your constituency, and the Minister for Economy, Science and Transport will respond to you in terms of that particular stretch of road and safety measures.

Dyna oedd eich ail gwestiwn. Roedd eich cwestiwn cyntaf yn bwynt difrifol iawn am ddiogelwch. Mae hwn yn fater a godir gennych, wrth gwrs, o ran darn penodol o gefnffordd yn eich etholaeth, a bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ymateb i chi o ran y darn penodol hwnnw o ffordd a mesurau diogelwch.

14:30 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I spent 25 years as a lecturer in further education. I'm convinced of the importance of further education—the opportunity to give people a second chance in life, and also the opportunity it gives with the 14-19 pathway to allow those who find school not to their liking another opportunity to make the most of their lives. Can I ask for a statement on the Welsh Government plans for further education in Wales?

Treuliais 25 mlynedd fel darlithydd ym maes addysg bellach. Rwy'n argyhoeddedig o bwysigrwydd addysg bellach—y cyfle i roi ail gyfle i bobl mewn bywyd, a hefyd y cyfle mae'n ei roi gyda'r llwybr 14-19 i ganiatáu i'r rhai nad ydynt yn hoffi'r ysgol gael cyfle arall i wneud y mwyaf o'u bywydau. A gaf i ofyn am ddatganiad ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg bellach yng Nghymru?

14:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Mike Hedges, for that question, in recognition, of course, of your career in further education, and the contribution that you make. You draw particular reference to the 14-19 learning pathways, which we took forward in this Welsh Government. I think it is very important that we recognise that this has been extremely difficult in terms of prioritising where our funds are spent, with huge reductions in funding from the UK Government, but also recognising that we need to protect particular age groups. Of course, it is important that we maintain funding for traineeships and continue to fund apprenticeships for those aged 16 to 24, and higher-level apprenticeships, which of course, often, the 14-19 learning pathways lead to. I certainly take on board your points in terms of that particular age cohort.

Diolch i chi, Mike Hedges, am y cwestiwn yna, gan gydnabod, wrth gwrs, eich gyrfa ym maes addysg bellach, a'r cyfraniad rydych chi'n ei wneud. Rydych chi'n cyfeirio'n benodol at y llwybrau dysgu 14-19, i ni eu datblygu yn y Llywodraeth Cymru hon. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cydnabod bod hyn wedi bod yn hynod o anodd o ran blaenoriaethu lle caiff ein cyllid ei wario, yn sgil gostyngiadau enfawr i gyllid gan Lywodraeth y DU, ond gan gydnabod hefyd bod angen i ni ddiogelu grwpiau oedran penodol. Wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn cynnal cyllid ar gyfer hyfforddeiaethau ac yn parhau i ariannu prentisiaethau ar gyfer y rhai sy'n 16-24 oed, a phrentisiaethau lefel uwch, y mae'r llwybrau dysgu 14-19 yn aml, wrth gwrs, yn arwain atynt. Rwy'n sicr yn derbyn eich pwyntiau o ran y garfan oedran benodol honno.

14:31 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for two statements, firstly on support for people with autistic spectrum conditions in Wales. This is a vital issue, affecting more than one in 100 children and adults in Wales, plus their families and carers, which the cross-party autism group, which I chair, has been raising for years. I led a debate on this in this Chamber on 21 January, which the Welsh Government addressed by a press release yesterday—not even a written statement to Members. I therefore call for a full oral statement on this matter, or even a debate in Welsh Government time, because we were promised a full response, in response to the debate I led on 21 January, not only recognising the call by the National Autistic Society, its members and supporters, to address the unacceptable long waiting times, and improve training, education, and job opportunities, but to embed that with duties in an Act in the next Assembly, as called for in January, in my debate.

Galwaf am ddau ddatganiad, yn gyntaf ar gymorth i bobl â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig yng Nghymru. Mae hwn yn fater hollbwysig, sy'n effeithio ar fwy nag un o bob 100 o blant ac oedolion yng Nghymru, yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalwyr, y mae'r grŵp awtistiaeth trawsbleidiol, yr wyf i'n ei gadeirio, wedi bod yn ei godi ers blynyddoedd. Arweiniais ddadl ar hyn yn y Siambr hon ar 21 Ionawr, y rhoddodd Lywodraeth Cymru sylw iddi mewn datganiad i'r wasg ddoe—nid hyd yn oed datganiad ysgrifenedig i'r Aelodau. Galwaf felly am ddatganiad llafar llawn ar y mater hwn, neu hyd yn oed dadl yn amser Llywodraeth Cymru, gan yr addawyd ymateb llawn i ni, mewn ymateb i'r ddadl a arweiniais ar 21 Ionawr, gan gydnabod nid yn unig yr alwad gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, ei haelodau a'i chefnogwyr, i fynd i'r afael â'r amseroedd aros annerbyniol o hir, a gwella hyfforddiant, addysg a chyfleoedd gwaith, ond i ymsefydlu hynny â dyletswyddau mewn Deddf yn y Cynulliad nesaf, fel y galwyd amdano ym mis Ionawr, yn fy nadl i.

Secondly and finally, could I call for a statement on dying and palliative care, in Dying Matters Awareness Week? I'm aware the Minister is speaking at an outside event later this week on this, but this is a matter of importance to two other cross-party groups I chair—on hospices and palliative care, and on funerals and bereavement. Worryingly, the Dying Matters coalition found in Wales that Wales prepares less than other parts of the UK for end of life, in particular identifying preferences regarding care people want, and telling people about their end-of-life wishes. We also, of course, have issues around funding for hospices in Wales, which is lower than in the rest of the UK. So, I would welcome a statement to recognise the importance of this week, and the impact of the work of this Assembly, its committees, and its cross-party groups.

Yn ail ac yn olaf, a gaf i alw am ddatganiad ar farw a gofal lliniarol, yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Marw gydag Urddas? Rwy'n ymwybodol bod y Gweinidog yn siarad mewn digwyddiad allanol yn ddiweddarach yr wythnos hon ar hyn, ond mae hwn yn fater o bwys i ddau grŵp trawsbleidiol arall rwy'n eu cadeirio—ar hosbisau a gofal lliniarol, ac ar angladdau a phrofedigaeth. Mae'n destun pryder bod clymblaid Marw gydag Urddas wedi canfod yng Nghymru bod Cymru'n paratoi llai na rhannau eraill o'r DU ar gyfer diwedd oes, yn enwedig o ran nodi dewisiadau o'r gofal y mae pobl ei eisiau, a dweud wrth bobl am eu dymuniadau diwedd oes. Mae gennym ni hefyd, wrth gwrs, broblemau'n ymwneud â chyllid i hosbisau yng Nghymru, sy'n is nag yng ngweddill y DU. Felly, byddwn yn croesawu datganiad i gydnabod pwysigrwydd yr wythnos hon, ac effaith gwaith y Cynulliad hwn, ei bwyllgorau, a'i grwpiau trawsbleidiol.

14:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I believe the Welsh Government, and our Ministers, pay great due respect to cross-party groups, and, certainly, Ministers not only respond to reports and attend meetings, but engage, because we recognise the importance of cross-party groups. Of course, in terms of those two important policy areas, the Minister for Health and Social Services was able to respond very positively, and that got attention and engagement, not just with those who are affected—and those are the important people, particularly in terms of the announcements on the response in terms of autism policy and funding. Also, of course, if you'd attended—and I'm sure you might have popped into it—the launch of the Marie Curie daffodil campaign earlier on this year, you would've also acknowledged the widespread support for the health and social services Minister, in terms of his end-of-life and palliative care strategy, and support for hospices, including St David's Hospice, of course.

Rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru, a'n Gweinidogion, yn rhoi parch mawr a dyledus i grwpiau trawsbleidiol, ac, yn sicr, nid yn unig y mae Gweinidogion yn ymateb i adroddiadau ac yn mynychu cyfarfodydd, ond yn ymgysylltu, gan ein bod yn cydnabod pwysigrwydd grwpiau trawsbleidiol. Wrth gwrs, o ran y ddau faes polisi pwysig hynny, roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu ymateb yn gadarnhaol iawn, a chafodd hynny sylw ac ymgysylltiad, nid yn unig â'r rhai sy'n cael eu heffeithio—a nhw yw'r bobl bwysig, yn enwedig o ran y cyhoeddiadau ar yr ymateb o ran polisi awtistiaeth a chyllid. Hefyd, wrth gwrs, pe byddech chi wedi bod yn bresennol—ac rwy'n siŵr y gallech chi fod wedi galw i mewn iddo—yn lansiad ymgyrch daffodil Marie Curie yn gynharach eleni, y byddech chi hefyd wedi cydnabod y gefnogaeth eang i'r Gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, o ran ei strategaeth diwedd oes a gofal lliniarol, a chefnogaeth i hosbisau, gan gynnwys Hosbis Dewi Sant, wrth gwrs.

14:35 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wonder whether the Government could bring forward a statement setting out the Government's strategy in respect of the issue of gambling addiction, which was the subject of an individual Member's debate. There are, of course, issues with regard to which powers are devolved with regard to planning and possibly the issue of devolution of licensing in respect of gaming machines. There is the issue of the Welsh health survey question with regard to that, and there's also the issue of a lack of funding, which is now being withdrawn by the Responsible Gambling Trust, which raises money from the gambling industry to deal with gambling addiction problems. It seems to me that it's quite important, now, especially as the public health director of Aneurin Bevan health board has published a report outlining the potential forthcoming risks that are beginning to be identified, that we actually have a clear Welsh Government strategy on this issue.

Weinidog, tybed a allai'r Llywodraeth gyflwyno datganiad yn nodi strategaeth y Llywodraeth o ran y mater o gaethiwed i gamblo, a oedd yn destun dadl Aelod unigol. Ceir, wrth gwrs, problemau o ran pa bwerau sydd wedi eu datganoli ynglŷn â chynllunio ac o bosibl y mater o ddatganoli trwyddedu o ran peiriannau hapchwarae. Ceir y mater o gwestiwn arolwg iechyd Cymru o ran hynny, a hefyd y mater o ddiffyg cyllid, sydd bellach yn cael ei dynnu'n ôl gan yr Ymddiriedolaeth Gamblo Cyfrifol, sy'n codi arian gan y diwydiant gamblo i ymdrin â phroblemau caethiwed i gamblo. Mae'n ymddangos i mi ei bod yn eithaf pwysig, nawr, yn enwedig gan fod cyfarwyddwr iechyd cyhoeddus bwrdd iechyd Aneurin Bevan wedi cyhoeddi adroddiad yn amlinellu'r risgiau posibl sydd i ddod sy'n dechrau cael eu nodi, bod gennym strategaeth Llywodraeth Cymru eglur ar y mater hwn.

14:35 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for this question, and this is something that he has taken up, raised questions on, and also hosted meetings on. He knows that we don't have the legislative competence for gambling. It's not devolved to Wales, and Ministers have urged, and are urging, the UK Government to maximise options available to address the issue of problem gambling. Indeed, the Minister for Health and Social Services has written to the UK Government to raise concerns about the effects of gambling on public health in Wales. Indeed, the Minister for Communities and Tackling Poverty has also taken this up in terms of responding to the very important individual debate that you led earlier this year.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwn, ac mae hyn yn rhywbeth y mae wedi mynd i'r afael ag ef, wedi gofyn cwestiynau yn ei gylch, a hefyd wedi cynnal cyfarfodydd yn ei gylch. Mae'n gwybod nad yw'r cymhwysedd deddfwriaethol gennym ar gyfer gamblo. Nid yw wedi ei ddatganoli i Gymru, ac mae Gweinidogion wedi annog, ac maen nhw yn annog, Llywodraeth y DU i wneud y mwyaf o'r dewisiadau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r mater o gamblo sy'n achosi problemau. Yn wir, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i godi pryderon am effeithiau gamblo ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Yn wir, mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi hefyd wedi mynd i'r afael â hyn o ran ymateb i'r ddadl unigol bwysig iawn hon i chi ei harwain yn gynharach eleni.

14:36 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n gofyn am ddau ddatganiad llafar yn y Cynulliad ar ddau benderfyniad sydd â chanlyniadau pellgyrhaeddol, a'r ddau ym myd addysg. Mae'r cyntaf ar benderfyniad Llywodraeth Cymru i derfynu cytundeb gyda Gyrfa Cymru i wirio lleoliadau mannau gwaith ar gyfer profiad gwaith i ddisgyblion ysgolion uwchradd. Yn ôl datganiad ar ran penaethiaid ysgolion uwchradd yn fy etholaeth i, sydd wedi cysylltu â mi, maen nhw'n dweud:

'Bydd profiad gwaith o dan yr amodau presennol ddim yn digwydd o fis Medi ymlaen.'

Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod ni'n clywed yn y fan hon a ydy'r Llywodraeth wedi penderfynu nad oes gwerth i brofiad gwaith.

Yr ail yw penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r cytundeb i greu endid cenedlaethol dysgu Cymraeg i oedolion i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mi hoffwn i gael datganiad llafar sy'n esbonio sut y gwnaed y penderfyniad hwn. Wedi'r cwbl, nid oes gan y sefydliad arbennig yma ddim hanes nac arbenigedd yn y maes. Y peth pwysicaf ydy cael cyfle i holi'r Gweinidog ar y mater ac i gael gweld y ceisiadau a sut y daethpwyd i'r penderfyniad.

I'm asking for two oral statement in the Assembly on two decisions that have far-reaching consequences, both of which relate to education. The first is on the Welsh Government's decision to terminate its contract with Careers Wales for it to vet work experience placement settings for secondary school pupils. According to a statement by the heads of secondary schools in my constituency, who have contacted me, they say:

Work experience under the existing conditions will no longer take place from September onwards.

I think it's important that we hear here whether the Government has decided that there is no value in work experience.

The second is the Welsh Government's decision to award the contract for the creation of a national entity for teaching Welsh for adults to the University of Wales Trinity Saint David. I'd like an oral statement outlining how this decision was made. After all, this particular establishment has no previous history or expertise in the field. Most importantly, we'd like the opportunity to question the Minister on the matter and to see the submissions and how the decision was reached.

14:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. I do need to go back to the Minister on both these points in relation to the changes that may have taken place in terms of Careers Wales and their responsibility for work experience placements. In fact, in terms of your second question, last week, we did announce the University of Wales Trinity Saint David's success in their application to host the new national entity and lead the Welsh for adult sector on a national level. The Minister is confident that the University of Wales Trinity Saint David's emphasis on the learner experience and its long-term vision for Welsh for adults will lead to exciting changes, with a funding allocation of £780,000 provided up to 31 July 2016.

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Mae angen i mi fynd yn ôl at y Gweinidog ar y ddau bwynt hyn o ran y newidiadau a allai fod wedi eu gwneud ynglŷn â Gyrfa Cymru a'u cyfrifoldeb am leoliadau profiad gwaith. Yn wir, o ran eich ail gwestiwn, cyhoeddwyd gennym yr wythnos diwethaf lwyddiant Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn eu cais i gynnal yr endid cenedlaethol newydd ac arwain y sector Cymraeg i oedolion ar lefel genedlaethol. Mae'r Gweinidog yn hyderus y bydd pwyslais Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar brofiad y dysgwr a'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Cymraeg i oedolion yn arwain at newidiadau cyffrous, gyda dyraniad cyllid o £780,000 wedi ei ddarparu hyd at 31 Gorffennaf 2016.

14:38 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I call for a statement or a debate in Government time on what we can do here as an Assembly to re-categorise children's fancy dress clothing from toys to children's clothing? This campaign has been started following the tragic circumstances surrounding Claudia Winkleman's daughter last Halloween, when she received significant burns wearing a fancy dress costume. She was one of 21 children last year who were admitted to hospital with similar episodes of either costumes melting or being set alight. The fact that toys are less stringently regulated than clothes means that there is a legal loophole, and I just wondered whether this Chamber could debate this and see what we can do. This campaign has the support of chief fire officers and the support of many people, but sadly, the supermarkets will stick to the law, which says that fancy dress costumes are toys and therefore don't have to be covered, under law. So, could we have a statement or a debate in this Chamber to add our weight to that very serious claim?

Weinidog, a gaf i alw am ddatganiad neu ddadl yn amser y Llywodraeth am yr hyn y gallwn ei wneud yma fel Cynulliad i ail-gategoreiddio dillad gwisg ffansi plant o deganau i ddillad plant? Dechreuwyd yr ymgyrch hon yn dilyn yr amgylchiadau trasig yn ymwneud â merch Claudia Winkleman Galan Gaeaf diwethaf, pan ddioddefodd losgiadau sylweddol yn gwisgo gwisg ffansi. Roedd hi'n un o 21 o blant a dderbyniwyd i'r ysbyty y llynedd yn sgil achosion tebyg naill ai o wisgoedd yn toddi neu'n mynd ar dân. Mae'r ffaith bod teganau'n cael eu rheoleiddio'n llai llym na dillad yn golygu bod bwlch yn y rheolau cyfreithiol, ac roeddwn i'n meddwl tybed a allai'r Siambr hon drafod hyn a gweld beth allwn ni ei wneud. Mae prif swyddogion tân a llawer o bobl yn cefnogi'r ymgyrch hon, ond yn anffodus, bydd yr archfarchnadoedd yn cadw at y gyfraith, sy'n dweud mai teganau yw gwisgoedd ffansi ac felly nad oes rhaid eu cynnwys dan y gyfraith. Felly, a allem ni gael datganiad neu ddadl yn y Siambr hon i ychwanegu ein pwysau at yr honiad difrifol iawn hwnnw?

14:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think Ann Jones has made us aware today of a very important campaign in terms of the prospects of re-categorising children's fancy dress clothing from toys to clothes. The Minister for Public Services has indicated that he will make a written statement on this in due course.

Rwy'n meddwl bod Ann Jones wedi ein gwneud ni'n ymwybodol heddiw o ymgyrch bwysig iawn o ran y rhagolygon o ail-gategoreiddio dillad gwisg ffansi plant o deganau i ddillad. Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dweud y bydd yn gwneud datganiad ysgrifenedig ar hyn maes o law.

14:40 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the House, earlier this afternoon, the First Minister stated his emphatic opposition to any EU referendum taking place either on the same day as, or indeed in the time leading up to, the Welsh general election next year. I'm very pleased to hear that, because it was something that preoccupied last week's cross-party group on Europe, which was attended by three of Wales's four MEPs and a number of Members in this Chamber, as well as many others. Also, it ties in with concerns that have been expressed by people throughout Wales that there is a real danger that these two important sets of decisions might be conflated and that would be to the detriment of the decision. In the context of that, leader of the House, would you set aside time for these matters to be discussed, so that we can best hear the view of this Assembly on this vital issue? As I've said, it's also a matter upon which I've tabled a statement of opinion, for which I would appreciate support, but I think this matter's got to be sorted out as soon as possible, as is the best way of us bringing influence to bear upon the newly elected Westminster Government.

Arweinydd y Tŷ, yn gynharach y prynhawn yma, nododd y Prif Weinidog ei wrthwynebiad pendant i gynnal unrhyw refferendwm ar yr UE naill ai ar yr un diwrnod ag etholiad cyffredinol Cymru, nac yn wir yn y cyfnod yn arwain ato, y flwyddyn nesaf. Rwy'n falch iawn o glywed hynny, gan ei fod yn rhywbeth a oedd yn flaenllaw ym meddyliau'r grŵp trawsbleidiol ar Ewrop yr wythnos diwethaf, a fynychwyd gan dri o bedwar ASE Cymru a nifer o Aelodau yn y Siambr hon, yn ogystal â llawer o bobl eraill. Hefyd, mae'n cyd-fynd â phryderon a fynegwyd gan bobl ledled Cymru bod perygl gwirioneddol y gallai'r ddwy gyfres bwysig hyn o benderfyniadau gael eu cyfuno ac y byddai hynny'n andwyol i'r penderfyniad. Yng nghyd-destun hynny, arweinydd y Tŷ, a wnewch chi neilltuo amser i'r materion hyn gael eu trafod, fel y gallwn glywed barn y Cynulliad hwn orau ar y mater hollbwysig hwn? Fel yr wyf wedi dweud, mae hefyd yn fater yr wyf wedi cyflwyno datganiad barn yn ei gylch, y byddwn yn gwerthfawrogi cefnogaeth iddo, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid datrys y mater hwn cyn gynted â phosibl, gan mai dyma'r ffordd orau i ni allu dylanwadu ar y Llywodraeth sydd newydd ei hethol yn San Steffan.

14:41 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member very much for that question. Of course, the First Minister did, as you say, make his views very clear on this matter this afternoon. We want different dates for the Welsh general election and the EU referendum: people are being asked to make two big decisions about the future of their country and it's right that each important debate be held separately. I was also very struck by the points that Simon Thomas made earlier on in response to the First Minister, and the important call for the multi-party, business-community, all-engaging civic society campaign that we will have to consider taking forward. Of course, also, I would say that I've already commented on our respect for cross-party groups, and I believe that the meeting that you held, the cross-party group, was very important. So, we will consider appropriate ways and discuss with business managers appropriate ways in which we could discuss this further.

Diolch yn fawr iawn i'r Aelod am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, gwnaeth y Prif Weinidog, fel y dywedwch, ei farn yn eglur iawn ar y mater hwn y prynhawn yma. Rydym ni eisiau gwahanol ddyddiadau ar gyfer etholiad cyffredinol Cymru a refferendwm yr UE: gofynnir i bobl wneud dau benderfyniad mawr am ddyfodol eu gwlad ac mae'n briodol bod y ddwy ddadl bwysig yn cael eu cynnal ar wahân. Cefais fy nharo hefyd gan y pwyntiau a wnaeth Simon Thomas yn gynharach wrth ymateb i'r Prif Weinidog, a'r alwad bwysig am yr ymgyrch aml-blaid, cymuned fusnes, cymdeithas ddinesig sy'n ymgysylltu â phawb y bydd yn rhaid i ni ystyried ei datblygu. Wrth gwrs, hefyd, byddwn yn dweud fy mod i eisoes wedi cynnig sylwadau ar ein parch tuag at y grwpiau trawsbleidiol, ac rwy'n credu bod y cyfarfod a gynhaliwyd gennych, y grŵp trawsbleidiol, yn bwysig iawn. Felly, byddwn yn ystyried ffyrdd priodol ac yn trafod ffyrdd priodol gyda rheolwyr busnes o ran sut y gallem drafod hyn ymhellach.

14:42 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, can I ask for two statements from the Minister for Health and Social Services? The first is on the impact of immigration and asylum on GP and other NHS service providers. I've been contacted by a number of GPs, particularly in Cardiff and the Vale area, who feel they are having great difficulty in coping with the pressures that asylum seekers in particular are putting on their practices. This is particularly in view of some of the communication difficulties that are posed when people who are not English or Welsh speakers turn up for services and, of course, because sometimes the unfamiliarity of those from overseas with our public services means that they do get lots of people booking GP appointments who don't actually need a GP service at all. So, it would be really helpful if I could have a statement from the Minister on what action the Welsh Government is taking to ensure that the resources are available to GP practices and other NHS service providers to be able to cope with that demand?

Weinidog, a gaf i ofyn am ddau ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? Mae'r cyntaf ar effaith mewnfudo a lloches ar feddygon teulu a darparwyr gwasanaethau eraill y GIG. Mae nifer o feddygon teulu wedi cysylltu â mi, yn enwedig yn ardal Caerdydd a'r Fro, sy'n teimlo eu bod yn cael anhawster mawr yn ymdopi â'r pwysau y mae ceiswyr lloches yn arbennig yn ei roi ar eu practisau. Mae hyn yn arbennig o ystyried rhai o'r anawsterau sy'n codi pan fydd pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg yn dod i ddefnyddio gwasanaethau ac, wrth gwrs, gan fod y ffaith fod y rhai o dramor weithiau'n anghyfarwydd â'n gwasanaethau cyhoeddus yn golygu eu bod yn cael llawer o bobl yn trefnu apwyntiadau meddyg teulu nad oes angen gwasanaeth meddyg teulu arnynt o gwbl mewn gwirionedd. Felly, byddai o gymorth mawr pe gallwn i gael datganiad gan y Gweinidog ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod yr adnoddau ar gael i bractisau meddygon teulu a darparwyr gwasanaethau eraill y GIG i allu ymdopi â'r galw hwnnw?

Secondly, can I have another statement from the Minister for Health and Social Services on food hygiene standards in Welsh hospitals? I was absolutely appalled to discover this week that the food hygiene rating for Glan Clwyd Hospital, which serves the bulk of people in my constituency, is just a 2 out of the 0 to 5 rating. Indeed, the food hygiene and safety rating was classified as 'poor' and in need of urgent attention. I, for one, certainly feel that hospitals, schools and any other areas where children and vulnerable people are being catered for should set a very high standard as far as food hygiene is concerned. It does concern me greatly that one of our hospitals in north Wales, certainly, has a very low rating indeed. I think that there needs to be some swift attention to this matter from Welsh Government Ministers to ensure that standards are raised in all of our hospitals where they fall short.

Yn ail, a gaf i ddatganiad arall gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar safonau hylendid bwyd yn ysbytai Cymru? Cefais fy siomi'n fawr o ddarganfod yr wythnos hon mai'r sgôr hylendid bwyd ar gyfer Ysbyty Glan Clwyd, sy'n gwasanaethu'r rhan fwyaf o bobl yn fy etholaeth i, yw dim ond 2 o'r ystod o 0-5. Yn wir, dosbarthwyd y sgôr hylendid a diogelwch bwyd fel 'gwael' ac angen sylw brys. Rwyf i, yn un, yn sicr yn teimlo y dylai ysbytai, ysgolion ac unrhyw fannau eraill lle darperir ar gyfer plant a phobl agored i niwed osod safon uchel iawn cyn belled ag y mae hylendid bwyd yn y cwestiwn. Mae'n peri pryder mawr i mi bod un o'n hysbytai yn y gogledd, yn sicr, â sgôr isel iawn yn wir. Credaf fod angen cael rhywfaint o sylw cyflym i'r mater hwn gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod safonau'n cael eu codi ym mhob un o'n hysbytai lle nad ydynt yn ddigon da.

14:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think, Darren Millar, that you will be aware, I am sure, that, for decades, the Welsh NHS has handled and supported refugees and asylum seekers in Wales, and, certainly, that's been a very important part of its service. Of course, that includes primary care in terms of GPs as well.

Rwy'n credu, Darren Millar, y byddwch yn ymwybodol, rwy'n siŵr, bod y GIG yng Nghymru ers degawdau wedi cefnogi ac ymdrin â ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, ac, yn sicr, mae hynny wedi bod yn rhan bwysig iawn o'i wasanaeth. Wrth gwrs, mae hynny'n cynnwys gofal sylfaenol o ran meddygon teulu hefyd.

On your second point, of course, we're very proud of our food hygiene legislation, which we brought forward and is now on the statute book. It is precisely because we have endorsed that food hygiene legislation that we can now monitor and provide those ratings, which do now ensure that all those who handle food actually have to be monitored, be clearly identified and then take action, as a result of the ratings.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, rydym yn falch iawn o'n deddfwriaeth hylendid bwyd, a gyflwynwyd gennym ni ac sydd ar y llyfr statud erbyn hyn. Yn union oherwydd ein bod wedi cymeradwyo'r ddeddfwriaeth hylendid bwyd honno, gallwn ni nawr fonitro a darparu'r sgoriau hynny, sydd yn sicrhau erbyn hyn bod yn rhaid i bawb sy'n trin bwyd gael eu monitro, eu nodi'n eglur ac yna, gymryd camau, o ganlyniad i'r sgoriau.

14:45 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cais am ddatganiadau sydd gennyf fi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr newydd benderfynu rhoi'r gorau i gomisiynu gwlâu gofal a nyrsio ar gyfer y cleifion mwyaf bregus yng nghartref Sant Tysilio, a hynny oherwydd pryder am ddarpariaeth gofal a phroblemau sy'n codi, rwy'n deall, oherwydd prinder a chysondeb staff cymwys. Mae hynny'n golygu bod angen dod o hyd i wlâu a gofal ar frys ar gyfer 20 o bobl. Rwy'n deall nad oes ond lle i 10 o bobl ar gael yng Ngwynedd a Chonwy, a dim un lle ar gael yn Ynys Môn. Mae teulu un preswylydd wedi cysylltu â fi yn bryderus iawn am ei lles hi ac, wrth gwrs, am y pellter mawr y bydd yn rhaid iddyn nhw ei deithio i ymweld â hi. A gaf i, felly, wneud cais am ddatganiadau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar lefelau staffio y nyrsio cymwys sydd ar gael ar gyfer y sector gofal ac ar argaeledd llefydd mewn cartrefi gofal ar gyfer y cleifion mwyaf dwys yn y gogledd-orllewin? Mae hi'n amlwg yn sefyllfa gwbl, gwbl argyfyngus.

I have a request for statements from the Minister for Health and Social Services. Anglesey council and Betsi Cadwaladr health board have just decided to cease commissioning nursing care beds for the most vulnerable patients in the Sant Tysilio home, because of concern about the provision of care and problems arising, as I understand it, because of a shortage of qualified staff and a lack of continuity. That means that there is a need to find emergency beds and care for 20 people. I understand that there is room for only 10 available in Gwynedd and Conwy, and no room at all available on Anglesey. The family of one resident has contacted me, and they're very anxious about her wellbeing and, of course, about the lengthy distances that they will have to travel to visit her. May I, therefore, request statements from the Minister for Health and Social Services on the qualified nurse staffing levels available in the care sector and on the availability of places in care homes for the most vulnerable patients in north-west Wales? It is clearly a desperately critical situation.

14:47 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, the Member has rightly drawn attention to this as a result of representations from constituents about this situation, which is the responsibility of the Betsi Cadwaladr university health board and Anglesey county council. This is an issue of concern, which the Member has raised today, and I'm sure that he will not just be raising it with the two organisations—the county council and the health board—but also, of course, he is raising it and putting it on the record today as part of my business statement.

Wel, wrth gwrs, mae'r Aelod yn iawn i dynnu sylw at hyn o ganlyniad i sylwadau gan etholwyr am y sefyllfa hon, sy'n gyfrifoldeb i fwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae hwn yn fater sy'n peri pryder, y mae'r Aelod wedi ei godi heddiw, ac rwy'n siŵr na fydd yn nid yn unig yn ei godi gyda'r ddau sefydliad—y cyngor sir a'r bwrdd iechyd—ond hefyd, wrth gwrs, mae'n ei godi ac yn ei roi ar y cofnod heddiw yn rhan o fy natganiad busnes.

14:48 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, I am seeking a statement from the Minister for Communities and Tackling Poverty on the Government's attitude to a letter circulated by Coastal Housing Group to their tenants, in which they have informed their tenants that they intend to share their rental payment history with credit reference agency Experian, as part of what is known as a rental exchange—the idea being that, by sharing the rental payment history of their tenants with Experian, they will create an online proof of identity, proving you are who you say you are and that you live where you say you live. They say that a good credit profile will make it easier for tenants to open or change bank accounts, shop online, receive better mobile phone rates, receive better gas and electricity rates or obtain more affordable credit. I don't dispute a good credit rating opens that to you. However, many of these tenants are vulnerable. A number of them will have poor rental payment histories and, of course, there is the other factor that we now have a housing association pushing their tenants towards commercial credit as opposed to the not-for-profit sector, which the Government has previously encouraged them to do. As I understand it, Coastal Housing are the only housing association doing this sort of thing, though they say they are working with Big Issue Invest in doing that. I'd be interested in whether the Government feels that this is an appropriate use of the information that Coastal Housing hold on their tenants, whether they feel that this is the right approach in terms of helping tenants who are socially excluded in credit terms, and whether they feel that it might push those tenants towards pay-day lenders if they find that this worsens their credit history. Thank you.

Arweinydd y tŷ, gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar agwedd y Llywodraeth at lythyr a ddosbarthwyd gan Grŵp Tai Coastal ymhlith ei denantiaid, lle maen nhw wedi hysbysu eu tenantiaid eu bod yn bwriadu rhannu eu hanes talu rhent gydag asiantaeth cyfeirio credyd Experian, yn rhan o'r hyn a elwir yn gyfnewid rhent—y syniad yw, trwy rannu hanes talu rhent eu tenantiaid gydag Experian, y byddant yn creu prawf adnabod ar-lein, sy'n profi mai chi yw pwy yr ydych chi'n ddweud ydych chi a'ch bod yn byw yn lle yr ydych chi'n dweud eich bod yn byw. Maen nhw'n dweud y bydd proffil credyd da yn ei gwneud yn haws i denantiaid agor neu newid cyfrifon banc, siopa ar-lein, cael prisiau gwell ar gyfer ffôn symudol, cael cyfraddau nwy a thrydan gwell neu gael credyd mwy fforddiadwy. Nid wyf yn amau bod statws credyd da yn rhoi hynny ar gael i chi. Fodd bynnag, mae llawer o'r tenantiaid hyn yn agored i niwed. Bydd gan nifer ohonynt hanes talu rhent gwael ac, wrth gwrs, ceir y ffactor arall nawr bod gennym gymdeithas tai sy'n gwthio eu tenantiaid tuag at gredyd masnachol yn hytrach na'r sector dielw, y mae'r Llywodraeth wedi eu hannog i wneud yn y gorffennol. Yn ôl a ddeallaf, Tai Coastal yw'r unig gymdeithas dai sy'n gwneud y math yma o beth, er eu bod yn dweud eu bod yn gweithio gyda Big Issue Invest wrth wneud hynny. Byddai gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod pa un a yw'r Llywodraeth yn teimlo bod hyn yn ddefnydd priodol o'r wybodaeth sydd gan Tai Coastal am eu tenantiaid, pa un a yw'n teimlo mai dyma'r dull cywir o ran helpu tenantiaid sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol o ran credyd, a pha un a ydynt yn teimlo y gallai hyn wthio'r tenantiaid hynny tuag at fenthycwyr diwrnod cyflog os byddant yn canfod bod hyn yn gwaethygu eu hanes credyd. Diolch yn fawr.

14:49 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I thank Peter Black for drawing our attention to that this afternoon. The Minister for Communities and Tackling Poverty is happy to look into this and would want to meet with you to discuss it further.

Wel, diolchaf i Peter Black am dynnu ein sylw at hynna y prynhawn yma. Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn hapus i ymchwilio i hyn a byddai'n awyddus i gyfarfod â chi i'w drafod ymhellach.

14:50

## 3. Datganiad: Llysgenhadon Cyllid yr UE

## 3. Statement: EU Funding Ambassadors

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the Minister for Finance and Government Business on EU funding ambassadors. Once again, I call Jane Hutt.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am lysgenhadon cyllid yr UE. Unwaith eto, rwyf yn galw ar Jane Hutt.

14:50 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I am pleased to update Members today on the work of the EU funding ambassadors whom I appointed last December to help promote and maximise opportunities of the EU's directly managed funding programmes. As Members are aware, I made these appointments in direct response to the Enterprise and Business Committee's report on EU funding opportunities for 2014-20, published in July 2014.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau heddiw am waith llysgenhadon cyllid yr UE a benodwyd gennyf fis Rhagfyr diwethaf i helpu i hyrwyddo cyfleoedd rhaglenni ariannu a reolir yn uniongyrchol gan yr UE a gwneud y gorau ohonynt. Fel y gŵyr yr Aelodau, gwneuthum y penodiadau hyn fel ymateb uniongyrchol i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar gyfleoedd ariannu'r UE ar gyfer 2014-20, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014.

The ambassadors, namely Dr Grahame Guilford, Dr Hywel Ceri Jones, and Gaynor Richards MBE, bring considerable knowledge and experience of European policies and funding, and of working with public, private and third sector stakeholders. They've already been actively engaging with a number of stakeholders, including the Welsh Local Government Association, the Wales Council for Voluntary Action, the Federation of Small Businesses, and the European Commission to help establish how we can make better use of the opportunities that the range of EU programmes present to Wales.

Mae gan y llysgenhadon, sef Dr Grahame Guilford, Dr Hywel Ceri Jones, a Gaynor Richards MBE, wybodaeth a phrofiad sylweddol o bolisïau a chyllid Ewropeaidd, ac o weithio gyda rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Maent eisoes wedi ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Ffederasiwn y Busnesau Bach, a'r Comisiwn Ewropeaidd i helpu i ganfod sut y gallwn wneud gwell defnydd o'r cyfleoedd y mae ystod o raglenni'r UE yn eu cyflwyno i Gymru.

Hywel Ceri Jones and Gaynor Richards took part in my St David's Day Brussels visit, which highlighted the progress of the EU-funded Swansea bay innovation campus, and they also took part in the Welsh Government's annual St David's Day reception to showcase Wales to our partners across Europe. They also attended a Wales House meeting that I chaired, involving representation from Welsh local government, higher education and Welsh Government Brussels representation.

Cymerodd Hywel Ceri Jones a Gaynor Richards ran o fy ymweliad Dydd Gŵyl Dewi â Brwsel, i dynnu sylw at hynt y campws arloesi a ariannwyd gan yr UE ym mae Abertawe, a buont hefyd yn nerbyniad Dydd Gŵyl Dewi blynyddol Llywodraeth Cymru i arddangos Cymru i'n partneriaid ledled Ewrop. Roeddent hefyd yn bresennol mewn cyfarfod Tŷ Cymru a gadeiriwyd gennyf fi, ynghyd â chynrychiolwyr llywodraeth leol yng Nghymru, addysg uwch a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ym Mrwsel.

During their Brussels visit, a series of very productive meetings were held with key European Commission officials responsible for regional policy, employment, social affairs and inclusion, education and culture. They discussed emerging proposals around urban areas, youth policy, and Erasmus+. They also met with Lowri Evans, director-general for maritime affairs and fisheries, to discuss maritime issues and the wider delivery of integrated EU funding programmes. As these directly managed EU funding programmes cut across the Welsh Government, the ambassadors have met with ministerial colleagues and their officials in their initial phase of work. Further meetings are planned, and I am pleased at both the positive reaction that I've received on their appointment and for the open and willing engagement across Government to help progress their work.

Yn ystod eu hymweliad â Brwsel, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd cynhyrchiol iawn â swyddogion allweddol y Comisiwn Ewropeaidd sy'n gyfrifol am bolisi rhanbarthol, cyflogaeth, materion cymdeithasol a chynhwysiant, addysg a diwylliant. Buont yn trafod cynigion sy'n dod i'r amlwg o safbwynt ardaloedd trefol, polisi ieuenctid, ac Erasmus+. Buont hefyd yn cwrdd â Lowri Evans, cyfarwyddwr cyffredinol materion morol a physgodfeydd, i drafod materion morol a chyflwyno rhaglenni ariannu integredig yr Undeb Ewropeaidd yn ehangach. Gan fod y rhaglenni cyllid hyn a reolir yn uniongyrchol gan yr UE yn rhai sy'n berthnasol ar draws Llywodraeth Cymru, mae'r llysgenhadon wedi cwrdd â chydweithwyr gweinidogol a'u swyddogion yng nghyfnod cyntaf eu gwaith. Mae cyfarfodydd pellach ar y gweill, ac rwyf yn falch â'r ymateb cadarnhaol yr wyf wedi'i gael ers eu penodi ac â'r ymgysylltu agored a pharod ar draws y Llywodraeth i helpu i ddatblygu eu gwaith.

On the recommendations of the ambassadors, and with my backing, WEFO has helped to establish a network of Welsh Government officials to represent and report on the European interests of each policy portfolio. The network's first meeting was held last week to map out existing and potential future engagement arrangements. The ambassadors will use this, and other intelligence, to report to me in the autumn on funding opportunities that offer greatest potential for Wales.

O safbwynt argymhellion y llysgenhadon, a gyda fy nghefnogaeth i, mae WEFO wedi helpu i sefydlu rhwydwaith o swyddogion Llywodraeth Cymru i gynrychioli pob portffolio polisi ac adrodd ar fuddiannau Ewropeaidd y portffolios hynny. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y rhwydwaith yr wythnos diwethaf i fapio trefniadau ymgysylltu presennol a rhai posibl yn y dyfodol. Bydd y llysgenhadon yn defnyddio hyn, a gwybodaeth arall, i roi adroddiad imi yn yr hydref ar y cyfleoedd ariannu sy'n cynnig y potensial mwyaf i Gymru.

Going forward, I've asked the EU funding ambassadors to focus their efforts on the directly managed programmes that can produce the greatest benefits for Wales and offer opportunities for synergy with other EU and domestic funding streams, including the structural funds and rural development programmes. In this context, I've asked Hywel Ceri Jones to review all-Wales participation in the Erasmus and Creative Europe programmes. Hywel has already held initial discussions with senior staff in the Department for Education and Skills and with the British Council, which provides support for Erasmus across the UK. He is also engaged in examining the role of universities throughout Wales in embedding a strategy of internationalism for their study and teaching programmes.

Wrth symud ymlaen, rwyf wedi gofyn i lysgenhadon cyllid yr UE ganolbwyntio eu hymdrechion ar y rhaglenni a reolir yn uniongyrchol a all greu'r manteision mwyaf i Gymru ac sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer synergedd â ffrydiau ariannu eraill yr UE a rhai domestig, gan gynnwys rhaglenni'r cronfeydd strwythurol a datblygu gwledig. Yn y cyd-destun hwn, rwyf wedi gofyn i Hywel Ceri Jones adolygu cyfranogiad Cymru gyfan yn rhaglenni Erasmus ac Ewrop Greadigol. Mae Hywel eisoes wedi cynnal trafodaethau cychwynnol â staff uwch yn yr Adran Addysg a Sgiliau a gyda'r Cyngor Prydeinig, sy'n darparu cefnogaeth i Erasmus ledled y DU. Mae hefyd wrthi'n archwilio swyddogaeth prifysgolion ledled Cymru o ran ymgorffori strategaeth ryngwladoliaeth ar gyfer eu rhaglenni astudio ac addysgu.

Grahame Guilford is focusing on economic development, combining his ambassador role with his work on the life sciences business development programme. This programme involves significant activity in Europe, and there are considerable synergies to be made with Horizon 2020, European territorial co-operation and European Research Council funding. Grahame's work in particular will involve identifying best practice within industry clusters in Europe and how this may be applied in Wales.

Mae Grahame Guilford yn canolbwyntio ar ddatblygu economaidd, gan gyfuno ei swyddogaeth fel llysgennad â'i waith ar y rhaglen datblygu busnes gwyddorau bywyd. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys llawer o weithgarwch yn Ewrop, ac mae cryn dipyn o synergeddau i'w gwneud â Horizon 2020, cydweithredu tiriogaethol Ewropeaidd ac arian y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd. Bydd gwaith Grahame yn benodol yn golygu dod o hyd i arfer gorau o fewn clystyrau diwydiant yn Ewrop a sut y gellir cymhwyso hyn yng Nghymru.

In February, Grahame presented at the health, care and life sciences workshop during WEFO's event to mark the first anniversary of Horizon 2020. The event set out the strategic approach to research and innovation in Wales, and the practical and financial support available for Welsh organisations to access Horizon 2020. I'm pleased that we're making good progress with Horizon 2020, with companies such as MEDLIGHT, High Performance Computing and Swansea and Cardiff universities having already been successful with a number of bids.

Ym mis Chwefror, cyflwynodd Grahame yn y gweithdy iechyd, gofal a gwyddorau bywyd yn ystod digwyddiad WEFO i nodi pen-blwydd cyntaf Horizon 2020. Roedd y digwyddiad yn nodi'r agwedd strategol at ymchwil ac arloesi yng Nghymru, a'r cymorth ymarferol ac ariannol sydd ar gael i sefydliadau yng Nghymru i gael mynediad i Horizon 2020. Rwyf yn falch ein bod yn gwneud cynnydd da â Horizon 2020, ac mae cwmnïau fel MEDLIGHT, Cyfrifiadura Perfformiad Uchel a phrifysgolion Abertawe a Chaerdydd eisoes wedi gwneud nifer o geisiadau llwyddiannus.

There are also significant EU funding opportunities for the third sector, especially those relating to tackling poverty and social exclusion, and I am pleased that Gaynor Richards has been taking forward this area of work. We are all conscious of the huge importance of encouraging local partnerships at the grass-roots level to target those most in need and build new opportunities. Gaynor and Hywel have been especially active in arranging a WCVA conference last week, at which Gaynor was a keynote speaker and Hywel chaired the concluding panel. The conference was designed to demonstrate how the wide range of EU funding opportunities, which the third sector can access, contributes to Wales's economic and social transformation.

Mae cyfleoedd sylweddol hefyd i'r trydydd sector i gael arian yr UE, yn enwedig o ran trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol, ac rwyf yn falch bod Gaynor Richards wedi bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Rydym i gyd yn ymwybodol o bwysigrwydd aruthrol annog partneriaethau lleol ar lawr gwlad i dargedu'r bobl sydd â'r angen mwyaf a chreu cyfleoedd newydd. Bu Gaynor a Hywel yn arbennig o weithgar wrth drefnu cynhadledd WCVA yr wythnos diwethaf, lle'r oedd Gaynor yn brif siaradwr a chadeiriodd Hywel y panel cloi. Bwriad y gynhadledd oedd dangos sut y mae'r ystod eang o gyfleoedd ariannu'r UE, sydd ar gael i'r trydydd sector, yn cyfrannu at drawsnewid Cymru'n economaidd ac yn gymdeithasol.

It's already clear that the ambassadors are playing an important role in helping to raise awareness of the EU funds managed by the European Commission. Their work and ideas feed into the communications measures also being undertaken by the Welsh Government and partners for the regional and rural programmes, which Wales leads on. Of particular importance will be the new European fund for strategic investments, also known as the Juncker plan, which will provide an additional investment of €315 billion across the EU over the next three years. I have already met with a member of European Commission Vice-President Katainen's Cabinet to discuss the plan so that Wales is at the forefront of discussions on this new initiative. I have established an internal taskforce to fully explore the opportunities of the plan as it develops.

Mae eisoes yn amlwg bod y llysgenhadon yn chwarae rhan bwysig wrth helpu i godi ymwybyddiaeth o gronfeydd yr UE a reolir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae eu gwaith a'u syniadau'n bwydo i mewn i'r mesurau cyfathrebu a ddefnyddir hefyd gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid ar gyfer y rhaglenni rhanbarthol a gwledig, lle mae Cymru'n arwain y ffordd. Bydd y gronfa Ewropeaidd newydd ar gyfer buddsoddiadau strategol, a elwir hefyd yn gynllun Juncker, yn arbennig o bwysig—bydd yn darparu buddsoddiad ychwanegol o €315 biliwn ledled yr UE dros y tair blynedd nesaf. Rwyf eisoes wedi cwrdd ag aelod o Gabinet Is-Lywydd Katainen y Comisiwn Ewropeaidd i drafod y cynllun fel bod Cymru ar flaen y gad o ran trafodaethau am y fenter newydd hon. Rwyf wedi sefydlu tasglu mewnol i archwilio cyfleoedd y cynllun yn llawn wrth iddo ddatblygu.

In conclusion, I'm very pleased with the work the EU funding ambassadors have initiated to champion the EU's directly managed programmes. I will ensure that, together, we build on the excellent progress made in the delivery of the structural funds, which have already committed over £200 million of EU funds in the six months since the programmes were launched. The Ireland-Wales programme, which I launched in March, is also under way, with the inaugural meeting of the programme monitoring committee held last month.

I gloi, rwyf yn falch iawn o'r gwaith y mae llysgenhadon cyllid yr UE wedi'i gychwyn i hyrwyddo rhaglenni a reolir yn uniongyrchol gan yr UE. Rwyf am sicrhau ein bod, gyda'n gilydd, yn adeiladu ar y cynnydd rhagorol a wnaed wrth gyflwyno'r cronfeydd strwythurol, sydd eisoes wedi neilltuo dros £200 miliwn o arian yr UE yn y chwe mis ers lansio'r rhaglenni. Mae rhaglen Iwerddon-Cymru, a lansiais ym mis Mawrth, hefyd ar y gweill; cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y pwyllgor monitro rhaglenni fis diwethaf.

The Welsh Government will continue to be an active partner in Europe, and I am deeply committed to ensuring that we in Wales grasp all opportunities presented by EU funds. This will be the best way, too, for people across Wales to understand and see for themselves the massive benefits flowing from the UK's membership of the EU.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fod yn bartner gweithredol yn Ewrop, ac rwyf wedi ymrwymo'n gryf i sicrhau ein bod ni yng Nghymru'n manteisio ar bob cyfle y mae cronfeydd yr UE yn ei gynnig inni. Dyma fydd y ffordd orau, hefyd, i bobl ledled Cymru ddeall a gweld drostynt eu hunain y manteision enfawr a ddaw o aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

14:56

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for the statement today and the update on EU funding ambassadors. The establishment of EU funding ambassadors was contained in recommendation 2 of the Enterprise and Business Committee's report into EU funding opportunities, which you mentioned earlier in your statement, so we do follow—and former members of that committee do follow—their progress with interest, and I remember evidence sessions with you on that.

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad heddiw a'r wybodaeth ddiweddaraf am lysgenhadon cyllid yr UE. Roedd sefydlu llysgenhadon cyllid yr UE yn rhan o argymhelliad 2 adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes i gyfleoedd ariannu'r UE, a grybwyllwyd gennych yn gynharach yn eich datganiad, felly rydym yn dilyn—ac mae cyn-aelodau o'r pwyllgor yn dilyn—eu cynnydd â diddordeb, ac rwyf yn cofio sesiynau tystiolaeth gyda chi ar hynny.

In the original debate on the Enterprise and Business Committee report on EU funding opportunities from 2014 onwards, I think it's true to say that the Welsh Government was not wholeheartedly enthusiastic about the establishment of funding champions. Indeed, Minister emeritus Alun Davies said that a champion was neither needed nor necessary and what was needed was a single Minister responsible for these matters. So, Minister, my first question to you would be this: have things moved on in the Welsh Government since then, and how much funding has been granted to Wales as a result of these funding ambassadors? Do they have targets and what structure have you set in place to make sure that you are able to assess whether or not they are fulfilling the roles that you require them to? You mentioned the amount of money that has been granted to Wales, but, of course, there has been structural fund money coming to Wales in the absence of funding ambassadors as well, so we need to know that they are actually getting value for money.

Yn y ddadl wreiddiol ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar gyfleoedd cyllid yr UE o 2014 ymlaen, credaf ei bod yn wir dweud nad oedd Llywodraeth Cymru'n gwbl frwdfrydig ynglŷn â sefydlu hyrwyddwyr cyllid. Yn wir, dywedodd y Gweinidog emeritws Alun Davies nad oedd angen hyrwyddwr ac mai'r hyn yr oedd ei angen oedd un Gweinidog i fod yn gyfrifol am y materion hyn. Felly, Weinidog, fy nghwestiwn cyntaf ichi yw hyn: a yw pethau wedi symud ymlaen yn Llywodraeth Cymru ers hynny, a faint o arian sydd wedi'i roi i Gymru o ganlyniad i'r llysgenhadon cyllid hyn? A oes ganddynt dargedau a pha strwythur ydych chi wedi'i roi ar waith i wneud yn siŵr eich bod yn gallu asesu a ydynt yn cyflawni'r swyddogaethau yr ydych wedi'u gosod iddynt? Soniasoch am y swm o arian a roddwyd i Gymru, ond, wrth gwrs, daeth arian o'r gronfa strwythurol i Gymru yn absenoldeb llysgenhadon cyllid hefyd, felly mae angen inni wybod eu bod mewn gwirionedd yn cael gwerth am arian.

Having ambassadors is one thing. You've mentioned engagement, and that is all-important. How are you ensuring that they actively engage with Welsh businesses and related bodies? In your written statement of December 2014, and, indeed, in today's oral statement that you've given, you said that part of the funding ambassadors' role would be to promote integration and advise on how to best maximise synergies within EU structural funds. I've paraphrased that line, actually, Minister; it was a very complicated sentence, as a lot of these terms are when it comes to EU funding. So, integration—great. Maximising synergies—great. We know full well about problems with the spending of structural funds in the past. The former First Minister, Rhodri Morgan, said that the initial round of structural funds when the Assembly came into being could have been better spent. So, what role are the EU funding ambassadors going to have in making sure that future funding, running up to 2020 at least and beyond, is going to be better spent and in a way that develops a sustainable economy, particularly in those poorer parts of Wales, and west Wales and the Valleys specifically, which have been identified in the past as having lower GDP in parts than parts of Eastern Europe?

Mae'n un peth cael llysgenhadon. Rydych wedi sôn am ymgysylltu, ac mae hynny'n hollbwysig. Sut ydych chi'n sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n weithredol â busnesau Cymru a chyrff cysylltiedig? Yn eich datganiad ysgrifenedig ym mis Rhagfyr 2014, ac, yn wir, yn y datganiad llafar yr ydych wedi'i roi heddiw, dywedasoch mai rhan o waith y llysgenhadon cyllid fyddai hyrwyddo integreiddio a chynghori ynglŷn â'r ffordd orau o sicrhau'r synergeddau mwyaf o fewn cronfeydd strwythurol yr UE. Rwyf wedi aralleirio'r llinell honno, a dweud y gwir, Weinidog; roedd yn frawddeg gymhleth iawn, fel y mae llawer o'r termau hyn sy'n ymwneud â chyllid yr UE. Felly, integreiddio—gwych. Gwneud y gorau o synergeddau—gwych. Rydym yn gwybod yn iawn am broblemau â gwario cronfeydd strwythurol yn y gorffennol. Dywedodd y cyn Brif Weinidog, Rhodri Morgan, y gallai'r cylch cyntaf o gronfeydd strwythurol pan ddaeth y Cynulliad i fodolaeth fod wedi'i wario'n well. Felly, beth y mae llysgenhadon cyllid yr UE yn mynd i'w wneud i sicrhau bod cyllid yn y dyfodol, hyd at 2020 o leiaf a thu hwnt, yn cael ei wario'n well ac mewn ffordd sy'n datblygu economi gynaliadwy, yn enwedig yn rhannau tlotaf Cymru, a'r gorllewin a'r Cymoedd yn benodol, sydd wedi cael eu nodi yn y gorffennol fel rhai sydd ag CMC is mewn rhai mannau na rhannau o Ddwyrain Ewrop?

What role will the EU ambassadors play in correcting those past mistakes? I'm pleased that you mentioned Horizon 2020—memories, again, of committee sessions looking at how Horizon 2020 would develop. What was very clear to us on that committee, when we commissioned that report, was that future funding and the accessing of it would be very closely linked to research and development. Gone are the days, as I'm sure you're aware, when you would simply be given money because an area was poorer than somewhere else. You and your Government very much have to prove now that every one of those Welsh pounds or European euros being spent is going to go towards building up that research and development base, so that sustainability is key. That's at the centre of our constitution in this Assembly, Minister. It should have been at the centre of structural funds in the past. Will you tell us how EU funding ambassadors are going to make sure that funding over the next five to 10 years is more successful than it has been in the past?

Pa ran y bydd llysgenhadon yr UE yn ei chwarae i gywiro'r camgymeriadau hynny o'r gorffennol? Rwyf yn falch eich bod wedi sôn am Horizon 2020—atgofion, unwaith eto, o sesiynau pwyllgor yn edrych ar sut y byddai Horizon 2020 yn datblygu. Yr hyn a oedd yn amlwg iawn i ni ar y pwyllgor hwnnw, pan gomisiynwyd yr adroddiad hwnnw gennym, oedd y byddai cysylltiad agos iawn rhwng cyllid yn y dyfodol a chael gafael arno ac ymchwil a datblygu. Mae'r dyddiau pan fyddech yn cael arian am y rheswm syml fod un lle yn dlotach na rhywle arall, fel yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod, wedi hen fynd. Mae'n rhaid i chi a'ch Llywodraeth fynd ati i brofi yn awr fod pob un o'r punnoedd Cymreig neu'r ewros Ewropeaidd hynny sy'n cael eu gwario'n mynd tuag at adeiladu'r sylfaen ymchwil a datblygu honno, fel bod cynaliadwyedd yn allweddol. Mae hynny'n ganolog i'n cyfansoddiad yn y Cynulliad hwn, Weinidog. Dylai fod wedi bod yn ganolog i gronfeydd strwythurol yn y gorffennol. A wnewch chi ddweud wrthym sut y bydd llysgenhadon cyllid yr UE yn gwneud yn siŵr bod yr arian yn ystod y 5 i 10 mlynedd nesaf yn fwy llwyddiannus nag y bu yn y gorffennol?

15:00

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Nick Ramsay. I'm glad that you welcomed the fact that, as the Welsh Government Minister responsible for the European structural funds, I did make use of your recommendation and thought that it would be more helpful and appropriate if we had a panel of three funding ambassadors rather than one champion, drawing on people's specific expertise across the public, private and third sectors. Of course, their role is to help promote and maximise opportunities presented by the EU's directly managed funding programmes, but also to seek that integration and that synergy with other domestic and EU funding streams.

Diolch yn fawr iawn, Nick Ramsay. Rwyf yn falch eich bod yn croesawu'r ffaith fy mod, fel y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, wedi defnyddio eich argymhelliad ac wedi meddwl y byddai'n fwy defnyddiol a phriodol pe bai gennym banel o dri llysgennad cyllid yn hytrach nag un hyrwyddwr, gan alw ar arbenigedd penodol pobl ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Wrth gwrs, eu gwaith yw helpu i hyrwyddo a hybu i'r eithaf y cyfleoedd y mae'r rhaglenni ariannu a reolir yn uniongyrchol gan yr UE yn eu cynnig, ond hefyd geisio sicrhau integreiddio a synergedd â ffrydiau ariannu eraill domestig a rhai'r UE.

Of course, I made that announcement in December. We are now in May, and they, as I'm sure you will agree, from my statement, have hit the ground running, in terms of the way in which they have taken forward this challenge with enthusiasm, to make sure that they can, of course, make that impact, which is so important, as you say, in terms of the step change that we need—the impact of European structural funds in this round.

Wrth gwrs, gwneuthum y cyhoeddiad hwnnw ym mis Rhagfyr. Rydym yn awr ym mis Mai, ac maent, fel yr wyf yn siŵr y cytunwch, o'm datganiad, wedi dechrau'n arbennig o dda, o ran y ffordd y maent wedi bwrw ymlaen yn frwdfrydig â'r her hon, i wneud yn siŵr eu bod yn gallu cael yr effaith honno, sydd mor bwysig, fel y dywedwch, o ran y newid sylweddol sydd ei angen arnom—effaith cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn y cylch hwn.

Of course, there are a number of directly managed funding streams that we could be making better use of in Wales. That's one of the gaps that was identified by that important committee report—that we are not accessing those funding streams appropriately. I have outlined to the ambassadors that it will be important for them to identify and focus their efforts where we can make the most impact, individually and collectively. I have agreed that they should focus initially on Erasmus and the Creative Europe programme. That is Hywel Ceri Jones's particular responsibility. Economic development is Grahame Guilford, and the third sector and poverty is Gaynor Richards. So, working within their respective sectors, they are keen to focus on young people and on SMEs and universities, in terms of furthering the skills and employment agenda. They were very pleased, as I was, that the Federation of Small Businesses took a full role in the St David's Day visit, which included not only the reception, as I identified, but also a number of meetings. They followed this up, as indeed officials have, and the FSB has taken a particular interest in identifying the positive impact of European structural funds on SMEs in Wales. They are still very much in fact-finding mode, but of course they are making an impact in terms of being recognised by the third, private and public sectors as independent from Government in the sense that they are there to be our ambassadors—ambassadors for EU funding in the broadest sense.

Wrth gwrs, mae nifer o ffrydiau ariannu a reolir yn uniongyrchol y gallem fod yn eu defnyddio'n well yng Nghymru. Dyna un o'r bylchau a nodwyd yn yr adroddiad pwysig hwnnw gan y pwyllgor—nad ydym yn mynd at y ffrydiau cyllid hynny'n briodol. Rwyf wedi dweud wrth y llysgenhadon y bydd yn bwysig eu bod yn nodi ac yn canolbwyntio eu hymdrechion lle y gallwn gael yr effaith fwyaf, yn unigol ac ar y cyd. Rwyf wedi cytuno y dylent ganolbwyntio i ddechrau ar Erasmus a'r rhaglen Ewrop Greadigol. Dyna yw cyfrifoldeb penodol Hywel Ceri Jones. Grahame Guilford sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd, a Gaynor Richards am y trydydd sector a thlodi. Felly, gan weithio o fewn eu priod sectorau, maent yn awyddus i ganolbwyntio ar bobl ifanc ac ar fusnesau bach a chanolig a phrifysgolion, o ran hybu'r agenda sgiliau a chyflogaeth. Roeddynt yn falch iawn, fel finnau, fod Ffederasiwn y Busnesau Bach wedi cymryd rhan yn llawn yn yr ymweliad Dydd Gŵyl Dewi, a oedd yn cynnwys nid yn unig y derbyniad, fel y nodais, ond hefyd nifer o gyfarfodydd. Maent wedi cymryd camau dilynol, fel yn wir y gwnaeth swyddogion, ac mae Ffederasiwn y Busnesau Bach wedi bod â diddordeb arbennig yn nodi effaith gadarnhaol cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Maent yn dal i fod wrthi'n canfod ffeithiau, ond wrth gwrs maent yn cael effaith o ran cael cydnabyddiaeth gan y trydydd sector, y sector preifat a'r sector cyhoeddus eu bod yn annibynnol ar y Llywodraeth gan mai eu diben yw bod yn llysgenhadon i ni—llysgenhadon ar gyfer cyllid yr UE yn yr ystyr ehangaf.

I want to just finally focus on the point about synergies and links with structural funds and other EU programmes, particularly in terms of Horizon 2020. I will just say that we have made great strides and, of course, the committee has done extensive work in terms of taking forward the opportunities with Horizon 2020. Good results are already emerging. In February this year, I announced that Microsemi, a Wales-based SME, and Swansea University had been successful in accessing Horizon 2020 funds, drawing €400,000 and €169,000, respectively. Cardiff University again has secured funding for 26 projects amounting to approximately £13 million. Last week, I announced that the High Performance Computing Wales project, working in partnership with Welsh universities, has been awarded €300,000. So, we are making progress. In total, 42 Welsh participations had been selected for funding at the end of February 2015, requesting nearly €17 million from the European Commission.

Yn olaf, hoffwn ganolbwyntio ar y pwynt am synergeddau a chysylltiadau â chronfeydd strwythurol a rhaglenni eraill yr UE, yn enwedig o ran Horizon 2020. Ni wnaf ond dweud ein bod wedi cymryd camau breision ac, wrth gwrs, mae'r pwyllgor wedi gwneud llawer o waith o ran bwrw ymlaen â'r cyfleoedd gyda Horizon 2020. Mae canlyniadau da eisoes yn dod i'r amlwg. Ym mis Chwefror eleni, cyhoeddais fod Microsemi, busnes bach a'i bencadlys yng Nghymru, a Phrifysgol Abertawe wedi llwyddo i gael cyllid Horizon 2020, gan ddenu €400,000 a €169,000, yn ôl eu trefn. Mae Prifysgol Caerdydd unwaith eto wedi sicrhau cyllid ar gyfer 26 o brosiectau gwerth cyfanswm o tua £13 miliwn. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais fod prosiect Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru, yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion Cymru, wedi ennill €300,000. Felly, rydym yn symud ymlaen. At ei gilydd, roedd 42 o gyfranogwyr o Gymru wedi eu dewis i gael cyllid ar ddiwedd mis Chwefror 2015, gan ofyn am bron i €17 miliwn gan y Comisiwn Ewropeaidd.

15:05

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am y datganiad. Braidd yn fyr ar ffeithiau ydy'r datganiad, er ei bod yn amlwg bod cryn dipyn o siarad a thrafod wedi digwydd, ac rwy'n siŵr y gall y llysgenhadon yma wneud cyfraniad. Roedd adroddiad y pwyllgor, fel rwy'n cofio, yn canolbwyntio cryn dipyn ar Horizon 2020 a'r posibiliadau a oedd yno. Roedd yr adroddiad yn gwneud y pwynt bod angen gweld cydweithio rhwng prifysgolion o fewn Cymru a rhwng prifysgolion Cymru a phrifysgolion eraill yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Felly, a allech chi ddweud wrthym pa mor llwyddiannus mae'r partneriaethau newydd yma wedi bod?

Thank you for the statement. The statement is a little short on facts, although it is clear that there has been quite a bit of talking, and I am sure that these ambassadors can make a contribution. The committee's report, as I recall, concentrated a fair bit on Horizon 2020 and the possibilities therein. The report made the point that we needed collaboration between universities in Wales and between Welsh universities and other universities within and outwith the United Kingdom. So, can you tell us how successful the new partnering has been?

Roeddwn yn mynd i ofyn ichi am werth y cytundebau sydd wedi'u hennill dan Horizon 2020, ond rydych chi wedi enwi nifer yn y fan yna. Beth ydy cyfanswm gwerth y cytundebau sydd wedi'u hennill yn barod? Roeddech chi'n sôn am rai a oedd yn werth rhai cannoedd o filoedd, sydd yn werthfawr ynddo ei hun, wrth gwrs, ond mae'r symiau sydd ar gael o dan Horizon 2020 yn sylweddol iawn, iawn. Felly, a allwch chi gadarnhau'r swm o €30 miliwn, os deallais i'n iawn, y mae Prifysgol Caerdydd yn unig wedi'i ennill? A ydw i'n iawn yn hynny o beth? Neu a allwch chi jest gywiro hynny i mi?

I was going to ask you of the value of the contracts awarded under Horizon 2020, but you have mentioned a number. So, what is the total value of the contracts that have already been won? You mentioned some that were worth hundreds of thousands, which is valuable in itself, of course, but the sums available under Horizon 2020 are very significant indeed. So, can you confirm the sum of €30 million, if I understood correctly, that Cardiff University alone has won? Am I right in that, or perhaps you could correct me on that?

Wedyn, yn olaf, a gaf i ofyn ichi hefyd am raglen Iwerddon-Cymru? Beth ydy gwerth y rhaglen yma yn ei chyfanrwydd, a pha fath o gyrff sy'n debyg o elwa arni hi? Mi edrychwn ymlaen at gael diweddariad ynglŷn â'r llwyddiannau o dan y rhaglenni yma, a hefyd i weld pa mor effeithiol y mae'r llysgenhadon yma wedi bod, yn y dyfodol. Diolch.

Finally, may I ask you about the Ireland-Wales programme? What's the value of this programme in its entirety, and what sort of bodies and organisations are likely to benefit from it? We look forward to having an update on the successes under these programmes and to see how effective the ambassadors have been. Thank you.

15:06

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Alun Ffred Jones very much for his questions and the opportunity to expand on the way forward in terms of Horizon 2020, and the ways in which the universities are working together and partnering not just with each other, but also within the UK and with partners across Europe—of course, they require that trans-national link to be able to succeed in terms of Horizon 2020 expectations. I did mention the projects that have already been successful in terms of accessing funding. Cardiff University again, I repeat, has secured funding for 26 projects amounting to approximately £13 million, or €15.8 million, and I'd be very happy to give more details to Members about those projects. Of course, another example of ways in which Welsh universities are working together is through High Performance Computing Wales, and in fact Bangor University is taking the lead in facilitating the latest award that has been granted, of €300,000, which will benefit HPC Wales.

Diolch yn fawr i Alun Ffred Jones am ei gwestiynau a'r cyfle i ymhelaethu ar y ffordd ymlaen o ran Horizon 2020, a'r ffyrdd y mae'r prifysgolion yn gweithio gyda'i gilydd ac yn creu partneriaeth nid yn unig â'i gilydd, ond hefyd o fewn y DU ac â phartneriaid ledled Ewrop—wrth gwrs, mae angen y cyswllt trawswladol hwnnw arnynt i allu llwyddo o ran disgwyliadau Horizon 2020. Soniais am y prosiectau sydd eisoes wedi llwyddo i gael cyllid. Mae Prifysgol Caerdydd unwaith eto, unwaith eto, wedi sicrhau cyllid ar gyfer 26 o brosiectau gwerth cyfanswm o tua £13 miliwn, neu €15.8 miliwn, a byddwn yn hapus iawn i roi mwy o fanylion i'r Aelodau am y prosiectau hynny. Wrth gwrs, mae Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru yn enghraifft arall o ffyrdd y mae prifysgolion Cymru yn gweithio gyda'i gilydd, ac yn wir mae Prifysgol Bangor yn arwain y gwaith o hwyluso'r dyfarniad diweddaraf sydd wedi ei roi, o €300,000, a fydd o fudd i Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru.

The fact that we had 42 Welsh applications selected for funding at the end of February doesn't mean that they have succeeded yet. They're applications at the end of February this year requesting nearly €17 million. Of course, it is challenging because Horizon 2020 is very competitive, but at the moment, the average success rate for Welsh organisations stands at 13 per cent, which is similar to many other regions. What we are doing, of course, is trying to support the development of those projects through SCoRE Cymru. I launched that SCoRE Cymru scheme two years ago, with over £150,000 committed to supporting 40 organisations. That includes the travel and bid-writing costs involved in developing Horizon 2020 applications, and 76 per cent of this funding is actually going to Welsh SMEs. I think it's important that it's not just seen as a higher education lead; it's a lead from the private sector as well. I think the role that Graeme Guilford is playing is also very important in terms of his role with healthcare and life sciences, and of course at the annual Horizon 2020 event we heard more about that.

Nid yw'r ffaith bod 42 o'n ceisiadau yng Nghymru wedi cael eu dewis i gael cyllid ar ddiwedd Chwefror yn golygu eu bod wedi llwyddo eto. Ceisiadau ar ddiwedd mis Chwefror eleni ydynt, yn gofyn am bron i €17 miliwn. Wrth gwrs, mae'n heriol oherwydd mae Horizon 2020 yn gystadleuol iawn, ond ar hyn o bryd, y gyfradd gyfartalog ar gyfer llwyddiant sefydliadau Cymru yw 13 y cant, sy'n debyg i lawer o ranbarthau eraill. Yr hyn yr ydym yn ei wneud, wrth gwrs, yw ceisio cefnogi datblygiad y prosiectau hynny drwy SCoRE Cymru. Lansiais y cynllun SCoRE Cymru hwnnw ddwy flynedd yn ôl, gan neilltuo dros £150,000 i gefnogi 40 o sefydliadau. Mae hynny'n cynnwys costau teithio a chostau ysgrifennu cynigion sy'n gysylltiedig â datblygu ceisiadau Horizon 2020, ac mae 76 y cant o'r arian hwn mewn gwirionedd yn mynd i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Credaf ei bod yn bwysig nad yw'n cael ei weld fel rhywbeth sy'n cael ei arwain gan addysg uwch yn unig; caiff ei arwain gan y sector preifat hefyd. Credaf fod y rhan y mae Graeme Guilford yn ei chwarae hefyd yn bwysig iawn o ran ei waith gyda gofal iechyd a gwyddorau bywyd, ac wrth gwrs yn nigwyddiad blynyddol Horizon 2020 clywsom fwy am hynny.

You asked the question as well about the Ireland-Wales programme. That, of course, has had the first meeting, as I said, of its programme monitoring committee, and it's very important to see the opportunities for this, providing €48.8 million in ERDF in our last round, from 2014-20. But, now that allocation has increased to a total programme value of some €100 million. A significant increase on the 2007-13 programme value. We've got implementations and arrangements progressing well and operation offices, based in both WEFO and in Ireland, working proactively with partners. There are strong synergies between Ireland and Wales in terms of our aspirations, but also we're focusing on three priorities: cross-border innovation; adaptations of the Irish sea and coastal communities to climate change; and, cultural and natural resources and heritage with a focus on tourism.

Gofynasoch gwestiwn hefyd am raglen Iwerddon-Cymru. Mae cyfarfod cyntaf pwyllgor monitro'r rhaglen, wrth gwrs, fel y dywedais, wedi digwydd, ac mae'n bwysig iawn gweld y cyfleoedd yn hyn o beth, gan ddarparu €48.8 miliwn mewn ERDF yn ein cylch diwethaf, 2014-20. Ond, erbyn hyn mae'r dyraniad hwnnw wedi cynyddu i gyfanswm gwerth rhaglenni o ryw €100 miliwn. Mae hynny'n sylweddol fwy na rhaglen 2007-13. Mae gennym weithrediadau a threfniadau sy'n mynd rhagddynt yn dda a swyddfeydd gweithredu, yn WEFO ac yn Iwerddon, sy'n gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid. Mae synergeddau cryf rhwng Iwerddon a Chymru o ran ein dyheadau, ond rydym hefyd yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth: arloesi trawsffiniol; addasu môr Iwerddon a chymunedau arfordirol ar gyfer newid yn yr hinsawdd; ac, adnoddau a threftadaeth naturiol a diwylliannol gyda phwyslais ar dwristiaeth.

15:11 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, you quite rightly point out that the main role of the ambassadors is to work on EU directly managed funds, but you also state, of course, that you need to ensure that you have synergy and co-ordinate it with the Welsh Government managed funds. Perhaps you can say how that will be measured. Will we be taking part in joint evaluations, possibly, to make sure that we are getting the very best usage out of European funds, regardless of the way that they may actually be managed? Can I ask you to talk just a little bit more, please, about the Erasmus programme in Wales? We're aware of the role within universities. Is there also a role, perhaps, within other learning circles, such as further education, for example, for the use of Erasmus? Finally, can I ask you about the opportunities for the third sector and those relating to tackling poverty and social exclusion, and the role particularly that there may well be for the WCVA in terms of co-ordinating activities and other third sector infrastructure organisations, such as the regional voluntary organisations?

Weinidog, rydych yn nodi'n gwbl briodol mai prif swyddogaeth y llysgenhadon yw gweithio ar gronfeydd a reolir yn uniongyrchol gan yr UE, ond rydych hefyd yn datgan, wrth gwrs, fod angen ichi sicrhau bod gennych synergedd a'ch bod yn cydlynu hyn â'r cronfeydd a reolir gan Lywodraeth Cymru. Efallai y gallwch ddweud sut y caiff hynny ei fesur. A fyddwn yn cymryd rhan mewn gwerthusiadau ar y cyd, o bosibl, i wneud yn siŵr ein bod yn cael y defnydd gorau o gronfeydd Ewropeaidd, waeth sut y cânt eu rheoli? A gaf fi ofyn ichi sôn ychydig mwy, os gwelwch yn dda, am raglen Erasmus yng Nghymru? Rydym yn ymwybodol o'i gwaith o fewn prifysgolion. A oes lle hefyd, efallai, o fewn cylchoedd dysgu eraill, fel addysg bellach, er enghraifft, i ddefnyddio Erasmus? Yn olaf, a gaf fi ofyn ichi am y cyfleoedd i'r trydydd sector a'r rhai sy'n ymwneud â threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol, a'r rhan arbennig y gallai WCVA ei chwarae o ran cydlynu gweithgareddau a sefydliadau seilwaith eraill yn y trydydd sector, megis y sefydliadau gwirfoddol rhanbarthol?

15:12 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Jeff Cuthbert, for those questions. I can expand on answers that I've already given in relation to the synergy between the directly managed programmes and our structural funds. Particularly focusing on Erasmus, obviously we have got a real opportunity now with Hywel Ceri Jones taking this forward in terms of Erasmus+. In fact, the British Council is actually managing the whole of the Erasmus+ from offices in Cardiff, and there's also the fact that Hywel Ceri Jones was, of course, an instigator of Erasmus in his former role in the European Commission. The prospects for widening that beyond not just higher education to further education as well—. I, of course, recall, when I was education Minister, meeting with young people who had benefited from vocational opportunities in terms of the Erasmus arrangements, seeing that this was an opportunity, particularly, for students in Wales in further education with partners across European Union.

Diolch, Jeff Cuthbert, am y cwestiynau hynny. Gallaf ymhelaethu ar atebion yr wyf eisoes wedi'u rhoi ynglŷn â'r synergedd rhwng y rhaglenni a reolir yn uniongyrchol a'n cronfeydd strwythurol. A chanolbwyntio'n benodol ar Erasmus, yn amlwg mae cyfle gwirioneddol inni yn awr wrth i Hywel Ceri Jones fwrw ymlaen â hyn o ran Erasmus+. Yn wir, mae'r Cyngor Prydeinig yn rheoli'r cyfan o Erasmus+ o swyddfeydd yng Nghaerdydd, ac mae hefyd yn ffaith bod Hywel Ceri Jones, wrth gwrs, yn un o symbylwyr Erasmus yn ei swyddogaeth flaenorol yn y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r posibiliadau o ran ehangu hynny y tu hwnt i addysg uwch i addysg bellach hefyd—. Rwyf, wrth gwrs, yn cofio, pan oeddwn yn Weinidog addysg, imi gwrdd â phobl ifanc a oedd wedi elwa o gyfleoedd galwedigaethol o ran y trefniadau Erasmus, a gweld bod hyn yn gyfle, yn arbennig, i fyfyrwyr yng Nghymru mewn addysg bellach gyda phartneriaid ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

So, we do have—. I know that the EU funding ambassadors will want to report back on the impact that they have made in terms of, particularly, as I said, their concern to have an impact for young people and SMEs in Wales as well as further and higher education. I might also say that I now regularly chair a meeting in Wales House of all of the interests, all of those who are located there—not just local government, but higher education, as well as Welsh Government departmental interests. This does provide an opportunity for us to look at the synergies and, certainly, I know there's a very positive response from external partners to the role of the EU funding ambassadors at that meeting.

Felly, mae gennym—. Gwn y bydd llysgenhadon cyllid yr UE yn awyddus i adrodd yn ôl ar yr effaith y maent wedi ei chael yn arbennig o ran, fel y dywedais, eu bwriad i gael effaith ar bobl ifanc a busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn ogystal ag addysg bellach ac uwch. Rwyf hefyd yn awr yn cadeirio cyfarfod yn rheolaidd yn Nhŷ Cymru o bob un o'r buddiannau, pob un sydd wedi'i leoli yno—nid llywodraeth leol yn unig, ond addysg uwch, yn ogystal â buddiannau adrannol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhoi cyfle inni i edrych ar y synergeddau ac, yn sicr, rwyf yn gwybod bod partneriaid allanol yn y cyfarfod hwnnw'n ymateb yn gadarnhaol iawn i swyddogaeth llysgenhadon cyllid yr UE.

15:14

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. Can I thank you as well for what was such a positive response to what was a very interesting Enterprise and Business Committee inquiry into the different opportunities that Europe presents us with? In particular, I was really pleased that opportunities such as Erasmus+ are really being pushed forward. The committee, when we met with Cardiff University and Cardiff Metropolitan University, were very impressed with the leadership that both institutions were showing, because the data shows that those young people who do take part in an Erasmus placement are more likely to go on to build good careers quickly. If we want to have an impact on productivity, Erasmus is an opportunity that we can't afford to overlook.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad. A gaf fi ddiolch ichi hefyd am ymateb mor gadarnhaol i ymchwiliad diddorol iawn y Pwyllgor Menter a Busnes i'r gwahanol gyfleoedd y mae Ewrop yn eu cynnig inni? Yn benodol, roeddwn yn hynod o falch bod cyfleoedd fel Erasmus+ yn cael eu gwthio ymlaen. Roedd y pwyllgor, pan gyfarfuom â Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, wedi'u plesio'n fawr gan yr arweinyddiaeth yr oedd y ddau sefydliad yn ei dangos, oherwydd mae'r data'n dangos bod y bobl ifanc hynny sy'n cymryd rhan mewn lleoliad Erasmus yn fwy tebygol o fynd ymlaen i feithrin gyrfaoedd da yn gyflym. Os ydym am gael effaith ar gynhyrchiant, mae Erasmus yn gyfle na allwn fforddio ei anwybyddu.

In terms of appointing ambassadors, though, I think perhaps the first question that suggests itself is: who are they ambassadors to? What are the primary audiences that they are addressing, and what are the key messages going to each of those audiences? Now, there are good arguments for both an internal and an external audience being pursued; clearly, there's a useful role to be played to encourage engagement with EU funds from organisations within Wales, and of course to raise the profile of Welsh projects and priorities in the EU institutions, but, with the complexity of both of these audiences, I think we need to make sure that both are done in a very clear and strategic way. I am wondering what the balance is between the priority that's going on these two audiences, because it seems from the statement that, in different subject areas, different approaches are being taken, and I'm wondering if you can explain why that has been decided.

O ran penodi llysgenhadon, fodd bynnag, rwyf yn meddwl efallai mai'r cwestiwn cyntaf sy'n ei gynnig ei hun yw hyn: llysgenhadon i bwy ydynt? Pwy yw'r prif gynulleidfaoedd y maent yn eu hannerch, a beth yw'r prif negeseuon i bob un o'r cynulleidfaoedd hynny? Yn awr, mae dadleuon da dros fynd ar ôl cynulleidfaoedd mewnol ac allanol fel ei gilydd; yn amlwg, mae rhan ddefnyddiol i'w chwarae i annog sefydliadau yng Nghymru i fanteisio ar arian yr UE, ac wrth gwrs i godi proffil prosiectau a blaenoriaethau Cymru yn sefydliadau'r UE, ond gan fod y ddwy gynulleidfa hyn mor gymhleth, credaf fod angen inni wneud yn siŵr bod y ddau'n cael eu gwneud mewn ffordd glir a strategol iawn. Tybed beth yw'r cydbwysedd rhwng y flaenoriaeth a roddir i'r ddwy gynulleidfa hyn, oherwydd mae'n ymddangos o'r datganiad ein bod yn defnyddio gwahanol ddulliau mewn gwahanol feysydd pwnc, a tybed a allwch esbonio pam y penderfynwyd gwneud hynny?

I very much welcome the external-facing research work, which I think will help us to develop a much more targeted approach to what are potentially massive opportunities for Wales, particularly perhaps through Horizon 2020. I am wondering if you can just outline very briefly what additional support the Welsh Government and the ambassadors can give to higher education institutions' research teams individually in helping them develop the kind of Europe-wide partnerships that are really going to be necessary for them to be successful in the bigger Horizon 2020 bids that they would like to put together. It's very clear that, for those partnerships, we can't rely just on the Ireland-Wales network; although that does qualify as an international partnership, we need to make sure that there's an opportunity across Europe for strategic developments like that.

Croesawaf yn fawr iawn y gwaith ymchwil sy'n wynebu tuag allan; credaf y bydd yn ein helpu i ddatblygu ymagwedd wedi'i thargedu'n llawer gwell at y cyfleoedd enfawr posibl hyn i Gymru, yn enwedig efallai drwy Horizon 2020. Tybed a wnewch chi amlinellu'n fras iawn pa gymorth ychwanegol y gall Llywodraeth Cymru a'r llysgenhadon ei roi i dimau ymchwil sefydliadau addysg uwch yn unigol i'w helpu i ddatblygu'r math o bartneriaethau Ewrop gyfan sy'n mynd i fod yn wirioneddol angenrheidiol er mwyn iddynt lwyddo yn y ceisiadau Horizon 2020 mwy yr hoffent eu rhoi at ei gilydd. Mae'n glir iawn, o ran y partneriaethau hynny, na allwn ddibynnu ar rwydwaith Iwerddon-Cymru yn unig; er bod honno'n cyfrif fel partneriaeth ryngwladol, mae angen inni wneud yn siŵr bod cyfle ledled Ewrop ar gyfer datblygiadau strategol o'r fath.

I'm wondering if you can explain to me as well how your engagement strategy for the ambassadors ensures that new organisations, new businesses, new informal groups in Wales, are encouraged and supported in engaging with EU funds perhaps for the first time. Are we finding ways to be proactive in bringing new voices to the table, and how are you monitoring and assessing the success of your work in that regard? Because whilst organisations such as the Federation of Small Businesses and the Wales Council for Voluntary Action are very well known in their sectors, it feels sometimes like we're going to the already-known people, people we've spoken to on many occasions before, and there are many organisations that won't be part of those kind of networks who may have something to offer.

Tybed a allwch esbonio imi hefyd sut y mae eich strategaeth ymgysylltu ar gyfer y llysgenhadon yn sicrhau bod sefydliadau newydd, busnesau newydd, grwpiau anffurfiol newydd yng Nghymru, yn cael eu hannog a'u cefnogi i fanteisio ar arian yr UE efallai am y tro cyntaf? A ydym yn dod o hyd i ffyrdd o fod yn rhagweithiol wrth ddod â lleisiau newydd at y bwrdd, a sut ydych chi'n monitro ac yn asesu llwyddiant eich gwaith yn hynny o beth? Oherwydd tra bo sefydliadau megis Ffederasiwn y Busnesau Bach a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru'n adnabyddus iawn yn eu sectorau, mae'n teimlo weithiau fel petaem yn mynd at y bobl yr ydym eisoes yn gwybod amdanynt, pobl yr ydym wedi siarad â hwy lawer gwaith o'r blaen, ac mae llawer o sefydliadau na fyddant yn rhan o'r mathau hynny o rwydweithiau a all fod â rhywbeth i'w gynnig.

I'm wondering as well, when you are bringing new people into discussions about EU projects, how you are sharing with them your vision for the kind of transformative projects that we need to be putting together if we're going to have the kind of measurable impact on Wales's relative GVA that is, in fact, the reason why we're applying for these funds in the first place. I think we need to never really forget that the purpose of all of our activities is not about drawing down more EU funding, it's not about spending all the money that we've got by the timetable: it's making sure that we're using this money to make a measurable difference to our relative GVA, not only across the UK, but across Europe as well. We haven't previously done that, and I'm wondering how you feel your ambassadors will be making a contribution to make sure that, this time, the approach that we're taking is going to have a different result.

Tybed hefyd, pan ddowch â phobl newydd i mewn i drafodaethau am brosiectau'r UE, sut ydych chi'n rhannu â hwy eich gweledigaeth ar gyfer y math o brosiectau trawsnewidiol y mae angen inni fod yn eu llunio os ydym yn mynd i gael y math o effaith fesuradwy ar werth ychwanegol gros cymharol Cymru, sef, mewn gwirionedd, y rheswm pam yr ydym yn gwneud cais am yr arian hwn yn y lle cyntaf? Credaf fod angen inni beidio byth ag anghofio nad pwrpas ein holl weithgareddau yw tynnu mwy o arian yr UE i lawr, na gwario'r holl arian sydd gennym o fewn yr amserlen: ond gwneud yn siŵr ein bod yn defnyddio'r arian hwn i wneud gwahaniaeth mesuradwy i'n gwerth ychwanegol gros cymharol, nid dim ond ledled y DU, ond ledled Ewrop yn ogystal. Nid ydym wedi gwneud hynny o'r blaen, a tybed sut ydych chi'n meddwl y bydd eich llysgenhadon yn gwneud cyfraniad er mwyn gwneud yn siŵr ein bod, y tro hwn, yn defnyddio dulliau a fydd yn sicrhau canlyniad gwahanol.

15:18

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Eluned Parrott. I agree with everything you've said in terms of your questions and your challenge on the opportunities we've got with the new role of the EU funding ambassadors. We must make sure that they—. They are doing this voluntarily for the good of—. Your point about internal and external is very important, because they are ambassadors, as far as we're concerned and as far as they're concerned, for the European Union funding opportunities for Wales and for all of those who could benefit in Wales. They're very focused on, particularly, young people and SMEs, as I've said. Obviously, in terms of Welsh Government, we can take and we'll make great use of the extra resource that they bring to us, but I think it's reaching out where they can provide another opportunity for people to learn particularly about directly managed funds, but also to have other champions to back them in their endeavour. So, for example, you mentioned some of the umbrella organisations that they've engaged with, like the FSB and WCVA, but at the conference on Thursday, of course, the WCVA conference was attended by a large number of organisations, small and large, from across Wales that were keen to find out how they can access funds.

Diolch yn fawr, Eluned Parrott. Rwyf yn cytuno â phopeth yr ydych wedi'i ddweud o ran eich cwestiynau a'ch her ynglŷn â'r cyfleoedd sydd gennym o ran swyddogaeth newydd llysgenhadon cyllid yr UE. Rhaid inni wneud yn siŵr eu bod—. Maent yn gwneud hyn yn wirfoddol er lles—. Mae eich pwynt ynghylch y mewnol a'r allanol yn bwysig iawn, oherwydd llysgenhadon ydynt, o'n rhan ni ac o'u rhan hwy, ar gyfer cyfleoedd cyllid yr Undeb Ewropeaidd i Gymru ac i bawb a allai elwa yng Nghymru. Maent yn canolbwyntio'n fawr, yn arbennig, ar bobl ifanc a busnesau bach a chanolig, fel yr wyf wedi'i ddweud. Yn amlwg, o ran Llywodraeth Cymru, gallwn gymryd yr adnodd ychwanegol y maent yn ei gynnig inni a'i ddefnyddio'n dda, ond rwyf yn meddwl mai allgymorth yw'r maes lle y gallant roi cyfle arall i bobl i ddysgu am arian a reolir yn uniongyrchol yn benodol, ond hefyd i hyrwyddwyr eraill eu cefnogi yn eu hymdrechion. Felly, er enghraifft, roeddech yn sôn am rai o'r sefydliadau ymbarél y maent wedi ymgysylltu â hwy, fel Ffederasiwn y Busnesau Bach a WCVA, ond yn y gynhadledd ddydd Iau, wrth gwrs, roedd nifer mawr o sefydliadau'n bresennol yng nghynhadledd y WCVA, rhai bach a mawr, o bob rhan o Gymru a oedd yn awyddus i gael gwybod sut y gallant gael gafael ar gyllid.

But the main message coming through, both in terms of reviewing the impact of the previous round of structural funds and the new opportunities with this round, was: what impact are you going to make? How can we get that transformational change? How can we make a measurable difference? I know that they will be very interested in the questions that have been asked this afternoon on this statement, and I want their work to be visible and transparent. We have got to target their energies and their expertise, and, I think, particularly in relation to Erasmus and the opportunities that will come through that, which are going to require, as you will know, a lot more awareness-raising than we have now, because we have a very low take-up of Erasmus opportunities, particularly through HEI students in Wales, with the opportunities that really can be transformational to their lives. So, I'm very grateful for your contribution.

Ond y brif neges sy'n deillio o hyn, o ran adolygu effaith y cylch blaenorol o gronfeydd strwythurol a'r cyfleoedd newydd gyda'r cylch hwn, oedd hyn: pa effaith ydych chi'n mynd i'w chael? Sut y gallwn wneud y newid trawsffurfiol hwnnw? Sut y gallwn wneud gwahaniaeth mesuradwy? Gwn y bydd ganddynt ddiddordeb mawr yn y cwestiynau a ofynnwyd y prynhawn yma am y datganiad hwn, ac rwyf am i'w gwaith fod yn weladwy ac yn dryloyw. Rhaid inni dargedu eu hegni a'u harbenigedd, ac, wyddoch chi, yn enwedig o ran Erasmus a'r cyfleoedd a ddaw drwy hynny, a fydd yn golygu, fel y gwyddoch, fod yn rhaid codi llawer mwy o ymwybyddiaeth nag sydd gennym yn awr, gan fod y niferoedd sy'n manteisio ar gyfleoedd Erasmus yn isel iawn, yn enwedig drwy fyfyrwyr sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, gyda'r cyfleoedd a all drawsnewid eu bywydau'n wirioneddol. Felly, rwyf yn ddiolchgar iawn am eich cyfraniad.

15:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:20

## 4. Datganiad: Y Strategaeth Dŵr

## 4. Statement: The Water Strategy

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Eitem 4, datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ynghylch y strategaeth dŵr: galwaf ar y Gweinidog, Carl Sargeant.

Item 4, statement by the Minister for Natural Resources on the water strategy: I call on the Minister, Carl Sargeant.

15:21

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am delighted to announce that I'm publishing the water strategy for Wales today. This delivers one of our key programme for government commitments. Water is one of the most fundamental natural resources, providing us with a range of services and benefits that support our health and wellbeing. The strategy sets out our strategic direction for water policy over the next 20 years and beyond, and the policies in the strategy will contribute to wider Welsh Government priorities and principles. This includes how we will contribute to the tackling poverty agenda, our wider aspirations in relation to natural resource management, and, of course, actions we will take to our sustainable development principle and wellbeing goals. My vision is to ensure that Wales continues to have a thriving water environment that is sustainably managed to support healthy communities, flourishing businesses and the environment. We want the people of Wales to receive first-class, value-for-money water services, with water used efficiently, safely and respectfully by all.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser gennyf gyhoeddi fy mod yn cyhoeddi'r strategaeth ddŵr ar gyfer Cymru heddiw. Mae hyn yn cyflawni un o ymrwymiadau allweddol ein rhaglen lywodraethu. Mae dŵr yn un o'r adnoddau naturiol mwyaf sylfaenol, ac mae'n darparu ystod o wasanaethau a buddion inni sy'n cynnal ein hiechyd a'n lles. Mae'r strategaeth yn nodi ein cyfeiriad strategol ar gyfer polisi dŵr dros yr 20 mlynedd nesaf a thu hwnt, a bydd y polisïau yn y strategaeth yn cyfrannu at flaenoriaethau ac egwyddorion ehangach Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys sut y byddwn yn cyfrannu at yr agenda trechu tlodi, ein dyheadau ehangach o ran rheoli adnoddau naturiol, ac, wrth gwrs, y camau y byddwn yn eu cymryd o ran ein hegwyddor datblygu cynaliadwy a'n nodau lles. Fy ngweledigaeth yw sicrhau bod Cymru'n parhau i fod ag amgylchedd dŵr ffyniannus a reolir mewn modd cynaliadwy i gefnogi cymunedau iach, busnesau ffyniannus a'r amgylchedd. Rydym am i bobl Cymru gael gwasanaethau dŵr o'r radd flaenaf sy'n rhoi gwerth am arian, ac i bawb ddefnyddio dŵr yn effeithlon, yn ddiogel ac yn barchus.

We consulted on the draft strategy between April and July last year—59 responses were received from a broad variety of organisations. The majority of respondents were supportive of the proposals in the draft strategy as developed. In addition, we've undertaken a significant amount of work with stakeholders and across Welsh Government departments to inform the development of this document. The final strategy has been amended to reflect the consultation responses, developments on proposed actions contained in the draft strategy, and changes to wider Government priorities and principles. For example, we've updated and expanded on our policy aspirations to ensure fair and affordable water services. We've also placed more emphasis on how water management will be in line with our wider policy aspirations to ensure sustainable management of our natural resources in Wales. We will work in collaboration with our stakeholders and seek involvement from the people of Wales to understand, educate and promote a new way of thinking. This will enable us to deliver a new approach to natural resource management and meet our wellbeing goals and sustainable development principles, as set out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

Buom yn ymgynghori ar y strategaeth ddrafft rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf y llynedd—cafwyd 59 o ymatebion gan amrywiaeth eang o sefydliadau. Roedd y rhan fwyaf o'r atebwyr o blaid y cynigion yn y strategaeth ddrafft fel y'i datblygwyd. Yn ogystal, rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith gyda rhanddeiliaid ac ar draws adrannau Llywodraeth Cymru i lywio datblygiad y ddogfen hon. Mae'r strategaeth derfynol wedi ei diwygio i adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, datblygiadau ar gamau gweithredu arfaethedig sydd yn y strategaeth ddrafft, a newidiadau i flaenoriaethau ac egwyddorion ehangach y Llywodraeth. Er enghraifft, rydym wedi diweddaru ein dyheadau polisi ac wedi ymhelaethu arnynt i sicrhau gwasanaethau dŵr teg a fforddiadwy. Rydym hefyd wedi gosod mwy o bwyslais ar y ffordd y rheolir dŵr yn unol â'n dyheadau polisi ehangach er mwyn sicrhau y rheolir ein hadnoddau naturiol yng Nghymru mewn modd cynaliadwy. Byddwn yn cydweithio â'n rhanddeiliaid ac yn ceisio cyfranogiad gan bobl Cymru i ddeall, addysgu a hyrwyddo ffordd newydd o feddwl. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu dull newydd o reoli adnoddau naturiol ac yn cyflawni ein nodau lles a'n hegwyddorion datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

The final strategy highlights the importance of taking an integrated approach to water management. By this, we mean that we want to promote the co-ordinated development and management of water, land and related resources in maximising the economic and social benefits in an equitable manner without compromising the sustainability of vital ecosystems and the environment. This builds on the approach set out in the Environment (Wales) Bill, as launched earlier this week. This requires wider public involvement, recognition of the links between water and other policy areas, such as energy efficiency and land management, and a better understanding of the services that the water environment provides.

Mae'r strategaeth derfynol yn dangos pwysigrwydd dulliau integredig o reoli dŵr. Mae hyn yn golygu yr hoffem hyrwyddo datblygiad a dulliau rheoli cydlynol ar gyfer dŵr, tir ac adnoddau cysylltiedig i sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl mewn modd teg heb beryglu cynaliadwyedd ecosystemau hanfodol a'r amgylchedd. Mae hyn yn adeiladu ar y dull a nodir ym Mil yr Amgylchedd (Cymru), fel y'i lansiwyd yn gynharach yr wythnos hon. Mae hyn yn mynnu mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd, cydnabod y cysylltiadau rhwng dŵr a meysydd polisi eraill, megis effeithlonrwydd ynni a rheoli tir, a gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau y mae'r amgylchedd dŵr yn eu darparu.

The strategy sets out our water policy commitments with six key themes. Firstly, we have a water for nature, people and business theme, which sets out how the quality and quantity of the water resources will be sustainably managed, meeting society's needs and offering opportunities for green growth, but also protecting and enhancing our natural environment. The second theme focuses on how we will improve the way we plan and manage our water services. We will ensure that our water services remain robust and sustainable and support high-quality services for now and in the future. The third theme highlights our commitment to delivering excellent services to customers. We will ensure that people and businesses in Wales have access to affordable water and sewage services that are sustainable, safe, secure and dependable. The fourth theme reiterates our commitment to protecting and improving drinking water quality, and we will maintain the current high standard of our public drinking water quality, ensuring compliance with the drinking water directive and that any quality problems are dealt with effectively. The fifth theme focuses on delivering a twenty-first century sewerage and drainage system. Within this theme, we set out our approach to ensuring that both waste water and surface water are managed in a sustainable and integrated way. The sixth and final theme sets out how we will support the delivery of our objectives and key outcomes.

Mae'r strategaeth hon yn nodi ein hymrwymiadau polisi dŵr â chwe thema allweddol. Yn gyntaf, mae gennym thema dŵr ar gyfer natur, pobl a busnes, sy'n nodi sut y byddwn yn rheoli ansawdd a swm yr adnoddau dŵr mewn modd cynaliadwy, gan ddiwallu anghenion cymdeithas a chynnig cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd, ond gan ddiogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol hefyd. Mae'r ail thema'n canolbwyntio ar sut mae gwella'r ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn rheoli ein gwasanaethau dŵr. Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau dŵr yn parhau i fod yn gadarn ac yn gynaliadwy ac yn cefnogi gwasanaethau o ansawdd uchel nawr ac yn y dyfodol. Mae'r drydedd thema'n amlygu ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid. Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth sy'n gynaliadwy, yn ddiogel, yn sicr ac yn ddibynadwy ar gael i bobl a busnesau yng Nghymru. Mae'r bedwaredd thema'n ailddatgan ein hymrwymiad i ddiogelu a gwella ansawdd dŵr yfed, a byddwn yn cynnal safon uchel bresennol ansawdd ein dŵr yfed cyhoeddus, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfarwyddeb dŵr yfed a thrin unrhyw broblemau ansawdd yn effeithiol. Mae'r pumed thema'n canolbwyntio ar ddarparu system carthffosiaeth a draenio ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. O fewn y thema hon, rydym yn amlinellu ein dull o sicrhau bod dŵr gwastraff a dŵr wyneb ill dau'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig. Mae'r chweched thema, a'r olaf, yn nodi sut y byddwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion a'n canlyniadau allweddol.

We will engage with and involve our key delivery partners in work to achieve actions set out in the strategy through the water forum for Wales. This will include assisting us in setting our priorities and developing and delivering our policy commitments. We will place a focus on developing and delivering six policy priorities between 2015 and 2018. These are: supporting the development of the area-based approach to natural resource management; ensuring access to fair and affordable water and sewerage services; devolution of all matters relating to water and sewerage and the removal of the unilateral power of the UK Government to intervene in respect of water resources in Wales; a more focused approach to sewerage and drainage management and development and implementation of legislation to support sustainable drainage solutions; reform of the abstraction licence system in Wales to ensure sustainable management of our water resources now and for the future; and review of and, where appropriate, change to current practices and regulatory approaches to tackle diffuse pollution.

I welcome your support, Deputy Presiding Officer, and that of the Chamber in delivering our policy aspirations set out in the water strategy for Wales. We must all work together with everyone who has an interest in water to ensure that we sustainably manage and protect this precious resource now and for future generations.

Byddwn yn ymgysylltu â'n partneriaid cyflenwi allweddol ac yn eu cynnwys yn y gwaith o gymryd y camau a nodir yn y strategaeth drwy fforwm dŵr Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ein cynorthwyo i bennu ein blaenoriaethau a datblygu a chyflawni ein hymrwymiadau polisi. Byddwn yn rhoi pwyslais ar ddatblygu a chyflawni chwe blaenoriaeth polisi rhwng 2015 a 2018, sef: cefnogi datblygu ymagwedd seiliedig ar ardaloedd at reoli adnoddau naturiol; sicrhau bod gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth teg a fforddiadwy ar gael; datganoli pob mater sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth a chael gwared ar rym unochrog Llywodraeth y DU i ymyrryd ynglŷn ag adnoddau dŵr yng Nghymru; ymagwedd â phwyslais mwy penodol tuag at reoli a datblygu carthffosiaeth a draenio a gweithredu deddfwriaeth i gefnogi datrysiadau draenio cynaliadwy; diwygio'r system trwyddedau tynnu dŵr yng Nghymru i sicrhau y rheolir ein hadnoddau dŵr mewn modd cynaliadwy nawr ac ar gyfer y dyfodol; ac adolygu a, lle y bo'n briodol, newid arferion a dulliau rheoleiddio presennol i ymdrin â llygredd gwasgaredig.

Rwyf yn croesawu eich cefnogaeth, Ddirprwy Lywydd, a chefnogaeth y Siambr o ran cyflawni ein dyheadau polisi a nodir yn strategaeth dŵr Cymru. Rhaid inni i gyd gydweithio â phawb sydd â buddiant mewn dŵr i sicrhau ein bod yn rheoli ac yn diogelu'r adnodd gwerthfawr hwn mewn modd cynaliadwy yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

15:26 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for your statement this week. Last week, we had the Environment (Wales) Bill and here we are talking about the water strategy for Wales. It is something that we all take for granted, especially living on the western side of the United Kingdom but, if you go around the globe, it is most probably one of the most precious commodities anywhere you'd care to find. If stories and reports are to be believed, it could be the source of, regrettably, many conflicts as well in areas that are becoming more arid and drought-prone because, without water, we do not have the foundation of life, really, whether that be in our food production base or business, as is touched on in this statement. I also note from the strategy that the strategy says that you can't necessarily legislate and use regulation to change people's habits. That can assist, but actually education's a very important part of changing the way people look at the water around us and the use we can make of that commodity that we seem to have in such abundance on the western side of the United Kingdom.

Weinidog, diolch am eich datganiad yr wythnos yma. Yr wythnos diwethaf, cawsom Fil yr Amgylchedd (Cymru) ac yma rydym yn sôn am strategaeth dŵr Cymru. Mae'n rhywbeth yr ydym i gyd yn ei gymryd yn ganiataol, yn enwedig wrth fyw ar ochr orllewinol y Deyrnas Unedig ond, os ewch o gwmpas y byd, mae yn ôl pob tebyg yn un o'r nwyddau mwyaf gwerthfawr a gewch yn unman. Os yw'r straeon a'r adroddiadau'n wir, gallai achosi, yn anffodus, llawer o wrthdaro hefyd mewn ardaloedd sy'n mynd yn fwy cras ac agored i sychder oherwydd, heb ddŵr, nid oes gennym sylfaen bywyd, mewn gwirionedd, pa un a yw hynny yn ein sylfaen cynhyrchu bwyd neu ym myd busnes, fel y mae'r datganiad hwn yn ei grybwyll. Nodaf hefyd yn y strategaeth fod y strategaeth yn dweud na allwch o reidrwydd ddeddfu a defnyddio rheoliadau i newid arferion pobl. Gall fod o gymorth, ond mewn gwirionedd mae addysg yn rhan bwysig iawn o newid y ffordd y mae pobl yn edrych ar y dŵr o'n cwmpas a sut y gallwn ddefnyddio'r nwydd hwnnw y mae'n ymddangos bod gennym gymaint ohono ar ochr orllewinol y Deyrnas Unedig.

I'd be grateful if you could indicate how you believe the education system and the public advertising and promotion of sensible use of water, whether that be in the home or in business or in the fields of agriculture, could be promoted to achieve a message that is taken up by communities the length and breadth of Wales. It was interesting, talking on another subject this morning—I heard on the radio about obesity and in particular obesity among young people, and then it went on to list a whole host of strategies. I think it numbered many tens of strategies—up to about 80 or 90 different strategies—but, regrettably, none of those strategies seem to have achieved the ultimate goal of reversing obesity among young people. Well, here, we have a strategy that, I think, most people would be able to sign up to, but it's making sure that the strategy jumps off the paper and is adopted by business and by communities to make the best use of a commodity that, as I say, we have in such abundance around Wales.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi sut yr ydych yn credu y gellid hyrwyddo'r system addysg a'r hysbysebion cyhoeddus a hyrwyddo defnyddio dŵr yn synhwyrol, boed hynny yn y cartref neu mewn busnesau neu mewn caeau amaethyddol, i gyfleu neges i gymunedau ar hyd a lled Cymru. Roedd yn ddiddorol, wrth siarad am bwnc arall y bore yma—clywais ar y radio am ordewdra a gordewdra ymhlith pobl ifanc yn enwedig, ac yna aethpwyd ymlaen i restru llu o strategaethau. Credaf fod degau lawer o strategaethau wedi eu rhifo—hyd at tua 80 neu 90 o wahanol strategaethau—ond, yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod yr un o'r strategaethau hynny wedi cyrraedd y nod eithaf o wyrdroi gordewdra ymysg pobl ifanc. Wel, yn y fan hyn, mae gennym strategaeth y byddai'r rhan fwyaf o bobl, rwyf yn meddwl, yn gallu ymrwymo iddi, ond mae angen gwneud yn siŵr bod y strategaeth yn neidio oddi ar y papur ac yn cael ei mabwysiadu gan fusnesau a chan gymunedau er mwyn manteisio i'r eithaf ar nwydd y mae gennym, fel y dywedais, ddigonedd ohono ledled Cymru.

As per usual with most Government statements, there's a fair bit of Government-speak in it. In particular, the one that grabbed my attention was this one here that says:

Fel arfer gyda'r rhan fwyaf o ddatganiadau'r Llywodraeth, mae tipyn o ieithwedd y Llywodraeth ynddo. Yn benodol, yr un a dynnodd fy sylw oedd hwn yn y fan hyn sy'n dweud:

'By this, we mean that we want to promote the co-ordinated development and management of water, land and related resources in maximising the economic and social benefits in an equitable manner without compromising the sustainability of vital ecosystems and the environment.'

'Mae hyn yn golygu yr hoffem hyrwyddo datblygiad a dulliau rheoli cydlynol ar gyfer dŵr, tir ac adnoddau cysylltiedig i sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl mewn modd teg heb beryglu cynaliadwyedd ecosystemau hanfodol a'r amgylchedd.'

Explain please. I'd be grateful to know how the Government is actually going to pull all that together and actually deliver those initiatives that seek to address business and obviously community development and the sustainability of the vital ecosystems that we depend on and we can be so proud of here in Wales. It would also be good to hear from the Minister how he's proposing to reform the abstraction licence system here in Wales, which, again, for many growers here in Wales, and the market garden sector in particular, is a vital part of their business. Again, I'd be interested to know whether you have an idea of how that reform is going to take place. Have you a model, indeed, that other parts of the United Kingdom, or indeed, Europe, have adopted that you think could be relevant here in Wales?

Eglurwch os gwelwch yn dda. Byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod sut y mae'r Llywodraeth mewn gwirionedd yn mynd i ddod â'r pethau hynny i gyd at ei gilydd a chyflawni'r mentrau hynny sy'n ceisio rhoi sylw i fusnes ac yn amlwg i ddatblygu cymunedol a chynaliadwyedd yr ecosystemau hanfodol yr ydym yn dibynnu arnynt ac y gallwn fod mor falch ohonynt yma yng Nghymru. Byddai hefyd yn braf clywed gan y Gweinidog sut y mae'n bwriadu diwygio'r system trwyddedau tynnu dŵr yma yng Nghymru, sydd, unwaith eto, i lawer o dyfwyr yma yng Nghymru, ac i'r sector gerddi marchnad yn arbennig, yn rhan hanfodol o'u busnes. Unwaith eto, byddai gennyf ddiddordeb cael gwybod a oes gennych syniad o ran sut y mae'r diwygiadau hynny'n mynd i ddigwydd. A oes gennych fodel, yn wir, y mae rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, neu yn wir, Ewrop, wedi'i fabwysiadu ac yr ydych yn meddwl y gallai fod yn berthnasol yma yng Nghymru?

Also, pollution is a huge issue, whether it be water run-off, whether it be agricultural or industrial pollution, into streams. And, again, there have been numerous initiatives and campaigns to try and curtail the breakdown in the ecosystems by the pollution outbreaks, but, regrettably, these seem to have been recurring on a constant basis. I'd be very pleased to hear from the Minister. Because, again, last week, with the Environment (Wales) Bill, we touched on the importance of Natural Resources Wales in delivering this strategy. Well, okay, the argument was well debated and rehearsed in this Chamber about the staff survey, which indicated widespread dissatisfaction about Natural Resources Wales, and, in particular, the management, and the motivation of the staff. Here you are, here's a strategy, which will depend on Natural Resources Wales being able to deliver much of it. Are you confident that you have taken the staff, and the organisation, along with you in developing this strategy, along with other public sector bodies, such as local authorities, which do have a role of regulation in this field in particular?

And I'd also be pleased to hear from the Minister, if he could, how he believes the planning system may be used to deliver some of these strategies and initiatives. You've got the six-point plan that you talk about in this statement, because planning, obviously, is fundamental to shaping and developing our environment, and the communities and businesses that we have here in Wales.

And, on a final point, I would commend, obviously, the drainage and sewerage system that you are looking at developing here in Wales. I can remember when I was on the petitions system that the adoption of sewers, and, in particular, run-off of discharge, was a big issue for a lot of communities, and we spent many months, in the last Assembly, as a Petitions Committee, dealing with several petitions on this particular aspect. And you do touch on—I think you say:

'The fifth theme focuses on delivering a twenty-first century sewerage and drainage system.'

Well, how are you going to do that, Minister? Thank you.

Hefyd, mae llygredd yn broblem fawr, boed yn ddŵr ffo, boed yn llygredd amaethyddol neu ddiwydiannol, i mewn i nentydd. Ac, unwaith eto, cafwyd nifer o fentrau ac ymgyrchoedd i geisio cwtogi ar fethiannau ecosystemau oherwydd yr achosion o lygredd, ond, yn anffodus, ymddengys bod y rhain wedi bod yn digwydd yn gyson. Byddwn yn falch iawn o glywed gan y Gweinidog. Oherwydd, unwaith eto, yr wythnos diwethaf, gyda Bil yr Amgylchedd (Cymru), buom yn sôn am bwysigrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gyflawni'r strategaeth hon. Wel, iawn, cafwyd digon o drin a thrafod yn y ddadl yn y Siambr hon ynglŷn â'r arolwg staff, a oedd yn dangos anfodlonrwydd eang â Cyfoeth Naturiol Cymru, ac, yn enwedig, y rheolwyr, a chymhelliant y staff. Dyma chi, dyma strategaeth, a fydd yn dibynnu ar Cyfoeth Naturiol Cymru i allu cyflawni llawer ohoni. A ydych yn hyderus eich bod wedi mynd â'r staff, a'r sefydliad, gyda chi wrth ddatblygu'r strategaeth hon, ynghyd â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, megis awdurdodau lleol, sy'n gwneud gwaith rheoleiddio yn y maes hwn yn benodol?

A byddwn hefyd yn falch o glywed gan y Gweinidog sut y mae'n credu y gellir defnyddio'r system gynllunio i gyflawni rhai o'r strategaethau a'r mentrau hyn. Mae gennych y cynllun chwe phwynt yr ydych yn sôn amdano yn y datganiad hwn, oherwydd mae cynllunio, yn amlwg, yn sylfaenol i ffurfio a datblygu ein hamgylchedd, a'r cymunedau a'r busnesau sydd gennym yma yng Nghymru.

Ac, ar bwynt olaf, byddwn yn canmol, wrth gwrs, y system draenio a charthffosiaeth yr ydych yn edrych ar ei datblygu yma yng Nghymru. Gallaf gofio pan oeddwn ar y system ddeisebau fod mabwysiadu carthffosydd, ac, yn benodol, gollwng dŵr ffo, yn fater pwysig i lawer o gymunedau, a threuliasom fisoedd lawer, yn y Cynulliad diwethaf, yn y Pwyllgor Deisebau, yn ymdrin â nifer o ddeisebau ar yr agwedd benodol hon. Ac rydych yn sôn am hyn—credaf eich bod yn dweud:

'Mae'r pumed thema'n canolbwyntio ar ddarparu system carthffosiaeth a draenio ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.'

Wel, sut ydych chi'n mynd i wneud hynny, Weinidog? Diolch.

15:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his contribution, and very positive support there. Can I start with the first point he mentioned, regarding messaging and education? I think the Member is right there, and I think what we find is—and I think we mentioned it in the Environment (Wales) Bill last week—. All of the members of communities sort of get this, but actually our younger members absolutely do. And I was in actually Ann Jones's constituency, and Darren Millar's constituency, where Dŵr Cymru are working with young people in schools, about flood issues, and recognising that just putting—. I think the theme was actually that just putting something down the toilet, which could block the toilet, has a major impact in a community, and both areas have seen significant flooding. Just taking note of how you treat your environment and water courses is something that people are starting to understand. So, we are working with our partners—not just Welsh Government, but with the water sector—looking at how do we get this simple message to people about respect and how we can develop programmes, moving forward. I think that will be—. You're right, you can't legislate for culture change, but it is about making sure people understand what the narrative is.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad, a'i gefnogaeth gadarnhaol iawn yno. A gaf fi ddechrau â'r pwynt cyntaf iddo ei grybwyll, ynglŷn â negeseuon ac addysg? Credaf fod yr Aelod yn iawn yn hynny o beth, a chredaf mai'r hyn a welwn—a chredaf ein bod wedi sôn amdano ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) yr wythnos diwethaf—. Mae holl aelodau cymunedau'n deall hyn i raddau, ond mewn gwirionedd mae ein haelodau iau'n ei ddeall yn iawn. Ac a dweud y gwir, roeddwn yn etholaeth Ann Jones, ac etholaeth Darren Millar, lle mae Dŵr Cymru'n gweithio gyda phobl ifanc mewn ysgolion, ar faterion llifogydd, ac yn cydnabod mai dim ond rhoi—. Credaf mai'r union thema oedd bod dim ond rhoi rhywbeth i lawr y toiled, a allai flocio'r toiled, yn cael effaith fawr mewn cymuned, ac mae'r ddwy ardal wedi gweld llifogydd mawr. Mae cymryd sylw o'r ffordd yr ydych yn trin eich amgylchedd a'ch cyrsiau dŵr yn rhywbeth y mae pobl yn dechrau ei ddeall. Felly, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid—nid dim ond Llywodraeth Cymru, ond gyda'r sector dŵr—i edrych ar sut y gallwn gyfleu'r neges syml hon i bobl am barch a sut y gallwn ddatblygu rhaglenni, wrth symud ymlaen. Credaf y bydd hynny—. Rydych yn iawn, ni allwch ddeddfu i newid diwylliant, ond mae'n fater o sicrhau bod pobl yn deall beth yw'r naratif.

I also respect the Member's views in terms of Government speak, because it is always difficult to try and create a document that encompasses the message of Government, which sometimes people understand, and some people just don't understand the message we're trying to seek. But I would point the Member to the pieces of legislation we have taken through. The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which has now receive Royal Assent, works on the goals and principles of sustainable development, encompassing the very things we're doing in here, and I'll explore that a little bit further in a second with you. The Environment (Wales) Bill is another key part of the jigsaw within this department, about how do we fix the environment. And I've always said the three major pieces of legislation—planning included—is the key to changing the way Wales is seen on a global stage, and making a real difference.

Rwyf hefyd yn parchu barn yr Aelod ynglŷn ag ieithwedd y Llywodraeth, oherwydd mae bob amser yn anodd ceisio creu dogfen sy'n cwmpasu neges y Llywodraeth, y bydd pobl weithiau'n ei deall, a bydd rhai pobl nad ydynt yn deall y neges yr ydym yn ceisio ei chyfleu. Ond byddwn yn cyfeirio'r Aelod at ddarnau o ddeddfwriaeth yr ydym wedi eu cyflwyno. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd bellach wedi cael Cydsyniad Brenhinol, yn gweithio ar nodau ac egwyddorion datblygu cynaliadwy, gan gwmpasu'r union bethau yr ydym yn eu gwneud yn y fan hyn, a byddaf yn archwilio hynny ychydig yn rhagor mewn eiliad gyda chi. Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn rhan allweddol arall o'r jig-so yn yr adran hon, o ran sut mae trwsio'r amgylchedd. Ac rwyf wedi dweud bob amser mai'r tri darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth—gan gynnwys cynllunio—yw'r allwedd i newid y ffordd y gwelir Cymru ar y llwyfan byd-eang, ac i wneud gwahaniaeth go iawn.

And I think what we've seen across Europe, and across other areas of the world, where people have parts of these Bills, or parts of legislation—in some cases, more robust than the Welsh offer; in some cases, not so much—is that, actually, none of these countries have got the three. What we've brought here is a package together, recognised by the UN council, saying Wales is doing something very special here. And we're leading up to the events in Paris, around climate change, where people, across the globe, are looking at Wales as an iconic devolved nation, making a real difference in the world of climate and environmental impact.

Ac rwyf yn meddwl mai'r hyn yr ydym wedi'i weld ar draws Ewrop, ac ar draws rhannau eraill o'r byd, lle y mae gan bobl rannau o'r Biliau hyn, neu rannau o ddeddfwriaeth—mewn rhai achosion, yn fwy cadarn na chynnig Cymru; mewn rhai achosion, ddim gymaint—yw, mewn gwirionedd, nad oes gan yr un o'r gwledydd hyn y tri. Rydym ni yma wedi dod â phecyn at ei gilydd, sydd wedi cael cydnabyddiaeth gan gyngor y Cenhedloedd Unedig, sy'n dweud bod Cymru'n gwneud rhywbeth arbennig iawn yma. Ac rydym yn agosáu at y digwyddiadau ym Mharis, ynglŷn â newid yn yr hinsawdd, lle y mae pobl, ledled y byd, yn edrych ar Gymru fel cenedl ddatganoledig eiconig, sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn ym myd hinsawdd ac effaith amgylcheddol.

I think the Member is right to raise the issue of the amount of water that is available to us, but actually many of us do take that for granted, and I think that's unfortunate. I think that's the whole process of how we manage that in a regulated format as well as the education, which we touched on earlier.

Credaf fod yr Aelod yn iawn i godi'r mater ynghylch faint o ddŵr sydd ar gael inni, ond mewn gwirionedd mae llawer ohonom yn cymryd hynny'n ganiataol, a chredaf fod hynny'n anffodus. Credaf mai dyna yw'r holl broses o ran sut yr ydym yn rheoli hynny mewn ffordd a reoleiddir yn ogystal â'r addysg, y soniasom amdani'n gynharach.

In terms of some of the more specific questions the Member raises, on water extraction, I met this morning with my team around how we manage that more effectively. There are examples in Scotland and in England of different methods of how that's achieved. Some of that is based on pricing of extraction and a simple approach to whether how much water you extract or not is a single fee. My view is the more water you extract, probably, the larger fee you should pay. So, with some of the smaller schemes, where we have a potential for new, hydro, smaller electric schemes, is there an opportunity to reduce the prices there for extraction and therefore encourage more community-based programmes to help with the environment and the impact on the environment?

O ran rhai o'r cwestiynau mwy penodol y mae'r Aelod yn eu gofyn, ynglŷn â thynnu dŵr, cyfarfûm y bore yma â'm tîm i drafod sut i reoli hynny'n fwy effeithiol. Mae enghreifftiau yn yr Alban ac yn Lloegr o wahanol ddulliau o wneud hyn. Mae rhai ohonynt yn seiliedig ar brisio tynnu dŵr a dull syml yn ymwneud ag a yw faint o ddŵr yr ydych yn ei dynnu'n ffi sengl ai peidio. Fy marn i yw mai po fwyaf o ddŵr yr ydych yn ei dynnu, yn ôl pob tebyg, y mwyaf yw'r ffi y dylech ei thalu. Felly, gyda rhai o'r cynlluniau llai, lle y mae gennym botensial ar gyfer cynlluniau trydan newydd, hydro, llai o faint, a oes cyfle i leihau'r prisiau yno ar gyfer tynnu dŵr ac felly annog mwy o raglenni yn y gymuned i helpu â'r amgylchedd a'r effaith ar yr amgylchedd?

Also around extraction, we've got to look at the quantum of the river or the water flow. There are certainly different demographics between Scotland and Wales and how the compositions of the rivers are made up. I don't think yet that we fully understand that across the bodies that protect these areas, and we are doing more work on that. So, I think that we as a Government are taking a lead on working with NRW and other agencies to say 'What is it that we can do here and how can we make it better for the consumer but also protect the environment?' That's where the balance between the economy and the environment comes in. I've always said they shouldn't be in conflict with each other. We can move forward and be a very green wales, but also a very competent Wales, in building on the economy, too.

Hefyd, o ran tynnu dŵr, rhaid inni edrych ar gwantwm yr afon neu lif y dŵr. Yn sicr mae gwahanol ddemograffeg rhwng Cymru a'r Alban, a chyfansoddiadau'r afonydd. Nid wyf yn meddwl ein bod yn deall hynny'n llawn eto ar draws y cyrff sy'n gwarchod yr ardaloedd hyn, ac rydym yn gwneud mwy o waith ar hynny. Felly, rwyf yn meddwl ein bod fel Llywodraeth yn cymryd yr awenau o ran gweithio gyda CNC ac asiantaethau eraill i ddweud 'Beth allwn ni ei wneud yma a sut y gallwn wneud pethau'n well i ddefnyddwyr, ond hefyd warchod yr amgylchedd?' Dyna lle y mae'r cydbwysedd rhwng yr economi a'r amgylchedd yn berthnasol. Rwyf wedi dweud bob amser na ddylent wrthdaro â'i gilydd. Gallwn symud ymlaen a bod yn Gymru werdd iawn, ond hefyd yn Gymru gymwys iawn, o ran adeiladu ar yr economi, hefyd.

The Member is right to raise the issue of diffuse pollution, but there are some very successful programmes already being established at NRW. We've debated the issue about the survey of NRW; we probably won't agree on that, but there are many things that we can agree on. I think one issue is how we manage our water courses better. Part of the Environment (Wales) Bill is looking at area-based management, so there is a programme where we are working with a group of farmers. It's actually not NRW, because it's an interesting relationship around regulator and customer and how, I suppose, trust, effectively, relates to it. We've got a third party agency working with a co-operative looking at how farmers spray the fields and what levels and areas they leave spray-free, which would normally run into water courses and how we protect that. So, it's about being better informed about how you use pesticides et cetera, or about the run-off from your land and how we can protect a much wider base rather than just the local catchment area. We've got some projects in the Rhondda, in Leighton Andrews's constituency, and also in Swansea, and another one in the Dyfi catchment area, which are already under way and proving very positive.

Mae'r Aelod yn iawn i godi mater llygredd gwasgaredig, ond mae rhai rhaglenni llwyddiannus iawn eisoes yn cael eu sefydlu yn CNC. Rydym wedi trafod arolwg CNC; mae'n debyg na wnawn gytuno ar hynny, ond mae llawer o bethau y gallwn gytuno arnynt. Credaf mai un peth yw sut i reoli ein cyrsiau dŵr yn well. Mae rhan o Fil yr Amgylchedd (Cymru) yn edrych ar reoli sy'n seiliedig ar ardal, felly mae yna raglen lle'r ydym yn gweithio gyda grŵp o ffermwyr. Nid CNC ydyw mewn gwirionedd, oherwydd mae'n berthynas ddiddorol rhwng rheoleiddiwr a chwsmer, a sut, am wn i, y mae ymddiriedaeth, i bob diben, yn rhan o hyn. Mae gennym asiantaeth trydydd parti sy'n gweithio gyda chydweithfa i edrych ar sut y mae ffermwyr yn chwistrellu'r caeau a'r lefelau a'r mannau y maent yn eu gadael heb eu chwistrellu, a fyddai fel arfer yn rhedeg i mewn i gyrsiau dŵr a sut mae diogelu hynny. Felly, mae'n fater o fod yn fwy gwybodus am y ffordd yr ydych yn defnyddio plaladdwyr ac ati, neu am y dŵr ffo o'ch tir a sut y gallwn ddiogelu sylfaen lawer ehangach yn hytrach na dim ond y dalgylch lleol. Mae gennym brosiectau yn y Rhondda, yn etholaeth Leighton Andrews, a hefyd yn Abertawe, ac un arall yn nalgylch Dyfi, sydd eisoes ar y gweill ac yn profi'n gadarnhaol iawn.

On issues around planning, I absolutely agree; the Member is right to raise that. Some of these we don't need to fix through primary legislation in any way, but actually, we can do through policy changes and some of the building regulations et cetera and planning regulations on just how we build estates et cetera with more trees or more sustainable drainage systems. These are things that we can develop through the planning policy as we move forward.

O ran materion yn ymwneud â chynllunio, rwyf yn cytuno'n llwyr; mae'r Aelod yn iawn i godi hynny. Nid yw rhai o'r rhain yn rhai y mae angen inni eu trwsio drwy ddeddfwriaeth sylfaenol mewn unrhyw ffordd, ond a dweud y gwir, gallwn wneud hynny drwy newid polisïau a rhai o'r rheoliadau adeiladu ac ati a'r rheoliadau cynllunio o ran sut i adeiladu ystadau ac ati gyda rhagor o goed neu systemau draenio mwy cynaliadwy. Mae'r rhain yn bethau y gallwn eu datblygu drwy'r polisi cynllunio wrth inni symud ymlaen.

15:38 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I welcome the fact that we have a water strategy for Wales? It's overdue that we have a holistic view around what is, as has already been suggested, our most valuable resource as humanity. I would say, nevertheless, Deputy Presiding Officer, that issuing or publishing such a strategy 17 minutes before we're due to be in the Chamber does not allow for the level of robust scrutiny that I would wish for as an Assembly Member charged with offering that type of scrutiny, and maybe that is something the Government would want to consider. There are examples where we receive these documents 24 hours beforehand; sadly, this was not one of them. That said, there are positives, but also questions that do initially arise in my mind having briefly gone through the strategy as it stands.

A gaf fi groesawu'r ffaith bod gennym strategaeth dŵr ar gyfer Cymru? Mae'n hen bryd inni gael golwg gyfannol, fel sydd eisoes wedi cael ei awgrymu, ar adnodd mwyaf gwerthfawr y ddynoliaeth. Credaf, serch hynny, Ddirprwy Lywydd, nad yw cyflwyno neu gyhoeddi strategaeth o'r fath 17 munud cyn inni orfod bod yn y Siambr yn caniatáu'r math o graffu cadarn yr hoffwn ei wneud fel Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am gynnig y math hwnnw o graffu, ac efallai fod hynny'n rhywbeth yr hoffai'r Llywodraeth ei ystyried. Mae enghreifftiau lle byddwn yn derbyn y dogfennau hyn 24 awr ymlaen llaw; yn anffodus, nid oedd hon yn un ohonynt. Wedi dweud hynny, mae yna bethau cadarnhaol, ond hefyd mae cwestiynau cychwynnol yn codi yn fy meddwl ar ôl taro golwg gyflym ar y strategaeth fel ag y mae.

I'll start with payments for ecosystem services. It's an approach, clearly, that we as a party support. It needs, of course, to be balanced by clear incentives for positive behaviours. Very often, penalties to enforce binding rules and fines simply end up being a game of cat and mouse over which is the least expensive option. That's certainly the danger, and I think turning that into a more positive approach to managing ecosystems is something that is long overdue and maybe needs to now be accelerated in terms of actions because it's been talked about for a long time; it's about time that we actually saw action on the ground. But, that said, could you maybe confirm, Minister, that any such payment for an eco-services system scheme doesn't undermine, of course, the polluter pays principle, which I think is one key principle that all of this should be based upon?

Dechreuaf gyda thaliadau am wasanaethau ecosystemau. Mae'n ymagwedd yr ydym ni fel plaid, wrth gwrs, yn ei chefnogi. Mae angen, wrth gwrs, cydbwyso hynny â chymhellion clir ar gyfer ymddygiad cadarnhaol. Yn aml iawn, mae cosbau er mwyn gorfodi rheolau a dirwyon rhwymol yn y pen draw'n troi'n gêm cath a llygoden dros pa un yw'r opsiwn lleiaf costus. Dyna'n sicr yw'r perygl, ac rwyf yn meddwl ei bod yn hen bryd troi hynny'n ymagwedd fwy cadarnhaol at reoli ecosystemau ac efallai fod angen cyflymu hynny yn awr o ran y camau gweithredu oherwydd bod hyn wedi bod yn destun siarad ers peth amser; mae'n hen bryd inni weld camau gweithredu gwirioneddol ar lawr gwlad. Ond, wedi dweud hynny, a allech efallai gadarnhau, Weinidog, na fydd unrhyw daliad o'r fath am gynllun system eco-wasanaethau'n tanseilio, wrth gwrs, yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu, sef un egwyddor allweddol y dylid seilio hyn oll arni, yn fy nhyb i?

Now, reduction in consumption in terms of reducing use of water, waste of water and leakage, of course, is very, very important and key to us all. But, we also, I think, need to create a better understanding around seeing waste water actually as a resource in terms of nutrients, in terms of energy and, indeed, in terms of water. I know that Wessex Water, for example, is currently trialling a sewer meter with potential to incentivise households to use measures such as rainwater butts to minimise the amount of water that flows from their properties, et cetera. So, I wonder, Minister, whether you'd consider a similar approach in terms of metering waste water, potentially, because I know that future generations won't thank us for using valuable drinking water to wash our dishes and flush our toilets. I think we need to be much bolder in that respect.

Yn awr, mae gostwng defnydd o ran defnyddio llai o ddŵr, gwastraff dŵr a gollwng, wrth gwrs, yn bwysig iawn, iawn ac yn allweddol inni i gyd. Ond rwyf hefyd yn meddwl bod angen inni feithrin gwell dealltwriaeth o ddŵr gwastraff fel adnodd o ran maetholion, o ran ynni ac, yn wir, o ran dŵr. Gwn fod Wessex Water, er enghraifft, ar hyn o bryd yn treialu mesurydd carthffos sydd â'r potensial i gymell aelwydydd i ddefnyddio mesurau fel casgenni dŵr glaw i leihau faint o ddŵr sy'n llifo oddi ar eu heiddo, ac ati. Felly, tybed, Weinidog, a fyddech yn ystyried dull tebyg o ran mesuryddion dŵr gwastraff, o bosibl, oherwydd gwn na wnaiff cenedlaethau'r dyfodol ddiolch inni am ddefnyddio dŵr yfed gwerthfawr i olchi ein llestri a fflysio ein toiledau. Credaf fod angen inni fod yn llawer mwy beiddgar yn hynny o beth.

Water poverty and social tariffs, clearly, are a huge area of importance to us and I think that metering and tariffs are probably at the heart of affordability. Every household needs access, of course, to a minimum amount of water and I know rising block tariffs is an option that means that costs per unit rise with consumption. So, that means that essential consumption, such as cooking and hygiene, is cheaper per unit than discretionary use, such as washing cars, for example. Now, another approach would be linking water usage to customer circumstances, household income and so on. A utility could be aware of which households are exposed to water poverty and could tailor tariffs for these households so that they get essential water supplies at an affordable proportion of household income. I wonder, Minister, how many of these options you have considered and whether you're minded to bring any of these forward.

Mae tlodi dŵr a thariffau cymdeithasol, yn amlwg, yn faes pwysig dros ben inni ac rwy'n credu bod mesuryddion a thariffau yn ôl pob tebyg yn ganolog i fforddiadwyedd. Mae angen i isafswm o ddŵr fod ar gael i bob aelwyd, wrth gwrs, ac rwy'n gwybod bod tariffau bloc cynyddol yn opsiwn sy'n golygu bod costau fesul uned yn codi wrth ddefnyddio mwy. Felly, mae hynny'n golygu bod defnydd hanfodol, fel coginio a hylendid, yn rhatach fesul uned na defnydd dewisol, fel golchi ceir, er enghraifft. Nawr, dewis arall fyddai cysylltu defnydd dŵr ag amgylchiadau cwsmer, incwm y cartref ac ati. Gallai cwmni cyfleustodau fod yn ymwybodol o ba aelwydydd sy'n wynebu tlodi dŵr a gallai deilwra tariffau ar gyfer y cartrefi hyn fel eu bod yn cael cyflenwadau dŵr hanfodol am gyfran fforddiadwy o incwm yr aelwyd. Tybed, Weinidog, faint o'r opsiynau hyn yr ydych wedi eu hystyried ac a ydych yn bwriadu cyflwyno unrhyw un ohonynt?

In terms of smart water meters, I think that we should be thinking of smart water and electricity meters being combined, because then you know how much you're spending to heat the bathwater as well as how much bathwater you are consuming. A proper system can allow consumers to modify their behaviour by really appreciating the cost of their choices. I wonder, Minister, whether in terms of consumer goods, such as power showers, for example, they should be labelled in terms of their water usage, so that customers can make informed decisions upfront when buying such items. Would you agree, Minister, that if we are going to have meters then we have to go for smart meters, of course, because dumb meters simply give an occasional reading? Consumers need to appreciate their water usage in real time and that could also, of course, help in identifying household leakages.

O ran mesuryddion dŵr clyfar, rwy'n meddwl y dylem fod yn meddwl am gyfuno mesuryddion dŵr a thrydan clyfar, oherwydd rydych yn gwybod felly faint yr ydych yn ei wario i gynhesu dŵr y baddon, yn ogystal â faint o ddŵr yr ydych yn ei ddefnyddio yn y baddon. Gall system briodol alluogi defnyddwyr i newid eu hymddygiad drwy wir werthfawrogi cost eu dewisiadau. Tybed, Weinidog, o ran nwyddau defnyddwyr, megis cawodydd pŵer, er enghraifft, a ddylid eu labelu o ran eu defnydd o ddŵr, er mwyn i gwsmeriaid allu gwneud penderfyniadau ar sail yr wybodaetho flaen llaw wrth brynu eitemau o'r fath. A fyddech yn cytuno, Weinidog, os ydym yn mynd i gael mesuryddion bod rhaid inni fynd am fesuryddion clyfar, wrth gwrs, oherwydd mai dim ond darlleniadau achlysurol a gawn gan fesuryddion twp? Mae angen i ddefnyddwyr werthfawrogi eu defnydd o ddŵr mewn amser real a gallai hynny hefyd, wrth gwrs, helpu i ganfod dŵr sy'n gollwng ar aelwydydd.

Now, I note in your strategy that you say that you will monitor the costs and benefits of market reform and the introduction of competition to non-household customers served by water companies in Wales. I just need clarity, Minister, as to whether you're now opening the door to competition in the non-household market in Wales, because the former Minister, of course, robustly ruled out such an approach, describing it as an ideology-driven experiment which mustn't endanger our made-in-Wales solution, with reference, of course, to the social enterprise model that we have here in Wales around Dŵr Cymru. So, two years very nearly to the day since those words, I'm just wondering whether you could clarify for us whether the Welsh Government has actually changed its mind on this issue.

Nawr, rwy'n sylwi yn eich strategaeth eich bod yn dweud y byddwch yn monitro costau a manteision diwygio'r farchnad a chyflwyno cystadleuaeth i gwsmeriaid ar wahân i gwsmeriaid preswyl sy'n cael eu gwasanaethu gan gwmnïau dŵr yng Nghymru. Hoffwn gael eglurder, Weinidog, er mwyn deall a ydych nawr yn agor y drws i gystadleuaeth yn y farchnad ddibreswyl yng Nghymru, gan fod y cyn Weinidog, wrth gwrs, wedi dweud yn bendant ei fod yn diystyru dull o'r fath, gan ei ddisgrifio fel arbrawf seiliedig ar ideoleg na ddylid caniatáu iddo beryglu ein dull a wnaed yng Nghymru, gan gyfeirio, wrth gwrs, at y model menter gymdeithasol sydd gennym yma yng Nghymru o gwmpas Dŵr Cymru. Felly, ddwy flynedd bron iawn i'r diwrnod ers y geiriau hynny, tybed a allech egluro inni a yw Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd wedi newid ei meddwl ynglŷn â'r mater hwn.

There's reference to transfer of private supply pipes to water companies. I'm not sure what will be achieved by this and at what cost. Incorporating farms, for example, into the mains network would be costly, would add little actual utility and would raise issues, clearly, about who should pay for that. So, I would appreciate maybe a bit of clarity there. Urban drainage schemes, of course, are very welcome. There are very innovative examples out there but I think the general feeling is that we really need to accelerate the pace of development around sustainable drainage systems and maybe you could tell us how you intend to do that.

Ceir cyfeiriad at drosglwyddo pibellau cyflenwi preifat i gwmnïau dŵr. Nid wyf yn siŵr beth fydd hyn yn ei gyflawni nac am ba gost. Byddai'n gostus, er enghraifft, ymgorffori ffermydd yn rhwydwaith y prif gyflenwad, ni fyddai'n ychwanegu fawr ddim cyfleustod gwirioneddol a byddai'n codi cwestiynau, yn amlwg, ynglŷn â phwy ddylai dalu am hynny. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi efallai ychydig o eglurder. Wrth gwrs, mae croeso mawr i gynlluniau draenio trefol. Mae enghreifftiau arloesol iawn ar gael, ond rwy'n meddwl mai'r teimlad cyffredinol yw bod gwir angen inni fod yn datblygu systemau draenio cynaliadwy'n gyflymach ac efallai y gallech ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu gwneud hynny.

Finally, there is much, as the strategy tells us, that we can do but there is so much more that we could do, of course, with the powers and further devolution around water and sewerage. Now, Silk, of course, supported aligning regulatory boundaries for England and Wales with the geographical border in relation to water and sewerage, which is something that, clearly, has a deal of consensus around it. But we also need to confer full legislative competence on the National Assembly for all matters relating to water and sewerage and, of course, we need to remove the unilateral powers of the UK Government to intervene in respect of water resources in Wales. Now, those were all asks in terms of Silk. I note that the St David's Day command paper mentions the establishment of a joint governance review programme to examine some of those issues. Maybe you could update us on those discussions and I'm sure you would join me in reaffirming the commitment to realising all of Silk's recommendations in terms of competence in this area.

Yn olaf, mae llawer y gallwn ei wneud, fel y mae'r strategaeth yn ei ddweud wrthym, ond mae cymaint mwy y gallem ei wneud, wrth gwrs, â'r pwerau a'r datganoli pellach ym maes dŵr a charthffosiaeth. Nawr, roedd Silk, wrth gwrs, o blaid cael ffiniau rheoleiddio ar gyfer Cymru a Lloegr a oedd yn cyd-fynd â'r ffin ddaearyddol ar gyfer dŵr a charthffosiaeth, ac mae'n amlwg bod llawer o gonsensws ynghylch hynny. Ond mae angen inni hefyd roi cymhwysedd deddfwriaethol llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol am bob mater sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth ac, wrth gwrs, mae angen inni gael gwared ar bwerau unochrog Llywodraeth y DU i ymyrryd ynglŷn ag adnoddau dŵr yng Nghymru. Nawr, roedd Silk yn gofyn am y pethau hynny i gyd. Nodaf fod papur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi'n sôn am sefydlu rhaglen o gydadolygiadau llywodraethu i edrych ar rai o'r materion hynny. Efallai y gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y trafodaethau hynny, ac rwy'n siŵr y byddech yn ymuno â mi i ailddatgan yr ymrwymiad i wireddu holl argymhellion Silk o ran cymhwysedd yn y maes hwn.

15:46

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his comments. Can I apologise, firstly, to the Deputy Presiding Officer? I wasn't aware it was so late that we announced the strategy; I will look at that department to see exactly how we can improve on that in order to aid Members in the transparency of this decision and process.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. A gaf ymddiheuro, yn gyntaf, i'r Dirprwy Lywydd? Nid oeddwn yn sylweddoli ei bod mor hwyr arnom yn cyhoeddi'r strategaeth; byddaf yn edrych ar yr adran honno i weld sut yn union y gallwn wella ar hynny er mwyn cynorthwyo Aelodau â thryloywder y penderfyniad a'r broses hon.

The Member is right to raise the issue around payment for ecosystems. I think it's an incredibly exciting time, actually, to look at the way we look at impact and how we can generate ecosystems that are paid for differently to what we currently do. I think ensuring that we can get business buy-in to the system is something that we are pursuing; it's quite challenging, but we are starting to work with organisations to develop such schemes.

Mae'r Aelod yn iawn i godi'r mater ynglŷn â thalu am ecosystemau. Rwy'n credu bod hwn yn amser hynod gyffrous, mewn gwirionedd, i edrych ar sut yr ydym yn effeithio ar ecosystemau a sut y gallwn gynhyrchu ecosystemau y telir amdanynt yn wahanol i'r ffordd yr ydym yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Rwy'n credu ein bod yn mynd ar drywydd sicrhau bod busnesau'n cefnogi'r system; mae'n gryn her, ond rydym yn dechrau gweithio gyda sefydliadau i ddatblygu cynlluniau o'r fath.

I think there are huge benefits for companies that, actually, may not have as direct an impact on the ecosystems as a business, but, actually, being a green business, could make investments into our communities across Wales into this very type of business, which, I think, would give them a market lead in what they do and how they have impact, whether that be in Wales or in a global context. I'm absolutely with the Member in terms of the polluter pays, and that process hasn't changed, but this gives a new exciting opportunity. Rather than a constant stick against people who have an impact on the system, maybe we should be embracing them, and this is one way of doing that to have a more holistic look at that.

Rwy'n meddwl bod manteision enfawr i gwmnïau nad ydynt, mewn gwirionedd, o reidrwydd yn cael effaith mor uniongyrchol ar ecosystemau â busnes, ond, a allai, a hwythau'n fusnes gwyrdd, wneud buddsoddiadau yn ein cymunedau ledled Cymru yn yr union fath hwn o fusnes, a fyddai, yn fy marn i, yn eu galluogi i achub y blaen yn y farchnad o ran yr hyn y maent yn ei wneud a sut y maent yn cael effaith, boed hynny yng Nghymru neu mewn cyd-destun byd-eang. Rwy'n cytuno'n llwyr â'r Aelod ynglŷn â'r ffaith mai'r llygrwr ddylai dalu, ac nid yw'r broses honno wedi newid, ond mae hyn yn rhoi cyfle cyffrous newydd. Yn hytrach na defnyddio'r ffon yn gyson yn erbyn pobl sy'n effeithio ar y system, efallai y dylem fod yn eu cofleidio, ac mae hyn yn un ffordd o wneud hynny er mwyn mabwysiadu agwedd fwy cyfannol.

I think the Member is right in terms of water supply and intelligent water meters. I don't think there is any other reason why you would install that. I've recently met with all of the water companies to discuss issues about what their offer is to Wales, and I was really encouraged. All of the companies that have an interest here were talking about the social tariff and how they deliver that in Wales, and are very proud, actually, of the Welsh ethos.

Rwy'n meddwl bod yr Aelod yn iawn o ran y cyflenwad dŵr a mesuryddion dŵr clyfar. Nid wyf yn credu bod unrhyw reswm arall pam y byddech yn eu gosod. Rwyf wedi cyfarfod yn ddiweddar â phob un o'r cwmnïau dŵr i drafod yr hyn y maent yn ei gynnig i Gymru, a ches fy nghalonogi'n fawr. Roedd pob un o'r cwmnïau sydd â buddiant yma'n sôn am y tariff cymdeithasol a sut maent yn ei ddarparu yng Nghymru, ac roeddynt yn falch iawn, a dweud y gwir, o ethos Cymru.

In Wales, Ofwat did a commission on working with customers in Wales. The way the social tariff works is a contribution from the overall payment, and what people said in Wales was that they were happy to make a contribution to the people who couldn't afford to pay for their bills, when, in many places in England, that wasn't the case at all. That's why, in Wales, we're able to introduce that social tariff: because, at heart, we still care about each other, and I think that was really encouraging for Wales.

Yng Nghymru, cynhaliodd Ofwat gomisiwn ar weithio gyda chwsmeriaid yng Nghymru. Mae'r tariff cymdeithasol yn gweithio trwy gymryd cyfraniad o'r taliad cyffredinol, a'r hyn a ddywedodd pobl yng Nghymru oedd eu bod yn hapus i wneud cyfraniad i'r bobl na allent fforddio talu am eu biliau, ac nid oedd hynny'n wir o gwbl mewn llawer o leoedd yn Lloegr. Dyna pam yr ydym yn gallu cyflwyno'r tariff cymdeithasol hwnnw yng Nghymru: oherwydd, yn y bôn, rydym yn dal i falio amdanom ein gilydd, a chredaf fod hynny'n galonogol iawn i Gymru.

Of course, on the issue around the statement by a previous Minister around the model in Wales, nothing's changed in Welsh Government policy. But what we have to look for is future opportunities, and I will be looking very carefully at the markets and how they operate, because, you know, this Government—there may be aspirations at a later date for a renationalisation of water, in a true sense. I think what we should do is keep an eye on what is happening in the market, but also look at opportunities for the future. So, I absolutely agree with my predecessor, and maybe there are opportunities for the future too.

Wrth gwrs, o ran y mater yn ymwneud â'r datganiad gan Weinidog blaenorol ynglŷn â'r model yng Nghymru, nid oes dim wedi newid ym mholisi Llywodraeth Cymru. Ond mae'n rhaid inni chwilio am gyfleoedd at y dyfodol, a byddaf yn edrych yn ofalus iawn ar y marchnadoedd a sut maent yn gweithredu, oherwydd, wyddoch chi, y Llywodraeth hon—efallai y bydd dyheadau yn y dyfodol i ailwladoli dŵr, yng ngwir ystyr y gair. Rwy'n meddwl mai'r hyn y dylem ei wneud yw cadw llygad ar yr hyn sy'n digwydd yn y farchnad, ond hefyd ystyried cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Felly, rwy'n cytuno'n llwyr â'm rhagflaenydd, ac efallai fod cyfleoedd ar gyfer y dyfodol hefyd.

Of course, on his final points around Silk, I can confirm that our position on Silk remains the same. It's the detail that we await. Of course, the new Government in Westminster, we will be encouraging them to engage with us to see exactly when they will deliver on the boundaries of Silk, and how the First Minister intends to take that forward is a matter for him.

Wrth gwrs, ar ei bwynt olaf ynglŷn â Silk, gallaf gadarnhau bod ein safbwynt o ran Silk yn aros yr un fath. Rydym yn aros am y manylion. Wrth gwrs, byddwn yn annog y Llywodraeth newydd yn San Steffan i ymgysylltu â ni i weld pryd yn union y byddant yn cyflawni o ran ffiniau Silk, a mater i'r Prif Weinidog yw sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â hynny.

15:49

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the statement today and the fact that we're going to have a water strategy for Wales. I think it's worth repeating that Welsh Water's success does flow from its business model. There's a trade-off between long-term priorities and short-term gains: capital investment or customer bills? That is the stark choice. The not-for-profit model does allow Dŵr Cymru to balance those two competing interests—something to think about, maybe, with regard to the rail franchise.

Rwy'n croesawu'r datganiad heddiw a'r ffaith ein bod yn mynd i gael strategaeth ddŵr i Gymru. Rwy'n credu ei bod yn werth ailadrodd bod llwyddiant Dŵr Cymru'n deillio o'i fodel busnes. Ceir cyfaddawd rhwng blaenoriaethau hirdymor ac enillion tymor byr: buddsoddiad cyfalaf ynteu biliau cwsmeriaid? Dyna'r dewis anodd. Mae'r model dielw'n caniatáu i Ddŵr Cymru sicrhau cydbwysedd rhwng y ddau fuddiant hynny sy'n cystadlu â'i gilydd—rhywbeth i'w gadw mewn cof, efallai, o ran y fasnachfraint rheilffyrdd.

Water is one of our greatest natural resources, but that doesn't mean that we can take it for granted. Wales has gone its own way and we continue to lead the way in terms of long-term management, reducing leakage by over half in a decade, and I think that that is a really good example. This strategy does build on that success. On that, Minister, one of the schemes that are highlighted throughout the consultation is the RainScape scheme in Llanelli. The project has been supported by Welsh Government, Natural Resources Wales, Dŵr Cymru and Carmarthenshire County Council, so it's a real partnership approach. Construction has been completed at several sites over the past few years, and work is under way on the Felinfoel Road as part of the Cambrian phase of this project. Is your department working with the water company to identify more projects like RainScape elsewhere in Wales over the next few years, Minister?

Mae dŵr yn un o'n hadnoddau naturiol mwyaf, ond nid yw hynny'n golygu y gallwn ei gymryd yn ganiataol. Mae Cymru wedi mynd ei ffordd ei hun ac rydym yn parhau i arwain y ffordd o ran rheoli yn y tymor hir, gan leihau gollyngiadau o dros eu hanner mewn degawd, a chredaf fod hynny'n enghraifft wirioneddol dda. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y llwyddiant hwnnw. Ar hynny, Weinidog, un o'r cynlluniau sy'n cael sylw drwy gydol yr ymgynghoriad yw'r cynllun RainScape yn Llanelli. Mae'r prosiect wedi cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin, felly mae'n ymagwedd bartneriaeth wirioneddol. Mae'r gwaith adeiladu wedi ei gwblhau mewn sawl safle dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar Ffordd Felinfoel yn rhan o gam Cambrian y prosiect hwn. A yw eich adran yn gweithio gyda'r cwmni dŵr i ganfod mwy o brosiectau fel RainScape mewn mannau eraill yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf, Weinidog?

Somebody did raise the issue, quite rightly, about educating schoolchildren—the next generation—about saving water. That is, actually, one of the primary aims behind the scheme in Stebonheath school, where there is a whole-systems network behind saving that water and educating children about exactly what water has been removed from the surface, doing mathematical calculations in the classroom and really understanding the benefits of keeping that water away from the sewer network. I think it is a real model that we could take elsewhere.

Cododd rhywun y mater, yn gwbl briodol, o addysgu plant ysgol—y genhedlaeth nesaf—am arbed dŵr. Dyna, mewn gwirionedd, yw un o brif amcanion y cynllun yn ysgol Stebonheath, lle mae rhwydwaith systemau cyfan y tu ôl i arbed y dŵr hwnnw ac addysgu plant ynghylch pa ddŵr yn union sydd wedi cael ei dynnu oddi ar yr wyneb, gwneud cyfrifiadau mathemategol yn yr ystafell ddosbarth a chael dealltwriaeth wirioneddol o fanteision cadw'r dŵr hwnnw oddi wrth y rhwydwaith carthffosydd. Rwy'n credu ei fod yn fodel gwirioneddol y gallem fynd ag ef i fannau eraill.

The consultation here also highlights the RSPB project at Lake Vyrnwy, and that project is specific to the upland peat bog, the biodiversity and carbon storage that it supports, but are there wider lessons in terms of the link between land management and the water environment, do you think, Minister? How do you think we might be able to take some of those strategies forward?

Mae'r ymgynghoriad yma hefyd yn amlygu'r prosiect RSPB yn Llyn Efyrnwy, ac mae'r prosiect hwnnw'n benodol i gors mawn yr ucheldir, y bioamrywiaeth a'r gwaith storio carbon y mae'n eu cefnogi, ond a oes gwersi ehangach o ran y cysylltiad rhwng rheoli tir a'r amgylchedd dŵr, yn eich barn chi, Weinidog? Sut yr ydych chi'n meddwl y gallem fwrw ymlaen â rhai o'r strategaethau hynny?

15:52

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her questions. Again, I pay tribute to the work around RainScape in Llanelli. There has been an immense amount of work, not just by Welsh Government, but many agencies, to deliver that. It's a great example of what can be done, working together. It's given us some further ideas on the development of and construction of estates now, where we should start seriously thinking about how we build that in as an integral part of a new development, rather than retrofitting these programmes in.

Diolchaf i'r Aelod am ei chwestiynau. Unwaith eto, rwyf yn talu teyrnged i'r gwaith o amgylch RainScape yn Llanelli. Bu llawer iawn o waith, nid dim ond gan Lywodraeth Cymru, ond gan lawer o asiantaethau, i gyflawni hynny. Mae'n enghraifft wych o'r hyn y gellir ei wneud drwy gydweithio. Mae wedi rhoi rhai syniadau pellach inni am ddatblygu ac adeiladu ystadau nawr, lle y dylem ddechrau meddwl o ddifrif am sut yr ydym yn cynnwys hynny fel rhan annatod o ddatblygiad newydd, yn hytrach nag ôl-osod y rhaglenni hyn.

I absolutely agree with the Member with regard to education. Eco-schools have been tremendous in demonstrating the impact of the school, but their family life as well, in terms of understanding their effects. Some of the issues that I've been pleased to see when I've been out visiting the eco-schools are things around the intelligent building, checking and being able to demonstrate about surface water collection and different uses for that. I think we can progress effectively on more modern buildings, as we move forward. Retrofitting that is quite difficult, but it's something that we shouldn't be thinking is too difficult to do. The reuse of water is something that should be high on our agenda and that of the future.

Cytunaf yn llwyr â'r Aelod ynglŷn ag addysg. Mae eco-ysgolion wedi bod yn wych o ran dangos effaith yr ysgol, ond eu bywyd teuluol hefyd, o ran deall eu heffeithiau. Rhai o'r materion yr wyf wedi bod yn falch o'u gweld pan wyf wedi bod allan yn ymweld â'r eco-ysgolion yw pethau o gwmpas yr adeilad deallus, archwilio a gallu dangos casglu dŵr wyneb a gwahanol ffyrdd o'i ddefnyddio. Rwyf yn meddwl y gallwn fwrw ymlaen yn effeithiol ar adeiladau mwy modern, wrth inni symud ymlaen. Mae ôl-osod hynny'n eithaf anodd, ond mae'n rhywbeth na ddylem fod yn meddwl ei fod yn rhy anodd ei wneud. Mae ailddefnyddio dŵr yn rhywbeth a ddylai fod yn uchel ar ein hagenda ac ar agenda'r dyfodol.

The programme with Lake Vyrnwy is a programme with the RSPB, but also in conjunction with other organisations. Again, it's a key plank for understanding what we'll be doing in the environment Bill about area land-based management and understanding the protection of peat bogs has some huge benefits, not just in that particular area, but downstream too, in terms of how the collection and absorption of water in the uplands protect our more low-lying areas in communities and also adds carbon capture as well. So, there are huge benefits in doing that, and it's something that we are very positive about to continue the work there.

Mae'r rhaglen gyda Llyn Efyrnwy yn rhaglen gyda'r RSPB, ond hefyd ar y cyd â sefydliadau eraill. Unwaith eto, mae'n elfen allweddol i ddeall yr hyn y byddwn yn ei wneud yn y Bil amgylchedd ynghylch rheoli seiliedig ar ddarnau o dir a deall bod manteision enfawr i amddiffyn mawnogydd, nid yn unig yn yr ardal benodol honno, ond i lawr yr afon hefyd, o ran sut y mae casglu ac amsugno dŵr yn yr ucheldir yn diogelu ein hardaloedd mwy isel mewn cymunedau a hefyd yn dal mwy o garbon. Felly, mae manteision enfawr i wneud hynny, ac mae'n rhywbeth yr ydym yn gadarnhaol iawn ynglŷn â pharhau â'r gwaith yno.

15:54 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much welcome the Minister's statement today. As has already been acknowledged on all sides of the Chamber, we are indeed lucky in Wales to have water as one of our most valuable natural resources, but with that, of course, comes the responsibility to ensure that it's managed both effectively and sustainably. I have previously spoken about the importance of pumped-storage schemes, and continue to believe that this is one way in which we can manage our water system responsibly, while bringing huge benefits in terms of retaining water upstream during peak downfalls and also allowing us to deliver near-instant low carbon electricity to the grid at key times.

Rwyf yn croesawu'n fawr ddatganiad y Gweinidog heddiw. Fel y mae eisoes wedi ei gydnabod ar bob ochr i'r Siambr, rydym yn wir ffodus yng Nghymru bod dŵr yn un o'n hadnoddau naturiol mwyaf gwerthfawr, ond gyda hynny, wrth gwrs, daw'r cyfrifoldeb i sicrhau y caiff ei reoli'n effeithiol ac yn gynaliadwy. Rwyf wedi siarad o'r blaen am bwysigrwydd cynlluniau storfa bwmp, ac rwyf yn dal i gredu bod hyn yn un ffordd y gallwn reoli ein system dŵr yn gyfrifol, gan greu manteision enfawr o ran cadw dŵr i fyny'r afon yn ystod glawiad trwm a chaniatáu inni hefyd ddarparu trydan carbon isel bron ar unwaith i'r grid ar adegau allweddol.

I would also like to touch briefly on the key issue of water quality here in Wales. As Members will already know, in 2012 Natural Resources Wales reported that only 37 per cent of the water bodies in Wales had—and I quote—'good ecological status'.

Hoffwn hefyd sôn yn fyr am fater allweddol ansawdd dŵr yma yng Nghymru. Fel y bydd yr Aelodau'n ei wybod yn barod, yn 2012 adroddodd Cyfoeth Naturiol Cymru mai dim ond 37 y cant o'r cyrff dŵr yng Nghymru oedd—a dyfynnaf—â 'statws ecolegol da'.

This figure had increased last year to 42 per cent, and is set to rise again by the end of this year. But we will still fall well short of the water framework directive objective for all inland and coastal waters to have achieved good status by December of this year. The European Commission has warned all member states that if they fail to implement the changes required to meet these targets set out in the water framework directive, they could indeed face potential legal action.

Roedd y ffigur hwn wedi cynyddu y llynedd i 42 y cant, ac mae'n debygol o godi eto erbyn diwedd eleni. Ond byddwn yn dal i fod ymhell o gyrraedd nod y gyfarwyddeb fframwaith dŵr i'r holl ddyfroedd mewndirol ac arfordirol gyflawni statws da erbyn mis Rhagfyr eleni. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi rhybuddio pob aelod-wladwriaeth, os byddant yn methu â gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i gyrraedd y targedau hyn a nodir yn y gyfarwyddeb fframwaith dŵr, y gallent yn wir wynebu achos cyfreithiol posibl.

In the water strategy consultation document, it stated that—and again, I quote—

Yn nogfen ymgynghori'r strategaeth ddŵr, roedd yn dweud—ac eto, rwy'n dyfynnu—

'The reasons for failure are complex and varied',

'Mae'r rhesymau dros fethiant yn gymhleth ac yn amrywiol',

and that:

a:

'The next set of River Basin Management plans, due to be published in 2015, will set out how we aim to reach 100 per cent compliance with the Directive by 2021.'

'Bydd y set nesaf o gynlluniau Rheoli Basn Afon, a gyhoeddir yn 2015, yn nodi sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd cydymffurfiad 100 y cant â'r Gyfarwyddeb erbyn 2021.'

Minister, can you give us advance indication of some of the approaches that the Welsh Government is intending to adopt so as to reach this 100 per cent compliance?

Weinidog, a allwch chi roi syniad ymlaen llaw inni o rai o'r dulliau y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu defnyddio er mwyn cyrraedd y cydymffurfiad 100 y cant hwn?

I also note that, amongst those reasons cited for this being the case, over 14 per cent of the water framework directive failures for water quality is due to abandoned mines and contaminated mines. Minister, would you agree that this is yet another reason that we should ensure that sufficient funds are available to properly restore opencast mining sites in this country, and also to reinforce your already robust stance in terms of proposals around fracking?

Nodaf hefyd, ymhlith y rhesymau a roddwyd mai dyma yw'r achos, bod dros 14 y cant o fethiannau'r gyfarwyddeb fframwaith dŵr ar gyfer ansawdd dŵr o ganlyniad i fwyngloddiau segur a mwyngloddiau wedi'u halogi. Weinidog, a fyddech chi'n cytuno bod hwn yn rheswm arall eto pam y dylem sicrhau bod digon o arian ar gael i adfer safleoedd glo brig yn briodol yn y wlad hon, a hefyd i atgyfnerthu eich safiad sydd eisoes yn gadarn o ran y cynigion ynglŷn â ffracio?

I'd like to turn now to some of the consultation responses, briefly. Some respondents said that Government guidance needs to direct companies to wider environmental, social and economic policy, and also asked that Welsh Government consider legislating to put a duty on utility companies to take account of natural resource management plans. Minister, to what extent do you think that the planning Bill already addresses this, and what more can be done now within the environment Bill to ensure that this is appropriately covered?

Hoffwn droi'n awr at rai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yn gryno. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen i arweiniad y Llywodraeth gyfarwyddo cwmnïau at bolisi amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach, a gofynnwyd hefyd i Lywodraeth Cymru ystyried deddfu i roi dyletswydd ar gwmnïau cyfleustodau i ystyried cynlluniau rheoli adnoddau naturiol. Weinidog, i ba raddau yr ydych chi'n meddwl bod y Bil cynllunio eisoes yn ymdrin â hyn, a beth arall y gellir ei wneud yn awr yn y Bil amgylchedd i sicrhau bod hyn yn cael sylw priodol?

Finally, I'd like to mention, again briefly, the area statements, which Natural Resources Wales will have to produce, as proposed under the environment Bill. It's my hope that these statements will help to improve catchment management, to which there's been considerable reference already. Minister, will these area statements help to ensure that work is prioritised according to specific local issues, and that poor land management use, which we know puts additional pressure on our water resources here in Wales, will be minimised?

Yn olaf, hoffwn sôn, unwaith eto yn gryno, am y datganiadau ardal, y bydd yn rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru eu cyflwyno, fel y cynigir o dan y Bil amgylchedd. Fy ngobaith i yw y bydd y datganiadau hyn yn helpu i wella rheoli dalgylchoedd, y cyfeiriwyd yn helaeth ato eisoes. Weinidog, a fydd y datganiadau ardal hyn yn helpu i sicrhau bod gwaith yn cael ei flaenoriaethu yn unol â materion lleol penodol, a bod defnydd rheoli tir gwael, sydd fel y gwyddom yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein hadnoddau dŵr yma yng Nghymru, yn cael ei leihau?

15:57

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his questions—very detailed. If I may pick up the issue around restoration and opencast, I do support the Member's principle, as many Members in this Chamber do. I think when we create an impact we should have at least the opportunity to restore the land back to how it was, or indeed redevelop the proposals to a plan made by the developers but that actually is affordable and is secure. I think that has been a very difficult process in the past, but we are working to ensure that we can make sure, in regulation, that that is very firm.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau—manwl iawn. Os caf godi'r mater ynghylch adfer a glo brig, rwyf yn cefnogi egwyddor yr Aelod, fel y mae llawer o Aelodau yn y Siambr hon. Rwyf yn meddwl, pan fyddwn yn creu effaith, y dylem o leiaf gael y cyfle i adfer y tir yn ôl i sut yr oedd o'r blaen, neu yn wir ailddatblygu'r cynigion yn unol â chynllun a wneir gan y datblygwyr, ond sydd mewn gwirionedd yn fforddiadwy ac yn ddiogel. Credaf fod hynny wedi bod yn broses anodd iawn yn y gorffennol, ond rydym yn gweithio i sicrhau y gallwn wneud yn siŵr, mewn rheoliadau, bod hynny'n gadarn iawn.

In terms of the old mine workings, the Member is right; a lot of the diffuse pollution is around old mine workings. I met recently with the coal board on how the impacts on water courses are having a significant amount of damage. What we need to do is talk to the UK Government. When they abandoned the process, or introduced the privatisation of that, they didn't understand the long-term effects that this water pollution may have on communities. It is something that I believe should lie with the responsibility of the UK Government, certainly in the financing of a programme to find a solution for this.

O ran yr hen weithfeydd, mae'r Aelod yn iawn; mae llawer o'r llygredd gwasgaredig o gwmpas hen weithfeydd mwyngloddio. Cyfarfûm yn ddiweddar â'r bwrdd glo ynglŷn â sut y mae'r effeithiau ar gyrsiau dŵr yn achosi cryn dipyn o ddifrod. Yr hyn mae angen inni ei wneud yw siarad â Llywodraeth y DU. Pan wnaethant roi'r gorau i'r broses, neu gyflwyno ei phreifateiddio, nid oeddent yn deall yr effeithiau hirdymor y gallai'r llygredd dŵr hwn eu cael ar gymunedau. Mae'n rhywbeth yr wyf yn credu y dylai fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU, yn sicr o ran ariannu rhaglen i ddod o hyd i ateb ar gyfer hyn.

The issue of area statements—again, as Llyr made reference to before—is around the ecosystems approach and how businesses can get engaged in that new way of working. I think there are great opportunities there for them to do that. I look forward to working with the Member in terms of how the environment Bill will fulfil the opportunities and challenges that still potentially exist around how we manage water companies in this environment, to ensure that they play a strong part in protecting our environment, too. But, I think the planning Bill goes some way to delivering that, but, actually, I think the environment Bill may be the end piece of the jigsaw to deliver more. I look forward to working with the Member on that process.

Mae'r mater o ddatganiadau ardal—eto, fel y cyfeiriodd Llyr ato'n gynharach—yn ymwneud â'r dull ecosystemau a sut y gall busnesau gymryd rhan yn y ffordd newydd honno o weithio. Rwy'n meddwl bod cyfleoedd gwych yno iddynt wneud hynny. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Aelod o ran sut y bydd y Bil amgylchedd yn cyflawni'r cyfleoedd a'r heriau sy'n dal i fodoli o bosibl ynghylch sut yr ydym yn rheoli cwmnïau dŵr yn yr amgylchedd hwn, i sicrhau eu bod yn chwarae rhan gref o ran diogelu ein hamgylchedd, hefyd. Ond, rwy'n meddwl bod y Bil cynllunio yn mynd ran o'r ffordd i gyflawni hynny, ond, mewn gwirionedd, rwyf yn meddwl efallai mai'r Bil amgylchedd fydd darn olaf y jig-so i gyflawni mwy. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Aelod ar y broses honno.

16:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

16:00

## 5. Datganiad: Deddfwriaeth Digartrefedd

## 5. Statement: Homelessness Legislation

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5 is a statement by the Minister for Communities and Tackling Poverty on homelessness legislation. I call the Minister, Lesley Griffiths.

Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar ddeddfwriaeth ddigartrefedd yw Eitem 5. Galwaf ar y Gweinidog, Lesley Griffiths.

16:00

### Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

I am very pleased the homelessness provisions of our Housing (Wales) Act 2014 came into effect on 27 April. The Act marks a very significant development in our approach and demonstrates our commitment to preventing homelessness in the first place. Most importantly, it means more help for more people who are homeless or who are at risk of becoming homeless.

Rwyf yn falch iawn bod darpariaethau digartrefedd ein Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi dod i rym ar 27 Ebrill. Mae'r Ddeddf yn nodi datblygiad arwyddocaol iawn yn ein dulliau ac yn dangos ein hymrwymiad i atal digartrefedd yn y lle cyntaf. Yn bwysicaf oll, mae'n golygu mwy o gymorth i fwy o bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

The new legislation is the most fundamental change to homelessness legislation in over 30 years. It changes the focus from a rigid process, dealing with people in priority need when they reach crisis, to an approach that is more flexible and that emphasises prevention. This reform of the law means everyone will be helped, irrespective of priority need and the cause of their homelessness.

Y ddeddfwriaeth newydd yw'r newid mwyaf sylfaenol i ddeddfwriaeth digartrefedd ers dros 30 mlynedd. Mae'n symud y pwyslais oddi wrth broses anhyblyg, sy’n ymdrin â phobl mewn angen blaenoriaethol pan fyddant yn cyrraedd argyfwng, at ymagwedd sy'n fwy hyblyg ac sy'n rhoi pwyslais ar atal. Mae diwygio'r gyfraith fel hyn yn golygu y bydd pawb yn cael cymorth, heb ystyried angen blaenoriaethol na beth achosodd eu digartrefedd.

This forward-thinking legislation will reduce the number of people who go through the trauma of homelessness, which can have a devastating effect on the lives of adults and children, affecting health and wellbeing, children’s educational attainment, and people’s ability to find and keep a job. All are key factors in tackling poverty, to which this Government is committed.

Bydd y ddeddfwriaeth flaengar hon yn lleihau nifer y bobl sy'n mynd drwy drawma digartrefedd, a all gael effaith ddinistriol ar fywydau oedolion a phlant, gan effeithio ar iechyd a lles, cyrhaeddiad addysgol plant, a gallu pobl i ddod o hyd i swydd a’i chadw. Maent i gyd yn ffactorau allweddol o ran trechu tlodi, sy’n rhywbeth y mae’r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i’w wneud.

The new law places a duty on local authorities to help people who are within 56 days of losing their home, which allows more time for a solution to be found. It also requires local authorities to help people to find a home if they become homeless. Authorities must take reasonable steps to meet their duties, based on an assessment of the needs of the household, the reasons they became homeless, and their wishes.

Mae'r gyfraith newydd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i helpu pobl sydd o fewn 56 diwrnod o golli eu cartref, sy'n caniatáu mwy o amser i ddod o hyd i ateb. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol i helpu pobl i ddod o hyd i gartref os ydynt yn mynd yn ddigartref. Mae’n rhaid i awdurdodau gymryd camau rhesymol i gyflawni eu dyletswyddau, yn seiliedig ar asesiad o anghenion yr aelwyd, y rhesymau yr aethant yn ddigartref, a’u dymuniadau.

We expect these duties to prevent homelessness in at least three out of four cases initially and, in due course, even more. The safety net remains for people who are unintentionally homeless and in priority need. Local authorities are able to discharge their duties by finding suitable housing in the private rented sector. Part 1 of the housing Act complements the new homelessness legislation. The intention is to improve standards of management in the private rented sector and make landlords and tenants more aware of their respective rights and responsibilities.

Rydym yn disgwyl i’r dyletswyddau hyn atal digartrefedd mewn o leiaf tri o bob pedwar achos yn y lle cyntaf a, maes o law, hyd yn oed mwy. Mae'r rhwyd ddiogelwch yn parhau i fod yno i bobl sy'n ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol. Mae awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu dyletswyddau drwy ddod o hyd i dai addas yn y sector rhentu preifat. Mae Rhan 1 y Ddeddf tai’n ategu'r ddeddfwriaeth digartrefedd newydd. Y bwriad yw gwella safonau rheoli yn y sector rhentu preifat a gwneud landlordiaid a thenantiaid yn fwy ymwybodol o'u priod hawliau a chyfrifoldebau.

We have given local authorities the power to apply the intentionality test, so they can choose not to apply this test to some categories. Our aim is to reduce the use and impact of intentional homelessness decisions, which we expect to achieve through the new universal prevention and relief duties, and also through the gradual reduction in the use of intentionality by local authorities as its relevance diminishes.

Rydym wedi rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol i ddefnyddio'r prawf bwriadoldeb, felly gallant ddewis peidio â defnyddio'r prawf hwn ar gyfer rhai categorïau. Ein nod ni yw lleihau defnydd ac effaith penderfyniadau digartrefedd bwriadol, ac rydym yn disgwyl cyflawni hynny drwy'r dyletswyddau atal a rhyddhad cyffredinol newydd, a hefyd drwy i awdurdodau lleol defnyddio llai ar fwriadoldeb yn raddol wrth i'w berthnasedd leihau.

The new legislation places the homeless person at the centre of service provision. Each applicant will help shape the assessment of their circumstances and the actions needed to resolve their problems. Local authorities are expected to work with each applicant to find the best available option.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn sicrhau bod y person digartref yn ganolog i ddarparu gwasanaethau. Bydd pob ymgeisydd yn helpu i lunio'r asesiad o'i amgylchiadau a'r camau sydd eu hangen i ddatrys eu problemau. Disgwylir i awdurdodau lleol weithio gyda phob ymgeisydd i ddod o hyd i'r dewis gorau sydd ar gael.

Registered social landlords are vital partners in tackling homelessness and a key element of our housing system. We have strengthened the obligations on them to co-operate with local authorities, and I expect all registered social landlords to fulfil their obligations.

Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn bartneriaid hollbwysig wrth ymdrin â digartrefedd ac yn elfen allweddol o'n system dai. Rydym wedi cryfhau'r rhwymedigaethau arnynt i gydweithio ag awdurdodau lleol, ac rwyf yn disgwyl i bob landlord cymdeithasol cofrestredig gyflawni ei rwymedigaethau.

Supporting People services have a particularly important role to play. The support provided helps people to find and keep a home and to live as independently as possible. Local authorities and service providers will need to work together to ensure services complement other homelessness services, thus ensuring maximum benefits for people who need help. The legislation is not dependent on the homelessness services of local authorities alone. They will need support from a wide range of other services—statutory services and the third sector. This includes advice services, the NHS, domestic abuse services, criminal justice, financial inclusion, young people, veterans and other services.

Mae gan wasanaethau Cefnogi Pobl ran arbennig o bwysig i'w chwarae. Mae'r gefnogaeth a ddarperir yn helpu pobl i ddod o hyd i gartref a'i gadw, ac i fyw mor annibynnol â phosibl. Bydd angen i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau gydweithio i sicrhau bod gwasanaethau'n ategu gwasanaethau digartrefedd eraill, gan sicrhau'r manteision mwyaf posibl i bobl ag angen cymorth. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn dibynnu ar wasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol yn unig. Bydd arnynt angen cymorth gan ystod eang o wasanaethau eraill—gwasanaethau statudol a'r trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cynghori, y GIG, gwasanaethau cam-drin domestig, cyfiawnder troseddol, cynhwysiant ariannol, pobl ifanc, cyn-filwyr a gwasanaethau eraill.

Our homelessness prevention and Supporting People programmes are supporting local authorities and third sector organisations to help people meet their housing needs. The services include practical help and support to help people solve financial and other housing-related problems. This year, we have made an additional £5.6 million available to local authorities to help them to implement the new legislation. In addition, we are supporting approximately 70 projects and services with the £5.5 million available from our homelessness prevention budget. Last year, we reviewed the programme to ensure it is supporting action that is in line with the prevention focus of the new legislation.

Mae ein rhaglenni atal digartrefedd a Chefnogi Pobl yn cefnogi awdurdodau lleol a mudiadau'r trydydd sector i helpu pobl i ddiwallu eu hanghenion tai. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys cymorth a chefnogaeth ymarferol i helpu pobl i ddatrys problemau ariannol a phroblemau eraill sy'n gysylltiedig â thai. Eleni, rydym wedi darparu £5.6 miliwn ychwanegol i awdurdodau lleol i'w helpu i roi'r ddeddfwriaeth newydd ar waith. Rydym hefyd yn cefnogi tua 70 o brosiectau a gwasanaethau gyda'r £5.5 miliwn a oedd ar gael o'n cyllideb atal digartrefedd. Y llynedd, buom yn adolygu'r rhaglen i sicrhau ei bod yn cefnogi camau gweithredu sy'n cyd-fynd â phwyslais y ddeddfwriaeth newydd ar atal.

I am determined the new legislation will work for vulnerable groups that are often most in need of its help. I have already commissioned research into how services can best work to help young care leavers, and the learning from it will strengthen the revised guidance we have issued for this important group of people.

Rwy'n benderfynol y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn gweithio dros grwpiau agored i niwed sydd yn aml fwyaf angen ei help. Rwyf eisoes wedi comisiynu ymchwil ar y ffordd orau o ddefnyddio gwasanaethau i helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal, a bydd yr hyn a ddysgir ohono'n cryfhau'r canllawiau diwygiedig yr ydym wedi'u cyhoeddi ar gyfer y grŵp pwysig hwn o bobl.

The priority-need status of prisoners has changed, so only those who are vulnerable or who fit within one of the other categories will meet the criteria. However, we are putting arrangements in place that will see far more, and far better, collaboration between the agencies involved, so every prisoner receives more help to avoid becoming homeless upon release. This work links in with the new probation services under transforming rehabilitation and with youth offending services. The development of a national model pathway to support prisoners before release is nearly finished. I will publish the draft pathway for consultation within the next month.

Mae statws angen blaenoriaethol carcharorion wedi newid, felly dim ond y rhai sy'n agored i niwed neu sy'n perthyn i un o'r categorïau eraill a fydd yn bodloni'r meini prawf. Fodd bynnag, rydym yn rhoi trefniadau ar waith a fydd yn gweld llawer mwy o gydweithio, a chydweithio llawer gwell, rhwng yr asiantaethau dan sylw, fel bod pob carcharor yn cael mwy o gymorth i osgoi mynd yn ddigartref ar ôl ei ryddhau. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu â'r gwasanaethau prawf newydd o dan weddnewid adsefydlu a gyda gwasanaethau troseddau ieuenctid. Mae'r gwaith o ddatblygu llwybr model cenedlaethol i gefnogi carcharorion cyn eu rhyddhau bron wedi'i orffen. Byddaf yn cyhoeddi'r llwybr drafft ar gyfer ymgynghori o fewn y mis nesaf.

The new legislation will also help people suffering domestic abuse and shares the same principles as the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015. It will protect those who need to move and help those who wish to stay in their home.

Bydd y ddeddfwriaeth newydd hefyd yn helpu pobl sy'n dioddef cam-drin domestig ac mae'n rhannu'r un egwyddorion â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Bydd yn amddiffyn y rhai sydd ag angen symud ac yn helpu'r rhai sy'n dymuno aros yn eu cartref.

We have worked closely with local authorities to prepare the ground for the new legislation. A considerable amount of training has been delivered to front-line local authority staff, and joint learning carried out between the staff in local authorities, registered social landlords and third-sector organisations. All new legislation takes time to bed down, and my officials will continue to work closely with local authorities and others to ensure the legislation is effective. I am commissioning an independent evaluation. This will enable us to monitor how the new legislation is working, identify action that could be taken to further improve its implementation, and measure its impacts and benefits. The new legislation will make a difference to the lives of people who are homeless or at risk of becoming homeless, and I trust Members welcome and support this significant development.

Rydym wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i baratoi'r tir ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd. Mae cryn dipyn o hyfforddiant wedi ei ddarparu i staff rheng flaen awdurdodau lleol, ac mae dysgu ar y cyd wedi'i wneud rhwng staff awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a mudiadau'r trydydd sector. Mae pob deddfwriaeth newydd yn cymryd amser i ennill ei phlwyf, a bydd fy swyddogion yn parhau i gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol ac eraill i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn effeithiol. Rwyf yn comisiynu gwerthusiad annibynnol. Bydd hynny'n ein galluogi i fonitro sut y mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gweithio, nodi camau y gellid eu cymryd i wella ei gweithrediad ymhellach, a mesur ei heffeithiau a'i manteision. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, a hyderaf y bydd yr Aelodau'n croesawu ac yn cefnogi'r datblygiad pwysig hwn.

16:07

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Shelter Cymru's director has said that homelessness can happen to anyone. In England, housing waiting lists have fallen by 300,000, from 1.7 million, since 2010. However, a report commissioned by the Welsh Government reported four years ago that the housing waiting list stood at 90,000, and the October 2014 Homes for All Cymru Manifesto starts:

Mae cyfarwyddwr Shelter Cymru wedi dweud y gall digartrefedd ddigwydd i unrhyw un. Yn Lloegr, mae rhestrau aros am dai wedi gostwng 300,000, o 1.7 miliwn, ers 2010. Fodd bynnag, datganodd adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru bedair blynedd yn ôl fod y rhestr aros am dai yn 90,000, ac mae Maniffesto Cymru Cartrefi i Bawb Hydref 2014 yn dechrau:

'There is a housing crisis with more than 90,000 households on waiting lists'.

'Mae'n argyfwng tai gyda mwy na 90,000 o aelwydydd ar restrau aros'.

Do you therefore have figures for waiting lists in Wales, and if these figures are correct, why do you believe they have fallen by 300,000 in England and are still stuck at 90,000 in Wales?

Felly, a oes gennych chi ffigurau ar gyfer rhestrau aros yng Nghymru, ac os yw'r ffigurau hyn yn gywir, pam yr ydych chi'n credu eu bod wedi gostwng 300,000 yn Lloegr ac yn dal i fod yn ddigyfnewid ar 90,000 yng Nghymru?

You state in your statement that you expect the duties on local authorities

Rydych yn dweud yn eich datganiad eich bod yn disgwyl i'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol

'to prevent homelessness in at least three out of four cases initially and, in due course, even more.'

'atal digartrefedd mewn o leiaf tri o bob pedwar achos yn y lle cyntaf a, maes o law, hyd yn oed mwy.'

Clearly, that can be the case, working particularly with third sector providers on things like tackling substance misuse, supporting former veterans, perpetrator programmes, domestic abuse, and so on, to keep households together. But, of course, that doesn't tackle the housing supply shortage. How will you ensure that, therefore, we don't get a repeat of the situation in 2004, when the Welsh Government intervened after housing waiting lists had grown by more than 120 per cent, and the housing charities subsequently announced that though homelessness fell, hidden homelessness—sometimes called 'sofa surfing'—had more than doubled?

Yn amlwg, gall hynny ddigwydd, gan weithio'n benodol gyda darparwyr y trydydd sector ar bethau fel ymdrin â chamddefnyddio sylweddau, cefnogi cyn-filwyr, rhaglenni i droseddwyr, cam-drin domestig, ac yn y blaen, i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Ond, wrth gwrs, nid yw hynny'n ymdrin â'r prinder cyflenwad tai. Sut y byddwch chi'n sicrhau, felly, na chaiff y sefyllfa yn 2004 ei hailadrodd, pryd yr ymyrrodd Llywodraeth Cymru ar ôl i restrau aros tai dyfu o dros 120 y cant, ac yn dilyn hynny, cyhoeddodd yr elusennau tai, er bod digartrefedd wedi gostwng, bod digartrefedd cudd—a elwir weithiau'n 'syrffio soffas'—wedi mwy na dyblu?

You refer to local authorities being able to discharge their duties by finding suitable housing in the private rented sector. How, therefore, do you refer to the statement by the sector when the Bill was being scrutinised, that the Act will have the reverse impact and disincentivise investment by those who do decide whether to invest in supply in the private rented sector? That will, of course, impact negatively on tackling homelessness by not increasing the supply of private rented sector housing for those on homeless waiting lists, overcrowded or needing extra support. Will you now engage with the sector, as it still says it wishes to, to pursue the matters it raised in the 2011 Communities and Culture Committee report, 'Making the Most of the Private Rented Sector in Wales', working in genuine three sector partnership to deliver social letting agencies, allied to proper accreditation on the Agorfa Cefni lettings model? This is a partnership of trust between the private sector and local authorities, with landlords' organisations and the third sector implementing and delivering more for less rather than replicating for higher cost. Because if you won't, the private rented sector isn't going to be able to rise to the challenge.

Rydych chi'n cyfeirio at allu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau drwy ddod o hyd i dai addas yn y sector rhentu preifat. Sut, felly, ydych chi'n cyfeirio at y datganiad gan y sector pan oedd y Bil yn destun craffu, y bydd y Ddeddf yn cael effaith i'r gwrthwyneb ac yn anghymell buddsoddiad gan y rheini sy'n penderfynu a ddylent fuddsoddi yng nghyflenwad y sector rhentu preifat? Bydd hynny, wrth gwrs, yn cael effaith negyddol ar ymdrin â digartrefedd drwy beidio â chynyddu'r cyflenwad tai sector rhentu preifat ar gyfer y bobl hynny sydd ar restrau aros digartrefedd, sydd mewn tai gorlawn neu sydd ag angen cymorth ychwanegol. A wnewch chi nawr ymgysylltu â'r sector, fel y mae'n dal i ddweud yr hoffai ei wneud, i fynd ar drywydd y materion a godwyd ganddo yn adroddiad 2011y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 'Gwneud y Mwyaf o'r Sector Rhentu Preifat yng Nghymru', gan weithio mewn gwir bartneriaeth tri sector i ddarparu asiantaethau gosod tai cymdeithasol, yn gysylltiedig ag achrediad priodol ar fodel gosodiadau Agorfa Cefni? Mae hon yn bartneriaeth o ymddiriedaeth rhwng y sector preifat ac awdurdodau lleol, lle mae sefydliadau landlordiaid a'r trydydd sector yn gweithredu ac yn cyflawni mwy am lai yn hytrach nag ailadrodd am gost uwch. Oherwydd os na wnewch, ni fydd y sector rhentu preifat yn gallu ateb yr her.

You refer to Supporting People services. I listened yesterday with interest to your comments at the Let's Keep On Supporting People in Wales campaign event. I think I spoke subsequently to you. It's clear that we both, and our colleagues in the other parties, support this programme. I heard your call for evidence to justify your demands, and clearly my demands to my colleagues, for the budget to be protected in future and to drive forward its preventative agenda for people needing that extra housing-related support. You refer in your statement to other advice service providers, as well as statutory bodies like the NHS, alongside local government and the funding you provided. How will you ensure, therefore, that local government and the NHS, not just where they already do, but universally, look outside the silo, and design the system backwards by engaging in design and delivery of services with that myriad of third sector bodies working in the areas you identify to ensure that we get the best outcomes and the best impact on lives by using that resource most effectively for the people we all want to see benefiting?

Rydych chi'n cyfeirio at wasanaethau Cefnogi Pobl. Gwrandewais ddoe gyda diddordeb ar eich sylwadau yn nigwyddiad yr ymgyrch Dewch inni Ddal i Gefnogi Pobl yng Nghymru. Rwy'n credu fy mod wedi siarad â chi wedyn. Mae'n amlwg ein bod ill dau, a'n cydweithwyr yn y pleidiau eraill, yn cefnogi'r rhaglen hon. Clywais eich galwad am dystiolaeth i gyfiawnhau eich gofynion, ac yn amlwg fy ngalwadau i ar fy nghydweithwyr, i ddiogelu'r gyllideb yn y dyfodol ac i hyrwyddo ei hagenda ataliol i bobl sydd ag angen y cymorth ychwanegol hwnnw ym maes tai. Rydych yn cyfeirio yn eich datganiad at ddarparwyr gwasanaethau cynghori eraill, yn ogystal â chyrff statudol fel y GIG, ochr yn ochr â llywodraeth leol a'r cyllid a ddarperir gennych. Sut y byddwch chi'n sicrhau, felly, bod llywodraeth leol a'r GIG, nid dim ond lle maent yn ei wneud yn barod, ond yn gyffredinol, yn edrych y tu allan i'r seilo, ac yn dylunio'r system tuag at yn ôl drwy gymryd rhan mewn cynllunio a darparu gwasanaethau gyda'r llu o gyrff trydydd sector sy'n gweithio yn y meysydd yr ydych yn eu nodi i sicrhau ein bod yn cael y canlyniadau gorau a'r effaith orau ar fywydau drwy ddefnyddio'r adnodd hwnnw yn y modd mwyaf effeithiol dros y bobl yr hoffem i gyd eu gweld yn elwa?

Finally, with regard to the status of prisoners, a matter that was much discussed in committee was restrictions for those who are vulnerable in terms of priority need. How are you now defining that term 'vulnerable'? Technically, anybody facing homelessness, or coming out of prison, is vulnerable. How do you then link that to the wider supply issues identified? Finally, the point raised by Veterans' NHS Wales was that funding is required for outreach into prisons before prisoners are released, so that when they come out they've got the support for the mental health issues some of them might have.

Yn olaf, o ran statws carcharorion, un mater a drafodwyd yn helaeth yn y pwyllgor oedd cyfyngiadau ar gyfer y rhai hynny sy'n agored i niwed o ran angen blaenoriaethol. Sut yr ydych nawr yn diffinio'r term hwnnw 'agored i niwed'? Yn dechnegol, mae unrhyw un sy'n wynebu digartrefedd, neu'n dod allan o'r carchar, yn agored i niwed. Sut ydych chi wedyn yn cysylltu hynny â'r materion cyflenwi ehangach a nodwyd? Yn olaf, y pwynt a godwyd gan GIG Cyn-filwyr Cymru oedd bod angen cyllid ar gyfer allgymorth i mewn i garchardai cyn i garcharorion gael eu rhyddhau, felly pan fyddant yn dod allan bydd ganddynt y cymorth ar gyfer y problemau iechyd meddwl a allai fod gan rai ohonynt.

16:12 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mark Isherwood for his contribution and questions. I don't have the figures to hand on the number of people who are on waiting lists for social housing. What I do know is, in relation to homelessness, those figures have continued to decrease. Likewise, the number of people waiting for social housing. The reason we have the many initiatives we do is to ensure that that housing supply is increased. You will know that I previously had an urgent question on that part of it. Even the social housing grant, to make sure we reach our target of 10,000 affordable homes—all these things, none of them are separate, none of them are in silos. It's all part of our initiative to ensure that housing, and the housing needs of people, are addressed.

Diolch i Mark Isherwood am ei gyfraniad a'i gwestiynau. Nid oes gennyf ffigurau wrth law ar nifer y bobl sydd ar restrau aros am dai cymdeithasol. Yr hyn yr wyf yn ei wybod yw, o ran digartrefedd, bod y ffigurau hynny wedi parhau i ostwng. Yn yr un modd, mae nifer y bobl sy'n aros am dai cymdeithasol wedi gostwng. Y rheswm pam mae gennym gynifer o fentrau ag sydd gennym yw i sicrhau bod y cyflenwad tai yn cynyddu. Byddwch yn gwybod fy mod eisoes wedi cael cwestiwn brys am y mater hwnnw. Mae hyd yn oed y grant tai cymdeithasol, i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targed o 10,000 o gartrefi fforddiadwy—y pethau hyn i gyd, nid oes yr un ohonynt ar wahân, nid oes yr un ohonynt mewn seilo. Mae'r cyfan yn rhan o'n menter i sicrhau bod tai, ac anghenion tai pobl, yn cael sylw.

You mentioned the Supporting People event yesterday, which we both spoke at, and it's absolutely right, I think, that we have evidence to show that Supporting People is working. It's very much the preventative agenda, as you said. It's about early intervention. But I do need to know that we are reaching the people that it should reach, and that was why I made the statement yesterday for that call for evidence, if you like, to be able to support me. In return, my commitment to them was that I would do my best to increase the budget, that I would maintain the ring fence around it, which has gone in England, but which we will keep in Wales. Again, the process could perhaps be a bit more streamlined, and I've been having discussions with the regional collaborative committees to ensure that happens.

Soniasoch am y digwyddiad Cefnogi Pobl ddoe, lle buom ill dau'n siarad, ac mae'n hollol gywir, rwyf yn credu, bod gennym dystiolaeth i ddangos bod Cefnogi Pobl yn gweithio. Yr agenda ataliol yw hon yn sicr, fel y dywedasoch. Mae'n fater o ymyrryd yn gynnar. Ond mae angen imi wybod ein bod yn cyrraedd y bobl y dylai gyrraedd, a dyna pam y gwnes i'r datganiad ddoe am yr alwad honno am dystiolaeth, os mynnwch chi, er mwyn gallu fy nghefnogi. Yn gyfnewid am hyn, fy ymrwymiad i iddynt hwy oedd y byddwn yn gwneud fy ngorau i gynyddu'r gyllideb, y byddwn yn parhau i'w neilltuo; nid yw hynny wedi digwydd yn Lloegr, ond byddwn yn parhau â hynny yng Nghymru. Unwaith eto, gallai'r broses efallai fod ychydig yn symlach, ac rwyf wedi bod yn cael trafodaethau gyda'r pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol i sicrhau bod hynny'n digwydd.

I think that my statement was to show that the housing Act, the legislation that's come forward now, and the provisions that have come in on 27 April, is to provide that flexibility that I don't think was there. I think we've all had cases in our surgeries where, because of that sort of very rigid legislation, local authorities have not been able to help people when they've been at risk of homelessness. This will now enable them to have that flexibility when people go to them, as I say, for up to 56 days, knowing that they could be losing their homes.

Credaf mai bwriad fy natganiad oedd dangos bod y Ddeddf tai, y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno yn awr, a'r darpariaethau a ddaeth i mewn ar 27 Ebrill, yno i ddarparu'r hyblygrwydd hwnnw nad wyf yn credu ei fod yno cynt. Rwyf yn meddwl ein bod i gyd wedi gweld achosion yn ein cymorthfeydd pryd, oherwydd y math yna o ddeddfwriaeth anhyblyg iawn, nad yw awdurdodau lleol wedi gallu helpu pobl pan maent wedi bod mewn perygl o ddigartrefedd. Bydd hyn nawr yn eu galluogi i gael yr hyblygrwydd hwnnw pan fydd pobl yn mynd atynt, fel y dywedais, am hyd at 56 diwrnod, gan wybod y gallent fod yn colli eu cartrefi.

On the private rented sector, I work very closely with it, and again, the suite of initiatives and programmes that we have, and the Renting Homes (Wales) Bill, which is currently being scrutinised through a committee, and is on its passage through the Assembly—that also links into this issue of homelessness. Clearly, the private rented sector has a huge role to play, and it's about ensuring that—. There are obviously excellent landlords, but we know that there are some landlords that are perhaps unscrupulous, and it's about ensuring that the private rented sector absolutely fits into our needs for providing housing for people right across Wales. I think the provisions in Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 absolutely recognise the importance of having that healthy private rented sector and I think that then will increase standards. And I'm very happy to continue to work with the private rented sector.

O ran y sector rhentu preifat, rwyf yn gweithio'n agos iawn ag ef, ac unwaith eto, y gyfres o fentrau a rhaglenni sydd gennym, a'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), sy'n destun craffu gan bwyllgor ar hyn o bryd, ac sydd ar ei daith drwy'r Cynulliad—mae hwnnw hefyd yn cysylltu â'r mater hwn o ddigartrefedd. Yn amlwg, mae gan y sector rhentu preifat ran enfawr i'w chwarae, ac mae'n fater o sicrhau—. Yn amlwg mae rhai landlordiaid rhagorol, ond gwyddom fod rhai landlordiaid sydd efallai'n ddiegwyddor, ac mae'n fater o sicrhau bod y sector rhentu preifat yn cyd-fynd yn llwyr â'n hanghenion i ddarparu tai i bobl ledled Cymru. Rwy'n credu bod y darpariaethau yn Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn bendant yn cydnabod pwysigrwydd y sector rhentu preifat iach hwnnw a chredaf y bydd hynny wedyn yn codi safonau. Ac rwy'n hapus iawn i barhau i weithio gyda'r sector rhentu preifat.

You mentioned prisoners, and I do realise that some Members raised concerns about the change in priority need for vulnerable prisoners. As a result of those concerns that were raised during the scrutiny phase, my predecessor established a cross-sector prisoner accommodation and resettlement working group to ensure that all prisoners were able to access the enhanced prevention service, just as much as someone not in prison. That work is going ahead. I mentioned that we're going to have a pathway and I will be putting the pathway out to consultation within the next month. I think that outreach work, which you referred to, is there and people will be working with prisoners before they're released to see what their housing needs are.

Soniasoch am garcharorion, ac rwyf yn sylweddoli bod rhai Aelodau wedi codi pryderon am y newid mewn angen blaenoriaethol i garcharorion agored i niwed. O ganlyniad i'r pryderon hynny a godwyd yn ystod y cyfnod craffu, sefydlodd fy rhagflaenydd weithgor llety ac adsefydlu carcharorion ar draws y sectorau i sicrhau bod pob carcharor yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth atal estynedig, lawn cymaint â rhywun nad yw yn y carchar. Mae'r gwaith hwnnw'n mynd yn ei flaen. Dywedais y bydd gennym lwybr a byddaf yn rhoi'r llwybr allan i ymgynghoriad o fewn y mis nesaf. Credaf fod gwaith allgymorth, y cyfeiriasoch ato, yno ac y bydd pobl yn gweithio gyda charcharorion cyn iddynt gael eu rhyddhau i weld beth yw eu hanghenion o ran tai.

16:16 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, thank you for your statement today, and congratulations on the provisions of the Act coming into force. As you know, I don't agree with everything in it, but there is much, I think, to be welcomed, especially the focus on prevention and intervention prior to crisis, with local authorities having that duty up to 56 days prior to a homeless event happening.

Weinidog, diolch i chi am eich datganiad heddiw, a llongyfarchiadau am ddod â darpariaethau'r Ddeddf i rym. Fel y gwyddoch, nid wyf yn cytuno â phopeth sydd ynddi, ond mae llawer, rwyf yn meddwl, i'w groesawu, yn enwedig y pwyslais ar atal ac ymyrryd cyn argyfwng, lle caiff awdurdodau lleol y ddyletswydd honno hyd at 56 diwrnod cyn i ddigwyddiad digartref ddigwydd.

You mentioned Supporting People. I'd certainly like to reiterate my full support for the programme and urge you, of course, to protect the budget so that the most vulnerable and disadvantaged, including victims of domestic abuse and domestic violence—so that that can continue and they can continue to have the opportunity to turn their lives around. I'd be pleased if you'd tell us how you intend to do that and, of course, assure us that vulnerable people are a priority for the Government. Surely, you will not need to demonstrate all of its benefits in pounds, shillings and pence, because I think it is difficult to quantify the value of a child living in a settled home, happily, with drug-free parents. It's difficult to put a monetary value on that and difficult to calculate, but we know that this is one of the biggest values of the programme.

Soniasoch am Gefnogi Pobl. Byddwn yn sicr yn hoffi ailadrodd fy nghefnogaeth lawn i'r rhaglen a'ch annog, wrth gwrs, i warchod y gyllideb fel bod y bobl fwyaf agored i niwed a difreintiedig, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig a thrais domestig—fel y gall hynny barhau ac y gallant barhau i gael y cyfle i weddnewid eu bywydau. Byddwn yn falch pe byddech yn dweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu gwneud hynny ac, wrth gwrs, ein sicrhau bod pobl agored i niwed yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Does bosib y bydd angen ichi ddangos ei holl fuddion mewn punnoedd, sylltau a cheiniogau, oherwydd rwyf yn credu ei bod yn anodd mesur gwerth plentyn sy'n byw mewn cartref sefydlog, hapus, gyda rhieni sy'n rhydd o gyffuriau. Mae'n anodd rhoi gwerth ariannol ar hynny ac mae'n anodd ei gyfrifo, ond rydym yn gwybod mai dyma un o werthoedd mwyaf y rhaglen.

I note that the recent homelessness figures show us an increase in the last quarter, especially of single homeless. I was looking at the ombudsman case book and the cases there, and that demonstrates, I think, the way that homelessness applicants are not always getting a fair hearing from local authorities. Are you at all concerned that the decision making is inconsistent, sometimes wrong, there's poor record keeping, documents lost, and failures currently to follow the law, the guidance and sometimes their own policies? So, I'd like to know how you'd make decision making more consistent at local authority level. I'd also be grateful if you'd tell us your view on the Supreme Court judgment last week on the Pereira test for gauging vulnerability and its implications for Wales, as you now have the test on the face of the legislation.

Nodaf fod y ffigurau digartrefedd diweddaraf yn dangos cynnydd yn y chwarter diwethaf, yn enwedig ymysg pobl sengl ddigartref. Roeddwn yn edrych ar goflyfr yr ombwdsmon a'r achosion ynddo, ac mae hynny'n dangos, rwy'n meddwl, pam nad yw ymgeiswyr digartrefedd bob amser yn cael gwrandawiad teg gan awdurdodau lleol. A ydych chi'n pryderu o gwbl bod y broses o wneud penderfyniadau yn anghyson, ac weithiau'n anghywir, bod cofnodion yn cael eu cadw'n wael, dogfennau'n cael eu colli, a methiannau ar hyn o bryd i ddilyn y gyfraith, y canllawiau ac weithiau eu polisïau eu hunain? Felly, hoffwn wybod sut y byddech chi'n sicrhau bod penderfyniadau yn fwy cyson ar lefel awdurdod lleol. Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe byddech yn dweud wrthym eich barn am ddyfarniad y Goruchaf Lys yr wythnos diwethaf ar y prawf Pereira i fesur a yw rhywun yn agored i niwed a'i oblygiadau i Gymru, gan fod y prawf gennych nawr ar wyneb y ddeddfwriaeth.

I'd urge you to read the judgment, Minister. I found it a page turner—not everybody would, but I think that it's well worth reading yourself. I know you said last week that you'd asked officials to look at it, but I think it would be worth looking at yourself, because it just brought to my mind to ask, 'Well, what is the purpose of this test?' Is it to ensure that people who are more at risk of harm when homeless are actually helped into accommodation? If so, shouldn't the comparison be with people who can cope, rather than with the majority of the street homeless, because that is the comparator your Government has chosen? Incidentally, the average age of death of homeless people is about 47. Well, I think we ought to be a bit more ambitious than that.

Byddwn yn eich annog i ddarllen y dyfarniad, Weinidog. Roeddwn yn ei weld yn afaelgar—ni fyddai pawb, ond rwy'n credu ei fod yn werth ei ddarllen drosoch eich hun. Gwn eich bod wedi dweud yr wythnos diwethaf eich bod wedi gofyn i swyddogion edrych arno, ond rwy'n credu y byddai'n werth edrych arno eich hun, gan ei fod wedi arwain fy meddwl i ofyn, 'Wel, beth yw diben y prawf hwn?' Ai sicrhau bod pobl sydd mewn mwy o berygl o niwed pan fyddant yn ddigartref yn cael eu helpu i gael llety? Os felly, oni ddylai'r gymhariaeth fod â phobl sy'n gallu ymdopi, yn hytrach na gyda'r mwyafrif o'r bobl ddigartref ar y stryd, oherwydd dyna'r cymharydd y mae eich Llywodraeth wedi'i ddewis? Gyda llaw, mae cyfartaledd oedran marwolaeth pobl ddigartref oddeutu 47. Wel, rwyf yn meddwl y dylem fod ychydig yn fwy uchelgeisiol na hynny.

Can you continue to justify having this test in Wales when, of course, in England, judges have concluded that its results are perverse and unjust? So, I don't think you'd want to stick with that test. Well, personally, I wouldn't, but I'd like to hear your view. Perhaps the comparator, the comparison, then, should be with the ordinary person made homeless, rather than the ordinary actual homeless person, because there's a big difference in the cohort that you are being compared with. How do you feel about the test that you have relying on judgments of statistics about people who are actually homeless? As I mentioned to the Chamber recently, somebody with full-blown AIDS was found not to be vulnerable under this test, so the result of the test can be perverse.

A allwch chi barhau i gyfiawnhau cael y prawf hwn yng Nghymru pan, wrth gwrs, yn Lloegr, mae barnwyr wedi dod i'r casgliad bod ei ganlyniadau'n wrthnysig ac yn anghyfiawn? Felly, nid wyf yn meddwl y byddech yn dymuno dal ati â'r prawf hwnnw. Wel, yn bersonol, ni fyddwn i'n gwneud hynny, ond hoffwn glywed eich barn chi. Efallai y dylai'r cymharydd, y gymhariaeth, felly, fod gyda'r person cyffredin sy'n cael ei wneud yn ddigartref, yn hytrach na'r person cyffredin sydd eisoes yn ddigartref, oherwydd mae gwahaniaeth mawr yn y garfan yr ydych yn cael eich cymharu â hi. Sut yr ydych chi'n teimlo am y ffaith bod y prawf sydd gennych yn dibynnu ar ddyfarniadau o ystadegau am bobl sydd mewn gwirionedd yn ddigartref? Fel y dywedais wrth y Siambr yn ddiweddar, penderfynodd y prawf hwn nad oedd rhywun ag AIDS llawn yn agored i niwed o dan y prawf hwn, felly gall canlyniad y prawf fod yn wrthnysig.

Now, are you aware that the then UK Government Minister intervened in the Supreme Court proceedings by giving his support for the Pereira test? Are you comfortable being on the same side of the argument as Eric Pickles, Minister, because I have a feeling you may not be? If you aren't comfortable being on the same policy platform as Eric Pickles—before the election, that is—would you revisit the legislation? I hope that you would relook at it and perhaps not be as wedded to it as you were before. I think it's important that we do right by homeless people. Where this prevention policy might fail and we do have people presenting themselves as homeless, I think that the test that they are then subject to should be a fair test of their vulnerability compared to the ordinary person who becomes homeless.

Nawr, a ydych chi'n ymwybodol bod y Gweinidog Llywodraeth y DU ar y pryd wedi ymyrryd yn yr achos Goruchaf Lys drwy roi ei gefnogaeth i'r prawf Pereira? A ydych chi'n gyfforddus bod ar yr un ochr i'r ddadl ag Eric Pickles, Weinidog, oherwydd mae gennyf deimlad efallai nad ydych? Os nad ydych yn gyfforddus ar yr un llwyfan polisi ag Eric Pickles—cyn yr etholiad, hynny yw—a fyddech chi'n edrych eto ar y ddeddfwriaeth? Gobeithiaf y gwnewch chi edrych arni eto ac efallai na fyddwch mor dueddol iddi ag yr oeddech o'r blaen. Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn gwneud y peth iawn dros bobl ddigartref. Lle gallai'r polisi atal hwn fethu, ac mae gennym bobl sy'n honni eu bod yn ddigartref, rwyf yn credu y dylai'r prawf y byddant yna'n ei wynebu fod yn brawf teg o ba mor agored i niwed ydynt o'u cymharu â'r person cyffredin sy'n mynd yn ddigartref.

16:21

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Jocelyn Davies, for the contribution and questions. You mentioned prevention and early intervention, and we are absolutely embedding even more strongly, I think, a culture of prevention and early intervention in our approach to homelessness, and I think that reflects the priorities we have as a Government, and that many Members have.

Diolch, Jocelyn Davies, am y cyfraniad a'r cwestiynau. Soniasoch am atal ac ymyrraeth gynnar, ac rydym yn bendant yn ymgorffori'n gryfach fyth, rwyf yn meddwl, diwylliant o atal ac ymyrraeth gynnar yn ein hymagwedd at ddigartrefedd, a chredaf fod hynny'n adlewyrchu ein blaenoriaethau fel Llywodraeth, a blaenoriaethau llawer o Aelodau.

I should say this new legislation does make Wales the first country in Europe to introduce homelessness prevention as a statutory duty for local authorities, so I think it is absolutely imperative that it's implemented effectively, and that fits into what you were saying about ensuring that there is that consistency across Wales. Before the legislation came in, we had significant training—I think there were over 600 people from local authorities, working with Shelter Cymru also, who received training, and I'm hopeful that that, then, will bring that more consistency that we want to see. We certainly don't want to see a postcode lottery. So, I think that's very important.

Dylwn ddweud bod y ddeddfwriaeth newydd hon yn golygu mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn Ewrop i gyflwyno atal digartrefedd fel dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol, felly rwyf yn meddwl ei bod yn gwbl hanfodol ei gweithredu'n effeithiol, ac mae hynny'n cyd-fynd â'r hyn yr oeddech yn ei ddweud am sicrhau'r cysondeb hwnnw ledled Cymru. Cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i mewn, cawsom hyfforddiant sylweddol—rwy'n meddwl bod dros 600 o bobl o awdurdodau lleol, gan weithio gyda Shelter Cymru hefyd, wedi cael hyfforddiant, ac rwy'n obeithiol y bydd hynny, yna, yn dod â'r cysondeb ychwanegol hwnnw yr hoffem ei weld. Yn sicr, ni hoffem weld loteri cod post. Felly, rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn.

You talked about Supporting People, and next week I'm going to visit a facility—I think it's in Abergavenny—around domestic abuse. Again, you're absolutely right; you cannot put a monetary value on many of these services. However, for me, I have to demonstrate that the funding is absolutely going to the right place. It is hard with preventative and early intervention programmes, but you will appreciate that, in the very difficult financial times we have, I have to be able to justify that. But it is true; I think the Supporting People programme, probably more than any other programme, where you meet people—. It's not just domestic abuse services, for instance, I've been to a mother and baby hostel in Cardiff, where I've seen the work that's been done with young mums, not just to show them how to cook, for instance, and help to look after their child, but to really build their confidence and upskill them, and that's what they really need. So, I think the Supporting People programme, we all agree, right across the Chamber, is a fantastic programme, and I think that showed in why there was somebody from every party at the event yesterday.

Soniasoch am Gefnogi Pobl, a'r wythnos nesaf rwy'n mynd i ymweld â chyfleuster—rwy'n credu ei fod yn y Fenni—sy'n ymwneud â cham-drin domestig. Unwaith eto, rydych yn hollol gywir; ni allwch roi gwerth ariannol ar lawer o'r gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, i mi, mae'n rhaid imi ddangos bod y cyllid yn bendant yn mynd i'r lle iawn. Mae'n anodd gyda rhaglenni ataliol ac ymyrraeth gynnar, ond byddwch yn sylweddoli, yn y cyfnod ariannol anodd iawn sydd gennym, bod yn rhaid imi allu cyfiawnhau hynny. Ond mae'n wir; rwy'n meddwl bod y rhaglen Cefnogi Pobl, yn ôl pob tebyg yn fwy nag unrhyw raglen arall, lle byddwch yn cwrdd â phobl—. Nid dim ond gwasanaethau cam-drin domestig, er enghraifft, rwyf wedi bod i hostel mamau a babanod yng Nghaerdydd, lle'r wyf wedi gweld y gwaith sydd wedi ei wneud gyda mamau ifanc, nid yn unig i ddangos iddynt sut i goginio, er enghraifft, a helpu i ofalu am eu plentyn, ond i wir feithrin eu hyder a gwella eu sgiliau, a dyna beth sydd ei angen arnynt mewn gwirionedd. Felly, rwy'n credu bod y rhaglen Cefnogi Pobl, rydym i gyd yn cytuno, ar draws y Siambr, yn rhaglen wych, ac rwyf yn meddwl bod y ffaith bod rhywun o bob plaid yn y digwyddiad ddoe yn dangos hynny.

The Supreme Court—you've obviously read it very closely, but I have now had an opportunity to speak to officials about it and have a look at it myself. And what I've done now—. Do I want to be on the same side as Eric Pickles? Well, I think the short answer is 'no'. So, I'm very happy, certainly, to have another look at it. What I've asked officials to do now is to have a look at the likely impact on Wales of these very complex judgments, and they are very complex. You make them sound very simple, Jocelyn, but what I want to do is to have a look at the judgments and see what we need to look at. We need to, obviously, consider the application of vulnerability in the implementation of our legislation, and I think absolutely I have to look to see if further amendments are needed, and I'm very happy to give you that assurance.

Mae'r Goruchaf Lys—rydych yn amlwg wedi'i ddarllen yn fanwl iawn, ond rwyf bellach wedi cael cyfle i siarad â swyddogion am y peth ac edrych arno fy hun. A'r hyn yr wyf wedi ei wneud nawr—. Ydw i eisiau bod ar yr un ochr ag Eric Pickles? Wel, rwy'n meddwl mai'r ateb byr yw 'na'. Felly, rwy'n hapus iawn, yn sicr, i gael golwg arall arno. Yr hyn yr wyf wedi ei ofyn i swyddogion ei wneud nawr yw taro golwg ar effaith debygol y dyfarniadau cymhleth iawn hyn ar Gymru, ac maen nhw'n gymhleth iawn. Rydych yn gwneud iddynt swnio'n syml iawn, Jocelyn, ond yr hyn yr wyf yn dymuno ei wneud yw edrych ar y barnau a gweld beth mae angen inni edrych arno. Mae angen inni, yn amlwg, ystyried sut i brofi pobl agored i niwed wrth roi ein deddfwriaeth ar waith, ac rwyf yn meddwl yn bendant bod yn rhaid imi edrych i weld a oes angen newidiadau pellach, ac rwy'n hapus iawn i roi'r sicrwydd hwnnw ichi.

16:24 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome this legislation and hope that it will be preventative, as is intended, and that it will improve the situation of people at risk of homelessness, or who are homeless. So, I welcome the statement.

Rwy'n croesawu'r ddeddfwriaeth hon ac yn gobeithio y bydd yn ataliol, fel y bwriedir, ac y bydd yn gwella sefyllfa pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, neu sydd yn ddigartref. Felly, croesawaf y datganiad.

I'm particularly concerned about vulnerable people who are homeless, as is the Minister, and people in particular who have mental health problems. I think this was graphically illustrated by this tragic case, which I think most of us read about in the newspapers, of Darren Thomas, who was homeless and was put into Cardiff prison—I think for breaking an anti-social behaviour order—where he was murdered by another inmate. It seems to me that it was totally inappropriate for him to go to prison basically because he was lacking a home. So, how does she think this legislation will help people with mental health problems? How does she think that they will fare under this legislation?

Rwy'n arbennig o bryderus am y bobl agored i niwed sy'n ddigartref, fel y mae'r Gweinidog, ac yn arbennig pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Rwy'n credu y dangoswyd hyn yn glir gan yr achos trasig hwn, yr wyf yn meddwl bod y rhan fwyaf ohonom wedi darllen amdano yn y papurau newydd, pan garcharwyd Darren Thomas, a oedd yn ddigartref, yng ngharchar Caerdydd—am dorri gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol rwy'n credu—lle cafodd ei lofruddio gan garcharor arall. Mae'n ymddangos i mi ei bod yn gwbl amhriodol iddo fynd i'r carchar yn y bôn oherwydd nad oedd ganddo gartref. Felly, sut mae hi'n credu y bydd y ddeddfwriaeth hon yn helpu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl? Sut y mae hi'n credu y byddant yn ymdopi dan y ddeddfwriaeth hon?

I also know it is quite difficult to assess the number of people with mental health problems who are accepted as being homeless, because the statistics are in a broader category that includes physical disability and learning disabilities. So, I just wondered if she knew, or thought, there would be a way of breaking down the categories of those accepted as being homeless, because I think it is very important that we have this information, so that we can tackle these very fundamental issues. And, of course, in terms of the intentionality test, which we didn't get rid of, how is she going to monitor that? Also, I was concerned about how people suffering domestic abuse would fare; I know she's given some response to that already.

Rwyf hefyd yn gwybod ei bod yn eithaf anodd asesu nifer y bobl â phroblemau iechyd meddwl sy'n cael eu derbyn fel bod yn ddigartref, oherwydd bod yr ystadegau mewn categori ehangach sy'n cynnwys anabledd corfforol ac anableddau dysgu. Felly, roeddwn yn meddwl tybed a oedd hi'n gwybod, neu'n meddwl, y byddai ffordd o ddadansoddi'r categorïau o bobl a dderbyniwyd fel rhai digartref, oherwydd rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod y wybodaeth hon gennym, fel y gallwn ymdrin â'r materion sylfaenol iawn hyn. Ac, wrth gwrs, o ran y prawf bwriadoldeb, na chawsom wared arno, sut y mae hi'n mynd i fonitro hynny? Hefyd, roeddwn yn pryderu ynghylch sut y byddai pobl sy'n dioddef cam-drin domestig yn ymdopi; rwy'n gwybod ei bod wedi rhoi rhywfaint o ymateb i hynny eisoes.

16:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Okay, thank you, Julie Morgan, for your questions. I obviously can't comment on that individual case, but I think what is really important is that we do have partnership working. It's very important that local authorities work closely with health services to ensure that they are addressing the core problems of somebody who does present as homeless, and I think the flexibility that’s here now will really help in that way, because, before—you'll be aware from your own casework—people couldn't go specifically when they were aware that they could be made homeless in, you know, a month's time, for instance. Certainly, in discussions I've had with third sector organisations within health, that was an issue that was raised with me.

Iawn, diolch, Julie Morgan, am eich cwestiynau. Yn amlwg ni allaf roi sylwadau am yr achos unigol hwnnw, ond rwy’n meddwl mai’r hyn sy'n wirioneddol bwysig yw bod gennym waith partneriaeth. Mae'n bwysig iawn bod awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau iechyd i sicrhau eu bod yn ymdrin â phroblemau craidd rhywun sy'n ymddangos fel bod yn ddigartref, ac rwyf yn meddwl y bydd yr hyblygrwydd sydd yma nawr yn gymorth mawr yn hynny o beth, oherwydd, cynt—byddwch yn ymwybodol o'ch gwaith achos eich hun—allai pobl ddim mynd yn benodol pan oeddent yn gwybod y gallent gael eu gwneud yn ddigartref, wyddoch chi, ymhen mis, er enghraifft. Yn sicr, mewn trafodaethau yr wyf wedi’u cael gyda mudiadau trydydd sector o fewn iechyd, roedd hwnnw’n fater a godwyd gyda mi.

I haven't specifically looked at the categories. I'd be very happy to do that, because, as you say, you know, about the intentionality, it's really important that this legislation is implemented effectively, and it's very, very early—it's only been since 27 April, but I have to say officials have been working very closely with local authorities and with Shelter Cymru, and, at the moment—touch wood—it seems to be going really well. There haven't been many teething problems, but that's something that we are going to closely monitor, because, if it's not implemented effectively, then we won't get the benefits that we have. So, I can certainly look at the issue you raised around intentionality.

Nid wyf wedi edrych yn benodol ar y categorïau. Byddwn yn hapus iawn i wneud hynny, oherwydd, fel y dywedwch, wyddoch chi, o ran y bwriadoldeb, mae'n bwysig iawn bod y ddeddfwriaeth hon yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol, ac mae hi'n gynnar iawn, iawn—dim ond ers 27 Ebrill y mae wedi bodoli, ond mae’n rhaid imi ddweud bod swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol a gyda Shelter Cymru, ac, ar hyn o bryd—hei lwc—mae'n ymddangos bod pethau’n mynd yn dda iawn. Ni chafwyd fawr o broblemau cychwynnol, ond mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn mynd i'w fonitro'n agos, oherwydd, os na chaiff ei roi ar waith yn effeithiol, ni chawn y buddion sydd gennym. Felly, gallaf yn sicr edrych ar y mater yr ydych yn ei godi o amgylch bwriadoldeb.

I did refer to the services that are provided in relation to domestic abuse, and I mentioned in my earlier answer to Mark Isherwood that the renting homes Bill that’s also going through the Assembly at the current time will also have an impact. For the first time, after its successful passage through the Assembly and it becomes an Act, it will be the perpetrator who will be removed, and that will stop the whole family becoming homeless, which, unfortunately, has happened many times in the past, because they haven't been able to remove the perpetrator. So, I think, again, it's about looking at everything holistically, and, certainly, the renting homes Bill will help victims of domestic abuse in that way.

Cyfeiriais at y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer cam-drin domestig, a soniais yn fy ateb cynharach i Mark Isherwood y bydd y Bil rhentu cartrefi sydd hefyd yn mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd hefyd yn cael effaith. Am y tro cyntaf, ar ôl ei daith lwyddiannus drwy'r Cynulliad pan ddaw’n Ddeddf, y troseddwr fydd yn cael ei symud, a bydd hynny’n atal y teulu cyfan rhag dod yn ddigartref, sydd, yn anffodus, wedi digwydd sawl gwaith yn y gorffennol, am nad ydynt wedi gallu cael gwared ar y troseddwr. Felly, rwyf yn meddwl, unwaith eto, ei fod yn fater o edrych ar bopeth yn gyfannol, ac, yn sicr, bydd y Bil rhentu cartrefi’n helpu dioddefwyr cam-drin domestig yn y ffordd honno.

16:28 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I also welcome the fact that this Act is now in force? As someone who has watched in Swansea the implementation of a prevention agenda through housing options for the best part of nearly two decades, I can see that it does make a huge difference in terms of enabling local authorities to deal with this particular issue and to give them additional tools, which they don't have in many areas at the moment. A number of questions arise from your statement, Minister, and, like previous speakers, I do have concerns about Supporting People services as well. These were raised during the budget and, of course, the Finance Committee made a specific recommendation in relation to Supporting People. I understand this is a difficult financial time and that you have to justify every penny that you spend, however, there was clear evidence that Supporting People expenditure leads to specific savings in other areas of expenditure of the Welsh Government. And so I think that if, as you say in your statement, you recognise that Supporting People services have a particularly important role to play, can you give an undertaking that you will seek to do everything you can to protect that funding in future years to ensure that the role that those Supporting People services have will continue and form an important part of those prevention services, and preventing homelessness services, which this Act seeks to put into place?

A gaf fi hefyd groesawu'r ffaith bod y Ddeddf hon nawr mewn grym? Fel rhywun sydd wedi gwylio agenda atal ar waith drwy gyfrwng dewisiadau tai yn Abertawe ers bron i ddau ddegawd, gallaf weld ei bod yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran galluogi awdurdodau lleol i ymdrin â'r mater penodol hwn ac i roi offer ychwanegol iddynt, nad oes ganddynt mewn sawl ardal ar hyn o bryd. Mae nifer o gwestiynau'n codi o'ch datganiad, Weinidog, ac, fel siaradwyr blaenorol, mae gennyf finnau bryderon ynghylch gwasanaethau Cefnogi Pobl hefyd. Codwyd y rhain yn ystod y gyllideb ac, wrth gwrs, gwnaeth y Pwyllgor Cyllid argymhelliad penodol ynglŷn â Chefnogi Pobl. Rwyf yn deall bod hwn yn gyfnod ariannol anodd, a bod yn rhaid ichi gyfiawnhau pob ceiniog yr ydych yn ei gwario, ond roedd tystiolaeth glir bod gwariant Cefnogi Pobl yn arwain at arbedion penodol mewn meysydd eraill o wariant Llywodraeth Cymru. Ac felly rwyf yn credu, os, fel y dywedwch yn eich datganiad, eich bod yn cydnabod bod gan wasanaethau Cefnogi Pobl ran arbennig o bwysig i'w chwarae, a allwch chi roi addewid y byddwch yn ceisio gwneud popeth a allwch i amddiffyn y cyllid hwnnw yn y blynyddoedd i ddod i sicrhau y bydd gwaith y gwasanaethau Cefnogi Pobl hynny'n parhau ac yn ffurfio rhan bwysig o'r gwasanaethau atal hynny, a'r gwasanaethau atal digartrefedd, y mae'r Ddeddf hon yn ceisio eu rhoi ar waith?

You say in your statement that the priority needs status of prisoners has changed, so only those who are vulnerable or who fit within one of the other categories will meet the criteria. That isn't strictly true. I think it is the case, because of the way you've applied the Pereira test, that how you define vulnerability in terms of prisoners is not actually as straightforward as an ordinary layperson would think. As the Act is set out at the moment, the vulnerability of a prisoner is assessed against the vulnerability of other prisoners and not against an ordinary homeless person—and this point was made very well by Jocelyn Davies. Clearly, the judgment, which Jocelyn Davies referred to, does have an important impact on this. I'm interested in a further statement from you when you've drawn conclusions, Minister. Would you give an undertaking you'll make that statement on what exactly the implications of this judgment are, for effectively putting the Pereira test on the face of this Act and effectively enshrining in law a test that the Supreme Court says should not be applied in the case of these ex-prisoners? I think that's really important, because my concern is not giving preferential treatment to ex-prisoners, and nobody wants to see that, but making sure that we cut reoffending. That means that, where prisoners are particularly vulnerable in comparison to other homeless people, they're not put into a situation where coming out of prison they'll return to crime straight away, and we make sure they have proper support and accommodation to ensure that that does not happen. In my reading of the new Act as it's set out, that does not happen.

Rydych yn dweud yn eich datganiad bod statws angen blaenoriaethol carcharorion wedi newid, fel mai dim ond y rhai sy'n agored i niwed neu sy'n perthyn i un o'r categorïau eraill fydd yn bodloni'r meini prawf. Nid yw hynny'n hollol wir. Rwy'n credu, oherwydd y ffordd yr ydych wedi defnyddio'r prawf Pereira, nad yw'r ffordd yr ydych yn diffinio agored i niwed o ran carcharorion mewn gwirionedd mor syml ag y byddai lleygwr cyffredin yn ei feddwl. Fel y mae'r Ddeddf wedi'i hysgrifennu ar hyn o bryd, asesir pa mor agored i niwed yw carcharor drwy ei gymharu â charcharorion eraill ac nid ag unigolyn digartref cyffredin—gwnaeth Jocelyn Davies y pwynt hwn yn dda iawn. Yn amlwg, mae'r dyfarniad, y cyfeiriodd Jocelyn Davies ato, yn cael effaith bwysig ar hyn. Mae gen i ddiddordeb mewn cael datganiad pellach gennych pan fyddwch wedi llunio casgliadau, Weinidog. A wnewch chi addo y byddwch yn gwneud y datganiad hwnnw ar beth yn union yw goblygiadau'r dyfarniad hwn, am roi'r prawf Pereira i bob diben ar wyneb y Ddeddf hon ac ymgorffori prawf yn y gyfraith i bob diben er bod y Goruchaf Lys yn dweud na ddylid ei ddefnyddio ar gyfer y cyn-garcharorion hyn? Rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn, oherwydd nid fy mhryder yw rhoi triniaeth ffafriol i gyn-garcharorion, a does neb am weld hynny, ond gwneud yn siŵr ein bod yn lleihau aildroseddu. Mae hynny'n golygu, os yw carcharorion yn arbennig o agored i niwed o'u cymharu â phobl ddigartref eraill, nad ydynt yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle byddant yn dod allan o'r carchar ac yn dychwelyd at droseddu ar unwaith, ac rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael cefnogaeth a llety priodol i sicrhau nad yw hynny'n digwydd. Wrth imi ddarllen y Ddeddf newydd fel y mae wedi'i geirio, nid yw hynny'n digwydd.

You also say that you're putting arrangements in place, which will see far more and far better collaboration between the agencies involved, so every prisoner receives more help to avoid becoming homeless upon release. Now, that's actually very difficult, because a lot of prisoners who will return to Wales are in prison outside of Wales. That applies to women, it applies to many young people, and it applies to a lot of male prisoners, as well. So, I'm interested in exactly what those arrangements are, what this national model pathway will consist of, and how it'll work practically, because without that duty on local authorities to rehouse ex-prisoners as a priority group, it does seem to me that there is very little incentive to actually take that forward and make sure that model works.

Rydych hefyd yn dweud eich bod yn rhoi trefniadau ar waith, a fydd yn gweld llawer mwy o gydweithio llawer gwell rhwng yr asiantaethau dan sylw, fel bod pob carcharor yn cael mwy o help i osgoi mynd yn ddigartref ar ôl cael ei ryddhau. Nawr, mae hynny mewn gwirionedd yn anodd iawn, oherwydd mae llawer o garcharorion a fydd yn dychwelyd i Gymru yn y carchar y tu allan i Gymru. Mae hynny'n berthnasol i fenywod, mae'n berthnasol i lawer o bobl ifanc, ac mae'n berthnasol i lawer o garcharorion gwrywaidd, hefyd. Felly, mae gen i ddiddordeb mewn cael gwybod beth yn union yw'r trefniadau hynny, beth fydd y llwybr model cenedlaethol yn ei gynnwys, a sut y bydd yn gweithio'n ymarferol, oherwydd heb y ddyletswydd honno ar awdurdodau lleol i ailgartrefu cyn-garcharorion fel grŵp blaenoriaeth, mae'n ymddangos i mi nad oes llawer o gymhelliant mewn gwirionedd i symud hynny ymlaen a gwneud yn siŵr bod y model hwnnw'n gweithio.

Finally, Minister, you've referred throughout the answers to questions here to the role of the Renting Homes (Wales) Bill in terms of helping to tackle this agenda. You will know that the Housing (Wales) Act 2014 includes a provision that enables local authorities to discharge their homeless duty to the private rented sector, but, in discharging that duty, they have to discharge that duty to a six-month tenancy. The renting homes Bill seeks to do away with six-month tenancies by removing the minimum tenancy, taking away the moratorium. So, I'm interested in what discussions you've had with local authorities and with the private rented sector as to how that particular duty will be exercised once your renting homes Bill becomes law, simply because it seems to me that that duty will no longer be exercisable as it's set out in the Housing (Wales) Act 2014 if this renting homes Bill becomes law in its current form.

Yn olaf, Weinidog, rydych wedi cyfeirio drwy gydol yr atebion i gwestiynau yma at swyddogaeth y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) o ran helpu i ymdrin â'r agenda hon. Byddwch yn gwybod bod Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd digartrefedd i'r sector rhentu preifat, ond, wrth gyflawni'r ddyletswydd honno, mae'n rhaid iddynt gyflawni'r ddyletswydd honno am denantiaeth chwe mis. Mae'r Bil rhentu cartrefi yn ceisio cael gwared ar denantiaethau chwe mis drwy gael gwared ar y denantiaeth leiaf, gan ddileu'r moratoriwm. Felly, mae gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod pa drafodaethau yr ydych wedi eu cael ag awdurdodau lleol ac â'r sector rhentu preifat ynglŷn â sut y caiff y ddyletswydd benodol honno ei harfer ar ôl i'ch Bil rhentu cartrefi ddod yn gyfraith, yn syml oherwydd mae'n ymddangos i mi na fydd y ddyletswydd honno'n arferadwy mwyach fel y mae wedi'i phennu yn Neddf Tai (Cymru) 2014 os daw'r Bil rhentu cartrefi hwn yn gyfraith ar ei ffurf bresennol.

16:33

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Peter Black for his welcome for the statement and also his questions. In relation to Supporting People, you've heard me saying in previous answers that I do absolutely value the services that they provide. I think you're right: there is clear evidence and, certainly, from a health point of view, it's very evident. What I called for yesterday was more robust evidence to support me, because I did give an undertaking—and I'm very happy to do it again—that I will do everything I can to increase the budget, that I will do everything I can to ensure the ring fence stays around that budget, which it doesn't in England as it's been removed, and, again, that I will help to streamline the process. So, I'm very happy to give that commitment again.

Diolch i Peter Black am ei groeso i'r datganiad a hefyd am ei gwestiynau. O ran Cefnogi Pobl, rydych wedi fy nghlywed yn dweud mewn atebion blaenorol fy mod yn bendant yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Rwy'n meddwl eich bod yn gywir: ceir tystiolaeth glir ac, yn sicr, o safbwynt iechyd, mae'n amlwg iawn. Yr hyn y galwais amdano ddoe oedd tystiolaeth fwy cadarn i'm cefnogi, oherwydd rhoddais ymrwymiad—ac rwy'n hapus iawn i wneud hynny eto—y byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i gynyddu'r gyllideb, y byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i sicrhau bod y gyllideb honno'n dal i fod wedi'i neilltuo, er nad yw hynny'n digwydd yn Lloegr, ac, unwaith eto, y byddaf yn helpu i symleiddio'r broses. Felly, rwy'n hapus iawn i roi'r ymrwymiad hwnnw eto.

In relation to prisoners, I've mentioned previously that I will be going out to consultation around the pathway. The draft pathways have been developed in partnership with the national offenders management service and the Wales Community Rehabilitation Company along with officials. We will be putting that out to consultation, and I'm sure that Peter Black will be putting into that consultation. I think you raised a very important point because, obviously, housing is absolutely crucial to try and prevent reoffending, and, certainly, you're right: we have no female prisons in Wales, for instance. Certainly, when I was in a previous portfolio, I visited female prisons in England that housed Welsh women prisoners, and, clearly, housing was something that was raised with me at the time. So, I think it is very important we work with all organisations to ensure that that outreach work that Mark Isherwood referred to does go on in the prisons before people are released.

O ran carcharorion, rwyf wedi crybwyll o'r blaen y byddaf yn cael ymgynghoriad ynglŷn â'r llwybr. Mae'r llwybrau drafft wedi eu datblygu mewn partneriaeth â'r gwasanaeth cenedlaethol rheoli troseddwyr a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ynghyd â swyddogion. Byddwn yn cael ymgynghoriad ynglŷn â hynny, ac rwy'n siŵr y bydd Peter Black yn cyfrannu at yr ymgynghoriad hwnnw. Rwyf yn meddwl eich bod wedi codi pwynt pwysig iawn oherwydd, yn amlwg, mae tai'n gwbl hanfodol er mwyn ceisio atal aildroseddu, ac, yn sicr, rydych yn iawn: nid oes gennym unrhyw garchardai menywod yng Nghymru, er enghraifft. Yn sicr, pan oeddwn mewn portffolio blaenorol, ymwelais â charchardai menywod yn Lloegr sy'n cartrefu carcharorion sy'n fenywod o Gymru, ac, yn amlwg, roedd tai'n rhywbeth a godwyd gyda mi ar y pryd. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn gweithio gyda'r holl sefydliadau i sicrhau bod y gwaith allgymorth hwnnw y cyfeiriodd Mark Isherwood yn digwydd yn y carchardai cyn i bobl gael eu rhyddhau.

In relation to the Renting Homes (Wales) Bill, obviously, the six-month moratorium is currently there. That's being scrutinised. I know, having looked at the evidence that the committee has received, that there are differing views, and I know there are certainly differing views between Members. Certainly, the private rented sector and local authorities have spoken to us about it, but I have to say they don't seem to think it will cause too many problems for them in discharging their duty, but, clearly, we're at a very early stage—we're at Stage 1 of the Bill—and that is something that we can look at as it goes through its passage.

O ran y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru), yn amlwg, mae'r moratoriwm chwe mis yno ar hyn o bryd. Mae hwnnw'n destun craffu. Rwy'n gwybod, ar ôl edrych ar y dystiolaeth y mae'r pwyllgor wedi'i chael, bod gwahaniaeth barn, a gwn yn sicr bod gwahaniaeth barn rhwng Aelodau. Yn sicr, mae'r sector rhentu preifat ac awdurdodau lleol wedi siarad â ni am y peth, ond mae'n rhaid imi ddweud nad yw'n ymddangos eu bod yn meddwl y bydd hyn yn achosi gormod o broblemau iddynt wrth weithredu eu swyddogaethau, ond, yn amlwg, rydym ar gam cynnar iawn—rydym yng Nghyfnod 1 y Bil—ac mae hynny'n rhywbeth y gallwn edrych arno wrth iddo fynd ar ei hynt.

16:35 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I start off by welcoming the statement? Homelessness is one of the worst things that can happen to anyone—not just street homelessness, but those who sofa-surf around friends' and family's sofas and houses, and those who are continually threatened with eviction as each six-month contract comes to an end. Am I the only person who thinks that it cannot be very good for a child's schooling to change schools every six months as the parents move, sometimes from one end of a city to another?

A gaf fi ddechrau drwy groesawu'r datganiad? Mae digartrefedd yn un o'r pethau gwaethaf a all ddigwydd i unrhyw un—nid dim ond digartrefedd ar y stryd, ond pobl sy'n syrffio soffas o amgylch soffas a thai ffrindiau a theulu, a'r bobl sy'n cael eu bygwth yn barhaus â throi allan wrth i bob contract chwe mis ddod i ben. Ai fi yw'r unig un sy'n credu na all fod yn beth da i addysg plentyn i newid ysgol bob chwe mis gan fod y rhieni'n symud, weithiau o un pen i ddinas i'r pen arall?

I believe that a duty to help people within 56 days of becoming homeless will reduce homelessness, and I think that's something that everybody should really welcome. It's one of those things where you always think, 'Well, why wasn't it done before?' because it seems like a no-brainer, doesn't it? It's something that really is important. People waiting to become homeless and the homelessness officers waiting for the eviction notice to run out before they find somebody a home always seemed to me to be a bit of a waste of an opportunity.

Credaf y bydd dyletswydd i helpu pobl o fewn 56 diwrnod o fod yn ddigartref yn lleihau digartrefedd, ac rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth y dylai pawb ei groesawu'n fawr. Mae'n un o'r pethau hynny lle'r ydych bob amser yn meddwl, 'Wel, pam na chafodd ei wneud o'r blaen?' oherwydd mae'n ymddangos yn amlwg, onid yw? Mae'n rhywbeth sydd wir yn bwysig. Mae'r ffaith bod pobl yn aros i ddod yn ddigartref a swyddogion digartrefedd yn aros i'r rhybudd troi allan ddod i ben cyn iddynt ddod o hyd i gartref i rywun wedi ymddangos i mi erioed fel tipyn o wastraff cyfle.

Will the Government be monitoring the number of people who end up in the private sector when the duty is discharged? Something that I know many people in here are worried about is care leavers and what will happen to them. Without wanting to get too party-political, on the changes to benefits that are likely to come in affecting 18 to 25-year-olds, how will those affect care leavers? When will the Government publish the research into services that can be accessed by care leavers? Finally, when will the independent evaluation be completed?

A fydd y Llywodraeth yn monitro nifer y bobl sy'n diweddu yn y sector preifat pan gaiff y ddyletswydd ei chyflawni? Un peth yr wyf yn gwybod bod llawer o bobl yma'n poeni amdano yw pobl sy'n gadael gofal, a beth fydd yn digwydd iddynt. Heb fod eisiau mynd yn rhy bleidiol wleidyddol, ynglŷn â'r newidiadau i fudd-daliadau sy'n debygol o ddod i mewn ac effeithio ar bobl ifanc 18 i 25 oed, sut y bydd hynny'n effeithio ar y rhai sy'n gadael gofal? Pryd y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi'r ymchwil i wasanaethau a fydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal? Yn olaf, pryd y caiff y gwerthusiad annibynnol ei gwblhau?

16:37

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mike Hedges for his questions. If we start off with care leavers, when I came into the portfolio, that was an area that I had a specific interest in because I had had a piece of casework myself. It seemed very strange to me that a local authority could have somebody in care, and the day they reached 18 they then became homeless. To me, it should be an absolutely seamless transfer from care into housing, and, clearly, that wasn't there. So, I mentioned that I was having a piece of research done into this. What this new legislation will ensure is that all vulnerable young people receive the assistance that they need to find a home. Again, the renting homes Bill is suggesting that 16 and 17-year-olds, for the very first time, will be able to have a tenancy. You referred to sofa-surfing and, again, we know that it's not always young people but sometimes we do find that it's young people of that age who are very difficult to house who are the ones who are sofa-surfing. So, I think the two things will help.

Diolch i Mike Hedges am ei gwestiynau. Os dechreuwn â'r rhai sy'n gadael gofal, pan ddeuthum i mewn i'r portffolio, roedd hwnnw'n faes a oedd o ddiddordeb penodol imi oherwydd fy mod wedi cael darn o waith achos fy hun. Roedd yn ymddangos yn rhyfedd iawn i mi y gallai fod gan awdurdod lleol rywun yn derbyn gofal, a'r diwrnod y mae'n cyrraedd 18 oed ei fod wedyn yn ddigartref. I mi, dylai fod trosglwyddiad hollol ddi-dor o ofal i mewn i dai, ac, yn amlwg, nid oedd hynny yno. Felly, soniais fy mod yn cael darn o waith ymchwil wedi'i wneud i mewn i hyn. Bydd y ddeddfwriaeth newydd hon yn sicrhau bod pob person ifanc sy'n agored i niwed yn cael y cymorth sydd ei angen arno i ddod o hyd i gartref. Unwaith eto, mae'r Bil rhentu cartrefi'n awgrymu y bydd pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed, am y tro cyntaf erioed, yn gallu cael tenantiaeth. Cyfeiriasoch at syrffio soffas ac, unwaith eto, rydym yn gwybod nad pobl ifanc ydynt bob amser ond weithiau rydym yn gweld mai pobl ifanc o'r oedran hwnnw sy'n anodd iawn eu cartrefu yw'r rhai sy'n syrffio soffas. Felly, rwyf yn credu y bydd y ddau beth o gymorth.

I think you're absolutely right about the 56 days. I'm sure all Assembly Members have had cases where it's incredibly frustrating when you know a family, for instance, is going to be made homeless and nothing can be done until they've been evicted. So, I think you're absolutely right. This legislation will reduce the number of people who are homeless because they will be being dealt with when they're at risk of being homeless.

Rwy'n credu eich bod yn hollol gywir am y 56 diwrnod. Rwy'n siŵr bod holl Aelodau'r Cynulliad wedi cael achosion hynod rwystredig pryd y byddwch yn gwybod bod teulu, er enghraifft, yn mynd i gael ei wneud yn ddigartref ac na ellir gwneud dim tan y byddant wedi eu troi allan. Felly, rwy'n credu eich bod yn hollol gywir. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn lleihau nifer y bobl sy'n ddigartref oherwydd byddant yn cael sylw pan fyddant mewn perygl o fod yn ddigartref.

You mentioned benefits, and, clearly, that is going to have an impact and it's something that officials are monitoring. Again, just this last week, having seen now what the new Conservative Government are bringing forward, I've asked my officials to monitor their manifesto commitments, if you like, around welfare reform, because we know there are at least £12 billion-worth of cuts coming forward. So, that is something that we're continually monitoring.

Soniasoch am fudd-daliadau, ac, yn amlwg, mae hynny'n mynd i gael effaith ac mae'n rhywbeth y mae swyddogion yn ei fonitro. Unwaith eto, dim ond yn ystod yr wythnos diwethaf, ar ôl gweld yn awr yr hyn y mae'r Llywodraeth Geidwadol newydd yn ei gyflwyno, rwyf wedi gofyn i fy swyddogion fonitro eu hymrwymiadau maniffesto, os mynnwch chi, o amgylch diwygio lles, gan ein bod yn gwybod bod gwerth o leiaf £12 biliwn o doriadau ar y ffordd. Felly, mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei fonitro'n barhaus.

16:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

16:39

# 6. Datganiad: Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen—Adroddiad Terfynol

# 6. Statement: Evaluating the Foundation Phase—Final Report

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 6 is a statement by the Minister for Education and Skills. Evaluating the foundation phase—final report. I call the Minister, Huw Lewis.

Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yw eitem 6. Gwerthuso'r cyfnod sylfaen—adroddiad terfynol. Galwaf ar y Gweinidog, Huw Lewis.

16:39 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Today, I want to give Members an update on the findings of the very positive independent evaluation of our foundation phase for three to seven-year-old children, and to set out what the Welsh Government will be doing to respond to it. I'm extremely proud of the foundation phase and its approach to teaching and learning, and I'm wholly committed to ensuring that all children have the opportunities, through this developmentally appropriate curriculum, to gain the skills and knowledge they will require to become lifelong learners.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Heddiw, rwyf eisiau rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ganfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol cadarnhaol iawn o'n cyfnod sylfaen ar gyfer plant rhwng tair a saith mlwydd oed, a nodi'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ymateb iddo. Rwy'n hynod o falch o'r cyfnod sylfaen a'i ymagwedd at addysgu a dysgu, ac rwy'n gwbl ymrwymedig i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfleoedd, drwy'r cwricwlwm datblygiadol priodol hwn, i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen arnynt i ddod yn ddysgwyr gydol oes.

Now, this is a very positive report, supporting the views of Estyn and Professor Donaldson in his review of curriculum and assessment that the foundation phase is a particularly strong element of Welsh education, which we should build on. Estyn's annual report tells us that, where the foundation phase is being delivered well, it has the potential to have an enormously positive impact on our youngest learners. Together with the findings from this evaluation, this is all very good evidence that the foundation phase approach is working. We now have to build on that progress and make sure that all schools and funded nurseries are adopting it fully and effectively, so we can give our children the best possible educational start in life.

Nawr, mae hwn yn adroddiad cadarnhaol iawn, sy'n cefnogi barn Estyn a'r Athro Donaldson yn ei adolygiad o'r cwricwlwm ac asesu bod y cyfnod sylfaen yn elfen arbennig o gryf mewn addysg yng Nghymru, y dylem adeiladu arno. Mae adroddiad blynyddol Estyn yn dweud wrthym, pan fo'r cyfnod sylfaen yn cael ei gyflwyno yn dda, bod ganddo'r potensial i gael effaith aruthrol gadarnhaol ar ein dysgwyr ieuengaf. Ynghyd â'r canfyddiadau o'r gwerthusiad hwn, mae hyn i gyd yn dystiolaeth dda iawn bod y dull cyfnod sylfaen yn gweithio. Mae'n rhaid i ni adeiladu ar y cynnydd hwnnw nawr a sicrhau bod yr holl ysgolion a meithrinfeydd a ariennir yn ei fabwysiadu yn llawn ac yn effeithiol, er mwyn i ni roi'r dechrau addysgol gorau posibl mewn bywyd i'n plant.

All seven key findings presented in this report are extremely reassuring indicators of the effectiveness of the foundation phase where it is being implemented well. The evaluation reports that schools with greater use of the foundation phase have greater likelihood of learners achieving the foundation phase indicator, and greater levels of observed pupil involvement and pupil wellbeing during learning. It also reports that learners are more likely to achieve level 4 or above in key stage 2 in English, and that the foundation phase is associated with improvements in overall school attendance.

Mae pob un o'r saith canfyddiad allweddol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn ddangosyddion hynod galonogol o effeithiolrwydd y cyfnod sylfaen lle mae'n cael ei roi ar waith yn dda. Mae'r gwerthusiad yn adrodd bod gan ysgolion â mwy o ddefnydd o'r cyfnod sylfaen fwy o debygolrwydd o ddysgwyr yn cyflawni'r dangosydd cyfnod sylfaen, a lefelau uwch o gyfranogiad disgyblion a arsylwyd a lles disgyblion yn ystod dysgu. Mae hefyd yn adrodd bod dysgwyr yn fwy tebygol o gyflawni lefel 4 neu uwch yng nghyfnod allweddol 2 mewn Saesneg, a bod y cyfnod sylfaen yn gysylltiedig â gwelliannau mewn presenoldeb cyffredinol mewn ysgolion.

The evaluation also shows that the foundation phase is achieving its main aim: to raise the attainment of all pupils. Now, because of the timing of the research, the evaluation report does not contain the latest figures that show that we are also reducing the gap between the attainment of pupils from deprived backgrounds and their peers. For the foundation phase, the Welsh Government has already met and exceeded its target to reduce the attainment gap by 10 per cent against 2012 levels by 2017—two years early. We have, in fact, secured an 11.1 per cent reduction by the end of 2014. As I've said previously, I don't want to rest on our laurels on this improvement. I will be reviewing the target again for the foundation phase over the summer to see whether we can make this even more challenging.

Mae'r gwerthusiad hefyd yn dangos bod y cyfnod sylfaen yn cyflawni ei brif amcan: i godi cyrhaeddiad pob disgybl. Nawr, oherwydd amseriad yr ymchwil, nid yw'r adroddiad gwerthuso yn cynnwys y ffigurau diweddaraf sy'n dangos ein bod hefyd yn lleihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion. Ar gyfer y cyfnod sylfaen, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyrraedd a rhagori ar ei tharged i leihau'r bwlch cyrhaeddiad gan 10 y cant yn erbyn lefelau 2012 erbyn 2017—ddwy flynedd yn gynnar. Rydym, mewn gwirionedd, wedi sicrhau gostyngiad o 11.1 y cant erbyn diwedd 2014. Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, dydw i ddim eisiau gorffwys ar ein rhwyfau ar y gwelliant hwn. Byddaf yn adolygu'r targed eto ar gyfer y cyfnod sylfaen dros yr haf i weld a allwn ni wneud hyn hyd yn oed yn fwy heriol.

The evaluation also reports that the introduction of the foundation phase is having a positive impact on children and their behaviour, their wellbeing, their attitudes to learning and their engagement. These have led to overall improvements in school attendance and a drop in persistent absenteeism following the foundation phase's introduction. Encouragingly, there are improvements in children's educational achievement and improvements in literacy, both English and Welsh, and in numeracy. Furthermore, these improvements have the potential to lead to even greater educational success as the children grow up. This is being recognised by teachers in key stage 2, as children move to them from the foundation phase.

Mae'r gwerthusiad hefyd yn adrodd bod cyflwyno'r cyfnod sylfaen yn cael effaith gadarnhaol ar blant a'u hymddygiad, eu lles, eu hagweddau at ddysgu a'u hymgysylltu. Mae'r rhain wedi arwain at welliannau cyffredinol mewn presenoldeb yn yr ysgol a gostyngiad mewn absenoldeb parhaus yn dilyn cyflwyno'r cyfnod sylfaen. Yn galonogol, mae gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol plant a gwelliannau mewn llythrennedd, yng Nghymraeg a Saesneg, ac mewn rhifedd. Yn ogystal, mae gan y gwelliannau hyn y potensial i arwain at fwy fyth o lwyddiant addysgol wrth i'r plant dyfu'n hŷn. Mae hyn yn cael ei gydnabod gan athrawon yng nghyfnod allweddol 2, wrth i blant symud atynt o'r cyfnod sylfaen.

The evaluation encourages all schools and nurseries funded to deliver the foundation phase to do more to fully implement the foundation phase pedagogies and curricula. It also urges the Welsh Government to continue to develop and enhance the foundation phase.

Mae'r gwerthusiad yn annog pob ysgol a meithrinfa a ariennir i ddarparu'r cyfnod sylfaen i wneud mwy i weithredu addysgeg a chwricwla'r cyfnod sylfaen yn llawn. Mae hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i ddatblygu a gwella'r cyfnod sylfaen.

So, I have set up a group of experts to support this process. The group's work has to be based on evidence, and the evaluation report and its 29 key recommendations will be a key element, as well as information from the foundation phase stocktake undertaken by Professor Iram Siraj, which I commissioned and was published last year. The group's work will, of course, not sit on its own, and will need to be integrated with other key developments in Welsh education, particularly our response to Professor Donaldson's review of the curriculum and assessment, Professor Furlong's options for initial teacher training, and the new deal for the education workforce.

Felly, rwyf wedi sefydlu grŵp o arbenigwyr i gefnogi'r broses hon. Mae'n rhaid i waith y grŵp fod yn seiliedig ar dystiolaeth, a bydd yr adroddiad gwerthuso a'i 29 o argymhellion allweddol yn elfen allweddol, yn ogystal â gwybodaeth o'r ymarfer gymryd stoc o'r cyfnod sylfaen a gynhaliwyd gan yr Athro Iram Siraj, a gomisiynwyd gennyf i ac a gyhoeddwyd y llynedd. Ni fydd gwaith y grŵp, wrth gwrs, yn eistedd ar ei ben ei hun, a bydd angen ei integreiddio gyda datblygiadau allweddol eraill ym maes addysg yng Nghymru, yn enwedig ein hymateb i adolygiad yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm ac asesu, dewisiadau'r Athro Furlong ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon, a'r fargen newydd ar gyfer y gweithlu addysg.

The group includes representatives of all the key stakeholders involved in delivering the foundation phase, and includes international academic experts, foundation phase practitioners, inspectorates and those involved in initial teacher training. They will develop a foundation phase strategic action plan containing short, medium and long-term actions that will put in place a long-term approach to develop consistently good practice across Wales, building on the evidence within this report and others.

Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl randdeiliaid allweddol sy'n ymwneud â chyflwyno'r cyfnod sylfaen, ac mae'n cynnwys arbenigwyr academaidd rhyngwladol, ymarferwyr cyfnod sylfaen, arolygiaethau a rhai sy'n ymwneud â hyfforddiant cychwynnol athrawon. Byddant yn datblygu cynllun gweithredu strategol cyfnod sylfaen sy'n cynnwys camau gweithredu tymor byr, canolig a hir, a fydd yn rhoi dull tymor hir ar waith i ddatblygu arfer da cyson ledled Cymru, gan adeiladu ar y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn ac eraill.

The foundation phase action plan will be published early in 2016, but I will not wait until then to make improvements in the way in which the foundation phase is delivered. I will continue to work with stakeholders to put in place changes that we already know are needed. A key strand of this work is the introduction of a new assessment tool in September this year in order to measure consistently across Wales the progress of children through the foundation phase.

Bydd y cynllun gweithredu yn y cyfnod sylfaen yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2016, ond nid wyf am aros tan hynny i wneud gwelliannau yn y ffordd y mae'r cyfnod sylfaen yn cael ei gyflwyno. Byddaf yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i roi newidiadau ar waith yr ydym eisoes yn gwybod sydd eu hangen. Elfen allweddol o'r gwaith hwn yw cyflwyno dull asesu newydd ym mis Medi eleni er mwyn mesur cynnydd plant yn gyson drwy'r cyfnod sylfaen ledled Cymru.

This independent evaluation was undertaken by the Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods team based in Cardiff University, and I wish to thank them for the extremely robust and comprehensive approach that they've taken. The research took place over three years and has gathered a large amount of information from all the key stakeholders. This included 51 schools and nurseries; practitioners and children who responded to a national survey of schools and nurseries; the hundreds of year 2 learners who participated in a pupil survey; and over 1,000 parents and carers, who completed the parent survey. The evaluation brings together previously unpublished findings and the key information from 18 published key findings reports, all of which have been produced over the lifetime of the research. I feel this overwhelmingly positive report is reflective of the hard work and professionalism of practitioners who truly believe in the ethos, principles and teachings of the foundation phase. I'm sure you wish to join me in thanking them for their continuing support and vigour in delivering a successful early education experience for our youngest learners.

Cynhaliwyd y gwerthusiad annibynnol hwn gan dîm Data a Dulliau Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd Cymru, sy'n seiliedig ym Mhrifysgol Caerdydd, a hoffwn ddiolch iddynt am yr ymagwedd hynod gadarn a chynhwysfawr a gymerwyd ganddynt. Cynhaliwyd yr ymchwil dros gyfnod o dair blynedd ac mae wedi casglu llawer iawn o wybodaeth oddi wrth yr holl randdeiliaid allweddol. Roedd hyn yn cynnwys 51 o ysgolion a meithrinfeydd; ymarferwyr a phlant a ymatebodd i arolwg cenedlaethol o ysgolion a meithrinfeydd; y cannoedd o ddysgwyr blwyddyn 2 a gymerodd ran mewn arolwg disgyblion; a dros 1,000 o rieni a gofalwyr, a gwblhaodd yr arolwg ar gyfer rhieni. Mae'r gwerthusiad yn dwyn ynghyd ganfyddiadau heb eu cyhoeddi o'r blaen a gwybodaeth allweddol o'r 18 adroddiad canfyddiadau allweddol a gyhoeddwyd, pob un ohonynt wedi eu cynhyrchu dros gyfnod yr ymchwil. Rwy'n teimlo bod yr adroddiad hynod o gadarnhaol hwn yn adlewyrchu gwaith caled a phroffesiynoldeb ymarferwyr sydd wir yn credu yn ethos, egwyddorion a dysgeidiaeth y cyfnod sylfaen. Rwy'n siŵr yr hoffech ymuno â mi i ddiolch iddynt am eu cefnogaeth a'u hegni parhaus wrth ddarparu profiad addysg gynnar llwyddiannus ar gyfer ein dysgwyr ieuengaf.

As a Welsh Government, we remain steadfast in our commitment to supporting young people through their early years. We know, from evaluation of programmes such as Flying Start, that high-quality support delivered by high-capacity professionals in the first few years of life can have an important beneficial impact on the life chances of young people. It is vital that, as a Welsh Government, we continue our support for policies such as these over the long term. I commend the report and would urge all foundation phase practitioners and those with an early years interest to take time to read it.

Fel Llywodraeth Cymru, rydym yn ddiysgog yn ein hymrwymiad i gefnogi pobl ifanc trwy eu blynyddoedd cynnar. Rydym yn gwybod, o werthuso rhaglenni fel Dechrau'n Deg, y gall cefnogaeth o ansawdd uchel a ddarperir gan weithwyr proffesiynol sgiliau uchel ym mlynyddoedd cyntaf bywyd gael effaith fuddiol bwysig ar gyfleoedd bywyd pobl ifanc. Mae'n hanfodol, fel Llywodraeth Cymru, ein bod yn parhau ein cefnogaeth i bolisïau fel hyn dros y tymor hir. Cymeradwyaf yr adroddiad a byddwn yn annog holl ymarferwyr y cyfnod sylfaen a'r rhai sydd â diddordeb yn y blynyddoedd cynnar i gymryd amser i'w ddarllen.

16:47

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister for his statement this afternoon? Now, the Minister will know that we, on this side of the Chamber, are supportive of the foundation phase, and I welcome the thorough evaluation that the Welsh Government has commissioned of this scheme. As has already been said, the latest evaluation report has produced 29 recommendations, which I hope will be seriously addressed by the Welsh Government.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma? Nawr, bydd y Gweinidog yn gwybod ein bod ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn gefnogol o'r cyfnod sylfaen, ac rwy'n croesawu'r gwerthusiad trylwyr y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gomisiynu o'r cynllun hwn. Fel y dywedwyd eisoes, mae'r adroddiad gwerthuso diweddaraf wedi cynhyrchu 29 o argymhellion, a gobeithiaf y byddant yn cael sylw o ddifrif gan Lywodraeth Cymru.

Of course, the evaluation has made it quite clear that there is certainly more to be done to overcome pupils' social disadvantages and reduce disparity between pupils. Now, I appreciate that the Government says it has reduced the attainment gap, but perhaps the Minister can tell us when that specific evidence will be published. It's worth noting, however, that the final report makes it clear only half of headteachers and their foundation phase lead practitioners thought that it is helping to reduce inequalities in attainment. One way of, perhaps, addressing these inequalities, according to the National Union of Teachers Cymru, is by addressing the steady increase in class sizes, particularly in infant classes. Now, in light of this, perhaps the Minister can tell us a bit more about what the Welsh Government is doing to ensure that teachers have sufficient time with individual students so that any social, or even educational, challenges are recognised.

Wrth gwrs, mae'r gwerthusiad wedi ei gwneud yn gwbl glir fod mwy i'w wneud yn sicr i oresgyn anfanteision cymdeithasol y disgyblion a lleihau anghyfartaledd rhwng disgyblion. Nawr, rwy'n sylweddoli bod y Llywodraeth yn dweud ei bod wedi lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, ond efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym pryd y bydd y dystiolaeth benodol yn cael ei chyhoeddi. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod yr adroddiad terfynol yn ei gwneud yn glir mai dim ond hanner y penaethiaid a'u hymarferwyr arweiniol cyfnod sylfaen sy'n meddwl ei fod yn helpu i leihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad. Un ffordd, efallai, o fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn, yn ôl Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru, yw drwy fynd i'r afael â'r cynnydd cyson ym maint dosbarthiadau, yn enwedig yn nosbarthiadau babanod. Nawr, yng ngoleuni hyn, efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym ychydig mwy am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod athrawon yn cael digon o amser gyda myfyrwyr unigol fel bod unrhyw heriau cymdeithasol, neu hyd yn oed addysgol, yn cael eu cydnabod.

Estyn have made it quite clear that, whilst many local authorities are improving joint working, they do not always share information about disadvantaged learners with other agencies and services, and this is a barrier to progress. Therefore, will the Minister commit to facilitating discussions with regional consortia and local authorities to ensure that, at the very least, this information will be shared in the future?

Mae Estyn wedi ei gwneud yn gwbl glir, er bod llawer o awdurdodau lleol yn gwella gweithio ar y cyd, nad ydynt bob amser yn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr sydd dan anfantais gydag asiantaethau a gwasanaethau eraill, ac mae hyn yn rhwystr i gynnydd. Felly, a wnaiff y Gweinidog ymrwymo i hwyluso trafodaethau gyda chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i sicrhau, o leiaf, y bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu yn y dyfodol?

Now, the Minister has consistently recognised that more could be done to strengthen teacher training, so that practitioners better understand the foundation phase, and I very much welcome that. I was pleased to read that the final evaluation report calls for a greater emphasis to be put on the foundation phase in initial teacher education courses and other professional courses. It's essential that, as our next generation of primary school teachers and practitioners come forward, they have a key understanding of the foundation phase ethos.

Nawr, mae'r Gweinidog wedi cydnabod yn gyson y gellid gwneud mwy i gryfhau hyfforddiant athrawon, er mwyn i ymarferwyr ddeall y cyfnod sylfaen yn well, a chroesawaf hynny yn fawr iawn. Roeddwn yn falch o ddarllen bod yr adroddiad gwerthuso terfynol yn galw am fwy o bwyslais i gael ei roi ar y cyfnod sylfaen mewn cyrsiau addysg gychwynnol i athrawon a chyrsiau proffesiynol eraill. Mae'n hanfodol, wrth i'n cenhedlaeth nesaf o athrawon ysgolion cynradd ac ymarferwyr ddod i'r amlwg, bod ganddynt ddealltwriaeth allweddol o ethos y cyfnod sylfaen.

Now, I acknowledge that, in today's statement, the Minister has set up a group of experts to further develop the foundation phase, and that this group will not sit on its own and that it will need to be integrated with other key developments. However, perhaps the Minister can tell us how exactly the strategic action plan mentioned today will integrate with other key education policies, such as the literacy and numeracy framework, for example.

Nawr, rwy'n cydnabod bod y Gweinidog yn y datganiad heddiw, wedi sefydlu grŵp o arbenigwyr i ddatblygu'r cyfnod sylfaen ymhellach, ac na fydd y grŵp hwn yn eistedd ar ei ben ei hun ac y bydd angen iddo gael ei integreiddio â datblygiadau allweddol eraill. Fodd bynnag, efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym sut yn union y bydd y cynllun gweithredu strategol a grybwyllwyd heddiw yn integreiddio â pholisïau addysg allweddol eraill, megis y fframwaith llythrennedd a rhifedd, er enghraifft.

Now, I am pleased that the Minister has recognised that there needs to be in place a long-term approach to deliver good practice across Wales. However, there have also been calls for the foundation phase ethos to be extended through to the next stage of the education system, and the Minister will be aware that we on this side of the Chamber are supportive of a middle-school phase to build on the success of the foundation phase by driving forward standards for pupils in the seven to 14-year-old age bracket. Does the Minister agree with me that we should look at expanding the ethos of the foundation phase to the next range in order to improve the basic skills of our children?

Nawr, rwy'n falch bod y Gweinidog wedi cydnabod bod angen cael dull tymor hir ar waith i gyflawni arferion da ledled Cymru. Fodd bynnag, mae galw wedi bod hefyd am i'r ethos cyfnod sylfaen gael ei ymestyn i gyfnod nesaf y system addysg, a bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cefnogi'r cyfnod ysgol ganol i adeiladu ar lwyddiant y cyfnod sylfaen drwy sbarduno safonau ymlaen ar gyfer disgyblion yn y dosbarth oedran saith i 14 oed. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi y dylem ni edrych ar ehangu ethos y cyfnod sylfaen i'r ystod nesaf er mwyn gwella sgiliau sylfaenol ein plant?

Dirprwy Lywydd, I'd like to briefly touch on recommendation 18 of the evaluation report, which states that where schools in funded non-maintained settings are constrained in what building developments they can undertake, they should be allowed to use capital budgets more flexibly. Now, this is fundamentally important in creating schools in Wales that inspire our young people, and to ensure that schools are places that can accommodate twenty-first century technology that can be adapted to meet the changing needs of learners. Now, the report suggests that capital budgets could also be used to provide better transport provision, more mobile learning environments, and to establish partnerships with other organisations that would encourage greater use of more varied outdoor learning environments. Perhaps the Minister could tell us whether he intends to provide any additional capital funding to help further increase the number of environments available to schools.

Ddirprwy Lywydd, hoffwn gyfeirio'n fyr at argymhelliad 18 yr adroddiad gwerthuso, sy'n datgan pan fo ysgolion mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn cael eu cyfyngu yn y datblygiadau adeiladu y gallant ymgymryd â nhw, dylent gael yr hawl i ddefnyddio cyllidebau cyfalaf yn fwy hyblyg. Nawr, mae hyn yn sylfaenol bwysig wrth greu ysgolion yng Nghymru sy'n ysbrydoli ein pobl ifanc, ac i sicrhau bod ysgolion yn lleoedd a all gynnwys technoleg yr unfed ganrif ar hugain y gellir ei haddasu i ddiwallu anghenion newidiol dysgwyr. Nawr, mae'r adroddiad yn awgrymu y gallai cyllidebau cyfalaf hefyd gael eu defnyddio i ddarparu gwell darpariaeth cludiant, mwy o amgylcheddau dysgu symudol, ac i sefydlu partneriaethau gyda sefydliadau eraill a fyddai'n annog mwy o ddefnydd o amgylcheddau dysgu awyr agored mwy amrywiol. Efallai y gallai'r Gweinidog ddweud wrthym a yw'n bwriadu darparu unrhyw gyllid cyfalaf ychwanegol i helpu ymhellach i gynyddu nifer yr amgylcheddau sydd ar gael i ysgolion.

The evaluation of the foundation phase has, in part, also looked at the role of parents. I think all Members recognise parental engagement is so crucial to a child's development. Very briefly, I wonder if the Minister could tell us what discussions he's had with schools, with the consortia and with local authorities about encouraging parents to better understand the foundation phase ethos, and how does he intend to better involve parents in the scheme in the future? Indeed, the report tells us that only 20 per cent of school headteachers and 18 per cent of funded non-maintained lead practitioners indicated that parents or carers had a major role in the implementation of the foundation phase, and that is something that needs to change.

Mae gwerthusiad o'r cyfnod sylfaen, yn rhannol, hefyd wedi edrych ar swyddogaeth rhieni. Rwy'n credu bod pob Aelod yn cydnabod bod ymgysylltiad rhieni yn hanfodol iawn i ddatblygiad plentyn. Yn fyr iawn, tybed a allai'r Gweinidog ddweud wrthym pa drafodaethau y mae wedi eu cael gydag ysgolion, gyda'r consortia ac awdurdodau lleol ynghylch annog rhieni i ddeall ethos y cyfnod sylfaen yn well, a sut y mae'n bwriadu cynnwys rhieni yn well yn y cynllun yn y dyfodol? Yn wir, mae'r adroddiad yn dweud wrthym mai dim ond 20 y cant o benaethiaid ysgolion a 18 y cant o ymarferwyr arweiniol nas cynhelir a ariennir a nododd fod gan rieni neu ofalwyr ran bwysig mewn rhoi'r cyfnod sylfaen ar waith, ac mae hynny'n rhywbeth y mae angen iddo newid.

Therefore, in closing, Deputy Presiding Officer, can I once again thank the Minister for his statement today? I look forward to seeing this scheme developed further so that it can provide even better outcomes for our children. Thank you.

Felly, i gloi, Ddirprwy Lywydd, a gaf i unwaith eto ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw? Edrychaf ymlaen at weld y cynllun hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach fel y gall ddarparu hyd yn oed gwell deilliannau i'n plant. Diolch yn fawr.

16:53

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Deputy Presiding Officer, can I thank Paul Davies for his important and insightful points, and the important questions also that he's contributed to the debate this afternoon? He's certainly right to say that there is more to be done in terms of that gap between the least well-off and their peers. He asked about the evidence. The evidence was actually published this January in the Wales statistical bulletin, and I'd refer him to table 1 in there, which shows the foundation phase gap closing by about 1.5 per cent. Now, that doesn't seem like a great deal when put like that, but there are about 7,000 children in Wales caught up in that gap in the foundation phase. A rough, back-of-an-envelope calculation means that, over the course of this year, over 200 of those children have been lifted out of that gap. If evidence tells us anything, it means that, for those 200 children, there lies ahead every likelihood of a very different educational journey. What we have to do, of course, is continue to approach the closing of that gap with the utmost vigour.

Ddirprwy Lywydd, a gaf i ddiolch i Paul Davies am ei bwyntiau pwysig a threiddgar, a'r cwestiynau pwysig hefyd y mae wedi'u cyfrannu at y ddadl y prynhawn yma? Mae'n sicr yn iawn wrth ddweud bod mwy i'w wneud o ran y bwlch hwnnw rhwng y lleiaf cefnog a'u cyfoedion. Gofynnodd am y dystiolaeth. Cyhoeddwyd y dystiolaeth mewn gwirionedd y mis Ionawr hwn ym mwletin ystadegol Cymru, ac rwyf yn ei gyfeirio at dabl 1 yn hwnnw, sy'n dangos y bwlch cyfnod sylfaen yn cau gan tua 1.5 y cant. Nawr, nid yw hynny'n ymddangos yn llawer iawn o'i roi fel yna, ond mae tua 7,000 o blant yng Nghymru wedi'u dal yn y bwlch hwnnw yn y cyfnod sylfaen. Mae cyfrifiad bras, cefn amlen yn golygu, yn ystod y flwyddyn hon, bod dros 200 o'r plant hynny wedi cael eu codi allan o'r bwlch hwnnw. Os yw tystiolaeth yn dweud unrhyw beth wrthym, mae'n golygu, ar gyfer y 200 o blant hynny, mae pob tebygolrwydd o daith addysgol wahanol iawn o'u blaenau. Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud, wrth gwrs, yw parhau i fynd ati i gau'r bwlch hwnnw gyda'n holl egni.

As I mentioned during my statement, I will be considering a challenging but realistic target that takes us beyond the target of 10 per cent that was set. We've hit the 10 per cent and gone through that target two years early, and it is time now, I think, to realise the true potential of professionals delivering the foundation phase well to contribute to closing that gap. So, the evidence is there. It's there in the foundation phase, key stage 2 and key stage 3, and we await to see the feed-through into key stage 4, but I believe it inevitably must come.

Fel y crybwyllais yn ystod fy natganiad, byddaf yn ystyried targed heriol ond realistig sy'n mynd â ni y tu hwnt i'r targed o 10 y cant a osodwyd. Rydym ni wedi cyrraedd y 10 y cant ac wedi mynd drwy'r targed hwnnw ddwy flynedd yn gynnar, ac mae'n bryd erbyn hyn, rwy'n meddwl, i wireddu gwir botensial gweithwyr proffesiynol sy'n cyflwyno'r cyfnod sylfaen yn dda i gyfrannu at gau'r bwlch hwnnw. Felly, mae'r dystiolaeth yno. Mae yno yn y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, ac rydym yn aros i weld y bwydo drwodd i gyfnod allweddol 4, ond rwy'n credu bod yn rhaid, yn anochel, iddo ddod.

He's right about the confidence of practitioners and, as part of the follow-through from the recommendations, we will, of course, be addressing what needs to happen in terms of the support delivered through consortia and local authorities, in terms of continuing professional development. He's very correct to point out that, taken together, this report and the conclusions of Professor Furlong in terms of initial teacher training demand a complete redesign of what happens to our student teachers, what they are delivered in terms of support and curriculum content, as well as the level of expectation that we set for them and for the HEIs that deliver their courses. We need a generation of teachers who are steeped in the foundation phase from day one, and that that, indeed, is the central philosophy of their teaching practice.

Mae'n iawn am hyder ymarferwyr ac, yn rhan o'r dilyniant trwodd o'r argymhellion, byddwn, wrth gwrs, yn mynd i'r afael â beth ddylai ddigwydd o ran y gefnogaeth a ddarperir drwy gonsortia ac awdurdodau lleol, o ran datblygiad proffesiynol parhaus . Mae'n gywir iawn i nodi, o'u cymryd gyda'i gilydd, bod yr adroddiad hwn a chasgliadau'r Athro Furlong o ran hyfforddiant cychwynnol athrawon yn gofyn am ail-drefnu'n gyfan gwbl yr hyn sy'n digwydd i'n hathrawon dan hyfforddiant, yr hyn a ddarperir iddynt o ran cefnogaeth a chynnwys y cwricwlwm, yn ogystal â'r lefel o ddisgwyliadau yr ydym yn eu gosod ar eu cyfer ac ar gyfer y sefydliadau addysg uwch sy'n cyflwyno eu cyrsiau. Mae angen cenhedlaeth o athrawon sydd wedi eu trwytho yn y cyfnod sylfaen o'r diwrnod cyntaf, ac mai hynny, yn wir, yw athroniaeth ganolog eu hymarfer dysgu.

I'd be very happy to engage in discussions about the idea of a middle-school phase. It's not something I've heard the Welsh Conservatives mention before, but any constructive discussion about how we learn best from how the foundation phase is progressing is worth having, and I'd be very happy to do that.

Byddwn yn hapus iawn i gymryd rhan mewn trafodaethau am y syniad o gyfnod ysgol ganol. Nid yw'n rhywbeth yr wyf wedi clywed y Ceidwadwyr Cymreig yn sôn amdano o'r blaen, ond mae unrhyw drafodaeth adeiladol ynghylch sut yr ydym yn dysgu orau o'r ffordd y mae'r cyfnod sylfaen yn symud ymlaen yn werth ei chael, a byddwn yn hapus iawn i wneud hynny.

In terms of the distribution of capital, of course, I would remind Paul Davis that Wales alone has continued with its capital investment in schools. This was abandoned across the border in England as an early action of the late lamented coalition Government. Of course, as part of that, I've witnessed myself the commitment to a seamless priority, really, there for new technology to be incorporated into the fabric of the buildings and to be part and parcel of how the schools are designed. But, he's right also to say that consideration needs to be given to encourage local authorities, in particular, to think about imaginative uses of the capital, which is still flowing—£1.4 billion still to be spent in terms of schools capital investment—and that emphasis on the outdoor environment was something quite insightful, I think, in terms of what architects, local authorities and others should take into account. I'll consider how we can strengthen guidance around school design in that regard.

O ran dosbarthiad cyfalaf, wrth gwrs, byddwn yn atgoffa Paul Davis mai Cymru'n unig sydd wedi parhau gyda'i buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion. Rhoddwyd y gorau i hyn ar draws y ffin yn Lloegr fel gweithred gynnar y diweddar Lywodraeth glymblaid, coffa da amdani. Wrth gwrs, yn rhan o hynny, rwyf wedi bod yn dyst fy hun i'r ymrwymiad i flaenoriaeth ddi-dor, mewn gwirionedd, i dechnoleg newydd gael ei hymgorffori yn ffabrig yr adeiladau ac i fod yn rhan annatod o'r ffordd y mae'r ysgolion yn cael eu cynllunio. Ond, mae'n iawn hefyd i ddweud fod angen rhoi ystyriaeth i annog awdurdodau lleol, yn arbennig, i feddwl am ddefnydd dychmygus o'r cyfalaf, sydd yn dal i lifo—£1.4 biliwn i gael ei wario o hyd o ran buddsoddi cyfalaf ysgolion—ac roedd y pwyslais ar yr amgylchedd awyr agored yn rhywbeth eithaf craff, rwy'n meddwl, o ran yr hyn y dylai penseiri, awdurdodau lleol ac eraill eu hystyried. Fe wnaf ystyried sut y gallwn gryfhau'r cyfarwyddyd ynghylch cynllunio ysgolion yn hynny o beth.

He's also pointed out the importance of parental engagement. He's quite right to do so. I think it is time that we fully embrace the potential of new technology, and I have asked officials to take a look at some ideas that have actually been sparked by the Ebbw Fawr Learning Community in Ebbw Vale, in terms of how they are engaging parents and pupils through an app, actually, in that case. It doesn't have to be done that way, but, essentially, parents can be kept in touch with what's going on in the school very simply, very easily and in real time on their mobile phone.

Mae wedi tynnu sylw hefyd at y pwysigrwydd o ymgysylltu â rhieni. Mae'n hollol iawn i wneud hynny. Credaf ei bod yn bryd i ni gofleidio potensial technoleg newydd yn llwyr, ac rwyf wedi gofyn i swyddogion fwrw golwg ar rai syniadau sydd mewn gwirionedd wedi eu sbarduno gan Gymuned Ddysgu Ebwy Fawr yng Nglyn Ebwy, o ran sut y maent yn ymgysylltu â rhieni a disgyblion trwy ap, mewn gwirionedd, yn yr achos hwnnw. Nid oes rhaid ei wneud yn y modd hwnnw, ond, yn y bôn, gellir cadw rhieni mewn cysylltiad â'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol yn syml iawn, yn hawdd iawn ac mewn amser real ar eu ffôn symudol.

16:58 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Hoffwn i, hefyd, groesawu'r gwerthusiad yma a diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Mae Plaid Cymru yn wastad, wrth gwrs, wedi cefnogi'r cyfnod sylfaen. Roeddem ni'n digwydd bod mewn Llywodraeth pan gyflwynwyd y cyfnod, ac rydym ni wrth ein boddau i weld arwyddion bod y cyfnod yn llwyddo, yn ôl y gwerthusiad. Mae i fod i lwyddo, wrth gwrs. Byddai'n fwy o syndod pe na bai'n llwyddo, achos mae'r dystiolaeth ryngwladol yn glir fod ymyrraeth gynnar yn fuddiol i blant, yn enwedig plant o gefndiroedd difreintiedig.

I, too, would like to welcome this evaluation and thank the Minister for his statement. Plaid Cymru has always, of course, supported the foundation phase. We happened to be in Government when it was introduced, and we are delighted to see these signs of success in the foundation phase, according to the evaluation. It would be a greater surprise if it wasn't succeeding, of course, because international evidence is clear that early intervention is beneficial to children, particularly those children from disadvantaged backgrounds.

Felly, mae'n bwysig ein bod yn dysgu'r gwersi o'r adroddiad yma, ac ymhlith y prif wersi—a'r un y mae'r Gweinidog hefyd wedi'i phwysleisio hefyd, i fod yn deg—y mae'r ffaith bod y cyfnod sylfaenol yn gweithio ar ei orau pan mae'r addysgwyr eu hunain yn gweithredu ethos a chanllawiau'r cyfnod sylfaen. Os oes siom o gwbl, y siom honno yw bod rhai heb ddysgu'r wers honno a heb, efallai, gael y gefnogaeth briodol i wneud hynny.

Therefore, it's important that we learn the lessons of this report, and among the main lessons—and the one the Minister himself has emphasised, to be fair—is that the foundation phase works best when the educators themselves are implementing the ethos and guidelines of the foundation phase. If there is any disappointment here, it's that some haven't learnt that lesson and, perhaps, haven't been given the appropriate support in so doing.

Felly, wrth inni edrych tuag at y dyfodol, pa sicrwydd all y Gweinidog ei roi i'r Cynulliad fod y Llywodraeth yn mynd i fuddsoddi o hyd yn y cyfnod sylfaen yn y ffordd sydd ei angen, er mwyn gweld y buddiannau hyn? Rydym eisoes wedi trafod arian cyfalaf—wnâi ddim ailadrodd y cwestiwn yna—ond mae yna wersi yn y fan hon hefyd ynglŷn â chefnogaeth i addysgwyr, cefnogaeth o ran datblygiad proffesiynol parhaol a hefyd ynglŷn â sicrhau'r gymhareb gywir o addysgwyr i blant. Roeddwn yn gweld mai dim ond hanner yr ysgolion a oedd yn llwyddo i gael y 'ratio' yn y flwyddyn gyntaf, er enghraifft. Mae hynny'n siom, o ystyried bod yna rhywbeth fel £90 miliwn wedi cael ei roi gan y Llywodraeth tuag at hynny.

So, as we look to the future, what assurance can the Minister give this Assembly that the Government will continue to invest in the foundation phase, in order to secure these benefits? We've already discussed capital funding—I won't rehearse those issues—but there are also lessons here in terms of support for educators, support in terms of continuing professional development and also for ensuring the correct ratio of educators to children. I saw that only half of schools actually achieved that ratio in the first year, for example. That is disappointing, given that some £90 million has been allocated by Government for this.

Rydym yn disgwyl y bydd arian yn dod gan y Llywodraeth yn San Steffan yn sgil ei haddewid—mae'n rhaid iddyn nhw wireddu eu haddewidion nawr wrth gwrs—i sicrhau 30 awr o ofal plant ar gyfer y cyfnod cyn oedran swyddogol statudol ysgol. A yw'r Gweinidog wedi meddwl o gwbl ynglŷn â defnyddio'r arian i gefnogi addysg feithrin a'r cyfnod sylfaen yma yng Nghymru?

We do expect that funding will be provided from the Westminster Government in terms of their pledge—they have to deliver on their pledges now, of course—of ensuring 30 hours of childcare for the pre-statutory school age phase. Has the Minister thought in any way about how that funding could be used to support nursery education and the foundation phase here in Wales?

Mae'r Gweinidog wedi crybwyll y ffaith nad yw'r adroddiad yma yn adrodd ar gau'r bwlch cyrhaeddiad, ond bod adroddiad wedi cael ei dderbyn ym mis Ionawr a oedd yn dangos bod y cyfnod sylfaen wedi gwella cyrhaeddiad plant ers i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau. Rwy'n cofio'r Gweinidog yn dod i'r pwyllgor bryd hynny, pan ddywedodd e fod angen targed newydd a oedd, yn eiriau ef:

The Minister has mentioned the fact that this report hasn't looked at closing the attainment gap, but that a report had been published in January that showed that the foundation phase had improved the attainment of children since the completion of this report. I do recall the Minister coming to committee at that time, when he said that there needed to be a new target that, in his words:

'stretches us beyond our comfort zone.'

'stretches us beyond our comfort zone.'

Felly, rwyf ychydig yn siomedig ein bod ni yn dal yn y 'comfort zone' ym mis Mai, pan oedd e'n dweud bod angen targed newydd ym mis Ionawr. Yn awr, mae'n sôn am wneud hyn dros yr haf. Byddwn yn meddwl ei bod yn briodol, bellach, i gael y targed newydd yma, i ddeall beth all y cyfnod sylfaen ei gyfrannu at gau'r bwlch yma, a hefyd i gofio bod buddsoddiad fan hyn yn mynd i fod yn llawer mwy effeithiol ac yn llawer mwy pellgyrhaeddol yn y pen draw. Soniodd y Gweinidog, wrth ateb Paul Davies, am gyfnodau allweddol 1, 2 a 3. Wrth gwrs, ni soniodd am gyfnod allweddol 4, lle mae'r bwlch wedi ehangu. Ond, rwyf o'r farn, os ydym yn buddsoddi fan hyn, fe welwn ni'r bwlch yn cau, nid yn unig ar gyfer plant cyfnod sylfaenol ond ar gyfer eu taith drwy'r ysgol, gyda'r gefnogaeth gywir, hefyd.

So, I am a little disappointed that we are still in the comfort zone in May, when he said that we needed a new target in January. Now, he's talking about considering that over the summer. I would have thought that it would now be appropriate to have this new target, to understand what the foundation phase can contribute towards closing this attainment gap, and also to bear in mind that investment here will be far more effective and far-reaching in its impact. The Minister, in response to questions from Paul Davies, mentioned key stages 1, 2 and 3. He didn't, of course, mention key stage 4, where the gap has widened. But I am of the opinion that if we invest here, we will see that gap closing, not only for children in the foundation phase but also as they progress through school, given the appropriate support.

Mae rhai gofidiau yn y gwerthusiad, rwy'n meddwl. Rydym newydd gael rhyw fath o gyfnewid syniadau ynglŷn ag addysg ysgol ganol, fel petai. Mae gen i bersbectif gwahanol ar hyn. Rwy'n gofidio bod asesu, a'r pwysau ynglŷn ag asesu, sy'n digwydd o'r cyfnod sylfaen i mewn i'r cyfnod allweddol cyntaf yn rhywbeth sy'n cael effaith ac sydd efallai'n tanseilio ethos y cyfnod sylfaen. Byddwn yn licio gweld, felly, yn rhinwedd adolygiad Donaldson, a oedd yn sôn am gael gwared ar y cyfnodau allweddol yn llwyr, pa fath o ddilyniant y gallwn ni weld drwyddo. Ac, wrth i'r Gweinidog sôn yn ei ddatganiad am asesu, pa gamau y mae ef wedi'u cymryd i wneud yn siŵr bod asesu gan athrawon yn gredadwy? Mae yna dystiolaeth, fel y mae'r Gweinidog yn gwybod, nad yw'r asesiad bob tro yn gredadwy, a bod asesu rhy hael yn digwydd o bryd i'w gilydd, yn enwedig ar ôl y cyfnod sylfaenol—rwy'n derbyn hynny.

There are some concerns in the evaluation, I believe. We've just had an exchange of ideas about a middle-school proposal. I have a slightly different perspective on this. I am concerned that assessment, and pressure on assessment, from the foundation phase into the first key stage has an impact and, perhaps, undermines the ethos of the foundation phase. I would like to see, therefore, in light of the Donaldson review, which talked about abolishing key stages, what kind of continuum there could be. And, as the Minister mentioned assessment in his statement, I would like to know what steps he has taken to ensure that teacher assessment is credible. There is evidence, as the Minister will know, that the assessment isn't always credible and that it is, on occasion, too generous, particularly after the foundation phase—I accept that.

Mae hyfforddiant cychwynnol athrawon wedi cael ei drafod. Ni wnâi holi fwy am hynny. Ond, gofynnaf yn benodol am y radd Meistr mewn addysg y mae'r Llywodraeth wedi bod yn ei hyrwyddo, ac am y gwerthusiad sy'n cael ei wneud ar hynny ar hyn o bryd. Mae'n amlwg bod gradd Meistr mewn ymarferiad addysgol yn rhywbeth a fydd yn fodd i bobl ddeall mwy am rinweddau'r cyfnod sylfaen. Po fwyaf y gallwn ni hybu hwn, yn enwedig gydag athrawon sydd newydd gymhwyso, y mwyaf y byddwn yn elwa o ddealltwriaeth o'r cyfnod sylfaen ac yn elwa o fuddiannau'r cyfnod sylfaen hefyd.

Initial teacher training has been discussed. I won't ask any further questions on that. But, I will ask specifically about the Master's in education that the Government has been promoting, and about the evaluation that has been undertaken of that at present. It is clear that a Master's in educational practice would be a means to enable people to better understand the benefits of the foundation phase. The more we can promote this, particularly with newly qualified teachers, the more we will benefit from that understanding of the foundation phase and from its benefits too.

Y pwynt diwethaf sydd gen i yw bod y darlun ynglŷn â defnydd y Gymraeg yn y cyfnod sylfaen yn fwy cymysg na'r hyn y byddwn yn dymuno ei weld. Mae Plaid Cymru o'r farn bod cyflwyno'r Gymraeg yn y cyfnod sylfaen yn fodd i bob plentyn yng Nghymru feddu ar allu yn y Gymraeg yn gynnar, a chael cychwyn cadarn i ddysgu'r Gymraeg, boed yn iaith gyntaf neu'n ail iaith. Wrth gwrs, eto yn rhinwedd adolygiad Donaldson ac adolygiad Sioned Davies, rydym yn gweld bod y cyfnod sylfaen yn ffordd o ddechrau ar y daith honno, ac eto bod buddsoddiad yn y cyfnod hwnnw yn fwy proffidiol ac effeithlon ac effeithiol yn y pen draw, ar gyfer y geiniog ariannol addysgiadol, fel petai. Felly, hoffwn i wybod: a yw'r Gweinidog wedi ystyried sut all dysgu Cymraeg yn y cyfnod sylfaen wella—cyflwyno'r Gymraeg dylwn i ddweud, yn hytrach na dysgu—a sut allwn ni wneud yn siŵr bod yr athrawon sydd yn gyfrifol am hynny yn meddu ar y dulliau a'r technegau i wneud hynny?

My final point is that the picture on the use of the Welsh language in the foundation phase is more mixed than I would have hoped to see. Plaid Cymru is of the view that introducing the Welsh language in the foundation phase is a means for all children in Wales to have an ability in the Welsh language at an early age, and to have a solid start in learning the language, be it as a first or second language. Again, of course, in light of the Donaldson review and the Sioned Davies review, we see that the foundation phase is a means of starting that journey. Again, investment in that phase is more profitable and more efficient and effective, ultimately, and the educational pound goes further in that regard. So, I would like to know: has the Minister considered how to improve the teaching of Welsh—I should say the introduction of Welsh, rather than the teaching of Welsh—and how we can ensure that the teachers responsible for that have the methods and techniques required to achieve that?

Yn y bôn, mae'r cyfnod sylfaen i'w groesawu'n fawr iawn, rwy'n meddwl. Mae'n hwb sylweddol nid yn unig i addysg yng Nghymru, ond i agenda cau'r bwlch cyrhaeddiad a gwrthdlodi hefyd. Rwyf yn gofidio a welwn ni addysgu traddodiadol yn cripian i mewn i'r cyfnod sylfaen. Felly, rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y Llywodraeth yn dal yn gadarn wrth yr ethos gwreiddiol, ac y bydd y Llywodraeth yn dal ar y llwybr yma, sydd yn llwybr sydd yn dechrau talu ar ei ganfed.

Essentially, the foundation phase should be warmly welcomed. It is a significant boost not only for education in Wales but for closing the attainment gap and the poverty gap. I am concerned as to whether we will see traditional teaching creeping in to the foundation phase. So, I very much hope that the Government will stand firm to the original ethos and that it will remain on this path, which is beginning to bear fruit.

17:06

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I thank Simon Thomas for those points, Deputy Presiding Officer? He's right: international evidence is clear about the efficacy of this type of approach within the early years, and we are beginning to see the fruits and the evidence of the Welsh Government's commitment to the foundation phase. I can reassure everyone that we will stand by the ethos of the foundation phase, because it is, very simply put, the right thing to do, and it is moving us forward.

A gaf i ddiolch i Simon Thomas am y pwyntiau yna, Ddirprwy Lywydd? Mae'n iawn: mae tystiolaeth ryngwladol yn glir ynghylch effeithiolrwydd y math hwn o ymagwedd o fewn y blynyddoedd cynnar, ac rydym yn dechrau gweld ffrwyth a thystiolaeth ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r cyfnod sylfaen. Gallaf dawelu meddwl pawb y byddwn yn cadw at ethos y cyfnod sylfaen, gan ei fod, o'i roi yn syml iawn, y peth iawn i'w wneud, ac mae'n ein symud ni ymlaen.

He makes the very important point that the key disappointment within this report—and I fully accept it—is inconsistency across the country; the failure, perhaps, of some professionals to fully grasp or fully embrace, or a combination of the two, the foundation phase in terms of its implementation. That's why Simon Thomas mentioned investment. I think, moving forward, the key lesson from this report is the investment that we make in the educator to ensure that every professional out there fully understands that there is no going back, and fully understands the ethos and how to deliver in practical terms things like the literacy and numeracy framework, for instance, which, to my mind, are completely compatible with the pedagogy of the foundation phase, and should not cause professionals to somehow balk at the idea of these two things running together. The best settings have already done it. The evidence is clear. Peer-to-peer training and co-working, I think, will be an absolutely critical part of that, and I will describe new ways in which the new deal, for instance, will take on some of those challenges in the foundation phase, but of course in other aspects of school-based education and college-based education as well.

Mae e'n gwneud y pwynt pwysig iawn mai'r siom allweddol yn yr adroddiad hwn—ac rwy'n ei dderbyn yn llwyr—yw'r anghysondeb ar draws y wlad; methiant, efallai, rhai gweithwyr proffesiynol i ddeall yn llawn neu gofleidio'n llwyr, neu gyfuniad o'r ddau, y cyfnod sylfaen o ran ei weithredu. Dyna pam y soniodd Simon Thomas am fuddsoddiad. Rwy'n credu, wrth symud ymlaen, mai'r wers allweddol o'r adroddiad hwn yw'r buddsoddiad a wnawn yn yr addysgwr i sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol yn deall yn llwyr nad oes mynd yn ôl, a'u bod yn deall yr ethos yn llwyr a sut i gyflawni mewn termau ymarferol pethau fel y fframwaith llythrennedd a rhifedd, er enghraifft, sydd, yn fy marn i, yn gwbl gydnaws ag addysgeg y cyfnod sylfaen, ac ni ddylent beri i weithwyr proffesiynol betruso rywsut o ran y syniad o'r ddau beth yn cydredeg. Mae'r lleoliadau gorau eisoes wedi gwneud hynny. Mae'r dystiolaeth yn glir. Bydd hyfforddiant cymheiriaid i gymheiriaid a chyd-weithio, rwy'n credu, yn rhan gwbl hanfodol o hynny, a byddaf yn disgrifio ffyrdd newydd y bydd y fargen newydd, er enghraifft, yn rhoi sylw i rai o'r heriau hynny yn y cyfnod sylfaen, ond wrth gwrs mewn agweddau eraill ar addysg mewn ysgolion ac addysg yn y coleg hefyd.

We'll have to wait and see if there's a consequential fund coming to us from Westminster as regards pre-statutory education. But it's very clear that we've already signalled our commitment to extra investment here in Wales by extending the pupil deprivation grant to the under-5s, which should give even more power to the elbow of these early years settings in order to combat that gap. I'm disappointed that he's disappointed that we don't have a new target quite yet, but I think it's important that these things are intelligently thought through, and as Simon Thomas is aware, I know educational change, by its very nature, takes a while, and I think a new target, ready to take off for the new academic year in September makes a great deal more sense than one that is announced in the middle of an academic year. The professionals have pleasantly surprised us all in terms of the progress that they've made, and I think that it's important both to keep them on board, not to make them feel as if unrealistic demands are being made, but also to challenge them to do even better.

Bydd yn rhaid i ni aros i weld os oes cronfa ganlyniadol yn dod atom o San Steffan o ran addysg cyn statudol. Ond mae'n glir iawn ein bod eisoes wedi nodi ein hymrwymiad i fuddsoddiad ychwanegol yma yng Nghymru drwy ymestyn y grant amddifadedd disgyblion i blant dan 5 oed, a ddylai roi hyd yn oed mwy o bŵer i'r lleoliadau blynyddoedd cynnar hyn er mwyn brwydro yn erbyn y bwlch hwnnw. Rwy'n siomedig ei fod yn siomedig nad oes gennym darged newydd eto, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig bod y pethau hyn yn cael eu hystyried yn ddeallus, ac fel y mae Simon Thomas yn ymwybodol, rwy'n gwybod bod newid addysgol, yn ôl ei natur, yn cymryd peth amser, ac rwy'n meddwl bod targed newydd, yn barod i ddechrau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi yn gwneud llawer mwy o synnwyr nag un sy'n cael ei gyhoeddi yng nghanol blwyddyn academaidd. Mae'r gweithwyr proffesiynol wedi ein synnu ni i gyd o'r ochr orau o ran y cynnydd y maent wedi'i wneud, a chredaf ei bod yn bwysig gwneud iddynt deimlo'n rhan o'r gwaith, ac nid gwneud iddynt deimlo fel pe byddai galwadau afrealistig yn cael eu gwneud arnynt, ond hefyd eu herio i wneud hyd yn oed yn well.

I disagree with Simon Thomas on the incompatibility in terms of ethos between baseline and end-of-phase assessments and the foundation phase itself, and if Simon Thomas were to talk to the experts that we have engaged, particularly Professor Iram Siraj, they see no incompatibility with this; in fact, it's what all settings, surely, ought always to have been doing: grasping where a chid begins, at the beginning of that education phase, and how they end up at the end of it, in order to serve the best needs of that child. We are not examining the progress of these very young citizens in order to somehow put them in some kind of order of merit. We're doing it completely for formative purposes, in order that the educationalists can understand exactly how that child is doing and address, particularly, any gaps in their understanding.

Rwy'n anghytuno â Simon Thomas ar yr anghydnawsedd o ran ethos rhwng llinell sylfaen ac asesiadau diwedd cyfnod a'r cyfnod sylfaen ei hun, a phe byddai Simon Thomas yn siarad â'r arbenigwyr yr ydym wedi ymgysylltu â hwy, yn enwedig yr Athro Iram Siraj, nid ydynt yn gweld unrhyw anghydnawsedd â hyn; yn wir, dyma beth y dylai pob lleoliad, siawns, fod wedi bod yn ei wneud bob amser: deall lle mae plentyn yn dechrau, ar ddechrau'r cyfnod addysg, a sut y maent yn diweddu ar ei ddiwedd, er mwyn gwasanaethu anghenion gorau'r plentyn hwnnw. Nid ydym yn archwilio cynnydd y dinasyddion ifanc iawn hyn er mwyn eu rhoi rywsut mewn rhyw fath o drefn teilyngdod. Rydym yn ei wneud yn gyfan gwbl at ddibenion ffurfiannol, er mwyn i'r addysgwyr ddeall yn union sut y mae'r plentyn hwnnw yn dod yn ei flaen a mynd i'r afael, yn arbennig, ag unrhyw fylchau yn ei ddealltwriaeth.

I was very struck yesterday, on a trip to Morriston Comprehensive School, by children at the other end of their educational journey, really, and approaching their GCSEs. They'd been benefitting from interventions in mathematics outside classroom time, which had accelerated the progress of some of these young people most remarkably. The consistent thing when I was speaking to them that they said was what had caused them to be in a situation where they were failing to fulfil their potential in mathematics was that, at some point during their school career, they had missed out on a particular thing, a particular lesson, a particular concept, or maybe two or three of those. Someone had sat down and spent the time to identify exactly what those two or three key things were and then they'd honed in on them.

Cefais fy nharo ddoe, ar daith i Ysgol Gyfun Treforys, gan blant ar ben arall eu taith addysgol, mewn gwirionedd, ac yn agosáu at eu harholiadau TGAU. Roeddent wedi bod yn elwa ar ymyraethau mewn mathemateg y tu allan i amser yr ystafell ddosbarth, a oedd wedi cyflymu cynnydd rhai o'r bobl ifanc hyn mewn modd anhygoel. Y peth cyson pan oeddwn i'n siarad â hwy yr oeddent yn ei ddweud oedd mai'r hyn oedd wedi achosi iddynt fod mewn sefyllfa lle'r oeddent yn methu â chyflawni eu potensial mewn mathemateg oedd, ar ryw adeg yn ystod eu gyrfa ysgol, eu bod wedi colli rhywbeth penodol, gwers arbennig, cysyniad penodol, neu efallai ddau neu dri o'r rheini. Roedd rhywun wedi eistedd i lawr a threulio'r amser i ganfod yn union beth oedd y ddau neu dri pheth allweddol ac yna roeddent wedi canolbwyntio arnynt.

Now, you cannot do that without a nationally consistent assessment structure of some kind for these very young pupils. I will be making announcements through a written statement very soon about strengthening the consistency and the rigour and the reliability of teacher assessment. That will be coming within a matter of days. It's not unconnected to the needs of the foundation phase pupils and teachers.

Nawr, ni allwch wneud hynny heb strwythur asesu o ryw fath sy'n gyson yn genedlaethol ar gyfer y disgyblion ifanc iawn hyn. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau drwy ddatganiad ysgrifenedig yn fuan iawn am gryfhau cysondeb a manwl gywirdeb a dibynadwyedd asesiadau athrawon. Bydd hynny'n dod o fewn mater o ddiwrnodau. Nid yw heb fod yn gysylltiedig ag anghenion cyfnod sylfaen disgyblion ac athrawon.

The Master's in educational practice—he's quite correct, this is something we do need now to consider in terms of developments around the new deal and the recommendations within this report and coming at us from other directions, too. I intend to open the masters to all teachers as soon as we can manage to get the capacity in place to be able to deliver on that. I think that will imply two things. First of all, a greater reliance on some aspects of online training, which are easier to access and more economical in terms of both the teachers and the trainers. I think, as the education workforce council finds its feet, we will have to open the debate around what professionals themselves contribute to their own professional development, which is not an unusual thing across the professional world. Lawyers do it, doctors do it, and I think, in terms of affordability, particularly in the financial climate as it is, we have to face the fact that teachers are going to need to do this, too. We'll need to think it through carefully. We don't want anyone being locked out for reasons of affordability, but I think that debate has to come and it will come very soon. There are implications for ITET too, and we'll need to work those through.

Y radd Meistr mewn ymarfer addysgiadol—mae'n hollol gywir, mae hyn yn rhywbeth y mae angen i ni ei ystyried yn awr o ran y datblygiadau o amgylch y fargen newydd a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn ac sy'n dod atom o gyfeiriadau eraill, hefyd. Rwy'n bwriadu agor y radd meistr i'r holl athrawon cyn gynted ag y gallwn ni sicrhau bod y lleoedd ar gael i allu cyflawni hynny. Rwy'n credu y bydd yn awgrymu dau beth. Yn gyntaf oll, mwy o ddibyniaeth ar rai agweddau ar hyfforddiant ar-lein, sy'n haws i gael gafael arno ac sy'n fwy economaidd o ran yr athrawon a'r hyfforddwyr. Rwy'n credu, wrth i'r cyngor gweithlu addysg gael ei draed dano, bydd yn rhaid inni agor y ddadl o amgylch yr hyn y mae gweithwyr proffesiynol eu hunain yn ei gyfrannu at eu datblygiad proffesiynol eu hunain, nad yw'n beth anarferol ar draws y byd proffesiynol. Mae cyfreithwyr yn ei wneud, mae meddygon yn ei wneud, ac rwy'n meddwl, o ran fforddiadwyedd, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol fel ag y mae, mae'n rhaid i ni wynebu'r ffaith y bydd angen i athrawon wneud hyn, hefyd. Bydd angen i ni ei ystyried yn ofalus. Nid ydym am i unrhyw un gael eu cloi allan am resymau fforddiadwyedd, ond credaf y bydd yn rhaid i'r ddadl ddod a bydd yn dod yn fuan iawn. Mae goblygiadau i HAGA hefyd, a bydd angen i ni ymdrin â'r rheini.

Just finally, Deputy Presiding Officer—the very important points that Simon Thomas has made surrounding the Welsh language. He's right: there is a consistent view coming through now from all the advice that Government is receiving in terms of what the commonsensical things to do around acquisition of the Welsh language really are. To my mind, it's far more important to get it right at this stage in education than it ever would be to just assume that a compulsory GCSE at the age of 16 will deliver for us. We have seen that it does not give us fluent conversationalists 'yn Gymraeg'. It's not working.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd—y pwyntiau pwysig iawn y mae Simon Thomas wedi'u gwneud ynghylch yr iaith Gymraeg. Mae'n iawn: mae barn gyson yn dod drwyddo o'r holl gyngor y mae'r Llywodraeth yn ei dderbyn o ran beth yw'r pethau synnwyr cyffredin i'w gwneud o gwmpas caffael yr iaith Gymraeg mewn gwirionedd. Yn fy marn i, mae'n llawer pwysicach ei gael yn iawn yn y cyfnod hwn mewn addysg nag y byddai fyth i gymryd yn ganiataol y bydd TGAU gorfodol yn 16 oed yn ei gyflawni i ni. Rydym wedi gweld nad yw hynny'n rhoi sgwrswyr rhugl yn y Gymraeg i ni. Nid yw'n gweithio.

This has huge implications for the skills of the workforce. Again, I think the opening up of things like the Master's to all professionals, and Government having to set some kind of target in terms of time and level of attainment in dialogue with the profession about how each setting can have access to expertise in that, will take time. There's a huge gap in skills there in the workforce. Again, I think online working and working with partners that can help schools and local authorities to deliver on that very ambitious sort of agenda is something that I'm working through with officials just now, and with other partners, and there will be announcements during the summer about how we might support, through the new deal, a new departure in terms of acquisition of the Welsh language and indeed modern foreign languages as well.

Mae gan hyn oblygiadau enfawr i sgiliau'r gweithlu. Unwaith eto, rwy'n meddwl y bydd agor pethau fel y radd Meistr i bob gweithiwr proffesiynol, a'r Llywodraeth yn gorfod gosod rhyw fath o darged o ran amser a lefel cyrhaeddiad mewn deialog gyda'r proffesiwn ynghylch sut y gall pob lleoliad gael mynediad at arbenigedd yn hynny, yn cymryd amser. Mae bwlch enfawr mewn sgiliau yno yn y gweithlu. Unwaith eto, rwy'n meddwl bod gweithio ar-lein a gweithio gyda phartneriaid a all helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i gyflawni ar y math uchelgeisiol iawn hwnnw o agenda yn rhywbeth yr wyf i'n gweithio arno gyda swyddogion ar hyn o bryd, ac â phartneriaid eraill, a bydd cyhoeddiadau yn ystod yr haf ynghylch sut y gallem gefnogi, drwy'r fargen newydd, wyriad newydd o ran caffael yr iaith Gymraeg ac yn wir, ieithoedd tramor modern yn ogystal.

17:14

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree that this evaluation is a very positive endorsement of the Welsh Government's investment in the foundation stage, based on the best evidence of what works from around the world. It's particularly pleasing to see how it's closing the attainment gap, both in key stage 1 and we're at the beginning of seeing what positive effect it's having on key stage 2.

Rwy'n cytuno bod y gwerthusiad hwn yn gadarnhad cadarnhaol iawn o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y cyfnod sylfaen, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau o'r hyn sy'n gweithio o bedwar ban byd. Mae'n arbennig o braf gweld sut mae'n cau'r bwlch cyrhaeddiad, yng nghyfnod allweddol 1 ac rydym ar ddechrau gweld pa effaith gadarnhaol y mae'n ei chael ar gyfnod allweddol 2.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:15.*

*The Presiding Officer took the Chair at 17:15.*

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

I just wanted to pick up on one of the areas that is reflected in several recommendations, which is around the use of outdoor education, because I was rather surprised to see that only 34 per cent of schools use the outdoors every day in their education, and that is rather astonishing. I appreciate that there are physical difficulties. For example, some of the schools in my constituency are in very built-up areas, with very little space and very little room for green space development, but, nevertheless, there's still plenty that can be done to green the playground environment and make it more interesting for learning.

Roeddwn am sôn am un o'r meysydd sy'n cael ei adlewyrchu mewn nifer o argymhellion, sef ynghylch y defnydd o addysg awyr agored, gan fy mod yn synnu braidd o weld mai dim ond 34 y cant o ysgolion sy'n defnyddio'r awyr agored bob dydd yn eu haddysg, ac mae hynny'n gryn syndod. Rwy'n gwerthfawrogi y ceir anawsterau ffisegol. Er enghraifft, mae rhai o'r ysgolion yn fy etholaeth i mewn ardaloedd adeiledig iawn, gydag ychydig iawn o le agored ac ychydig iawn o le ar gyfer datblygu mannau gwyrdd, ond, serch hynny, mae digon y gellir ei wneud i wyrddu amgylchedd yr iard chwarae a'i gwneud yn fwy diddorol ar gyfer dysgu.

We have to reflect on the fact that these pupils are almost certainly also going to be living in homes that are unlikely to have outdoor space. So, that outdoor education is crucial for their development. They can also bring nature into the classroom—hatching chickens, growing plants, et cetera, but also maximising the use of green spaces nearby. There's a fantastic little community garden close to Albany Primary School, which is one of these schools that's very limited in space. It's a tiny strip, only 12 feet across, but a fantastic learning environment that children can be taken to nearby.

Mae'n rhaid i ni ystyried y ffaith bod y disgyblion hyn bron yn sicr yn mynd i fod yn byw mewn cartrefi sy'n annhebygol o fod â mannau awyr agored. Felly, mae'r addysg awyr agored hwnnw'n hanfodol ar gyfer eu datblygiad. Gallant hefyd ddod â natur i mewn i'r ystafell ddosbarth— deor cywion ieir, tyfu planhigion, ac yn y blaen, ond hefyd gwneud y mwyaf o'r defnydd o fannau gwyrdd gerllaw. Mae gardd gymunedol fechan ardderchog yn agos at Ysgol Gynradd Albany, sy'n un o'r ysgolion hyn sy'n gyfyngedig iawn o ran lle. Stribed bach ydyw, dim ond 12 troedfedd ar draws, ond mae'n amgylchedd dysgu gwych gerllaw y gellir mynd â phlant iddo.

Many of the other schools in my constituency have very significant green spaces attached to their school—in Llanedeyrn and Pentwyn—and it's amazing that some of these schools are not really making good use of the learning environment that they could be with these green spaces; they're just vast swathes of green grass, without even a sheep to help keep it down. So, I really think that there is a lot more work to be done in ensuring that we have interesting learning spaces and that children are encouraged to get their hands dirty and go outside in all weathers, because there's no such thing as unsuitable weather; there's just unsuitable clothing. If you provide the kids with wellington boots and mackintoshes, they can be going out in all weathers, and I've seen that done in one of the schools where I was a governor.

Mae llawer o'r ysgolion eraill yn fy etholaeth i â mannau gwyrdd sylweddol iawn ynghlwm wrth eu hysgol—Llanedeyrn a Phentwyn—ac mae'n anhygoel nad yw rhai o'r ysgolion hyn mewn gwirionedd yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd dysgu y gallent fod yn ei wneud gyda'r mannau gwyrdd hyn; maent yn ddarnau helaeth o laswellt gwyrdd, heb hyd yn oed ddafad i helpu i'w cadw i lawr. Felly, rwyf wir yn meddwl bod llawer mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod gennym leoedd dysgu diddorol a bod plant yn cael eu hannog i faeddu eu dwylo a mynd allan ym mhob tywydd, oherwydd nid oes y fath beth â thywydd anaddas; dim ond dillad anaddas. Os ydych yn rhoi esgidiau glaw a chotiau glaw i'r plant, gallant fod yn mynd allan ym mhob tywydd, ac rwyf wedi gweld hynny'n cael ei wneud mewn un o'r ysgolion lle'r oeddwn i'n llywodraethwr.

I'd just like to point out as well that the outdoor education centre at Cardiff Metropolitan University's Cyncoed campus is regularly used by primary schools in the area, particularly by those children who are suffering from social and emotional difficulties, who find outdoor education particularly good at helping them overcome those things. So, I hope that you will use this report, Minister, to ensure that all schools are embracing the outdoors as a way of delivering the foundation stage.

Hoffwn i nodi yn ogystal bod y ganolfan addysg awyr agored ar gampws Cyncoed Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan ysgolion cynradd yn yr ardal, yn enwedig gan y plant hynny sy'n dioddef o anawsterau cymdeithasol ac emosiynol, sy'n gweld bod addysg awyr agored yn arbennig o dda o ran eu helpu i oresgyn y pethau hynny. Felly, rwy'n gobeithio y byddwch yn defnyddio'r adroddiad hwn, Weinidog, i sicrhau bod pob ysgol yn cofleidio'r awyr agored fel ffordd o gyflwyno'r cyfnod sylfaen.

17:18 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Jenny Rathbone for those points. This is a report of the very best kind, I think, because it gives policy makers and professionals tools for the next stage of the job. It's truthful, it's challenging, it's not afraid to point to inconsistencies and insufficiencies within what we have, and it gives us a platform, I think, for some really focused work over the next few years.

Diolch i Jenny Rathbone am y pwyntiau yna. Mae hwn yn adroddiad o'r math gorau un, rwy'n credu, oherwydd mae'n rhoi offer i lunwyr polisi a gweithwyr proffesiynol ar gyfer cam nesaf y gwaith. Mae'n onest, mae'n heriol, nid yw'n ofni tynnu sylw at anghysondebau a diffygion o fewn yr hyn sydd gennym, ac mae'n rhoi llwyfan i ni, rwy'n credu, ar gyfer rhywfaint o waith â phwyslais sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

At the centre of it all is the capacity of the professional. To my mind, very crudely, there are three education systems emerging in the world at the moment. One is the educational free-for-all that we're seeing happening in England, which is much the same as what has happened in the United States and countries like Sweden, unfortunately, over the last few years as well, and the evidence base for the success of that is not very good. There is also the cramming model, which is used in the far east in many countries, which certainly delivers results in terms of exam success, but I'm not convinced delivers much in terms of a rounded education. Then, there is the model from Finland, Holland, increasingly in Germany, the Republic of Ireland, Scotland, and now in Wales, which is centred upon the high-powered professional driving the whole process, understanding it deeply and having a commitment to the attainment of those young people.

Yng nghanol y cyfan y mae gallu'r gweithiwr proffesiynol. Yn fy marn i, yn fras iawn, mae tair system addysg sy'n dod i'r amlwg yn y byd ar hyn o bryd. Un yw'r ysgarmes addysgol yr ydym yn ei gweld yn digwydd yn Lloegr, sy'n debyg iawn i'r hyn sydd wedi digwydd yn yr Unol Daleithiau a gwledydd fel Sweden, yn anffodus, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf hefyd, ac nid yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer llwyddiant hynny yn dda iawn. Ceir hefyd y model cramio, a ddefnyddir yn y dwyrain pell mewn llawer o wledydd, sydd yn sicr yn cyflwyno canlyniadau o ran llwyddiant arholiadau, ond dydw i ddim yn argyhoeddedig ei fod yn cyflwyno llawer o ran addysg gyflawn. Yna, ceir y model o'r Ffindir, yr Iseldiroedd, yn gynyddol yn yr Almaen, Gweriniaeth Iwerddon, yr Alban, ac yn awr yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar y gweithiwr proffesiynol pwerus yn sbarduno'r holl broses, yn ei deall yn drylwyr a gydag ymrwymiad i gyrhaeddiad y bobl ifanc hynny.

I take her points about the outdoors. I think we've barely scratched the surface in terms of the potential of this. I must admit to a frisson of worry as a father when my six-year-old came home with a picture of him in a wood wielding a very real saw, given that I know what he can do with blunt instruments. [Laughter.] But I pretended to not be concerned—

Rwy'n derbyn ei phwyntiau am yr awyr agored. Rwy'n meddwl mai prin wedi crafu'r wyneb o ran y potensial hyn yr ydym. Mae'n rhaid imi gyfaddef i eiliad o bryder fel tad pan ddaeth fy mhlentyn chew blwydd oed adref gyda llun ohono mewn coedwig yn chwifio llif go iawn, o ystyried fy mod yn gwybod yr hyn y gall ei wneud gydag offer heb fin arnynt. [Chwerthin.] Ond cymerais arnaf nad oeddwn yn bryderus—

17:20 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Are you using the knives in your back?

Ydych chi'n defnyddio'r cyllyll yn eich cefn?

Senedd.tv Fideo Video

17:20 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

[Laughter.] No, but not six-year-olds.

[Chwerthin.] Nac ydw, ond nid plant chwech oed.

Senedd.tv Fideo Video

17:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Could we move on a little? Minister, can we move on a little?

A gawn ni symud ymlaen ychydig? Weinidog, a gawn ni symud ymlaen ychydig?

Senedd.tv Fideo Video

17:20 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I must say, though, that the enthusiasm that that method of delivery in terms of that lesson had given to my particular youngster was something that he spoke about for days afterwards and really was impactful.

Mae'n rhaid i mi ddweud, fodd bynnag, bod y brwdfrydedd yr oedd y dull cyflwyno o ran y wers honno wedi ei roi i fy mhlentyn ifanc penodol i yn rhywbeth y siaradodd amdano am ddiwrnodau wedyn, ac roedd wir yn drawiadol.

Senedd.tv Fideo Video

17:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We're not planning on doing that this afternoon, are we, Minister, talking about this for days, your child?

Nid ydym yn bwriadu gwneud hynny y prynhawn yma, ydym ni, Weinidog, siarad am hyn am ddyddiau, eich plentyn chi?

Senedd.tv Fideo Video

17:21 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I'm just trying to attempt to answer Members' questions.

Dim ond ceisio ateb cwestiynau'r Aelodau wyf fi.

Senedd.tv Fideo Video

17:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Can we move on a little, do you think? Can we move on a little? Thank you.

Gawn ni symud ymlaen ychydig, ydych chi'n meddwl? Gawn ni symud ymlaen ychydig? Diolch yn fawr.

Senedd.tv Fideo Video

17:21 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Right, you'd like me to end it there?

Iawn, hoffech chi i mi i roi terfyn ar bethau yn y fan yna?

Senedd.tv Fideo Video

17:21

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I'd like you to move on a little.

Na, hoffwn i chi symud ymlaen ychydig.

17:21

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay, yes. The final point I wanted to make in response to Jenny Rathbone is the very important point about the use of partners. She mentioned Cardiff Met. There is no reason why our HEIs couldn't be working more closely with schools in this and in many other aspects, and I'll be making some, I think, important announcements during the course of the run-up to the summer in that regard. I'll be meeting very soon, also, with Natural Resources Wales about the outdoor environment and their commitment and the potential that they have—I think mostly untapped—to tie in to this agenda.

Iawn, ie. Y pwynt olaf yr wyf am ei wneud mewn ymateb i Jenny Rathbone yw'r pwynt pwysig iawn ynghylch y defnydd o bartneriaid. Soniodd am Met Caerdydd. Nid oes unrhyw reswm pam na allai ein sefydliadau addysg uwch weithio'n agosach gydag ysgolion ar yr agwedd hon a llawer o agweddau eraill, a byddaf yn gwneud rhai cyhoeddiadau pwysig, rwy'n meddwl, yn ystod y cyfnod yn arwain at yr haf yn hynny o beth. Byddaf yn cyfarfod yn fuan iawn, hefyd, gyda Chyfoeth Naturiol Cymru am yr amgylchedd awyr agored a'u hymroddiad i'r potensial sydd ganddynt—nad yw ei ddefnyddio i raddau helaeth yn fy marn i—-i gysylltu â'r agenda hon.

17:21

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Aled Roberts.

Aled Roberts.

17:21

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Mae'n amlwg yn well imi dderbyn cyngor y Llywydd.

A gaf i jest ddweud bod hyn yn adroddiad a gwerthusiad positif, ac rwy'n meddwl ei bod yn amlwg bod pob plaid yma heddiw yn awyddus i weld llwyddiant y cyfnod sylfaen? Ond, er hynny, rwy'n meddwl bod eich brawddeg olaf chi yn y datganiad yn dangos bod yna broblem ynglŷn â'r ffordd mae'r cyfnod yn cael ei weithredu ar lawr gwlad. Oes, mae yna arfer da yn amlwg, ond rwy'n meddwl bod y gwerthusiad yma, a hefyd adroddiad Estyn, yn dangos bod yna rai anghysonderau. Hefyd, mae yna berig—wrth inni sôn, rydych chi wedi dweud nad ydych chi wedi gweld unrhyw fath o wrthdaro rhwng y fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r cyfnod sylfaen, ond yn amlwg mae adroddiad Estyn yn dweud bod yna berig bod yna rai athrawon yn y cyfnod sylfaen yn dychwelyd at ffyrdd mwy traddodiadol o addysgu. Felly, yn fyr iawn, a gaf i ofyn i chi a ydych chi'n bwriadu derbyn yr argymhelliad ynglŷn â, hwyrach, canllawiau ymarferol ynglŷn â'r fframwaith a'r ffordd y dylai'r rheini gael eu cyflwyno yn y cyfnod sylfaen?

Hefyd, rydych chi wedi sôn am hyfforddiant athrawon. Mi fyddwch chi'n gwneud datganiad ar hynny ym mis Mehefin. A ydych chi'n hyderus y gallwch chi dderbyn y materion sydd wedi cael eu codi yn y gwerthusiad yma er mwyn i hynny gael ei gynnwys yn y datganiad yna? A hefyd, rwy'n meddwl, mae'r pwynt ddaru Simon Thomas ei godi ynglŷn â lle mae'r cyfnod sylfaen yn eistedd wrth inni drafod adolygiad Donaldson a'r ffaith ei fod o'n gweld ein bod ni ar fath o lwybr dysgu, lle mae'r cyfnodau o addysgu yn llai pwysig na beth maen nhw wedi bod. Ac, yn olaf, mae argymhelliad 21 yn dweud y dylem ni barhau â gweld ffigurau penodol ynglŷn â nifer yr oedolion o'u cymharu â phlant yn ôl pob oedran. A ydych chi'n meddwl ei bod yn ymarferol inni wneud hynny wrth inni edrych ar sefyllfa lle mae yna bwysau ar y cyllid yn y system addysg? Ac, wrth gwrs, mae yna nifer o ysgolion erbyn hyn yn gweld bod yn rhaid diogelu'r lefel staffio yn y cyfnod sylfaen a bod hynny'n creu pwysau ar flynyddoedd eraill yn yr ysgolion cynradd.

Thank you, Presiding Officer. Clearly, I'd better accept the advice of the Presiding Officer.

May I just say that this is a positive evaluation and report, and I think it's clear that every party here is eager to see the success of the foundation phase? But, despite that, I think that your last sentence in the statement shows that there is a problem about the way that the phase is being implemented at grass-roots level. Yes, there is good practice, evidently, but I do think that this evaluation, and also the Estyn report, show that there are some inconsistencies. Also there is a danger—you have already said that you do not see any kind of conflict between the literacy and numeracy framework and the foundation phase, but clearly the Estyn report says that there is a danger that some teachers in the foundation phase are returning to more traditional ways of teaching. So, very briefly, may I ask you whether you intend to accept the recommendation in terms of practical guidance related to the framework and how they should be put forward in the foundation phase?

Also, you've talked about teacher training. You will be making a statement on that in June. Are you confident that you will be able to accept the matters raised in this evaluation so that that can be included in that statement? Also, I think, there's the point that Simon Thomas made about where the foundation phase sits as we discuss the Donaldson review and the fact that he sees that we are on a teaching pathway, where the phases of teaching are less important than they have been. And, finally, recommendation 21 states that we should continue with specific figues about the ratio of adults to children according to age. Do you think it's practical for us to do that as we look at a situation where there is pressure on the budget in the education system? And, of course, there are a number of schools at present that are seeing that they have to safeguard the staffing levels in the foundation phase and that that creates pressure on other years in primary schools.

17:24 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, these are important points from Aled Roberts. I want to reassure everyone here today that I am not complacent on this issue of inconsistency. It is, to my mind, the strongest message coming through in the report, and the inconsistency has to stop, and I've already put in place, as I mentioned, some actions to address that variability in the delivery of the foundation phase. I talked about that expert group, which will develop a delivery action plan, which will embed established good practice in a consistent way across the country, and will make sure that local authorities and consortia make sure that that happens.

Ydy, mae'r rhain yn bwyntiau pwysig gan Aled Roberts. Rwyf am dawelu meddwl pawb yma heddiw nad wyf yn hunanfodlon am y mater hwn o anghysondeb. Dyma, yn fy marn i, y neges gryfaf sy’n dod trwodd yn yr adroddiad, ac mae'n rhaid i’r anghysondeb ddod i ben, ac rwyf eisoes wedi rhoi ar waith, fel y soniais, rhai camau gweithredu i fynd i'r afael â'r amrywioldeb wrth gyflwyno'r cyfnod sylfaen. Siaradais am y grŵp arbenigol hwnnw, a fydd yn datblygu cynllun gweithredu cyflawni, a fydd yn gwreiddio arfer da sefydledig mewn modd cyson ar draws y wlad, a bydd yn gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol a chonsortia yn sicrhau bod hynny'n digwydd.

I'll also be renewing and reinvigorating, really, the training modules, so that all practitioners—and this includes heads, incidentally, in their leadership role—understand how to implement the foundation phase well, and there will be no excuse for lack of understanding in that regard.

Byddaf hefyd yn adnewyddu ac adfywio, mewn gwirionedd, y modiwlau hyfforddiant, fel bod yr holl ymarferwyr—ac mae hyn yn cynnwys penaethiaid, gyda llaw, yn eu swyddogaeth arweinyddiaeth—yn deall sut i weithredu'r cyfnod sylfaen yn dda, ac ni fydd unrhyw esgus dros ddiffyg dealltwriaeth yn hynny o beth.

In terms of ITET, yes, you’re right to point this out. There has to be a complete redesign here and there are big implications for the higher education institutions. But I’m very pleased, actually, that the Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods works with Cardiff University. We’ve got at least one part of one Welsh university that really does get the importance of this form of training and, as I say, in a short while, I’ll be making responses to Professor Furlong’s report and the implications that has for Government, for HEIs and for the student.

O ran HAGA, ydych, rydych chi'n iawn i dynnu sylw at hyn. Mae’n rhaid cael ailgynllunio llwyr yma ac mae goblygiadau mawr ar gyfer y sefydliadau addysg uwch. Ond rwy’n falch iawn, mewn gwirionedd, fod y Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd. Mae gennym o leiaf un rhan o un brifysgol yng Nghymru sydd wir yn deall pwysigrwydd y math hwn o hyfforddiant ac, fel y dywedaf, yn fuan, byddaf yn gwneud ymatebion i adroddiad yr Athro Furlong a'r goblygiadau sydd ganddo i'r Llywodraeth, i SAU ac i fyfyrwyr.

The ratio of children to teachers: he’s right—you’ve got to have a ratio of children to teacher that is safe and that is sensible, and the Government has a role in making sure that that happens. But, to take one expert, Professor Iram Siraj-Blatchford continually referred in her evidence to us to the fact that what matters much more than the child-teacher ratio is the quality of the child-teacher interaction, and that depends upon the quality of the professional. And that is a much bigger driver than having an 8:1 or 10:1 ratio of children to adults. The adults must be the best adults, and that delivers for the young people.

Mae'r gymhareb o blant i athrawon: mae'n iawn—mae’n rhaid i chi i gael cymhareb plant i athro sy'n ddiogel ac sy’n synhwyrol, ac mae gan y Llywodraeth swyddogaeth o ran sicrhau bod hynny'n digwydd. Ond, i gymryd un arbenigwr, cyfeiriodd yr Athro Iram Siraj-Blatchford yn barhaus yn ei thystiolaeth i ni at y ffaith mai’r hyn sy'n llawer pwysicach na'r gymhareb plentyn-athro yw ansawdd y rhyngweithio plentyn-athro, ac mae hynny'n dibynnu ar ansawdd y gweithiwr proffesiynol. Ac mae hynny’n sbardun llawer mwy na chael cymhareb 8:1 neu 10:1 o blant i oedolion. Mae'n rhaid i'r oedolion fod yr oedolion gorau, ac mae hynny’n cyflawni ar gyfer pobl ifanc.

17:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much.

Diolch yn fawr iawn.

17:26

## Datganiad y Gweinidog ynghylch Cydsyniad Ei Mawrhydi y Frenhines a Dug Cernyw

## Minister’s Statement regarding Her Majesty the Queen’s and the Duke of Cornwall’s Consent

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move on to the Planning (Wales) Bill. Before the Stage 4 debate, I call on the Minister for Natural Resources to make a statement under Standing Order 26.67 regarding Her Majesty the Queen’s and the Duke of Cornwall’s consent. Minister.

Rydym bellach yn symud ymlaen at Fil Cynllunio (Cymru). Cyn y ddadl Cyfnod 4, galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i wneud datganiad o dan Reol Sefydlog 26.67 ynghylch cydsyniad Ei Mawrhydi'r Frenhines a Dug Cernyw. Weinidog.

17:26

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I have it in command from Her Majesty the Queen and the Duke of Cornwall to acquaint the Assembly that, having been informed of the purport of the Planning (Wales) Bill, both have given their consent to this Bill.

Diolch i chi, Lywydd. Mae gennyf orchymyn gan Ei Mawrhydi y Frenhines a Dug Cernyw i hysbysu'r Cynulliad, ar ôl cael gwybodaeth o ystyr y Bil Cynllunio (Cymru), bod y ddau wedi rhoi eu cydsyniad i'r Bil hwn.

17:27

# 7. Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Cynllunio (Cymru)

# 7. Stage 4 Debate on the Planning (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Right. We now move to the Stage 4 debate on the Planning (Wales) Bill, and I call on the Minister for Natural Resources to move the motion–Carl Sargeant.

Iawn. Symudwn yn awr at y ddadl Cyfnod 4 ar y Bil Cynllunio (Cymru), a galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig y cynnig—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5762 Carl Sargeant

Motion NDM5762 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Cynllunio (Cymru).

Approves the Planning (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:27

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Today, I have the pleasure of presenting the Planning (Wales) Bill for your approval. The Bill will reform land use planning in Wales now and in the future to create a world-class planning system, delivering timely, fair and consistent decisions, which will enhance the built, natural and historic environments in Wales. It has involved public consultation and an extensive engagement with stakeholders, and I'm grateful for all those contributions. The Bill is based on a sound evidence base, which includes the thorough work of the independent advisory group, who I expressly thank today.

Diolch ichi, Lywydd. Heddiw, mae'n bleser cyflwyno Bil Cynllunio (Cymru) ar gyfer eich cymeradwyaeth. Bydd y Bil yn diwygio'r drefn o gynllunio defnydd tir yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol er mwyn creu system gynllunio o safon fyd-eang, gan sicrhau penderfyniadau amserol, teg a chyson, a fydd yn gwella'r amgylchedd adeiledig, naturiol a hanesyddol yng Nghymru. Mae wedi cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, ac rwy'n ddiolchgar am yr holl gyfraniadau hynny. Mae'r Bil hwn yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn, sy'n cynnwys gwaith trylwyr y grŵp cynghori annibynnol, a diolchaf iddo yn benodol heddiw.

The Bill has been through several stages, having been examined as a draft Bill before by the Environment and Sustainability Committee. Following the introduction, the Constitutional and Legislative Affairs Committee, the Finance Committee, and, on more than one occasion, the Environment and Sustainability Committee, considered and refined the Bill. The latter devoted a considerable amount of time and effort to taking evidence from individuals and organisations, and it's been a considerable piece of work for everybody involved, and, as only right and proper, a challenging process. I believe the scrutiny of the Bill has been robust and that the legislation we have created is the better for it.

Mae'r Bil wedi bod drwy nifer o gamau, ar ôl cael ei archwilio fel Bil drafft yn flaenorol gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Yn dilyn y cyflwyniad, gwnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, y Pwyllgor Cyllid, ac, ar fwy nag un achlysur, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ystyried a mireinio'r Bil. Neilltuodd yr olaf gryn dipyn o amser ac ymdrech i gymryd tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau, ac mae wedi bod yn ddarn sylweddol o waith i bawb dan sylw, ac, fel sy'n iawn ac yn briodol, yn broses heriol. Rwy'n credu bod y gwaith o graffu ar y Bil wedi bod yn gadarn a bod y ddeddfwriaeth yr ydym wedi ei chreu yn well o'r herwydd.

The Bill delivers against the evidence base and expectations of stakeholders and customers for a world-class planning system. It provides the legislative underpinning for culture change, supporting the establishment of a flexible and enabling planning system. Through our statutory purpose for planning and the focus on a plan-led approach to development, the Bill complements the objectives of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

Mae'r Bil yn cyflawni o safbwynt y sylfaen dystiolaeth a disgwyliadau rhanddeiliaid a chwsmeriaid ar gyfer system gynllunio o safon fyd-eang. Mae'n darparu'r sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer newid diwylliant, gan gynorthwyo i sefydlu system gynllunio hyblyg a galluogol. Drwy ein pwrpas statudol ar gyfer cynllunio a'r pwyslais ar agwedd at ddatblygu sy'n cael ei arwain gan gynllun, mae'r Bil yn ategu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

We have responded to the calls for an effective national land use plan—the national development framework—and put strategic planning on a legal basis with the ability to set up the composition of panels, including in respect of gender, so they fully reflect the communities they represent. We've listened to communities to frontload the planning system to create a collaborative environment that puts the focus on positive early community engagement, a move supported by all stakeholders.

Rydym wedi ymateb i'r galwadau am gynllun defnydd tir cenedlaethol effeithiol—y fframwaith datblygu cenedlaethol—ac wedi rhoi sail gyfreithiol i gynllunio strategol gyda'r gallu i sefydlu cyfansoddiad panelau, gan gynnwys mewn perthynas â rhyw, fel eu bod yn adlewyrchu'n llawn y cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Rydym wedi gwrando ar gymunedau ynglŷn â chydbwysedd y system gynllunio i greu amgylchedd cydweithredol sy'n rhoi'r pwyslais ar ymgysylltu cynnar cadarnhaol â'r gymuned, cam a gefnogir gan yr holl randdeiliaid.

The Bill is also progressive in ensuring that the Welsh Ministers are able to make decisions in respect of developments of national significance or where a planning authority is clearly failing to deliver an effective, efficient service for the communities they represent. All these elements are crucial to developing a resilient, robust and rounded planning service, which we can all be proud of and which effectively delivers for customers and communities.

Mae'r Bil hefyd yn flaengar wrth sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud penderfyniadau mewn cysylltiad â datblygiadau o bwys cenedlaethol neu lle mae awdurdod cynllunio yn amlwg yn methu â darparu gwasanaeth effeithiol, effeithlon i'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Mae'r holl elfennau hyn yn hanfodol er mwyn datblygu gwasanaeth cynllunio gwydn, cadarn a chyflawn, y gallwn i gyd fod yn falch ohono ac sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer cwsmeriaid a chymunedau.

In addition to you, Presiding Officer, the Deputy Presiding Officer, all Members of this Chamber and particularly those of the Environment and Sustainability Committee, I want to thank all my Cabinet colleagues and also my officials in the planning directorate. I have a fantastic team within the planning team and they've worked extremely hard to make sure that this Bill is on time, deliverable and effective, as we move forward. So, a big thank you to them too. They've worked tirelessly during the development and passage of this Bill and I want to put on record my sincere thanks to everybody in the development office—diolch yn fawr. Presiding Officer, I commend the Planning (Wales) Bill to you today.

Yn ogystal â chi, Lywydd, y Dirprwy Lywydd, pob Aelod o'r Siambr hon ac yn enwedig aelodau'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, rwyf am ddiolch i fy holl gydweithwyr yn y Cabinet a hefyd fy swyddogion yn y gyfarwyddiaeth cynllunio. Mae gennyf dîm gwych o fewn y tîm cynllunio ac meant wedi gweithio'n galed iawn i wneud yn siŵr bod y Bil hwn yn brydlon ac yn effeithiol, a bod modd ei gyflawni, wrth inni symud ymlaen. Felly, diolch yn fawr iddyn nhw hefyd. Maent wedi gweithio'n ddiflino yn ystod datblygiad a hynt y Bil hwn ac rwyf am gofnodi fy niolch diffuant i bawb yn y swyddfa ddatblygu—diolch yn fawr. Lywydd, rwy'n cymeradwyo'r Bil Cynllunio (Cymru) ichi heddiw.

17:30

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I only want to make a short contribution to these Stage 4 proceedings. Before the Bill was introduced, my party did not hide the fact that we wanted a radical and ambitious piece of legislation that would not only be a catalyst to improving the Welsh economy, but would also bring flexibility into the planning system that would enable it to be more responsive to local need. And, to succeed, I felt this Bill had to streamline and simplify the planning process. But it also had to ensure that the planning system became more democratic and more open and transparent, warranting adequate avenues for redress to improve public confidence.

Dim ond cyfraniad byr rwyf am ei wneud i'r trafodion Cyfnod 4 hyn. Cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, ni wnaeth fy mhlaid guddio'r ffaith ein bod am weld darn radical ac uchelgeisiol o ddeddfwriaeth fyddai nid yn unig yn gatalydd i wella economi Cymru, ond a fyddai hefyd yn dod â hyblygrwydd i'r system gynllunio gan ei galluogi i ymateb yn well i anghenion lleol. Ac, i lwyddo, teimlais fod rhaid i'r Bil hwn gyflymu a symleiddio'r broses gynllunio. Ond roedd yn rhaid iddo hefyd sicrhau bod y system gynllunio yn fwy democrataidd a mwy agored a thryloyw, gan warantu llwybrau digonol ar gyfer gwneud iawn er mwyn gwella hyder y cyhoedd.

Unfortunately for the people of Wales, what we have before us today is something that has not achieved those objectives, and this Government has not delivered. It is such a shame, because, compared to what was happening over the border with a more radical approach to localism, stemming from the Localism Act 2011, now through to the devolution of powers to the cities and regions of England, what we are getting here in Wales with this Bill is one that attempts to centralise power away from local authorities, rather than strengthening planning at a local level.

Yn anffodus i bobl Cymru, nid yw'r hyn sydd gennym ger ein bron heddiw wedi cyflawni'r amcanion hynny, ac nid yw'r Llywodraeth hon wedi cyflawni. Mae'n drueni mawr, oherwydd, o'i gymharu â'r hyn oedd yn digwydd dros y ffin gydag agwedd fwy radical at leoliaeth, yn deillio o Ddeddf Lleoliaeth 2011, nawr drwodd at ddatganoli pwerau i ddinasoedd a rhanbarthau Lloegr, yr hyn yr ydym yn ei gael yma yng Nghymru gyda'r Bil hwn yw un sy'n ceisio canoli pŵer i ffwrdd oddi wrth yr awdurdodau lleol, yn hytrach na chryfhau cynllunio ar lefel leol.

Opposition spokespeople have done their very best to make improvements to this Bill where we could, within its scope. While I welcome the Minister's movements in areas such as material consideration for the Welsh language, a defined statutory purpose and the public right to register town and village greens, the fundamental architecture of this Bill for me is such that it creates unnecessary complexity, erodes local democratic accountability and levers too much power into the hands of Ministers through what will be the meat of this Bill via secondary legislation.

Mae llefarwyr y gwrthbleidiau wedi gwneud eu gorau glas i wneud gwelliannau i'r Bil hwn lle y gallem, o fewn ei gwmpas. Er fy mod yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi symud mewn meysydd fel ystyriaeth berthnasol ar gyfer yr iaith Gymraeg, pwrpas statudol diffiniedig a hawl y cyhoedd i gofrestru lawntiau trefi a phentrefi, mae pensaernïaeth sylfaenol y Bil hwn i mi yn golygu ei fod yn creu cymhlethdod diangen, yn erydu atebolrwydd democrataidd lleol ac yn rhoi gormod o bŵer yn nwylo Gweinidogion drwy'r hyn a fydd yn sylwedd i'r Bil hwn drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth.

Therefore, my party and I will not be supporting this Bill today.

Felly, ni fydd fy mhlaid a minnau yn cefnogi'r Bil hwn heddiw.

17:32

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Pan gyflwynwyd y Bil yma, mae'n rhaid i mi ddweud, mi oedd yna lawer o elfennau, yn fy marn i, a oedd ar goll neu'n ddiffygiol. Yn sicr, nid oedd yna unrhyw bwrpas statudol i'r drefn gynllunio yn y Bil gwreiddiol, nid oedd yna unrhyw ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg, roedd y broses o greu'r fframwaith datblygu cenedlaethol yn rhoi gormod o rym yn nwylo Gweinidogion Cymru, ac roedd y paneli cynllunio strategol yn cymryd grym oddi wrth gymunedau lleol ac yn rhoi grym i bobl anetholedig ac enwebedig. Mi oedd yna fygythiad, fel y daeth hi'n amlwg yn nes ymlaen, i 'integrity' parciau cenedlaethol, wrth greu byrddau cynllunio ar y cyd a allai danseilio rôl unigryw a phwysig parciau cenedlaethol. Mi oedd bwriad i ddileu datganiadau dylunio a mynediad a hefyd wanhau'n sylweddol yr amddiffyniad i feysydd tref a phentref—y 'town and village greens'.

When this Bill was introduced, I have to say, there were a number of elements that I felt were missing or deficient. Certainly, there wasn't a statutory purpose to the planning regime in the original Bill, there wasn't provision for the Welsh language, the process for the creation of the national development framework placed too much power in the hands of Welsh Ministers, and the strategic planning panels were taking power away from local communities and putting it in the hands of unelected and nominated people. There was a threat, as it became apparent later, to the integrity of the national parks, in the creation of joint planning boards that could have undermined the unique and important role of national parks. There was an intention to abolish design and access statements, and also to significantly weaken the protection afforded to town and village greens.

Erbyn hyn, wrth gwrs, ar ôl misoedd o graffu fel yr oedd y Gweinidog yn cyfeirio ato, ond hefyd ar ôl trafod, pwyso, lobïo ac, wrth gwrs, prosesau o gynnig gwelliannau, rwyf yn ymfalchïo ein bod ni wedi sicrhau llawer iawn o'r newidiadau yr oeddem ni yn chwilio amdanyn nhw.

By now, of course, after months of scrutiny as the Minister referred to, but also after negotiation, pressure, lobbying and, of course, the process of tabling amendments, I am proud to say that we have achieved many of the changes that we were seeking.

Am y tro cyntaf, mi fydd gan y drefn gynllunio yng Nghymru bwrpas statudol—gofyniad datblygu cynaliadwy statudol—a datganiad clir bod datblygu a defnydd tir yn cyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac rwy'n croesawu hynny'n fawr iawn. Am y tro cyntaf, mi fydd y Gymraeg yn medru bod yn ystyriaeth berthnasol o fewn y drefn gynllunio. Hefyd, mae'r angen am asesiadau effaith iaith ar gynlluniau datblygu ar bob lefel—dim asesiadau ar ddatblygiadau mawr, ond fe fydd Plaid Cymru'n parhau, wrth gwrs, i geisio sicrhau bod hynny'n dod i'w le yn y dyfodol.

For the first time, the planning system in Wales will have a statutory purpose—a statutory sustainable development requirement—and a clear statement that development and land use should contribute to the economic, social, environmental and cultural wellbeing of Wales, and I welcome that very much. For the first time, the Welsh language can be a material consideration within the planning system. Also, there is the need to carry out language impact assessments for development plans at all levels—no assessments on major developments, but Plaid Cymru will continue to try to ensure that that is put in place in future.

O safbwynt y fframwaith datblygu cenedlaethol, mi fydd mwy o ymgynghori nawr ar lefel gyhoeddus, ac mi fydd rheidrwydd hefyd ar y Gweinidog i ymateb i argymhellion y pwyllgor perthnasol cyn mabwysiadu'r fframwaith sydd yn gam ymlaen—eto, ddim yn ddigonol, ond yn sicr yn symud i'r cyfeiriad iawn. Ni fydd gan yr aelodau enwebedig, anetholedig o baneli cynllunio strategol bleidlais—cam pwysig, yn fy marn i, i amddiffyn y llais democrataidd oddi fewn i'r drefn gynllunio yng Nghymru—a hefyd mi fydd yn rhaid i o leiaf hanner yr aelodau awdurdodau lleol fod yn bresennol i fod â chworwm, sydd eto yn amddiffyn hynny ymhellach.

From the point of view of the national development framework, there will be greater consultation now at a public level, and there will be a requirement on the Minister to respond to the recommendations of the relevant committee before adopting the framework, which is a step forward—again, it's not adequate, but it's certainly a move in the right direction. The nominated, unelected Members of strategic planning boards will not have a vote—an important step, in my view, to safeguard the democratic voice within the planning system in Wales—and also at least half of the members of local authorities will have to be present to have quorum, which again protects that further.

Nawr, tra bydd yr hawl i greu byrddau cynllunio ar y cyd rhwng parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yn aros, ni fydd hawl, wrth gwrs, gan y Gweinidog i'w gorfodi nhw i greu cynllun datblygu lleol ar y cyd, sydd yn mynd peth o'r ffordd i amddiffyn rôl arbennig y parciau cenedlaethol o fewn y drefn gynllunio, yn fy marn i. Mae'r datganiadau dylunio a mynediad yn aros, ac felly hefyd yr amddiffyniad dyledus i feysydd tref a phentref.

Now, while the right to create joint planning boards between national parks and other planning authorities will remain in place, there will be no right for the Minister to require them to create a joint local development plan, which goes some of the way to safeguarding the particular role of the national parks within the planning system, in my view. The design and access statements remain in place, as therefore does the defence for town and village greens.

Now, despite all of these achievements in relation to this in planning Bill, this isn't, in my view, the end of the journey. Plaid Cymru, will be supporting the Bill today, but with a strong caveat that Plaid Cymru believes that the planning Bill, as it stands, is a job half done. We still have a system that is too top-down; a system that doesn't empower local communities sufficiently to be able to drive those planning development and planning decisions that affect their lives; a system that is still driven by flawed statistical population projections, rather than more accurate assessments of local housing need; and, a system that still doesn't embed a more ambitious, longer term view for development and land use in Wales, one that fully recognises the pivotal role the planning system plays in tackling climate change, in futureproofing the Welsh language and Welsh-speaking communities and in addressing poverty and social inequality. Legislation, of course, can't achieve all of that alone—regulation and other statutory instruments have a part to play. As well, of course, a broader outlook to achieving these outcomes across Welsh Government is very, very important. Plaid Cymru will be pursuing all of these matters further in opposition or in any future Government here in the Assembly. Whilst passing this Bill certainly is a milestone, we are under no illusion that there is still a long, long way to go.

Nawr, er gwaethaf popeth sydd wedi'i gyflawni mewn cysylltiad â hyn yn y Bil Cynllunio, nid dyma ddiwedd y daith yn fy marn i. Bydd Plaid Cymru, yn cefnogi'r Bil heddiw, ond gyda chafeat cryf bod Plaid Cymru yn credu bod y Bil Cynllunio, fel y mae, yn waith ar ei hanner. Mae gennym system sy'n dal yn gweithio'n ormodol o'r brig i lawr; system nad yw'n grymuso cymunedau lleol yn ddigonol i allu sbarduno'r penderfyniadau hynny ym maes cynllunio datblygiad sy'n effeithio ar eu bywydau; system sy'n dal i gael ei gyrru gan amcanestyniadau poblogaeth ystadegol diffygiol, yn hytrach nag asesiadau mwy cywir o'r angen am dai lleol; a, system sydd yn dal ddim yn gwreiddio golwg tymor hirach a mwy uchelgeisiol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Nghymru, un sy'n cydnabod yn llawn y cyfraniad canolog sydd gan y system gynllunio at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, â diogelu'r iaith Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith at y dyfodol ac wrth fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol. Wrth gwrs, ni all deddfwriaeth gyflawni hynny i gyd ar ei phen ei hun—mae gan reoleiddio ac offerynnau statudol eraill ran i'w chwarae. Yn ogystal, wrth gwrs, mae agwedd ehangach at gyflawni'r canlyniadau hyn ar draws Llywodraeth Cymru yn bwysig iawn, iawn. Bydd Plaid Cymru yn mynd ar drywydd pob un o'r materion hyn ymhellach fel gwrthblaid neu mewn unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol yma yn y Cynulliad. Er bod pasio'r Bil hwn yn sicr yn garreg filltir, rydym yn gwybod bod ffordd bell, bell i fynd.

17:37

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This Bill has the important job of making the planning process here in Wales more fit for purpose and also, in doing so, to ensure that that planning system is anchored into the concept of sustainable development and, indeed, the wellbeing goals, as laid out recently in the wellbeing of future generations Act. I shall confine my remarks in this contribution. Also, a number of the key milestones in the journey of this Bill have been enumerated already, particularly by Llyr Gruffydd, in terms of those aspects that we were not content with at the outset. We feel we have contributed, around this Chamber, in actually bringing significant improvement.

Mae gan y Bil hwn y gwaith pwysig o wneud y broses gynllunio yma yng Nghymru yn fwy addas i'r diben a hefyd, wrth wneud hynny, sicrhau bod y system gynllunio yn cael ei hangori yn y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy ac, yn wir, y nodau lles, fel y'u nodwyd yn ddiweddar yn y Ddeddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Cyfyngaf fy sylwadau yn y cyfraniad hwn. Hefyd, mae nifer o gerrig milltir allweddol yn nhaith y Bil hwn wedi'u rhestru'n barod, yn enwedig gan Llyr Gruffydd, o ran yr agweddau hynny nad oeddem yn fodlon arnynt ar y dechrau. Rydym yn teimlo ein bod wedi cyfrannu, o amgylch y Siambr hon, at ddod â gwelliant sylweddol.

This Bill presents us with the chance to protect and promote the Welsh language—a cause that is shared around this Chamber. Although I believe that the Bill could and should have gone further in this respect, I am pleased that our amendment to make the Welsh language a statutory material consideration within the planning process was accepted, and received full cross-party support. The case to make the Welsh language a material consideration was made throughout the development of this Bill, and it was only right that we saw it through. However, as Alun Ffred Jones, Chairman of the Environment and Sustainability Committee, said in the Stage 3 debate, it is important that technical advice note 20 is reviewed and updated in light of this, so as to ensure that planning authorities across Wales implement this policy accurately and with consistency.

Mae'r Bil yn cyflwyno cyfle inni amddiffyn a hyrwyddo'r iaith Gymraeg—achos sy'n cael ei rannu o amgylch y Siambr hon. Er fy mod yn credu y gallai ac y dylai'r Bil fod wedi mynd ymhellach yn hyn o beth, rwy'n falch bod ein gwelliant i wneud yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol statudol o fewn y broses gynllunio wedi cael ei dderbyn, ac wedi derbyn cefnogaeth lawn drawsbleidiol. Gwnaed yr achos dros wneud yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol drwy gydol datblygiad y Bil hwn, ac nid yw ond yn iawn ein bod wedi ei ganlyn i'w derfyn. Fodd bynnag, fel y dywedodd Alun Ffred Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, mewn dadl Cyfnod 3, mae'n bwysig bod nodyn cyngor technegol 20 yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yng ngoleuni hyn, er mwyn sicrhau bod awdurdodau cynllunio ledled Cymru yn gweithredu'r polisi hwn yn gywir ac yn gyson.

I'm also pleased that aspects of marine and transport planning have been integrated across all levels of planning, from LDP right through to the national development framework, and that I was also able to table amendments that helped to secure this. Similarly, we welcome the Minister's commitment to making water and sewage undertakers statutory consultees in the planning process. This not only ensures a better use of available expertise and knowledge, but it also helps to ensure that communities across this nation are protected against inappropriate development, and many Members know what that can mean.

Rwyf hefyd yn falch bod agweddau ar gynllunio trafnidiaeth morol wedi cael eu hintegreiddio ar draws pob lefel ym maes cynllunio, o'r Cynllun Datblygu Lleol hyd at y fframwaith datblygu cenedlaethol, a fy mod hefyd wedi gallu cyflwyno gwelliannau a helpodd i sicrhau hyn. Yn yr un modd, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i wneud ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn ymgyngoreion statudol yn y broses gynllunio. Mae hyn yn sicrhau y gwneir gwell defnydd o'r arbenigedd a'r wybodaeth sydd ar gael, ond mae hefyd yn helpu i sicrhau bod cymunedau ledled y genedl hon yn cael eu diogelu rhag datblygu amhriodol, ac mae llawer o Aelodau yn gwybod beth y gall hynny olygu.

Overall, it is positive to see this Bill coming forward today. It is, in certain respects, in need of further improvement, and that is something that we will strive to do in the months and years to come. But, we have been able to play a key role in developing another part of this Welsh nation's suite of legislation relating to sustainable development, and, for that, we can be grateful and we can be proud.

At ei gilydd, mae'n gadarnhaol gweld y Bil hwn yn dod ymlaen heddiw. Mae angen ei wella ymhellach, mewn rhai agweddau, ac mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ymdrechu i'w wneud yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Ond, rydym wedi gallu chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu rhan arall o gyfres o ddeddfwriaeth Cymru sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, ac, am hynny, gallwn fod yn ddiolchgar a gallwn fod yn falch ohono.

17:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Natural Resources to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Adnoddau Naturiol i ymateb i'r ddadl.

17:40

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Presiding Officer, and thank you for the contributions made by Members this afternoon. Again, I place on record, to the people involved in the development of this Bill, that it has been an important process from the development's early stages on the consultation, right the way through to today, which is a significant day in the history of this Assembly. Again, I'm grateful for the support from Plaid Cymru benches, and from the Liberal Democrat benches, particularly Bill Powell in his constant pursuit of trying to tackle the issues around the Welsh language and how we could develop a structure in place that we are able to sign up to as Government and a collective across the Chamber.

Diolch ichi, Lywydd, a diolch am y cyfraniadau a wnaed gan Aelodau y prynhawn yma. Unwaith eto, hoffwn gofnodi, i'r bobl fu'n ymwneud â datblygu'r Bil hwn, ei bod wedi bod yn broses bwysig o gyfnodau cynnar y datblygiad ar yr ymgynghoriad, yr holl ffordd hyd at heddiw, sy'n ddiwrnod arwyddocaol yn hanes y Cynulliad hwn. Unwaith eto, rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth gan feinciau Plaid Cymru, a meinciau'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn arbennig Bill Powell wrth iddo weithio'n gyson i geisio mynd i'r afael â'r materion ynghylch yr iaith Gymraeg a sut y gallem ddatblygu strwythur yr ydym yn gallu ymrwymo iddo fel Llywodraeth ac fel cydweithfa ar draws y Siambr.

It is with disappointment I will say, though, that the Conservative group yet again failed to be progressive in the way that they are being engaged in this process. Again, whereas we have the evidence to support this Bill with the CBI, of the businesses of Wales supporting this Bill, the party that portray to be the champions of business are yet again letting down their constituents in Wales. They let down the people on the sustainable development Bill and the wellbeing of future generations Act, they're letting down the people of Wales on the planning Bill, but the progressive parties of this Chamber will ensure that we get success today.

Rwy'n dweud gyda siom, fodd bynnag, bod y grŵp Ceidwadol unwaith eto wedi methu â bod yn flaengar yn y modd y maent yn ymgysylltu yn y broses hon. Unwaith eto, er bod gennym y dystiolaeth i gefnogi'r Bil hwn gyda'r CBI, bod busnesau Cymru yn cefnogi'r Bil hwn, mae'r blaid sy'n portreadu eu hunain fel cefnogwyr byd busnes unwaith eto yn siomi eu hetholwyr yng Nghymru. Fe wnaethant siomi'r bobl ynglŷn â'r Bil datblygu cynaliadwy a Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol, maent yn siomi pobl Cymru ynglŷn â'r Bil cynllunio, ond bydd pleidiau blaengar y Siambr hon yn sicrhau ein bod yn cael llwyddiant heddiw.

17:41

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I'll defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:41

# 8. Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

# 8. Debate on the General Principles of the Local Government (Wales) Bill

Y

Senedd.tv [Fideo] [Video]

## Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

We now move on to item 8, which is the debate on the general principles of the Local Government (Wales) Bill. I call on the Minister for Public Services to move the motion. Leighton Andrews.

Rydym bellach yn symud ymlaen i eitem 8, sef y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig. Leighton Andrews.

Cynnig NDM5760 Jane Hutt

Motion NDM5760 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bill Llywodraeth Leol (Cymru).

Agrees to the general principles of the Local Government (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:41

## Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Llywydd, thank you. I move the motion and I'm pleased to open this debate on the general principles of the Local Government (Wales) Bill, which we introduced in January. I'm grateful to Christine Chapman, David Melding, Jocelyn Davies and the members of their respective committees for their thorough and constructive approach to scrutiny of the Bill, and for their subsequent reports and recommendations. I will not attempt to address all of the committee's recommendations today, but Members may be assured that I will consider each of them carefully.

Lywydd, diolch ichi. Cynigiaf y cynnig ac rwy'n falch o agor y ddadl hon ar egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru), a gyflwynwyd gennym ym mis Ionawr. Rwy'n ddiolchgar i Christine Chapman, David Melding, Jocelyn Davies ac aelodau eu pwyllgorau am eu hagwedd drylwyr ac adeiladol at graffu ar y Bil, ac am eu hadroddiadau a'u hargymhellion dilynol. Ni fyddaf yn ceisio mynd i'r afael â holl argymhellion y pwyllgor heddiw, ond gall yr Aelodau fod yn sicr y byddaf yn ystyried pob un ohonynt yn ofalus.

We've embarked on one of the most significant reforms of local government in Wales in decades. When introducing the Bill, I said we needed fundamental reform that would lead to profound change in the way councils operate, and develop modern, accessible, high-quality services for and with their communities. But this is about much more than structures. Perhaps, understandably, there's been much interest during scrutiny of the Bill on the wider mergers and reform programme, which we've set out most recently in the 'Power to Local People' White Paper. Consultation on that closed on 28 April, and we are considering the responses received carefully. We still intend to bring forward our proposals for local authority mergers—the map—before the summer recess.

Rydym wedi cychwyn ar un o ddiwygiadau pwysicaf llywodraeth leol yng Nghymru ers degawdau. Wrth gyflwyno'r Bil, dywedais fod arnom angen diwygiadau sylfaenol a fyddai'n arwain at newid mawr yn y ffordd y mae cynghorau'n gweithredu, a datblygu gwasanaethau modern, hygyrch, o ansawdd uchel ar gyfer a chyda'u cymunedau. Ond mae hyn yn golygu llawer mwy na diwygio strwythurau. Efallai, yn ddealladwy, y bu llawer o ddiddordeb wrth graffu ar y Bil yn y rhaglen ehangach o uno a diwygio. Mae hon wedi'i gosod yn fwyaf diweddar yn y Papur Gwyn 'Grym i Bobl Leol'. Daeth yr ymgynghoriad ar hynny i ben ar 28 Ebrill, ac rydym yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ofalus. Rydym yn dal i fwriadu cyflwyno ein cynigion ar gyfer uno awdurdodau lleol—y map—cyn toriad yr haf.

Our focus today, however, is the Local Government (Wales) Bill—an important Bill in its own right. The Bill lays the groundwork for the reforms, and enables vital early preparatory work to be undertaken for a programme of local authority mergers. I'm therefore very pleased that the Communities, Equality and Local Government Committee recommended that the Assembly should agree the general principles of the Bill.

Ein pwyslais heddiw, fodd bynnag, yw Bil Llywodraeth Leol (Cymru)—Bil pwysig ynddo'i hun. Mae'r Bil yn gosod y seiliau ar gyfer y diwygiadau, ac yn golygu y gellir cynnal gwaith paratoi cynnar hanfodol ar gyfer rhaglen o uno awdurdodau lleol. Felly, rwy'n falch iawn bod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi argymell y dylai'r Cynulliad gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

In turning to the detail of the Bill, it will enable authorities committed to doing so to bring forward proposals for early voluntary merger in response to our published map. I acknowledge the timetable for this will be challenging, but we will work closely with any authorities that bring forward a case that sufficiently meets the criteria for preparing a full voluntary merger proposal.

Wrth droi at fanylion y Bil, bydd yn galluogi awdurdodau sydd ymrwymo i wneud hynny i gyflwyno cynigion ar gyfer uno cynnar gwirfoddol mewn ymateb i'r map y byddwn yn ei gyhoeddi. Rwy'n cydnabod y bydd yr amserlen ar gyfer hyn yn heriol, ond byddwn yn gweithio'n agos gydag unrhyw awdurdodau sy'n cyflwyno achos sy'n bodloni'r meini prawf yn ddigonol er mwyn paratoi cynnig llawn ar gyfer uno gwirfoddol.

The Communities, Equality and Local Government Committee's recommendation 2 seeks clarification of the status of the voluntary mergers prospectus, published last year. The principles of the guidance remain valid, but we will reconsider the timetable, should any proposals come forward following publication of the map.

Mae argymhelliad 2 y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ceisio eglurhad ar statws y prosbectws uno gwirfoddol, a gyhoeddwyd y llynedd. Mae egwyddorion y canllawiau yn parhau'n ddilys, ond byddwn yn ailystyried yr amserlen, pe digwydd i unrhyw gynigion ddod gerbron ar ôl cyhoeddi'r map.

I'm considering the committee's recommendation that section 4(1)(g) of the Bill, relating to consultation by local authorities with staff representative bodies prior to a voluntary merger application, should be modified. I will bring forward an appropriate amendment at Stage 2.

Rwy'n ystyried argymhelliad y pwyllgor y dylid addasu adran 4(1)(g) o'r Bil, sy'n ymwneud ag ymgynghoriad gan awdurdodau lleol â chyrff cynrychioliadol staff cyn gwneud cais i uno gwirfoddol. Byddaf yn cyflwyno gwelliant priodol yng Nghyfnod 2.

Transition committees will undertake important and necessary preparatory and planning work prior to the establishment of shadow authorities. The Bill requires merging authorities to provide appropriate resources to facilitate the work of transition committees. Estimates of these costs are contained in the regulatory impact assessment. Committees must be properly and adequately resourced for the anticipated costs for authorities not significant in the context of the potential savings in the run-up to merger, which transition committees could identify.

Bydd pwyllgorau pontio yn ymgymryd â gwaith rhagbaratoi a chynllunio pwysig ac angenrheidiol cyn sefydlu awdurdodau cysgodol. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau sy'n uno ddarparu adnoddau priodol i hwyluso gwaith y pwyllgorau pontio. Rhoddir amcangyfrifon o'r costau hyn yn yr asesiad effaith rheoleiddiol. Rhaid i bwyllgorau gael adnoddau priodol a digonol ar gyfer y costau a ragwelir ar gyfer awdurdodau nad ydynt yn arwyddocaol yng nghyd-destun yr arbedion posibl yn y cyfnod yn arwain at uno, y gallai pwyllgorau pontio eu nodi.

I acknowledge the Finance Committee's concerns around the potential costs of additional support to transition committees. It is too early to say whether, and if so, what specialist advice would be necessary. It will be for transition committees and shadow authorities themselves to determine what advice and support they require, and for merging authorities to make appropriate resources available, whether this be the time of existing staff or bought-in expertise. We'll work closely with authorities to identify issues and share experiences, expertise and solutions.

Rwy'n cydnabod pryderon y Pwyllgor Cyllid ynglŷn â chostau posibl cymorth ychwanegol i bwyllgorau pontio. Mae'n rhy gynnar i ddweud a fyddai angen cyngor arbenigol, ac os felly, pa gyngor. Mater i bwyllgorau pontio ac awdurdodau cysgodol eu hunain fydd penderfynu pa gyngor a chefnogaeth sydd eu hangen arnynt, a mater i awdurdodau uno fyddai sicrhau bod adnoddau priodol ar gael, boed hyn o ran amser staff presennol neu arbenigedd wedi'i brynu i mewn. Byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau i nodi problemau a rhannu profiadau, arbenigedd ac atebion.

The Local Democracy and Boundary Commission for Wales will have an important role in conducting electoral reviews for the proposed new authorities. We have reviewed the commission's evidence to the Communities, Equality and Local Government Committee carefully. The committee recommends that sufficient resources be provided to enable the commission to complete its review programme. My officials have worked closely with the commission and will continue to do so to ensure there is a mutual understanding of the work involved and the commission's ability to deliver it. The additional funding that we are providing, of £844,000, reflects the commission's own estimate of the costs involved. In its evidence, the commission said directions from the Welsh Government on the conduct of the electoral reviews were needed as soon as possible after Royal Assent to the Bill. To ensure this is the case, I will be consulting on these directions over the summer and autumn. This militates against the adoption of an Assembly procedure for these directions, as recommended by the Constitutional and Legislative Affairs Committee. Such a requirement would also be inconsistent with the current procedure for reviews under the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, which was, of course, previously agreed by the National Assembly.

Bydd gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru rôl bwysig o ran cynnal adolygiadau etholiadol ar gyfer yr awdurdodau newydd arfaethedig. Rydym wedi adolygu tystiolaeth y comisiwn i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ofalus. Mae'r pwyllgor yn argymell y dylai adnoddau digonol gael eu darparu er mwyn galluogi'r comisiwn i gwblhau ei raglen adolygu. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'r comisiwn a byddant yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r gwaith dan sylw a gallu'r comisiwn i'w gyflawni. Mae'r arian ychwanegol yr ydym yn ei ddarparu, sef £844,000, yn adlewyrchu amcangyfrif y comisiwn ei hun o'r costau. Yn ei dystiolaeth, dywedodd y comisiwn bod angen cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru ar gynnal adolygiadau etholiadol cyn gynted â phosibl ar ôl y Cydsyniad Brenhinol i'r Bil. Er mwyn sicrhau mai fel hyn y bydd hi, byddaf yn ymgynghori ar y cyfarwyddiadau hyn yn ystod yr haf a'r hydref. Mae hyn yn milwrio yn erbyn mabwysiadu gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer y cyfarwyddyd hyn, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Byddai gofyniad o'r fath hefyd yn anghyson â'r drefn bresennol ar gyfer adolygiadau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, a gytunwyd, wrth gwrs, yn flaenorol gan y Cynulliad Cenedlaethol.

I am confident the commission will rise to the challenge. However, section 23 of the Bill provides a backstop power for the Welsh Ministers to determine the electoral arrangements for an area in the unlikely event that the commission encounters difficulties. The absence of an Assembly procedure mirrors that for electoral arrangements Orders currently. These powers would be utilised only in circumstances where Ministers need to act quickly, which, again, makes it impractical to adopt the committee's recommendation that the negative procedure should apply. If such an Order is made, the area concerned must then be reviewed by the commission as soon as possible after the first elections.

Rwy'n hyderus y bydd y comisiwn yn ymateb i'r her. Fodd bynnag, mae adran 23 o'r Bil yn rhoi pŵer wrth gefn i Weinidogion Cymru benderfynu ar y trefniadau etholiadol ar gyfer ardal yn yr achos annhebygol y bydd y comisiwn yn dod ar draws anawsterau. Mae absenoldeb gweithdrefn y Cynulliad yn adlewyrchu'r un ar gyfer Gorchmynion trefniadau etholiadol ar hyn o bryd. Dim ond mewn amgylchiadau lle mae angen i Weinidogion weithredu'n gyflym y byddai'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio ac mae hynny, unwaith eto, yn golygu ei bod yn anymarferol mabwysiadu argymhelliad y pwyllgor y dylai'r weithdrefn negyddol fod yn berthnasol. Os gwneir Gorchymyn o'r fath, rhaid i'r ardal dan sylw wedyn gael ei hadolygu gan y comisiwn cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiadau cyntaf.

The Independent Remuneration Panel for Wales will also have an important role in making determinations on the remuneration of members of shadow authorities and proposed new principal local authorities ahead of merger. The Bill also temporarily extends the panel's role in relation to the pay of local authority chief executives to all chief officers. I accept the Communities, Equality and Local Government Committee's recommendation 8, and will ensure that 'chief officer' is appropriately defined in the Bill.

Bydd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol hefyd rôl bwysig o ran gwneud penderfyniadau ar gydnabyddiaeth aelodau awdurdodau cysgodol a phrif awdurdodau lleol newydd arfaethedig cyn iddynt uno. Mae'r Bil hefyd yn ymestyn dros dro rôl y panel mewn cysylltiad â chyflog prif weithredwyr awdurdodau lleol i holl brif swyddogion. Rwy'n derbyn argymhelliad 8 y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, a byddaf yn sicrhau bod 'prif swyddog' yn cael ei ddiffinio'n briodol yn y Bil.

The Bill provides for an increase in the number of panel members to cover the additional workload. I will consider carefully the Constitutional and Legislative Affairs Committee's recommendation as to the way Ministers' powers to vary the number of panel members in future are cast in the Bill and will bring forward an appropriate amendment.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cynnydd yn nifer yr aelodau ar y panel i ddarparu ar gyfer y llwyth gwaith ychwanegol. Byddaf yn ystyried yn ofalus argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch y ffordd y cyflwynir pwerau Gweinidogion yn y Bil i amrywio nifer yr aelodau panel yn y dyfodol a byddaf yn cyflwyno gwelliant priodol.

The Communities, Equality and Local Government Committee's recommendation 7 follows evidence by the unions, which suggested that the code of practice on workforce matters operates differently as it applies to local authorities. That is not correct. The code applies on the same basis to all public bodies covered by the code. Strengthened monitoring arrangements introduced last year will enable us to gather hard evidence on its practical application.

Mae argymhelliad 7 y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn dilyn tystiolaeth gan yr undebau, oedd yn awgrymu bod y cod ymarfer ar faterion y gweithlu yn gweithredu'n wahanol fel y mae'n berthnasol i awdurdodau lleol. Nid yw hynny'n gywir. Mae'r cod yn berthnasol ar yr un sail i bob corff cyhoeddus sy'n cael ei gwmpasu gan y cod. Bydd trefniadau monitro cryfach a gyflwynwyd y llynedd yn ein galluogi i gasglu tystiolaeth bendant ar y ffordd y caiff ei roi ar waith yn ymarferol.

I welcome the degree of consensus amongst those giving evidence on the need for, and appropriateness of, the provisions in the Bill to prevent merging authorities from entering into inappropriate transactions. I welcome the Communities, Equality and Local Government Committee's recommendation for strengthening the involvement of Ministers and will bring forward an appropriate amendment at Stage 2.

Rwy'n croesawu'r consensws ymhlith y rhai a roddodd dystiolaeth ynglŷn â'r angen am y darpariaethau yn y Bil, a'u priodoldeb, i atal awdurdodau sy'n uno rhag ymrwymo i drafodion amhriodol. Rwy'n croesawu argymhelliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar gyfer cryfhau cyfranogiad y Gweinidogion a byddaf yn cyflwyno gwelliant priodol yng Nghyfnod 2.

The report of the Finance Committee commented on the assessment and scrutiny of the costs and benefits associated with voluntary mergers and the wider merger and reform programme. A full options appraisal, including an analysis of the costs and benefits relating to this Bill, is set out in the regulatory impact assessment. The Bill does not give effect to mergers, so there are no mergers to cost at this point.

Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor Cyllid sylwadau ar y broses o asesu a chraffu ar y costau a'r manteision sydd ynghlwm wrth uno gwirfoddol a'r rhaglen uno a diwygio ehangach. Mae arfarniad o opsiynau llawn, gan gynnwys dadansoddiad o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn, yn cael ei nodi yn yr asesiad effaith rheoleiddiol. Nid yw'r Bil yn rhoi effaith i brosesau uno, felly nid oes unrhyw broses uno i'w chostio ar yr adeg hon.

In giving evidence, the Auditor General for Wales acknowledged the difficulties of producing a full, clear indication of costs—and, by implication, savings—in the absence of a map. However, he also acknowledged that certain aspects of reform, such as improving democracy and accountability, cannot be quantified in financial terms. We are, of course, aware of the various estimates that have been produced by others, such as the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy. We will bring forward an analysis of the costs and savings of mergers to be achieved through the second Bill, as part of the draft regulatory impact assessment, published for consultation alongside the draft Bill this autumn.

Wrth roi tystiolaeth, cydnabu Archwilydd Cyffredinol Cymru ei bod yn anodd paratoi arwydd llawn a chlir o gostau—ac, o ganlyniad, yr hyn y gellir ei arbed—pan nad oes map ar gael. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod na ellir mesur rhai agweddau ar ddiwygio, megis gwella democratiaeth ac atebolrwydd, mewn termau ariannol. Rydym, wrth gwrs, yn ymwybodol o'r gwahanol amcangyfrifon sydd wedi eu paratoi gan eraill, megis y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Byddwn yn cyflwyno dadansoddiad o gostau ac arbedion uno sydd i'w cyflawni trwy'r ail Fil, fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol drafft, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ochr yn ochr â'r Bil drafft yr hydref hwn.

Authorities considering voluntary merger will need to make the case for merger, taking account of the costs and savings that will accrue. The financial implications of any voluntary merger will be considered in the regulatory impact assessment to accompany any specific regulations giving effect to the merger. There will be an opportunity for Members to consider the assessment as part of the Assembly's scrutiny of the regulations through the affirmative resolution process.

Bydd angen i awdurdodau sy'n ystyried uno'n wirfoddol gyflwyno'r achos dros uno, gan ystyried y costau a'r arbedion a fydd yn cronni. Bydd goblygiadau ariannol unrhyw uno gwirfoddol yn cael eu hystyried yn yr asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd ag unrhyw reoliadau penodol sy'n rhoi effaith i'r uno. Bydd cyfle i'r Aelodau ystyried yr asesiad fel rhan o waith y Cynulliad o graffu ar y rheoliadau drwy'r broses penderfyniad cadarnhaol.

The Constitutional and Legislative Affairs Committee made a number of recommendations about the proposed procedures for the exercise of subordinate, legislative and other delegated powers in the Bill. I will consider the detail of these carefully, but, in general, the approach taken in the Bill is consistent with the Welsh Government's guidelines, published by the Counsel General in 2012. A number of the committee's recommendations reflect issues of principle in relation to the drafting of Bills and explanatory memoranda generally. It seems to me these are matters more appropriately considered as part of the committee's inquiry into making laws in the fourth Assembly. In conclusion, this Bill is an important first step in the delivery of our mergers and reform programme, which will be achieved through the second Bill, to be introduced in 2016. I urge Members to agree the general principles and the financial resolution of the Bill today.

Gwnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol nifer o argymhellion am y gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer arfer pwerau is-ddeddfwriaethol, deddfwriaethol a dirprwyedig eraill yn y Bil. Byddaf yn ystyried manylion y rhain yn ofalus, ond, yn gyffredinol, mae'r dull a ddefnyddir yn y Bil yn gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd gan y Cwnsler Cyffredinol yn 2012. Mae nifer o argymhellion y pwyllgor yn adlewyrchu materion o egwyddor mewn cysylltiad â drafftio Biliau a memoranda esboniadol yn gyffredinol. Mae'n ymddangos i mi bod y rhain yn faterion y byddai'n fwy priodol eu hystyried fel rhan o ymchwiliad y pwyllgor i ddeddfu yn y pedwerydd Cynulliad. I gloi, mae'r Bil hwn yn gam cyntaf pwysig yn y gwaith o gyflawni ein rhaglen uno a diwygio, a fydd yn cael ei chyflawni drwy'r ail Fil, sydd i'w gyflwyno yn 2016. Anogaf yr Aelodau i gytuno ar yr egwyddorion cyffredinol a phenderfyniad ariannol y Bil heddiw.

17:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, Christine Chapman.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Christine Chapman.

17:51

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I'm pleased to contribute to this debate today as the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, which is responsible for scrutinising the Bill. I would like to thank all those who gave evidence, all of which helped inform our work on the Bill. In total, we made 15 recommendations that we believe will strengthen the Bill. I'm pleased that the Minister, in the main, has responded positively to our recommendations. Given the time available today, I will focus on some of the main themes of our recommendations.

Diolch ichi, Lywydd. Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl hon heddiw fel Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth, pob un ohonynt wedi helpu i lywio ein gwaith ar y Bil. Yn gyfan gwbl, rydym yn gwneud 15 o argymhellion a fydd, yn ein barn ni, yn cryfhau'r Bil. Rwy'n falch bod y Gweinidog, ar y cyfan, wedi ymateb yn gadarnhaol i'n hargymhellion. O ystyried yr amser sydd ar gael heddiw, byddaf yn canolbwyntio ar rai o brif themâu ein hargymhellion.

Overall, respondents agreed that some form of local government restructuring is necessary to improve local governance and service delivery, and that the Bill is needed to enable preparations for this. Accepting that the Government's preferred approach to restructuring is by merging existing authority areas, and given that this can only be achieved through legislative changes, we believe that the Bill is necessary. Again, I think there is consensus there. We also believe that the decision to restructure is driven by the desire to improve service delivery and the resilience of local authorities. Again, as such, we recommend that the Assembly supports the general principles of the Bill.

At ei gilydd, cytunodd ymatebwyr fod angen ailstrwythuro llywodraeth leol mewn rhyw ffordd er mwyn gwella trefniadau llywodraethu yn lleol a'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu, a bod angen y Bil er mwyn gallu paratoi ar gyfer hyn. Gan dderbyn mai'r dull o ailstrwythuro sydd orau gan y Llywodraeth yw trwy uno ardaloedd awdurdodau sydd eisoes yn bodoli, ac o ystyried na ellir ond cyflawni hyn drwy newidiadau deddfwriaethol, credwn fod y Bil yn angenrheidiol. Unwaith eto, rwy'n credu y ceir consensws. Rydym hefyd yn credu bod y penderfyniad i ailstrwythuro yn cael ei sbarduni gan yr awydd i wella'r modd y caiff gwasanaeth eu darparu a gwneud awdurdodau lleol yn fwy cydnerth. Unwaith eto, fel y cyfryw, rydym yn argymell bod y Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

However, as this will be the third local government restructure in fewer than 50 years, it's imperative that the resulting structure is sustainable and capable of delivering the Government's wider aspirations for the future of local government. Despite overall agreement that the Bill is needed, respondents did raise concerns in a number of areas, including the lack of an agreed map for the main merger programme, uncertainty about whether voluntary mergers are still viable, and the timetable for reform. I know that this will be considered.

Fodd bynnag, gan mai dyma'r drydedd tro i lywodraeth leol gael ei hailstrwythuro mewn llai na 50 mlynedd, mae'n hanfodol bod y strwythur sy'n deillio o hyn yn gynaliadwy ac yn gallu cyflawni dyheadau ehangach y Llywodraeth ar gyfer dyfodol llywodraeth leol. Er gwaethaf cytundeb cyffredinol bod angen y Bil, gwnaeth yr ymatebwyr godi pryderon mewn nifer o feysydd, gan gynnwys y ffaith na chytunwyd ar fap ar gyfer y brif raglen uno, ansicrwydd ynghylch a yw prosesau uno gwirfoddol yn dal i fod yn ymarferol, a'r amserlen ar gyfer diwygio. Rwy'n gwybod y bydd hyn yn cael ei ystyried.

Turning to voluntary mergers, the rejection of the three expressions of interest that were submitted at the end of 2014 has cast doubt on the viability of the provisions for voluntary mergers in the Bill. While the voluntary merger provisions in the Bill are themselves not contentious, the timescales involved mean that they may be difficult to deliver in practice. I know that authorities told us that they were concerned about the limited time available between the publication of the merger map this summer and the deadline of 30 November for applications. Again, there was also uncertainty from authorities about how to proceed if they still wish to apply for voluntary merger, and about the criteria to meet for a successful application. As such, we did believe that the Minister should clarify whether the existing guidance on voluntary mergers will continue to be applicable and used to assess future applications for voluntary mergers.

Gan droi at brosesau uno gwirfoddol, mae’r ffaith bod y tri datganiad o ddiddordeb a gyflwynwyd ar ddiwedd 2014 wedi cael eu gwrthod wedi bwrw amheuaeth ar hyfywedd y darpariaethau ar gyfer uno gwirfoddol yn y Bil. Er nad yw’r darpariaethau uno gwirfoddol yn y Bil yn ddadleuol ynddynt eu hunain, mae’r amserlenni dan sylw yn golygu y gall fod yn anodd eu cyflawni yn ymarferol. Gwn fod awdurdodau wedi dweud wrthym eu bod yn pryderu am yr amser cyfyngedig sydd ar gael rhwng cyhoeddi'r map uno yr haf hwn a'r dyddiad cau ar 30 Tachwedd ar gyfer ceisiadau. Unwaith eto, roedd rhai awdurdodau hefyd yn ansicr ynglŷn â sut i symud ymlaen os ydynt yn dal yn dymuno gwneud cais i uno’n wirfoddol, ac ynglŷn â’r meini prawf i’w diwallu ar gyfer cais llwyddiannus. Fel y cyfryw, roeddem yn credu y dylai'r Gweinidog egluro a fydd y canllawiau presennol ar uno gwirfoddol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cael eu defnyddio i asesu ceisiadau yn y dyfodol ar gyfer uno gwirfoddol.

Several respondents, including the trade unions and the Auditor General for Wales, emphasised the importance of establishing a staff commission for the merger programme. Again, we welcome the Minister’s announcement that a non-statutory staff commission will be established this autumn, and that the planned second local government draft Bill will include provision for a statutory commission. However, given that the original timetable for establishing the non-statutory commission has slipped, we seek assurance from the Minister that the commission will be in a position to provide effective support and advice during the merger process.

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys yr undebau llafur ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, bwysigrwydd sefydlu comisiwn staff ar gyfer y rhaglen uno. Unwaith eto, rydym yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog y bydd comisiwn staff anstatudol yn cael ei sefydlu yn ystod yr hydref, ac y bydd yr ail Fil drafft llywodraeth leol a gynlluniwyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer comisiwn statudol. Fodd bynnag, o gofio na lwyddwyd i gadw at yr amserlen wreiddiol ar gyfer sefydlu'r comisiwn anstatudol, rydym yn ceisio sicrwydd gan y Gweinidog y bydd y comisiwn mewn sefyllfa i ddarparu cymorth a chyngor effeithiol yn ystod y broses uno.

The timetable for the review of electoral arrangements for proposed new principal areas that the Local Democracy and Boundary Commission for Wales will be working towards is particularly challenging. This was a theme in the report. The variables that could influence the timetable include applications for voluntary merger, the timing of the direction from the Minister, and changes to the merger map. The commission’s task to complete the review programme in time is key to ensuring the successful delivery of the merger programme.

Mae amserlen yr adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y prif ardaloedd newydd arfaethedig y bydd y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i Gymru yn gweithio tuag atynt yn arbennig o heriol. Roedd hon yn thema yn yr adroddiad. Mae'r newidynnau a allai ddylanwadu ar yr amserlen yn cynnwys ceisiadau i uno’n wirfoddol, amseriad y cyfarwyddyd gan y Gweinidog, a newidiadau i'r map uno. Mae tasg y comisiwn i gwblhau'r rhaglen adolygu mewn pryd yn allweddol i sicrhau y cyflawnir y rhaglen uno’n llwyddiannus.

As such, we did recommend that the Minister provides the Local Democracy and Boundary Commission for Wales with sufficient resources to enable it to complete its electoral review. The level of resources provided should take into account any revisions to the review programme that may need to be made as the merger programme progresses.

Fel y cyfryw, gwnaethom argymell bod y Gweinidog yn darparu digon o adnoddau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i'w alluogi i gwblhau ei adolygiad etholiadol. Dylai lefel yr adnoddau a ddarperir ystyried unrhyw ddiwygiadau y gall fod angen eu gwneud i'r rhaglen adolygu wrth i'r rhaglen uno fynd yn ei blaen.

On the costs and benefits of mergers, it’s clear from the evidence we received that there is uncertainty about the overall cost of the merger programme. While we understand that a full cost-benefit analysis will accompany the planned second local government Bill, we believe it should be undertaken much earlier in the process to help inform debate. If this is not the case, we ask the Minister to clarify how the analysis will influence the merger process, given that the merger map will already have been published. If the Minister does not intend to provide financial support for merging authorities, we recommend that he provides further detail on how he envisages merging authorities to meet the cost of merger.

O ran costau a manteision uno, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod ansicrwydd ynghylch cost gyffredinol y rhaglen uno. Er ein bod yn deall y bydd dadansoddiad llawn o’r gost a’r manteision yn cyd-fynd â'r ail Fil llywodraeth leol a fwriedir, rydym yn credu y dylai gael ei wneud yn llawer cynharach yn y broses er mwyn helpu i lywio dadl. Os na fydd hy yn digwydd, byddwn yn gofyn i'r Gweinidog egluro sut y bydd y dadansoddiad yn dylanwadu ar y broses uno, o gofio y bydd y map uno eisoes wedi cael ei gyhoeddi. Os nad yw'r Gweinidog yn bwriadu darparu cymorth ariannol i awdurdodau sy’n uno, rydym yn argymell ei fod yn darparu rhagor o fanylion ar sut y mae'n rhagweld y dylai awdurdodau sy’n uno dalu costau uno.

In conclusion, if the Assembly agrees the general principles of the Bill today, I look forward to the committee's consideration of amendments at Stage 2. Thank you.

I gloi, os bydd y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw, rwy'n edrych ymlaen at ystyriaeth y pwyllgor o'r gwelliannau yng Nghyfnod 2. Diolch yn fawr.

17:56

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call on the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies.

Galwaf yn awr ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies.

17:56

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. The Finance Committee has considered the financial implications of the Bill. We took evidence from the Minister and produced a report containing five recommendations in three key areas: the costs of the mergers, the cost and functions of the transition committees, and council tax.

Diolch ichi, Lywydd. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ystyried goblygiadau ariannol y Bil. Cawsom dystiolaeth gan y Gweinidog ac rydym wedi paratoi adroddiad sy'n cynnwys pum argymhelliad mewn tri maes allweddol: costau'r prosesau uno, cost a swyddogaethau'r pwyllgorau pontio, a'r dreth gyngor.

The committee understands that the principal objective of the Bill is to enable preparations to be made for local government mergers and reform. However, the financial information available to us was limited to the administration costs of the Bill rather than the costs of the mergers themselves, which of course are expected to much greater.

Mae'r pwyllgor yn deall mai prif amcan y Bil yw galluogi paratoadau i gael eu gwneud ar gyfer uno a diwygio llywodraeth leol. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth ariannol oedd ar gael inni wedi'i chyfyngu i gostau gweinyddol yn gysylltiedig â'r Bil yn hytrach na chostau'r prosesau uno eu hunain, a disgwylir i'r rhain fod yn llawer mwy wrth gwrs.

We are concerned that the overall cost of the merger process has not been fully considered, and the lack of available financial information for such a large programme of reorganisation obstructs the financial scrutiny process. We have reservations about the Assembly being asked to approve the beginning of a process of reorganisation without knowing in detail where it will lead and how much it will cost.

Rydym yn pryderu nad yw cost gyffredinol y broses uno wedi cael ei hystyried yn llawn, ac mae'r ffaith nad oes gwybodaeth ariannol ar gael ar gyfer rhaglen mor fawr o ad-drefnu yn rhwystro'r broses graffu ariannol. Mae gennym amheuon ynghylch gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo dechrau'r broses o ad-drefnu heb wybod yn fanwl i ble y bydd yn arwain a faint fydd y gost.

The estimated cost of reorganisation is based on the assumption that there will be one voluntary merger and eight mergers in a second Bill, to come in the next Assembly. This would need to be revisited if the number of mergers differs, and, in any event, knowledge of the costs and benefits would be needed before voluntary mergers are approved. Therefore, the committee recommends that further information and greater detail on the costs and benefits of mergers should be provided. We also recommend that Welsh Government work with local government to prepare a clear plan on how it will estimate the costs of the mergers. I'm pleased that the Minister takes this matter seriously, and has assured us today that costs and benefits will be known prior to any decisions being made.

Mae'r amcangyfrif o'r gost o ad-drefnu yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd un proses uno wirfoddol ac wyth proses uno mewn ail Fil, i ddod yn y Cynulliad nesaf. Byddai angen ailystyried hyn os yw nifer y cyfuniadau yn wahanol, a, beth bynnag, byddai angen gwybodaeth am y costau a'r manteision cyn i broses uno wirfoddol gael ei chymeradwyo. Felly, mae'r pwyllgor yn argymell y dylid darparu rhagor o wybodaeth a mwy o fanylion am gostau a manteision prosesau uno. Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol i baratoi cynllun clir ar sut y bydd yn amcangyfrif costau'r uno. Rwy'n falch bod y Gweinidog yn cymryd y mater hwn o ddifrif, ac wedi ein sicrhau heddiw y bydd costau a manteision yn hysbys cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.

Transition committees will be crucial to the mechanics of merging local authorities. While the Government has attempted to identify some of the administration costs of transition committees, their estimates are not complete as yet. There needs to be further consideration of additional support that the transition committees may require. If they need specialist staff advice, there could be a wide variation in staff and councillor costs in different local authorities, and this could be more than the estimated figures.

Bydd pwyllgorau pontio yn hanfodol i fecanwaith uno awdurdodau lleol. Er bod y Llywodraeth wedi ceisio nodi rhai o gostau gweinyddu pwyllgorau pontio, nid yw eu hamcangyfrifon yn gyflawn eto. Mae angen ystyried ymhellach pa gefnogaeth ychwanegol y gall fod ar y pwyllgorau pontio ei hangen. Os oes angen cyngor staff arbenigol, gallai costau staff a chynghorwyr amrywio'n fawr mewn gwahanol awdurdodau lleol, a gallai hyn fod yn fwy na'r ffigurau a amcangyfrifwyd.

It remains unclear whether the Welsh Government would provide specialist advice to all transition committees and incur those costs centrally, or whether each committee would have to pay for that advice themselves. The committee therefore recommends that the Minister revisit these estimated costs and consider whether they can be borne centrally for services that all transition committees will require. I'm pleased to hear the Minister will be carefully considering this at a later date.

Mae'n dal i fod yn aneglur a fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor arbenigol i bob pwyllgor pontio ac yn talu'r costau hyn yn ganolog, neu a fyddai'n rhaid i bob pwyllgor dalu am y cyngor hwnnw eu hunain. Mae'r pwyllgor felly'n argymell bod y Gweinidog yn ailedrych ar y costau a amcangyfrifwyd ac yn ystyried a ellir eu talu'n ganolog ar gyfer y gwasanaethau y bydd ar yr holl bwyllgorau pontio eu hangen. Rwy'n falch o glywed y bydd y Gweinidog yn ystyried hyn yn ofalus yn y dyfodol.

We are pleased that the Minister has agreed to reconsider the threshold of the value of contracts that transition committees will look at, and we feel that the value currently is set too low to allow the transition committees to strike the right balance between effective scrutiny and the efficient operation of the merger process.

Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi cytuno i ailystyried y trothwy ar gyfer gwerth y contractau y bydd y pwyllgorau pontio yn edrych arnynt, ac rydym yn teimlo bod y gwerth ar hyn o bryd wedi ei osod yn rhy isel i ganiatáu i'r pwyllgorau pontio daro'r cydbwysedd cywir rhwng craffu effeithiol a gweithrediad effeithlon y broses uno.

Finally, the Minister believes that the council tax levels do not have to be harmonised between merging authorities on day one of the merger and the public would not expect to see new levels of service at such an early stage. However, we think this is a key issue that will need to be addressed, ideally through this Bill, and we therefore encourage the Minister to publish a clear plan for minimising the impact of mergers on council tax levels. I hope that the committee's recommendations will be helpful to the Assembly in its scrutiny of the Bill.

Yn olaf, mae'r Gweinidog yn credu nad oes rhaid i lefelau'r dreth gyngor gael eu cysoni rhwng awdurdodau sy'n uno ar ddiwrnod cyntaf yr uno ac na fyddai'r cyhoedd yn disgwyl gweld lefelau gwasanaeth newydd ar gam mor gynnar. Fodd bynnag, rydym yn credu bod hwn yn fater allweddol y bydd angen mynd i'r afael ag ef, yn ddelfrydol drwy'r Bil hwn, ac felly rydym yn annog y Gweinidog i gyhoeddi cynllun clir ar gyfer lleihau effaith prosesau uno ar lefelau'r dreth gyngor. Rwy'n gobeithio y bydd argymhellion y pwyllgor yn ddefnyddiol i'r Cynulliad wrth graffu ar y Bil.

18:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee—David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol—David Melding.

18:00

## David Melding [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. We reported on this Bill on 8 May and made eight recommendations. I don't have time to speak to all of them, but I commend the full report to Members, particular those who will have been doing the detailed scrutiny.

Diolch ichi, Lywydd. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Bil hwn ar 8 Mai a gwneud wyth argymhelliad. Nid oes gennyf amser i siarad am bob un ohonynt, ond rwy'n cymeradwyo'r adroddiad llawn i'r Aelodau, yn enwedig y rhai a fydd wedi bod yn gwneud y gwaith craffu manwl.

As the Minister has indicated, this is a very important Bill, going to the heart of important local government reorganisation and reform. Its objective is to enable preparations to be made for a programme of local government mergers and reform and to allow principal local authorities to merge voluntarily by April 2018. The size and shape of new local authorities and their electoral arrangements will of course have a significant impact on our local democracy. In our view, the creation of new authorities and the accompanying electoral arrangements should be undertaken in line with clear principles that are set out in legislation and enable a sustainable local government structure to be put in place in Wales. Unfortunately, no such clear principles appear on the face of the Bill.

Fel y mae'r Gweinidog wedi nodi, mae hwn yn Fil pwysig iawn sy'n mynd at wraidd y gwaith pwysig o ad-drefnu a diwygio llywodraeth leol. Ei amcan yw galluogi paratoadau i gael eu gwneud ar gyfer rhaglen o uno a diwygio llywodraeth leol a chaniatáu i brif awdurdodau lleol uno yn wirfoddol erbyn mis Ebrill 2018. Bydd maint a siâp yr awdurdodau lleol newydd a'u trefniadau etholiadol, wrth gwrs, yn cael effaith sylweddol ar ein democratiaeth leol. Yn ein barn ni, dylid creu awdurdodau newydd a'r trefniadau etholiadol sy'n cyd-fynd â nhw yn unol ag egwyddorion clir sy'n cael eu nodi yn y ddeddfwriaeth ac sy'n caniatáu ar gyfer rhoi strwythur cynaliadwy ar waith ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Yn anffodus, nid oes unrhyw egwyddorion clir o'r fath i'w gweld ar wyneb y Bil.

As matters currently stand, it would appear to be entirely possible for a new authority to be created through merger regulations without any prior debate in the Assembly to inform those regulations. Such merger regulations under the affirmative procedure would be subject of a straight 'yes' or 'no' vote of course, but without any scope to take into account views raised. We accept that such voluntary mergers would take place between willing partners. However, that should not prevent the Assembly from having the opportunity to scrutinise at an early stage the electoral arrangements and other matters for new local authorities, should it wish to do so.

Fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae'n ymddangos yn gwbl bosibl i awdurdod newydd gael ei greu drwy reoliadau uno heb unrhyw ddadl ymlaen llaw yn y Cynulliad i lywio'r rheoliadau hynny. Byddai rheoliadau uno o'r fath o dan y weithdrefn gadarnhaol yn destun pleidlais 'ie' neu 'na' syml wrth gwrs, ond heb unrhyw le i ystyried safbwyntiau a godwyd. Rydym yn derbyn y byddai uno gwirfoddol o'r fath yn digwydd rhwng partneriaid parod. Fodd bynnag, ni ddylai hynny atal y Cynulliad rhag cael y cyfle yn gynnar yn y broses i graffu ar y trefniadau etholiadol a materion eraill ar gyfer awdurdodau lleol newydd, pe bai'n dymuno gwneud hynny.

To reflect these views, we recommend that the Minister consider tabling amendments at Stages 2 and 3 to ensure that the new local authorities arising from the Bill are founded on the basis of clear principles that the Assembly has adequate opportunity to scrutinise their creation.

Er mwyn adlewyrchu'r safbwyntiau hyn, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnodau 2 a 3 er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau lleol newydd sy'n deillio o'r Bil yn cael eu sefydlu ar sail egwyddorion clir bod gan y Cynulliad gyfle digonol i graffu ar y broses o'u creu.

I want to say a few words about section 5 guidance. We believe that the core principles that we've referred to should be supplemented by guidance under section 5 of the Bill relating to applications for voluntary mergers. Guidance on this subject has already been issued and, by virtue of the Bill, will be treated as if it had been issued under section 5—I'm sorry, this is complicated, but I think those who are following the technical details, and the Minister, will understand. We recommend that any future guidance under this section should be subject to an Assembly procedure. Again, this recommendation is influenced by the need for scrutiny of matters we consider to be of considerable importance to communities across Wales. I hope the Minister will take this on board and not just say that guidance rarely receives any Assembly procedure. This is a very important area indeed.

Hoffwn ddweud ychydig eiriau am ganllawiau adran 5. Credwn y dylai'r egwyddorion craidd yr ydym wedi cyfeirio atynt gael eu hategu gan ganllawiau o dan adran 5 o'r Bil sy'n ymwneud â cheisiadau i uno'n wirfoddol. Mae canllawiau ar y pwnc hwn eisoes wedi cael eu cyhoeddi a byddant, yn rhinwedd y Bil, yn cael eu trin fel pe byddent wedi eu cyhoeddi o dan adran 5—mae'n ddrwg gennyf, mae hyn yn gymhleth, ond rwy'n meddwl y bydd y rhai sy'n dilyn y manylion technegol, a'r Gweinidog, yn deall. Rydym yn argymell y dylai unrhyw ganllawiau yn y dyfodol o dan yr adran hon fod yn destun gweithdrefn y Cynulliad. Unwaith eto, mae'r argymhelliad hwn yn cael ei ddylanwadu gan yr angen i graffu ar faterion sydd, yn ein barn ni, o gryn bwys i gymunedau ledled Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried hyn ac nid dim ond yn dweud mai yn anaml y mae canllawiau yn destun unrhyw weithdrefn y Cynulliad. Mae hwn yn faes pwysig iawn yn wir.

We also highlight a number of other issues of concern, and it is to those I now turn. The definition of a merging authority in section 2(3) includes authorities that are to be merged under the provisions of a future Bill to be introduced by Welsh Ministers. We consider it to be very unusual practice to tie an event in one Bill to something set out in an as-yet-undrafted future Bill, to be introduced in an Assembly for which elections have not yet been held. We also have serious doubts about an approach that would permit, under section 2(6)(b), a proposed principal area to be potentially defined in non-legislative documents. While there may be no legal obstacle to either of these approaches, we are not comfortable with them.

Rydym hefyd yn tynnu sylw at nifer o faterion eraill sy'n peri pryder, ac at y rhain yr wyf yn troi nawr. Mae'r diffiniad o awdurdod sy'n uno yn adran 2(3) yn cynnwys awdurdodau sydd i gael eu huno o dan ddarpariaethau Bil yn y dyfodol sydd i gael ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru. Rydym yn ystyried ei bod yn anarferol iawn clymu digwyddiad mewn un Bil at rywbeth a nodir mewn Bil yn y dyfodol sydd heb gael ei ddrafftio eto, ac sydd i gael ei gyflwyno mewn Cynulliad nad yw etholiadau wedi cael eu cynnal ar ei gyfer eto. Mae gennym hefyd amheuon difrifol ynglŷn â dull gweithio a fyddai'n caniatáu i brif ardal arfaethedig, o dan adran 2(6)(b), gael ei diffinio o bosibl mewn dogfennau anneddfwriaethol. Er efallai nad oes unrhyw beth cyfreithiol i rwystro unrhyw un o'r dulliau hyn, nid ydym yn gyfforddus â nhw.

Can I just say a few words about secondary legislation? We also wish to highlight the lack of any procedure in the Bill attached to making subordinate legislation that would amend primary legislation. I know the Minister has referred to the famous Counsel General's guidelines, and I know he takes great comfort from the fact that the Government follows the advice of its own adviser, but, you know, we would rather you and the Government follow our advice as the guardian of the legislature and not come up with this canard that you have met your own definitions and your own standards—it's really the ones we set that we want to scrutinise you on.

Gaf i ddweud ychydig eiriau am is-ddeddfwriaeth? Rydym hefyd yn dymuno tynnu sylw at ddiffyg unrhyw weithdrefn yn y Bil ynghlwm wrth wneud is-ddeddfwriaeth a fyddai'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Rwy'n gwybod bod y Gweinidog wedi cyfeirio at ganllawiau enwog y Cwnsler Cyffredinol, a gwn ei fod yn cymryd cysur mawr o'r ffaith bod y Llywodraeth yn dilyn cyngor ei chynghorydd ei hun, ond, wyddoch chi, byddai'n well gennym petaech chi a'r Llywodraeth yn dilyn ein cyngor ni fel gwarcheidwad y ddeddfwrfa yn hytrach nag adrodd y chwedl wag hon eich bod wedi bodloni eich diffiniadau eich hunain a'ch safonau eich hunain—mewn gwirionedd y rhai yr ydym ni'n eu gosod yr ydym am graffu arnynt.

Now, if it is appropriate to subject a particular provision to a four-stage legislative scrutiny process in the Assembly, it would seem odd to permit that some provisions, however minor the Minister perceives them to be, can be subsequently amended by Welsh Ministers without any scrutiny at all. In our view, amending primary legislation by means of subordinate legislation, subject to no Assembly procedure, is simply not acceptable. At the very least, it should be amended by means of a statutory instrument subject to the affirmative procedure. For that reason, we made four recommendations applying this principle to the Bill. I do hope the Minister will follow our advice.

Nawr, os yw'n briodol cynnal proses graffu ddeddfwriaethol pedwar cam yn y Cynulliad ar gyfer darpariaeth benodol, byddai'n ymddangos yn rhyfedd caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio rhai darpariaethau wedi hynny, waeth pa mor fach y mae'r Gweinidog yn eu hystyried, heb unrhyw graffu o gwbl. Yn ein barn ni, nid yw'n dderbyniol diwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth, heb iddi fod yn destun unrhyw weithdrefn y Cynulliad. O leiaf, dylid ei diwygio drwy gyfrwng offeryn statudol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol. Am y rheswm hwnnw, gwnaethom bedwar argymhelliad er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith yn y Bil. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn dilyn ein cyngor.

18:06 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Goodness, I think we've all heard the concerns around the Bill as it goes forward. As a member of the Welsh Conservative group, we are prepared to support the principles of the Bill in going forward to the next stage of scrutiny, but scrutinise it we will.

Bobl bach, rwy'n meddwl ein bod ni i gyd wedi clywed y pryderon ynghylch y Bil wrth iddo fynd yn ei flaen. Fel aelod o'r grŵp Ceidwadwyr Cymreig, rydym yn barod i gefnogi egwyddorion y Bil wrth symud ymlaen i'r cam nesaf o graffu, ond craffu arno fe wnawn.

It has to be said that, whilst there are some aspects to the Bill we do support, we're very, very concerned about how the Minister and the previous Minister has gone about the local government reorganisation. Certainly, I've had many representations and discussions with elected members, staff and the communities themselves, and it is fair to say that they see the current situation as being flawed, chaotic, and you've caused some huge uncertainty across local government in Wales.

Er bod rhai agweddau ar y Bil yr ydym yn eu cefnogi, mae'n rhaid dweud ein bod yn bryderus iawn, iawn ynghylch y ffordd y mae'r Gweinidog a'r Gweinidog blaenorol wedi ymdrin ag ad-drefnu llywodraeth leol. Yn sicr, rwyf wedi cael llawer o sylwadau a thrafodaethau gydag aelodau etholedig, staff a'r cymunedau eu hunain, ac mae'n deg dweud eu bod yn ystyried y sefyllfa bresennol yn un ddiffygiol, anhrefnus, ac rydych wedi achosi ansicrwydd anferth ar draws llywodraeth leol yng Nghymru.

I welcome your comments in response to the Communities, Equality and Local Government Committee—of which I a member, along with my colleague, Mark Isherwood, Assembly Member—on recommendation 8, which is that the Minister includes the definition of 'chief officer', and I think that harks back to the Local Government (Democracy) (Wales) Bill, when we actually wanted to be far more clear in that. It looks like you're now actually bringing what we wanted then more to the fore.

Rwy'n croesawu eich sylwadau mewn ymateb i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol—pwyllgor yr wyf yn aelod ohono, ynghyd â'm cydweithiwr, Mark Isherwood, Aelod Cynulliad—ynghylch argymhelliad 8, sef bod y Gweinidog yn cynnwys y diffiniad o 'prif swyddog', a chredaf fod hynny'n mynd yn ôl i Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), pan oeddem mewn gwirionedd yn awyddus i fod yn llawer mwy eglur yn hynny o beth. Mae'n ymddangos eich bod nawr yn dod â'r hyn yr oeddem ei eisiau bryd hynny, yn fwy i'r amlwg.

On recommendation 9, amending section 31 to increase the threshold relating to the restraining transactions, I think it's far too prescriptive to say £250,000, when transaction committees get going and people are working towards shadow authorities. I think that we have to be very, very careful in this tight financial climate if we are tying the hands of those authorities that wish to be creative in the way that they do their business.

O ran argymhelliad 9, sy'n diwygio adran 31 i gynyddu'r trothwy sy'n ymwneud â thrafodion, rwy'n meddwl ei fod yn llawer rhy ragnodol i ddweud £250,000, pan fydd pwyllgorau trafodion yn dechrau gweithio a bod pobl yn gweithio tuag at yr awdurdodau cysgodol. Credaf fod yn rhaid i ni fod yn ofalus iawn, iawn yn yr hinsawdd ariannol dynn bresennol os ydym yn clymu dwylo'r awdurdodau hynny sy'n dymuno bod yn greadigol yn y ffordd y maent yn cynnal eu busnes.

The costs in the Bill are based solely on the proviso that there would be one voluntary merger and eight more under a second Bill. The one thing that’s been asked of me, and it’s one thing I would ask you, Minister: you’ve got this Bill going through, then you’ve got the White Paper and the Bill coming through in the autumn, and, in this current Assembly term, we’re unable to actually see the end result, and I ask why this was never intended and why it hasn’t been thought of to do one piece of very good legislation. Currently, you don’t have political consensus or, indeed, a democratic mandate in the timescales available to see this Bill through to its overall strategic aims. We’ve heard from the Welsh Local Government Association and the Society of Local Authority Chief Executives and Senior Managers that any financial implications can only be considered when the map is produced. Whilst you keep saying it’s going to be produced before the summer term, we have authorities that are desperate to know where their future lies, and only that map will give some indication of that.

Mae'r costau yn y Bil yn llwyr seiliedig ar yr amod y byddai un proses uno wirfoddol ac wyth arall dan ail Fil. Yr un peth sydd wedi cael ei ofyn i mi, ac mae'n un peth y byddwn yn ei ofyn i chi, Weinidog: mae gennych chi’r Bil hwn yn mynd drwyddo, yna mae gennych chi’r Papur Gwyn a'r Bil yn dod trwodd yn yr hydref, ac nid ydym yn gallu gweld y canlyniad terfynol, yn nhymor presennol y Cynulliad hwn, ac rwy’n gofyn pam na fwriadwyd hyn a pham na feddyliwyd gwneud un darn o ddeddfwriaeth dda iawn. Ar hyn o bryd, nid oes gennych chi gonsensws gwleidyddol nac, yn wir, fandad democrataidd yn yr amser sydd ar gael i fynd â’r Bil hwn drwodd i gyflawni ei amcanion strategol cyffredinol. Rydym wedi clywed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a’r Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol na all unrhyw oblygiadau ariannol ond cael eu hystyried pan fydd y map wedi cael ei baratoi. Rydych chi’n dal i ddweud y bydd yn cael ei baratoi cyn tymor yr haf, ond mae gennym awdurdodau sy'n ysu i gael gwybod beth fydd eu dyfodol, a dim ond y map hwnnw fydd yn rhoi rhyw syniad iddynt.

We heard from Councillor Hunt of Torfaen County Borough Council, who stated that if authorities are made to wait too long before merger, some will have been decimated. The WLGA worry that, given current financial challenges and continued cuts to public services, some authorities may even be on the verge of bankruptcy at the initial cost of merger. Unison and CIPFA recommend that the Welsh Government provide financial support for local authorities so that the process is not undertaken to the detriment of local services and, ultimately, the residents. But, we know, from previous questioning of the finance Minister and you, even in the earlier stage that you rejected, there was never any indication how this was going to be resourced.

Clywsom gan y Cynghorydd Hunt o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, a ddywedodd y bydd rhai awdurdodau mewn cyflwr truenus os byddant yn gorfod aros yn rhy hir cyn uno. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru’n poeni y gallai rhai awdurdodau fod yn agos at ddod yn fethdalwyr hyd yn oed, o ystyried yr heriau ariannol presennol a thoriadau parhaus i wasanaethau cyhoeddus, yn sgil cost gychwynnol uno. Argymhellodd Unsain a CIPFA y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol fel nad yw'r broses yn cael ei chynnal ar draul gwasanaethau lleol ac, yn y pen draw, ar draul y trigolion. Ond, rydym yn gwybod, o gwestiynau blaenorol i’r Gweinidog cyllid ac i chi, hyd yn oed yn y cyfnod cynharach y gwnaethoch ei wrthod, na fu erioed unrhyw awgrym o ble byddai’r adnoddau’n dod ar gyfer hyn.

We’ve talked about the harmonisation of council tax. We all know the Welsh Labour Government does not respect council tax payers, how you have never sent over the freeze, and you can imagine the concerns that run now, having seen council tax rises of over 157% since you came into power. To some residents in Wales, the thought that, by two authorities merging, it would see their council tax go up yet again, is very concerning. Research by Michael Chisholm showed that the financial cost of the 1994-95 reorganisation of English local authorities was greatly underestimated, and that it is still unknown whether anything was ever recouped through subsequent efficiency savings. The Wales auditor general has made it very clear that he doesn't agree with a restructure based on pure financial motivation. He said:

Rydym wedi siarad am harmoneiddio’r dreth gyngor. Rydym i gyd yn gwybod nad yw Llywodraeth Llafur Cymru yn parchu talwyr y dreth gyngor, sut nad ydych erioed wedi trosglwyddo’r arian a ddarparwyd i’w rhewi, a gallwch ddychmygu’r pryderon nawr, ar ôl gweld cynnydd yn y dreth gyngor o fwy na 157% ers i chi ddod i rym. I rai trigolion yng Nghymru, mae’r syniad y gallai’r dreth gyngor godi eto, wrth i ddau awdurdod uno, yn achos pryder mawr. Dangosodd ymchwil gan Michael Chisholm bod yr amcangyfrif o gost ariannol ad-drefnu awdurdodau lleol yn Lloegr ym 1994-95 lawer yn rhy isel, ac nad oes modd gwybod o hyd a gafodd unrhyw beth ei adennill erioed drwy arbedion effeithlonrwydd dilynol. Mae archwilydd cyffredinol Cymru wedi ei gwneud yn glir iawn nad yw'n cytuno ag ailstrwythuro yn seiliedig ar gymhelliant ariannol pur. Meddai:

‘there’s a danger that, because we’re in financial straits, we are reorganising. I don’t think it’s a sufficient argument.’

mae perygl ein bod yn ad-drefnu oherwydd ein bod mewn trafferthion ariannol. Nid wyf yn credu ei bod yn ddadl ddigonol.

The lack of mention of transparency and community engagement going on throughout your Bill is very worrying. You, yourself, Minister, have said during committee that if regulations cannot be made early in the fifth Assembly, this could actually jeopardise the transfer date of 1 April 2018, and, by your own admission, the timescale in respect of voluntary mergers is tight. There's a great deal of uncertainty, but we will allow it to go forward to the next Stage.

Mae'r diffyg sôn am dryloywder ac ymgysylltu â'r gymuned drwy gydol eich Bil yn peri pryder mawr. Rydych chi, eich hun, Weinidog, wedi dweud yn y pwyllgor y gallai'r dyddiad pontio o 1 Ebrill 2018 gael ei beryglu os na ellir gwneud reoliadau yn gynnar yn y pumed Cynulliad ac, yn ôl eich cyfaddefiad ei hun, mae'r amserlen ar gyfer uno'n wirfoddol yn dynn. Mae llawer iawn o ansicrwydd, ond byddwn yn caniatáu iddo fynd ymlaen i'r Cyfnod nesaf.

18:11

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf i ddweud ar ran Plaid Cymru ein bod ni yn derbyn yr egwyddorion cyffredinol sydd yn y Bil llywodraeth leol? Ac rŷm ni'n derbyn, o ran y Bil yma, fod y mecanwaith yn beiriant, yn gerbyd, digon derbyniol er mwyn symud y broses ymlaen, os oes yna gyfuno gwirfoddol neu orfodol yn mynd i fod yn nau dymor nesaf y Cynulliad. Mae'n rhaid imi gyfaddef, Weinidog, rwy'n amau hynny'n fawr iawn, ac rwy'n meddwl mai dyna ein problem ni'r prynhawn yma: rŷm ni'n ymdrin â deddfwriaeth ar gyfer rhywbeth nad yw'n debygol o ddigwydd ac, yn wir, sy'n annhebygol iawn o ddigwydd. Felly, er ein bod ni'n derbyn yr egwyddorion cyffredinol, ac yn derbyn pensaernïaeth y Bil yma, rŷm ni yn ei drafod e mewn gwagle.

May I say on behalf of Plaid Cymru that we accept the general principles of the local government Bill? We also accept, in terms of this Bill, that the mechanism is a sufficiently acceptable vehicle to move the process forward, if voluntary or compulsory mergers are to take place in the next two Assembly terms. I have to confess, Minister, that I doubt very much that that will happen, and I think that that is our problem here this afternoon: we are dealing with legislation for something that's not likely to happen and, indeed, that is very unlikely to happen. So, whilst we accept the general principles and accept the architecture of this Bill, we are discussing it in a vacuum.

Rwy'n mynd i adael y cwestiynau manwl, deddfwriaethol a chyllidol i'r pwyllgorau perthnasol. Mae yna gwestiynau sylfaenol wedi codi, Weinidog, ac rwy'n mawr obeithio y byddwch chi'n ymateb iddyn nhw. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at wrando ar eich ymateb manwl chi i rai o'r pwyntiau sydd wedi cael eu codi gan gadeiryddion y pwyllgorau hynny.

I will leave the detailed legislative and financial questions to the relevant committees. There are fundamental questions that have arisen, Minister, and I very much hope that you will respond to them. I look forward to listening to your detailed responses to some of the points that have been raised by the chairs of those committees.

A gaf i ddychwelyd at ddau bwynt sylfaenol a dweud hefyd fy mod i'n croesawu'r ffaith eich bod chi wedi ymateb yn gadarnhaol i'r pwyntiau a'r argymhellion a gododd o ganlyniad i sgrwtini'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol? Mae hynny'n argoeli'n dda, Weinidog, ond, o ran cyfuno gwirfoddol, fe wnaethoch chi gyfeirio at y prosbectws a oedd yn bodoli y tro diwethaf ac, ar sail y prosbectws hynny, wrth gwrs, fe gawsoch chi gais gan chwech o gynghorau i gyfuno'n wirfoddol yn dri chyngor, ac fe wrthodoch chi'r ceisiadau hynny i gyd, er bod un ohonyn nhw, sef Conwy a Dinbych, yn cyd-fynd â'r map a oedd wedi cael ei gyhoeddi gan Williams. Nawr, nid oeddech chi'n glir iawn ai'r un prosbectws a fyddai'n bodoli ac, os felly, ac os cafodd cyfuniadau gwirfoddol ar y sail hwnnw eu gwrthod, pa mor debygol, pa mor bosibl y mae hi'n mynd i fod i unrhyw gynghorau i ddod gerbron gyda chais i gyfuno'n wirfoddol o fewn y ddau dymor sy'n ein wynebu ni cyn etholiad nesaf y Cynulliad y flwyddyn nesaf?

May I return to two fundamental points and say also that I welcome the fact that you have responded positively to the points and recommendations that arose from the scrutiny of the Communities, Equality and Local Government Committee? That is a very good sign, Minister, but, in terms of voluntary mergers, you referred to the prospectus that existed the last time and, on the basis of that prospectus, of course, you received expressions of interest from six councils to merge voluntarily in order to form three councils, and you rejected those expressions of interest, even though one of them, namely Conwy and Denbighshire, did correspond to the map published by the Williams commission. Now, you weren't very clear whether it's the same prospectus that will be used and, if so, and if voluntary mergers on that basis were rejected, how likely or how possible will it be for any councils to put forward an expression of interest in voluntary merger in the remaining two terms before the Assembly elections next year?

A ydy hi hefyd yn eich poeni chi, Weinidog, fod yna adolygiad o gynllunio wedi digwydd yn awr, cyn bod yna unrhyw fap wedi cael ei gyflwyno gennych chi ynglŷn â'r math o siâp rŷch chi'n credu fydd gan lywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol? A ydy trafod cynllunio y tu allan i hynny'n rhywbeth rŷch chi'n ei groesawu neu a fyddai'n well gyda chi petaem ni wedi cael map y llynedd, fel y gwnaeth y Prif Weinidog ei addo inni, ac y gallem ni fod wedi edrych ar gynllunio yng nghyd-destun y map hwnnw?

Does it also concern you, Minister, that a review of planning has now taken place, before the introduction of any map of the kind of shape that you believe local government in Wales will take in future? Are these separate discussions on planning something that you welcome, or would you have preferred to have had sight of a map last year, as the First Minister promised to us, so that we could have looked at planning in the context of that map?

Rŷch chi, Weinidog, wedi cyfeirio at yr angen i gael newid llawer iawn mwy sylfaenol na symud llinellau ar fap llywodraeth leol yng Nghymru. A ydych chi'n credu, mewn gwirionedd, fod gennych chi gydweithrediad llywodraeth leol yng Nghymru i symud ymlaen i greu'r newid hwnnw mewn diwylliant, i greu sefyllfa lawer iawn mwy tryloyw, llawer iawn mwy atebol i bobl Cymru? A ydych chi'n credu bod llywodraeth leol yng Nghymru yn mynd i gydweithio gyda chi oherwydd y cefndir—yr hyn sydd wedi digwydd a'r anfodlonrwydd sydd wedi cael ei fynegi? A ydych chi'n credu eich bod chi'n mynd i dderbyn y cydweithrediad hwnnw? Oherwydd un peth yw sefydlu'r egwyddorion cyffredinol a gosod y bensaernïaeth ar gyfer creu'r math yma o newid, ond y mae angen cydweithrediad ac ewyllys da i sicrhau bod hynny'n digwydd yn effeithiol.

You, Minister, have referred to the need for a much more fundamental change than moving boundaries on the map of local government in Wales. Do you believe, in truth, that you have the co-operation of local government in Wales to move forward to create that change in culture, to create a situation that's much more transparent and much more accountable to the people of Wales? Do you believe that local government in Wales is going to co-operate with you because of the background—what has happened and the discontent that has been expressed? Do you believe that you are going to receive that co-operation? Because it's one thing to establish the general principles and to set the architecture for creating this kind of change, but it's another matter to have that collaboration and the goodwill to ensure that that happens effectively.

18:16 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As it stands, as a standalone piece of legislation, the Welsh Liberal Democrats are prepared to support the general principles of this Bill and to allow it to proceed to the next stage. I think it's important, though, to put on record our reservations about this whole process and the way that we are going. Rhodri Glyn Thomas took a lot of what I wanted to say, but I think what he said in terms of voluntary mergers is very important. We had six voluntary mergers brought before us—well, three voluntary mergers of six authorities brought before us—one of which actually followed the local government map. All three of those were rejected out of hand, and I think that the likelihood of further voluntary mergers within the timetable that the Minister has set out is virtually nil. The Minister says that he will reconsider the timetable if proposals come forward after publication of the map, but, of course, given the way that the previous applications were treated, I think it's unlikely that any local authority would put in place the resources and the efforts to bring forward those voluntary merger proposals. Certainly, given the rejection of the one proposal that did tally with the original map, I don't suppose that the existence of a new map or a different map will have any impact on that decision. So, what we have in front of us, in my view, is the closest we're going to get in this Welsh Assembly to lame-duck legislation, because we're legislating for something that is never going to happen. I think that in itself is disturbing and difficult to come to terms with.

Fel y mae, fel darn o ddeddfwriaeth annibynnol, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn barod i gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil hwn, ac i ganiatáu iddo symud ymlaen i'r cyfnod nesaf. Er hynny, rwy'n credu ei bod yn bwysig cofnodi ein hamheuon ynghylch yr holl broses hon a'r ffordd yr ydym yn mynd. Cymerodd Rhodri Glyn Thomas lawer o'r hyn yr oeddwn am ei ddweud, ond rwy'n meddwl bod yr hyn a ddywedodd o ran uno gwirfoddol yn bwysig iawn. Daeth chwe chyfuniad gwirfoddol ger ein bron—wel, tri chyfuniad gwirfoddol o chwe awdurdod ger ein bron—ag un ohonynt yn dilyn y map llywodraeth leol. Cafodd pob un o'r tri eu gwrthod yn llwyr, ac rwy'n meddwl ei bod yn annhebygol iawn y byddwn yn gweld unrhyw broses uno wirfoddol arall o fewn yr amserlen y mae'r Gweinidog wedi'i nodi. Dywed y Gweinidog y bydd yn ailystyried yr amserlen os caiff cynigion eu cyflwyno ar ôl cyhoeddi'r map, ond, wrth gwrs, o ystyried y ffordd y cafodd y ceisiadau blaenorol eu trin, rwy'n credu ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw awdurdod lleol yn buddsoddi'r adnoddau a'r ymdrechion i gyflwyno'r cynigion hynny i uno'n wirfoddol. Yn sicr, o ystyried bod yr un cynnig a oedd yn cyfateb i'r map gwreiddiol wedi cael ei wrthod, nid wyf yn tybio y bydd bodolaeth map newydd neu fap gwahanol yn cael unrhyw effaith ar y penderfyniad hwnnw. Felly, mae'r ddeddfwriaeth sydd gennym ger ein bron, yn fy marn i, yr agosaf yr ydym yn mynd i'w chael yn y Cynulliad at hwyaden gloff, oherwydd ein bod yn deddfu ar gyfer rhywbeth nad yw byth yn mynd i ddigwydd. Credaf fod hynny ynddo'i hun yn peri pryder ac yn anodd dod i delerau ag o.

Of course, there are other aspects of this Bill that are necessary, such as the staff commission, but I do share the reservations, particularly those expressed by David Melding as Chair of his committee, in terms of how this Bill is being taken forward and in terms of the accountability of some of the measures that are being proposed in this Bill. I think that, certainly, we need to look at that as we come to consider this in Stage 2.

Wrth gwrs, mae agweddau eraill ar y Bil hwn yn angenrheidiol, megis y comisiwn staff, ond rwy'n rhannu'r amheuon, yn enwedig y rhai a fynegwyd gan David Melding fel Cadeirydd ei bwyllgor, o ran sut y mae'r Bil hwn yn cael ei ddatblygu ac o ran atebolrwydd rhai o'r mesurau sy'n cael eu cynnig yn y Bil hwn. Credaf, yn sicr, fod angen inni edrych ar hynny wrth ddod i ystyried hyn yng Nghyfnod 2.

Also, Presiding Officer, in terms of the process itself, the Welsh Liberal Democrats are not prepared to agree a map based on existing boundaries for the simple reason that we believe that the third reorganisation in 40 years should be one that is sustainable and one that is going to last for much longer than the previous reorganisations. For that reason, we feel that any reorganisation of local government should be based on natural communities and should come about after a proper process of review by a boundary commission. It seems to me that moving local authorities around on a map like it was a chequers board is not going to produce the sustainable outcomes that we want to see. It is going to cause huge issues in relation to council tax in terms of differentials in council tax by as much as 8 per cent, I think, in some local authorities in terms of how the council tax is applied. I do think that, unless you have sustainability at the end of this process, we are effectively going down a blind alley in terms of the reorganisation of local government and putting ourselves in a situation where the outcome of this process—and this is just one stage of that process—is not one that is going to be acceptable to the people of Wales, and certainly not one that is going to be sustainable in future.

Hefyd, Lywydd, o ran y broses ei hun, nid yw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn barod i gytuno ar fap yn seiliedig ar ffiniau presennol am y rheswm syml ein bod yn credu y dylai'r trydydd ad-drefnu mewn 40 mlynedd fod yn un sy'n gynaliadwy ac yn un sy'n mynd i barhau am lawer hirach na'r ad-drefnu blaenorol. Am y rheswm hwnnw, rydym yn teimlo y dylai unrhyw broses o ad-drefnu llywodraeth leol gael ei seilio ar gymunedau naturiol a dylai ddigwydd ar ôl proses briodol o adolygu gan gomisiwn ffiniau. Mae'n ymddangos i mi na fyddwn yn llwyddo i gynhyrchu'r canlyniadau cynaliadwy y mae arnom eisiau eu gweld trwy symud awdurdodau lleol o amgylch ar fap fel petai'n fwrdd draffts. Mae'n mynd i achosi problemau enfawr o ran y dreth gyngor a'r gwahaniaethau o hyd at 8 y cant yn y dreth gyngor, rwy'n meddwl, mewn rhai awdurdodau lleol o ran sut y mae'r dreth gyngor yn cael ei rhoi ar waith. Oni bai bod gennych chi sefyllfa gynaliadwy ar ddiwedd y broses hon, rwy'n credu ein bod i bob pwrpas yn dilyn trywydd ofer o ran ad-drefnu llywodraeth leol ac yn rhoi ein hunain mewn sefyllfa lle nad yw canlyniad y broses hon —ac nid yw hwn ond yn un cam o'r broses honno—yn un sy'n mynd i fod yn dderbyniol i bobl Cymru, ac yn sicr ni fydd yn gynaliadwy yn y dyfodol.

I think I'll also put on record now, although it's not going to be part of this Bill, that the Welsh Liberal Democrats will not support a process of reorganisation that does not have at the end of it a principle of fair voting for those local authorities. We believe that, if you're going to have new, bigger local authorities, the elections for those authorities and the outcome of those elections should reflect the way people have voted, and we believe very strongly that, if you do that, you'll get local authorities that are more accountable and more transparent, and, as a result of that, you'll get more efficient and more effective services delivered. So, I think that, unless the Minister is prepared to come forward with those two concessions—two very important concessions—in terms of a fair voting system attached to this reorganisation process and a reorganisation based on accountable, natural boundaries and natural communities, then, clearly, the outcome of this whole process is not going to be one that we support.

Rwy'n meddwl y byddaf hefyd yn cofnodi nawr, er nad yw'n mynd i fod yn rhan o'r Bil hwn, na fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi proses o ad-drefnu os nad oes egwyddor o bleidleisio teg ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny ar ei diwedd. Os ydych chi'n mynd i gael awdurdodau lleol newydd, mwy, rydym yn credu y dylai'r etholiadau ar gyfer yr awdurdodau hynny a chanlyniad yr etholiadau hynny adlewyrchu'r ffordd y mae pobl wedi pleidleisio, ac os ydych yn gwneud hynny credwn yn gryf iawn y byddwch yn cael awdurdodau lleol sy'n fwy atebol ac yn fwy tryloyw, ac, o ganlyniad i hynny, bydd gwasanaethau mwy effeithlon a mwy effeithiol yn cael eu darparu. Felly, rwy'n meddwl, oni bai bod y Gweinidog yn barod i ddod ymlaen gyda'r ddau gonsesiwn hyn—dau gonsesiwn pwysig iawn—o ran system bleidleisio deg ynghlwm wrth y broses ad-drefnu hon ac ad-drefnu yn seiliedig ar ffiniau naturiol a chymunedau naturiol, atebol, yna, yn amlwg, nid yw canlyniad y broses gyfan yn mynd i fod yn un yr ydym yn ei chefnogi.

Obviously, we are only one of a number of parties in this Assembly. Nobody knows what the outcome of the next Assembly elections is going to be, whether the Welsh Government will have a majority, or whether they can put together a majority for what proposals they bring forward. So, clearly, particularly in terms of the staff commission, it is vital that it is put in place if this process goes ahead.

Yn amlwg, nid ydym ond yn un o nifer o bleidiau yn y Cynulliad hwn. Nid oes neb yn gwybod beth fydd canlyniad etholiadau nesaf y Cynulliad, a fydd gan Lywodraeth Cymru fwyafrif, neu a fyddant yn gallu rhoi mwyafrif at ei gilydd ar gyfer y cynigion y maent yn eu cyflwyno. Felly, yn amlwg, yn enwedig o ran y comisiwn staff, mae'n hanfodol ei fod yn cael ei roi ar waith os bydd y broses hon yn mynd yn ei blaen.

I would certainly want to see amendments to this at Stage 2 that make this Bill more accountable. I also want to see what undertakings the Minister will give in terms of the outcome of this process. If, when we get to Stage 4 of this Bill, it does not look like it is one that we can support, and it does not have a map that we think is based on sustainable boundaries, then we will vote against this Bill at Stage 4.

Byddwn yn sicr am weld gwelliannau yng Nghyfnod 2 sy'n gwneud y Bil hwn yn fwy atebol. Rwyf hefyd am weld pa ymrwymiadau y bydd y Gweinidog yn eu gwneud o ran canlyniad y broses hon. Os nad yw'r Bil, pan ddown at Gyfnod 4, yn edrych fel un y gallwn ei gefnogi, ac os nad oes ganddo fap sydd, yn ein barn ni, yn seiliedig ar ffiniau cynaliadwy, yna byddwn yn pleidleisio yn erbyn y Bil hwn yng Nghyfnod 4.

18:21 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Like others, I found this a very curious investigation of proposed legislation. As a member of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, as our Chair has outlined today, we would normally see any application for legislation from the Executive to be at the very end of the policy development process and not a punctuation mark in the middle of it. It is probably not a textbook example of legislation, but I feel that the Minister himself would probably say that, 'I was passed this ball; don't blame me'. Were he to say so, I think many people here would have more sympathy than perhaps they would be willing to put on the record.

Fel pobl eraill, roeddwn yn gweld hwn yn ymchwiliad rhyfedd iawn o ddeddfwriaeth arfaethedig. Fel aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, fel y mae ein Cadeirydd wedi amlinellu heddiw, byddem fel arfer yn gweld unrhyw gais am ddeddfwriaeth gan y Weithrediaeth ar ddiwedd y broses o ddatblygu polisi ac nid fel marc atalnodi yn ei chanol. Mae'n debyg nad yw'n enghraifft berffaith o ddeddfwriaeth, ond rwy'n teimlo y byddai'r Gweinidog ei hun yn ôl pob tebyg yn dweud, 'Cafodd y bêl hon ei phasio i mi; peidiwch â fy meio i '. Pe byddai'n dweud hynny, rwy'n credu y byddai llawer o bobl yma yn teimlo mwy o gydymdeimlad nag efallai y byddent yn barod i'w gyfaddef yn gyhoeddus.

It was a curious experience. For the first time in this place, I found myself in a situation of scrutinising legislation where everybody—both witnesses and the committee—were actually scrutinising a piece of legislation that is yet to be published. We found ourselves in the situation whereby we were confronted with a somewhat necessary, but not over-appealing first course and everybody's eyes and the attention of everybody on the committee was fixated on the main course, which is yet to arrive.

Roedd yn brofiad rhyfedd. Am y tro cyntaf yn y lle hwn, cefais fy hun mewn sefyllfa o fod yn craffu ar ddeddfwriaeth lle'r oedd pawb—y tystion a'r pwyllgor—mewn gwirionedd yn craffu ar ddarn o ddeddfwriaeth sydd eto i gael ei chyhoeddi. Cawsom ein hunain yn y sefyllfa lle'r oedd cwrs cyntaf braidd yn angenrheidiol, ond nid rhy apelgar o'n blaenau, ac roedd llygaid pawb a sylw pawb ar y pwyllgor wedi'u hoelio ar y prif gwrs, sydd eto i gyrraedd.

Having said that, what was very striking about the investigation was the evidence from a wide range of witnesses that reorganisation and reform are not simply needed, but wanted, and how many people want to get on with it and get it done quickly and want to get this legislation on the statute book so we can move on to have the real debate that we want about the future of local government. It was particularly striking to me the evidence that was received from the trade unions and from the WLGA that they very much want to move on from this technical examination of structures and processes, and to debate the future of local government itself. I was pleased that, as a committee, we considered and endorsed the Minister's approach to a wide range of these essential matters, from arrangements for the shadow authorities, transition committees, electoral arrangements and remuneration issues, as well as other transitional issues. We're grateful to the Minister for both the clarity and his readiness to listen to and consider the recommendations of the committee. In many ways, this is a necessary Bill, but perhaps not a loved Bill.

Wedi dweud hynny, yr hyn a oedd yn drawiadol iawn am yr ymchwiliad oedd y dystiolaeth gan ystod eang o dystion bod ad-drefnu a diwygio yn rhywbeth y mae ei eisiau, yn ogystal â'i angen, a faint o bobl sy'n awyddus i fwrw ati a gwneud hyn yn gyflym, ac sy'n awyddus i gael y ddeddfwriaeth hon ar y llyfr statud fel y gallwn symud ymlaen i gael y ddadl go iawn am yr ydym ei eisiau ar gyfer dyfodol llywodraeth leol. Roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr undebau llafur a gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn arbennig o drawiadol i mi, eu bod wir am symud ymlaen o'r archwiliad technegol hwn o strwythurau a phrosesau, a thrafod dyfodol llywodraeth leol ei hun. Roeddwn yn falch ein bod, fel pwyllgor, wedi ystyried a chadarnhau agwedd y Gweinidog at ystod eang o'r materion hanfodol hyn, o'r trefniadau ar gyfer awdurdodau cysgodol, pwyllgorau pontio, trefniadau etholiadol a materion cydnabyddiaeth, yn ogystal â materion pontio eraill. Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr eglurder a'i barodrwydd i wrando ac ystyried argymhellion y pwyllgor. Mewn sawl ffordd, mae hwn yn Fil angenrheidiol, ond efallai nad yn Fil sy'n agos at ein calonnau.

In terms of where we go now, what I derived from this process was that there is an appetite for a new and strengthened role for local government in both the delivery of key services, but also working proactively to use new and additional powers to help shape their communities and our communities. This legislation, together with the future generations Act and other pieces of legislation, now has the opportunity to empower local government and not to diminish local government. It is important, I believe, that we stress this: that we want to see local government in the future as being far more than the local administration of centrally determined policies and priorities; that this Bill and this process must be about the empowerment of local government and not the emasculation of local government. I am absolutely sure, having listened to and participated in this debate, that that is a vision for the future of local government that isn't simply shared on one side of the Chamber, but is widely shared across this Chamber and also shared by the Minister.

O ran ble'r ydym yn mynd nawr, yr hyn a gefais i o'r broses hon oedd bod awydd am rôl newydd a chryfach ar gyfer llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau allweddol, ond hefyd trwy weithio'n rhagweithiol i ddefnyddio pwerau newydd ac ychwanegol i helpu i lunio eu cymunedau nhw a'n cymunedau ni. Mae cyfle nawr i'r ddeddfwriaeth hon, ynghyd â Deddf cenedlaethau'r dyfodol a darnau eraill o ddeddfwriaeth, rymuso llywodraeth leol a pheidio â gwanhau llywodraeth leol. Mae'n bwysig, yn fy marn i, ein bod yn pwysleisio hyn: ein bod am weld llywodraeth leol yn y dyfodol fel rhywbeth sy'n gwneud llawer mwy na gweinyddu'n lleol y polisïau a'r blaenoriaethau a bennwyd yn ganolog; bod yn rhaid i'r Bil hwn a'r broses hon rymuso llywodraeth leol, ac nid gwanychu llywodraeth leol. Rwy'n gwbl sicr, ar ôl gwrando a chymryd rhan yn y ddadl hon, fod honno'n weledigaeth ar gyfer dyfodol llywodraeth leol sy'n cael ei rhannu'n eang ar draws y Siambr hon a'i rhannu hefyd gan y Gweinidog, ac nid dim ond ar un ochr i'r Siambr.

So, it is important, now, that we move from where we are today, that we endorse this Bill, that we endorse the principles behind it and that we endorse the aspects of it that enable us to deliver a debate and a discussion about our visions for the future of local government. I hope that we will be able to look, not simply at a map, in terms of lines dividing or, perhaps, uniting different communities, but at what those new authorities will do, how those new authorities will operate, and how we will deliver the sort of governance in Wales, Government here and government in different communities across Wales, working together to deliver better services and a better quality of life for the people that we represent. This is a positive debate that I hope our discussions this afternoon will enable; a positive debate about the positive role that local government can play in creating a new and better future for all of us, wherever we live in Wales. Thank you very much.

Felly, mae'n bwysig, nawr, ein bod yn symud o'r sefyllfa yr ydym ynddi heddiw, ein bod yn cymeradwyo'r Bil hwn, ein bod yn cymeradwyo'r egwyddorion y tu ôl iddo a'n bod yn cymeradwyo'r agweddau arno sy'n ein galluogi i gyflwyno dadl a thrafodaeth ynghylch ein gweledigaethau ar gyfer dyfodol llywodraeth leol. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu edrych, nid yn unig ar fap, o ran y llinellau sy'n rhannu neu, efallai, yn uno'r gwahanol gymunedau, ond ar yr hyn y bydd yr awdurdodau newydd hynny yn ei wneud, sut y bydd yr awdurdodau newydd hynny'n gweithredu, a sut yr ydym yn darparu'r math o lywodraethu yng Nghymru, Llywodraeth yma a llywodraeth mewn gwahanol gymunedau ledled Cymru, yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau gwell a gwell ansawdd bywyd i'r bobl yr ydym yn eu cynrychioli. Gobeithio y bydd ein trafodaethau'r prynhawn yma yn galluogi'r ddadl gadarnhaol hon; dadl gadarnhaol am y rôl gadarnhaol y gall llywodraeth leol ei chwarae wrth greu dyfodol newydd a gwell i bob un ohonom, lle bynnag yr ydym yn byw yng Nghymru. Diolch yn fawr iawn.

18:26

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Recommendation 13 of our report recommended that the Minister,

Roedd argymhelliad 13 yn ein hadroddiad yn argymell bod y Gweinidog,

'provides further detail on how he envisages merging authorities to meet the cost of merger.'

'yn darparu rhagor o fanylion am sut y mae'n rhagweld y bydd awdurdodau uno yn talu am y trefniant uno.'

The Welsh Local Government Association and the Society of Local Authority Chief Executives and Senior Managers told us that the total predicted cost of the merger programme,

Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr yr Awdurdodau Lleol wrthym fod cyfanswm cost a ragwelir y rhaglen uno,

'is contested and it remains unclear how (and by whom) any mergers will be funded'.

yn cael ei herio ac nid yw'n eglur sut y bydd unrhyw uno yn cael ei ariannu (a chan bwy).

The Auditor General for Wales told us that,

Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wrthym,

'the costing set out in the Explanatory Memorandum does not seem to give a full overview of the likely cost of the Bill',

nad yw'n ymddangos bod y costau a nodir yn y Memorandwm Esboniadol yn rhoi trosolwg llawn o gost debygol y Bil,

adding that assessing the costs and benefits of mergers was 'virtually impossible' in advance of the publication of the merger map. He emphasised that any cost savings resulting from mergers would only be realised in the longer term. Although he emphasised the need to look at the longer term, he also told me in committee that,

gan ychwanegu ei bod bron yn amhosibl asesu costau a manteision uno cyn cyhoeddi'r map uno. Pwysleisiodd mai dim ond yn y tymor hwy y byddai unrhyw gostau yn cael eu harbed yn sgil proses uno. Er iddo bwysleisio'r angen i edrych ar y tymor hwy, dywedodd wrthyf hefyd yn y pwyllgor,

'it is not savings in the short term',

nid yw'n arbed yn y tymor byr,

and that changes to the pattern of service provision,

a bod newidiadau i batrwm darpariaeth gwasanaeth,

'against a background of uncertainty about the future of the structure of local government in Wales is something that I think is dangerous'.

yn erbyn cefndir o ansicrwydd am ddyfodol strwythur llywodraeth leol yng Nghymru yn rhywbeth sy'n beryglus yn fy marn i.

The Chartered Institute of Public Finance and Accountancy pointed out that the costs inthe explanatory memorandum,

Nododd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth nad yw'r costau yn y memorandwm esboniadol,

'do not reflect the full costs associatedwith the eventual merger process'.

yn adlewyrchu'r costau llawn sy'n gysylltiedig â'r broses uno yn y pen draw.

In a November 2014 report commissioned by the WLGA, CIPFA estimated that the full merger programme would cost between £160 million and £268 million, saying that such costs,

Mewn adroddiad ym mis Tachwedd 2014 a gomisiynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, amcangyfrifodd CIPFA y byddai'r rhaglen uno gyflawn yn costio rhwng £160 miliwn a £268 miliwn gan ddweud bod costau o'r fath,

'are likely to place an increased financial burden on local government in Wales at a time when budgets are under increasing pressure'.

yn debygol o osod mwy o faich ariannol ar lywodraeth leol yng Nghymru ar adeg pan fo cyllidebau o dan bwysau cynyddol.

Unison emphasised the need to ensure that funding to meet the costs of mergers is,

Pwysleisiodd Unsain yr angen i sicrhau nad yw cyllid i dalu costau uno,

'not taken from local government budgets at the detriment of local services'.

yn cael ei gymryd o gyllidebau llywodraeth leol ar draul gwasanaethau lleol.

It raised concern that cuts to local authority budgets combined with the need for authorities to meet the cost of merger would have a direct and significant impact on serviceprovision. They therefore believed that mergers should be viewed as a new burden on local authorities and, as such, should be,

Roedd yn mynegi pryder y byddai toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol ynghyd â'r angen i awdurdodau dalu cost uno yn cael effaith uniongyrchol a sylweddol ar ddarpariaeth gwasanaethau. Felly roeddent yn credu y dylid ystyried uno fel baich newydd ar awdurdodau lleol ac, fel y cyfryw, y dylai,

'fully funded by the Welsh Government.'

gael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

However, replying to me in committee, the Minister said:

Fodd bynnag, wrth fy ateb yn y pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:

'I think people have to bear in mind that if they're asking for us to put additional money forward to meet the cost of merger, then there is only one place where it is likely to be found. And the only way to do it, I suspect, would be to reduce the RSG overall and take the money from local authorities as a central pool for merger costs.'

Os bydd pobl yn gofyn inni roi arian ychwanegol i dalu costau uno, rwy'n meddwl bod yn rhaid iddynt gadw mewn cof os nad oes ond un man lle y mae'n debygol o gael ei ganfod. A'r unig ffordd i wneud hynny, rwy'n amau, fyddai gostwng y Grant Cynnal Refeniw yn gyffredinol a chymryd yr arian oddi wrth awdurdodau lleol fel cronfa ganolog ar gyfer costau uno.

When I questioned him further, he claimed that local government has 'extensive reserves', but non-earmarked reserves, as a percentage of gross revenue expenditure for 2013-14 ranged between 5 per cent in Blaenau Gwent and Vale of Glamorgan and 4 per cent in Flintshire and Denbighshire to just 2 per cent in counties like Wrexham and Conwy and 1 per cent in Newport and Cardiff. This is not, therefore, rainy day money for dipping into at the Minister's whim, and such a sweeping statement by him is a matter of concern.

Pan holais ef ymhellach, honnodd fod gan lywodraeth leol gronfeydd helaeth wrth gefn, ond roedd cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi, fel canran o wariant refeniw gros ar gyfer 2013-14 yn amrywio rhwng 5 y cant ym Mlaenau Gwent a Bro Morgannwg a 4 y cant yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych, a dim ond 2 y cant mewn siroedd fel Wrecsam a Chonwy ac 1 y cant yng Nghasnewydd a Chaerdydd. Nid yw hwn, felly, yn arian ar gyfer diwrnod glawog y gellir ei ddefnyddio ar fympwy'r Gweinidog, ac mae datganiad ysgubol o'r fath ganddo yn fater o bryder.

During his evidence in committee, the Minister referred to the structure and function of local government in the context of the Williams Commission on Public Service Governance and Delivery. This report also stated the only viable way to meet the needs and aspirations of people,

Yn ystod ei dystiolaeth yn y pwyllgor, cyfeiriodd y Gweinidog at strwythur a swyddogaeth llywodraeth leol yng nghyd-destun Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn datgan mai'r unig ffordd ymarferol i fodloni anghenion a dyheadau pobl

'is to shift the emphasis of public service towards coproduction and prevention... the need to make this change are shared...across the developed and democratic world.'

yw symud y pwyslais o wasanaeth cyhoeddus tuag at gydgynhyrchu ac atal ... mae'r angen i wneud y newid hwn yn cael ei rannu ... ar draws y byd datblygedig a democrataidd.

However, when I questioned the Minister about this, he side-stepped the issue by referring instead to,

Fodd bynnag, pan holais y Gweinidog am hyn, osgodd y mater drwy gyfeirio yn lle hynny at,

'extensive commentary in the Williams commission report on the success or otherwise of collaborative arrangements between services',

sylwebaeth helaeth yn adroddiad y comisiwn Williams ar lwyddiant neu fethiant trefniadau cydweithredu rhwng gwasanaethau,

and claimed that,

a honni bod,

'the Welsh have been doing co-production before academics invented a word for it.'

y Cymry wedi bod yn gwneud cydgynhyrchu cyn i academyddion ddyfeisio gair amdano.

As Co-production Wales have said, however, this is not just a nice add-on, but a new way of operating for the Government, as well as for public service professionals and citizens themselves.

Fel y mae Co-production Wales wedi dweud, fodd bynnag, nid dim ond rhywbeth braf i'w gael yn ychwanegol yw hyn. Mae'n ffordd newydd o weithredu ar gyfer y Llywodraeth, yn ogystal ag ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y gwasanaeth cyhoeddus a dinasyddion eu hunain.

This Minister's failure to grasp this is dangerous. His start/stop oversight of voluntary mergers is alarming and his failure to prioritise evaluation of the costs and benefits of mergers is irresponsible.

Mae methiant y Gweinidog hwn i ddeall hyn yn beryglus. Mae ei oruchwyliaeth dechrau / stopio ar uno gwirfoddol yn frawychus ac mae ei fethiant i flaenoriaethu gwerthusiad o gostau a manteision uno yn anghyfrifol.

Let me leave the last words to Flintshire County Council's Labour deputy leader, who tweeted, and I quote:

Gadewch imi roi'r geiriau olaf i ddirprwy arweinydd y Blaid Lafur yng Nghyngor Sir y Fflint, a drydarodd, ac yr wyf yn dyfynnu:

'the party needs to be careful on local government reform if it wants to retain the support of grassroots councillors.'

mae angen i'r blaid fod yn ofalus wrth ddiwygio llywodraeth leol os yw am gadw cefnogaeth y cynghorwyr ar lawr gwlad.

Well, if it wants to also retain the support of opposition Members and people in the communities across Wales, he needs to be very, very careful indeed.

Wel, os yw'n dymuno hefyd gadw cefnogaeth Aelodau'r gwrthbleidiau a phobl mewn cymunedau ledled Cymru, mae angen iddo fod yn ofalus iawn, iawn yn wir.

18:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate—Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl—Leighton Andrews.

18:30 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Senedd.tv
Fideo Video

Llywydd, I'm very grateful for Members' constructive and thoughtful comments today. I will try to respond to as many points as possible. I don't think I'll manage to cover them. Of course, I approach all of the comments today with the sunniest of dispositions, as I normally do. Members will understand that, in taking on this portfolio, I knew from the outset that it was likely to make me the most unpopular person in Wales, not least within my own party.

Lywydd, rwy'n ddiolchgar iawn am sylwadau adeiladol a meddylgar yr Aelodau heddiw. Byddaf yn ceisio ymateb i gynifer o bwyntiau ag y bo modd. Nid wyf yn meddwl y byddaf yn llwyddo i ymdrin â phob un ohonynt. Wrth gwrs, rwy'n wynebu pob un o'r sylwadau heddiw gyda'r natur fwyaf hwyliog, fel sy'n arferol imi. Bydd yr Aelodau'n deall fy mod yn gwybod o'r cychwyn, wrth ymgymryd â'r portffolio hwn, ei fod yn debygol o fy ngwneud y person mwyaf amhoblogaidd yng Nghymru, gan gynnwys o fewn fy mhlaid fy hun.

Can I start by saying to the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee that I'm very grateful for the support of her committee in respect of the need for reform of local government in general and, indeed, the need for this Bill in particular? I accept what she says that the timescale for voluntary mergers set out in the Bill, 30 November, is a tight timescale, and that is why we have put some flexibility in the Bill, of course, to enable us to move further forward if we have to. I'm glad she welcomes what we've done in respect of the staff commission, and I will give further consideration to other of the proposals that she's brought forward.

A gaf i ddechrau drwy ddweud wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol fy mod yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth ei phwyllgor o ran yr angen i ddiwygio llywodraeth leol yn gyffredinol ac, yn wir, yr angen am y Bil hwn yn benodol? Rwy'n derbyn yr hyn y mae hi'n ei ddweud bod yr amserlen ar gyfer uno gwirfoddol a nodir yn y Bil, 30 Tachwedd, yn amserlen dynn, a dyna pam yr ydym wedi rhoi rhywfaint o hyblygrwydd yn y Bil, wrth gwrs, er mwyn ein galluogi i symud ymlaen ymhellach os oes raid. Rwy'n falch ei bod yn croesawu'r hyn yr ydym wedi ei wneud o ran y comisiwn staff, a byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i gynigion eraill y mae hi wedi'u dwyn gerbron.

In respect of the Finance Committee's proposals on merger costs, this Bill does not produce mergers. This Bill simply paves the way. There will be a need, of course, for proper consideration of costs of specific mergers in due course, and that will be something that, as others have said, and as I anticipated, I think, in my opening remarks, can only be addressed when we have some clarity and, indeed, consensus on the overall map.

O safbwynt cynigion y Pwyllgor Cyllid ar gostau uno, nid yw'r Bil hwn yn cynhyrchu trefniadau uno. Paratoi'r ffordd y mae'r Bil. Wrth gwrs, bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i gostau prosesau uno penodol maes o law, ac fel y mae eraill wedi dweud, ac fel yr wyf i wedi'i ragweld, rwy'n meddwl, yn fy sylwadau agoriadol ni ellir ond mynd i'r afael â hynny pan fydd pethau'n fwy eglur ac, yn wir, pan fydd consensws ar y map yn gyffredinol.

In terms of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding is always very persuasive and always very compelling and always very difficult to argue with. I will give further consideration to the points that he has raised. I have, I think, anticipated some of those in my opening remarks, and he will understand that there are going to be some areas where I think we will have to disagree, but I will, as I say, give further consideration, as the Bill progresses, to some of the points that he has made.

O ran y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, mae David Melding bob amser yn argyhoeddiadol iawn a bob amser yn gymhellol iawn ac mae bob amser yn anodd iawn dadlau ag o. Byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r pwyntiau y mae wedi'u codi. Rwy'n credu fy mod wedi rhagweld rhai o'r rheini yn fy sylwadau agoriadol, ac fe fydd yn deall y bydd rhai meysydd lle y bydd yn rhaid inni anghytuno, rwy'n credu, ond byddaf, fel y dywedais, yn ystyried ymhellach rai o'r pwyntiau y mae wedi'u gwneud, fel y mae'r Bil yn mynd yn ei flaen.

A number of colleagues have made general comments about the future process of local government reform. Can I remind the Chamber, of course, that the First Minister has extended an invitation to all political parties to take part in discussions about any future map for local government? That invitation remains open. We welcome any further considerations that people may wish to bring to us. I think that, ultimately, clearly, there will have to be consensus on the route forward for overall reform of local government. I don't think that is something that is going to be achieved overnight. Clearly, it's not been achieved over the past 18 months, but I do think that, inevitably, there is a consensus in favour of reform within this Chamber, but not yet a consensus on what the specifics of that reform actually look like. But I think we are going to have to address that. What this Bill does is put in place some of the groundwork for the future reform. My colleague Alun Davies, the Member for Blaenau Gwent, referred to this as, you know, an appetiser, if you like, not the main course. I think he was right there, and he is right that people are anticipating the wider consideration that we will have to have.

Mae nifer o gydweithwyr wedi gwneud sylwadau cyffredinol am y broses o ddiwygio llywodraeth leol yn y dyfodol. A gaf i atgoffa'r Siambr, wrth gwrs, bod y Prif Weinidog wedi estyn gwahoddiad i bob plaid wleidyddol gymryd rhan mewn trafodaethau am unrhyw fap ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol? Mae’r gwahoddiad hwnnw yn dal ar agor. Rydym yn croesawu unrhyw ystyriaethau ychwanegol y byddai pobl yn dymuno eu cyflwyno inni. Credaf, yn y pen draw, yn amlwg, y bydd yn rhaid cael consensws ar y ffordd ymlaen ar gyfer diwygio llywodraeth leol drwyddi draw. Nid wyf yn credu bod hynny’n rhywbeth sy’n mynd i gael ei gyflawni dros nos. Yn amlwg, nid yw wedi cael ei gyflawni dros y 18 mis diwethaf, ond rwy’n meddwl, yn anochel, bod consensws o blaid diwygio yn y Siambr hon, ond nid consensws eto ynglŷn â manylion y diwygio yn y pen draw. Ond rwy’n meddwl y bydd yn rhaid i ni ymdrin â hynny. Beth mae’r Bil hwn yn ei wneud yw gosod rhai o'r sylfeini ar gyfer diwygio yn y dyfodol. Cyfeiriodd fy nghydweithiwr, Alun Davies, yr Aelod dros Flaenau Gwent, at hyn fel, chi'n gwybod, rhagflas, os mynnwch chi, nid y prif gwrs. Rwy’n meddwl ei fod yn iawn, ac mae'n iawn bod pobl yn rhagweld ystyriaeth ehangach y bydd yn rhaid i ni ei chael.

I think it is difficult that, when people are prepared to support the overall general principles of the Bill, some then say that, actually, they think this is a process that will never be complete, because I think, in fact, there is considerable consensus within this Chamber on the need for change in the structure of local government. This is not a structure of local government that has arisen during the period of democratic devolution in Wales. We have a new democratic sphere in Wales that we've had since 1999. The local government structure that we have predated that. We have never before had a proper and effective consideration of the relationship between local and central Government. That was the purpose of the White Paper, which we published in February, ‘Reforming Local Government: Power to Local People’, which I hope gives some sense of the vision that we have for local government, the relationship between local and central government in the future in Wales, and I hope provides a context now for the consideration of all our local government reforms, and I think that, in that context, we are capable in Wales of building consensus on the way forward, and that this Bill helps us to start down that route. I appreciate that, during the process of consideration, there will be a need for the Government to discuss with opposition parties how we can strengthen this Bill and how we can also reach an overall consensus on the future.

Rwy’n meddwl ei bod yn anodd, pan fydd pobl yn barod i gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, bod rhai wedyn yn dweud, mewn gwirionedd, eu bod yn credu bod hon yn broses na fydd byth yn cael ei chwblhau, gan fy mod yn meddwl bod cryn gonsensws o fewn y Siambr hon, mewn gwirionedd, ynglŷn â’r angen i newid strwythur llywodraeth leol. Nid yw hwn yn strwythur llywodraeth leol sydd wedi codi yn ystod y cyfnod datganoli democrataidd yng Nghymru. Mae gennym sefyllfa ddemocrataidd newydd yng Nghymru ers 1999. Mae’r strwythur llywodraeth leol sydd gennym wedi bodoli ers cyn hynny. Nid ydym erioed o'r blaen wedi cael ystyriaeth briodol ac effeithiol o'r berthynas rhwng Llywodraeth leol a chanolog. Dyna oedd pwrpas y Papur Gwyn, a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol', ac rwy’n gobeithio bod hwnnw’n rhoi rhywfaint o ymdeimlad o’r weledigaeth sydd gennym ar gyfer llywodraeth leol a’r berthynas rhwng llywodraeth leol a chanolog yn y dyfodol yng Nghymru, ac rwy’n gobeithio ei fod yn darparu cyd-destun nawr ar gyfer ystyried ein holl ddiwygiadau i lywodraeth leol, a chredaf, yn y cyd-destun hwnnw, bod y gallu gennym yng Nghymru i ddatblygu consensws ar y ffordd ymlaen, a bod y Bil hwn yn ein helpu i gychwyn ar hyd y llwybr hwnnw. Rwy’n sylweddoli y bydd angen i'r Llywodraeth, yn ystod y broses o ystyried, drafod â'r gwrthbleidiau sut y gallwn gryfhau’r Bil hwn a sut y gallwn hefyd ddod i gonsensws cyffredinol ar y dyfodol.

18:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch yn fawr. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:35

## 9. Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

## 9. Debate on the Financial Resolution of the Local Government (Wales) Bill

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 9, which is the debate on the financial resolution of the Local Government (Wales) Bill, and I call on the Minister for Public Services to move the motion–Leighton Andrews.

Symudwn yn awr at eitem 9, sef y ddadl ar benderfyniad ariannol Bil Llywodraeth Leol (Cymru), a galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5761 Jane Hutt

Motion NDM5761 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69 sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Local Government (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69 arising in consequence of the Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

18:36

### Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

I move it formally.

Cynigiaf yn ffurfiol.

18:36

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have no speakers. No speakers. Do you wish to—? No. Fine. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Then that is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Dim siaradwyr. A ydych yn dymuno—? Na. Iawn. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Yna caiff hynny ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:36

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We will now move to voting time, as the Business Committee agreed it would be dealt with at the end of business. I intend to move straight in. No-one wishes to have the bell? Fine.

Byddwn yn awr yn symud i'r cyfnod pleidleisio, gan fod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno y byddwn yn ymdrin â hynny ar ddiwedd busnes. Rwy'n bwriadu dechrau'n syth. Nid oes neb yn dymuno cael y gloch? Iawn.

18:36

## 10. Cyfnod Pleidleisio

## 10. Voting Time

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first vote is on the Stage 4 debate on the Planning (Wales) Bill. I call for a vote on the motion, which is tabled in the name of Carl Sargeant. Open the vote. Close the vote. In favour 39, no abstentions, 10 against; therefore, the motion is carried.

Mae'r bleidlais gyntaf ar y ddadl Cyfnod 4 ar y Bil Cynllunio (Cymru). Galwaf am bleidlais ar y cynnig, sy'n cael ei gyflwyno yn enw Carl Sargeant. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 39, dim ymatal, 10 yn erbyn; Felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 39, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 39, Against 10, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5762](#)

[Result of the vote on motion NDM5762](#)

18:37

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The next vote—sorry, we've already dealt with that one, I beg your pardon. Okay, well, that brings today's business to a close. Thank you very much.

Mae'r bleidlais nesaf—mae'n ddrwg gennyf, rydym ni eisoes wedi delio â hynny, mae'n ddrwg gennyf. Iawn, wel, mae hynny'n dod â busnes heddiw i ben. Diolch yn fawr iawn.

| | |
|---|---|
| *Daeth y cyfarfod i ben am 18:37.* | *The meeting ended at 18:37.* |